

**Bangor University**

## **DOETHUR MEWN ATHRONIAETH**

**Cerddi mawl Robin Ddu o Fôn**

Williams, Heledd Haf

*Award date:*  
2012

*Awarding institution:*  
Prifysgol Bangor

[Link to publication](#)

### **General rights**

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

### **Take down policy**

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 11. Jul. 2024

# *Cerddi mawl Robin Ddu o Fôn*

Heledd Haf Williams

Traethawd a gyflwynir am radd PhD

Ysgol y Gymraeg

Prifysgol Bangor

2012

## *Crynodeb*

Ceir yn y traethawd hwn olygiad beirniadol o gerddi mawl o waith dilys Robin Ddu o Fôn. Cynhwyswyd y cerddi sydd yn moli pobl yn unig, a hepgorwyd y cerddi hynny sydd yn moli gwrthrychau eraill, megis llong. Ceir deuddeg cerdd yn y casgliad, gan gynnwys un cywydd crefyddol, sydd yn fawl i Dduw (cerdd 1); cywydd brud, sydd yn farwnad i Owain Tudur (cerdd 11); a golygiad Bleddyn Owen Huws o gywydd gofyn (cerdd 12). Ceir nifer o gerddi brud a briodolir i Robin Ddu sydd hefyd yn cyfeirio at gymeriadau blaenllaw yn Rhyfeloedd y Rhosynnau, ac yn eu moli – y Tuduriaid, er enghraifft. Fodd bynnag, ni ellir eu cyfrif hwy yn gerddi mawl. Lluniwyd rhagymadrodd i'r testun, sydd yn ymdrin â'r hyn sydd yn hysbys am Robin Ddu. Ceir ymdriniaeth â'r cerddi nas golygwyd; yna, ceir gwybodaeth am y llawysgrifau a ddefnyddiwyd wrth lunio'r golygiad. Ar ôl y testun, ceir nodiadau esboniadol ar y cymeriadau a'r lleoedd a enwir yn y cerddi, ynghyd â geiriau sydd â'u hystyron yn amwys. Lluniwyd geirfa ar ddiwedd y gwaith.

## *Diolchiadau*

Yn gyntaf oll, carwn ddiolch i'm goruchwyliwr, yr Athro Peredur I. Lynch, am ei gyfarwyddyd a'i arweiniad dros y blynyddoedd. Cydnabyddaf yn ddiolchgar y cymorth a gefais gan y canlynol wrth baratoi'r traethawd hwn: gweddill aelodau staff Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor; Dr Ann Parry Owen; a staff Llyfrgell ac Archifdy'r Brifysgol, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Archifdy Môn a Llyfrgell Llangefni. Diolchaf hefyd i bawb a gymerodd ddiddordeb yn fy ngwaith. Yr wyf yn ddiolchgar i'r *Arts and Humanities Research Council* am ariannu'r ymchwil. Yn olaf, hoffwn gydnabod fy ngheulu a'm ffrindiau, yn arbennig fy rhieni a Tegid a Manon – diolch i chi am eich anogaeth, cefnogaeth ac amynedd bob amser.

## *Cynnwys*

CRYNODEB .....	1
DIOLCHIADAU .....	2
BYRFODDAU	
Llawysgrifau .....	5
Llyfrau a chylchgronau .....	6
Termau a geiriau .....	14
RHAGYMDRODD .....	16
Y bardd .....	17
Cerddi mawl .....	32
Llawysgrifau .....	38
Dull y golygu .....	49
Y TESTUN	
1. Moliant i Dduw .....	52
2. Moliant Siôn Llwyd o Dir Brychan .....	59
3. Marwnad Tudur ap Dafydd ap Robert o Ddindaethwy .....	62
4. Moliant Siôn ap Tomas .....	67
5. Moliant Owain ap Siancyn .....	71
6. Marwnad i blant Gruffudd ap Rhys o Loddath .....	75
7. Moliant Wiliam Gruffudd Fychan, y Penrhyn .....	83
8. Moliant Wiliam Gruffudd Fychan, Siambren Gwynedd .....	89
9. Moliant Wiliam Herbert, Colbrwg .....	97
10. Moliant Siôn ap Gwilym Fychan .....	100

11. Marwnad Owain Tudur .....	103
12. I ofyn pâr o arfau gwynion gan Siôn ap Maredudd o Ystumcegid dros Ddafydd ap Siancyn o Garreg-y-gwalch .....	111
NODIADAU.....	115
GEIRFA.....	245
Enwau personau.....	284
Enwau lleoedd .....	290
MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF.....	292
LLYFRYDDIAETH .....	293
ATODIAD .....	316

## *Byrfoddau*

### *Llawysgrifau*

B	Y Llyfrgell Brydeinig
Ba	Bangor
Ba(M)	Bangor Mostyn
Bl	Llyfrgell Bodley, Rhydychen
Bod	Bodewryd (y Llyfrgell Genedlaethol)
Brog	Brogyntyn (y Llyfrgell Genedlaethol)
C	Caerdydd
Cw	Cwrtmawr (y Llyfrgell Genedlaethol)
Esgair	Esgair (y Llyfrgell Genedlaethol)
G	Gwynedd (Bangor)
J	Coleg Iesu (Rhydychen)
Ll	Llanstephan (y Llyfrgell Genedlaethol)
M	Mostyn (y Llyfrgell Genedlaethol)
Nant	Plas Nantglyn (y Llyfrgell Genedlaethol)
NLW	Llyfrgell Genedlaethol Cymru
P	Peniarth (y Llyfrgell Genedlaethol)
So	Sotheby (y Llyfrgell Genedlaethol)
Wy	Wynnstay (y Llyfrgell Genedlaethol)

*Llyfrau a chylchgronau*

- ACM Dafydd Elis Thomas, 'Agweddau ar y Cywydd Marwnad' (Ph.D., Cymru [Bangor], 1986)
- AM Melville Richards (gol.), *Atlas Môn* (Llangefni, 1972)
- ArchifMR <http://www.e-gymraeg.co.uk/enwaulleoedd/amr/>  
(Archif Melville Richards)
- ASC M. Paul Bryant-Quinn (gol.), *Apocryffa Siôn Cent* (Aberystwyth, 2004)
- B *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 1921-93
- P. C. Bartrum: WG1 Peter C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 300-1400* (Cardiff, 1974)  
(Pan gyfeirir at y ffynhonnell hon, cyfeirir hefyd at y diwygiadau a'r cywiriadau a ymgorfforwyd i'r achau, fel y ceir ar y wefan <http://cadair.aber.ac.uk>)
- P. C. Bartrum: WG2 Peter C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 1400-1500* (Aberystwyth, 1983)
- BD Henry Lewis (gol.), *Brut Dingestow* (Caerdydd, 1942)
- 1 Bren 'Llyfr Cyntaf y Brenhinoedd' yn yr Hen Destament
- ByCy *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953)
- ByCy<sup>2</sup> R. T. Jenkins, E. D. Jones a M. Beatrice Davies (goln.), *Y Bywgraffiadur Cymreig 1941-1950: gydag atodiad i'r Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1970)
- CAMBM *Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum*



- CE *The Catholic Encyclopedia: an international work of reference on the constitution, doctrine, discipline, and history of the Catholic Church* (London, 1907-12)
- CHerb William Gwyn Lewis, ‘Astudiaeth o Ganu’r Beirdd i’r Herbertiaid hyd Ddechrau’r Unfed Ganrif ar Bymtheg’ (Ph.D., Cymru [Bangor], 1982)
- CLC<sup>2</sup> Meic Stephens (gol.), *Cydymaith i Llenyddiaeth Cymru* (ail arg., Caerdydd, 1997)
- CLIG Owen Jones (gol.), *Ceinion Llenyddiaeth Gymreig* (Llundain, 1876)
- CP G. E. Cokayne, *The Complete Peerage of England Scotland Ireland Great Britain and the United Kingdom: extant extinct or dormant* (London, 1910-59)
- 1 Cr ‘Llyfr Cyntaf y Cronicl’ yn yr Hen Destament
- Cylchg HC *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 1960–
- Cylchg LIGC *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 1939–
- Dat ‘Datguddiad Ioan’ yn y Testament Newydd
- Deut ‘Llyfr Deuteronomium’ yn yr Hen Destament
- DG.net <<http://www.dafyddapgwilym.net>>
- DNB Leslie Stephen (ed.), *Dictionary of National Biography* (London, 1885-1901)
- DWH Michael Powell Siddons, *The Development of Welsh Heraldry* (Aberystwyth, 1991-2006)
- Ecs ‘Llyfr Ecsodus’ yn yr Hen Destament

- EVW Margaret Enid Griffiths, *Early Vaccination in Welsh with English Parallels* (Cardiff, 1937)
- EWGT P. C. Bartrum (ed.), *Early Welsh Genealogical Tracts* (Cardiff, 1966)
- G J. Lloyd-Jones (gol.), *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg* (Caerdydd, 1931-63)
- GBF Rhian M. Andrews *et al.* (goln.), *Gwaith Bleddyn Fardd a Beirdd Eraill Ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg* (Caerdydd, 1996)
- GDEp Owen Thomas (gol.), *Gwaith Dafydd Epynt* (Aberystwyth, 2002)
- GDG Thomas Parry (gol.), *Gwaith Dafydd ap Gwilym* (Caerdydd, 1952)
- GDG<sup>3</sup> Thomas Parry (gol.), *Gwaith Dafydd ap Gwilym* (trydydd arg., Caerdydd, 1979)
- GDGor Erwain Haf Rheinallt (gol.), *Gwaith Dafydd Gorlech* (Aberystwyth, 1997)
- GDLI W. Leslie Richards (gol.), *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn* (Caerdydd, 1964)
- Gen ‘Llyfr Genesis’ yn yr Hen Destament
- GGI<sup>2</sup> John Llywelyn Williams ac Ifor Williams (goln.), *Gwaith Guto'r Glyn* (ail arg., Caerdydd, 1961)
- GGLI Rhiannon Ifans (gol.), *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid eraill* (Aberystwyth, 2000)
- GGM Nerys Ann Howells (gol.), *Gwaith Gwerful Mechain ac eraill* (Aberystwyth, 2001)

- GHD A. Cynfael Lake (gol.), *Gwaith Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog* (Aberystwyth, 1995)
- GHS Dylan Foster Evans (gol.), *Gwaith Hywel Swrdwal a'i deulu* (Aberystwyth, 2000)
- GIBH M. Paul Bryant-Quinn (gol.), *Gwaith Ieuan Brydydd Hir* (Aberystwyth, 2000)
- GIG D. R. Johnston (gol.), *Gwaith Iolo Goch* (Caerdydd, 1988)
- GIRh R. Iestyn Daniel (gol.), *Gwaith Ieuan ap Rhydderch* (Aberystwyth, 2003)
- GLGC Dafydd Johnston (gol.), *Gwaith Lewys Glyn Cothi* (Caerdydd, 1995)
- GLM Eurys I. Rowlands (gol.), *Gwaith Lewys Môn* (Caerdydd, 1975)
- GLMorg A. Cynfael Lake (gol.), *Gwaith Lewys Morgannwg* (Aberystwyth, 2004)
- GLI R. Iestyn Daniel (gol.), *Gwaith Llawdden* (Aberystwyth, 2006)
- GLIG Dafydd Johnston (gol.), *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen* (Aberystwyth, 1998)
- GLIGut R. Iestyn Daniel (gol.), *Gwaith Llywelyn ap Gutun* (Aberystwyth, 2007)
- GLILI Elin M. Jones a Nerys Ann Jones (goln.), *Gwaith Llywarch ap Llywelyn 'Prydydd y Moch'* (Caerdydd, 1989)
- GMB J. E. Caerwyn Williams, Peredur I. Lynch a R. Geraint Gruffydd (goln.), *Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion* (Caerdydd, 1994)

- GMBen Barry J. Lewis a Twm Morys (goln.), *Gwaith Madog Benfras ac eraill o feirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg* (Aberystwyth, 2007)
- GMRh Enid Roberts (gol.), *Gwaith Maredudd ap Rhys a'i gyfoedion* (Aberystwyth, 2003)
- GP G. J. Williams ac E. J. Jones (goln.), *Gramadegau'r Penceirddiaid* (Caerdydd, 1934)
- GPC *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950-2002)
- GPC<sup>2</sup> *Geiriadur Prifysgol Cymru* (ail arg., Caerdydd, 2003–)
- GRhGE Dylan Foster Evans (gol.), *Gwaith Rhys Goch Eryri* (Aberystwyth, 2007)
- GSC A. Cynfael Lake (gol.), *Gwaith Siôn Ceri* (Aberystwyth, 1996)
- GSCMB 'Guide to the Special Collections of Manuscripts in the Library of the University College of North Wales Bangor' (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Bangor, 1962).
- GSCyf R. Iestyn Daniel (gol.), *Gwaith Dafydd Bach ap Madog Wladaidd 'Sypyn Cyfeiliog' a Llywelyn ab y Moel* (Aberystwyth, 1998)
- GSDT Rhiannon Ifans (gol.), *Gwaith Syr Dafydd Trefor* (Aberystwyth, 2005)
- GSRh Nerys Ann Jones ac Erwain Haf Rheinallt (goln.), *Gwaith Sefnyn, Rhisieryd, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch* (Aberystwyth, 1995)
- GWL ii<sup>2</sup> A. O. H. Jarman & Gwilym Rees Hughes (ed.), revised by Dafydd Johnston, *A Guide to Welsh Literature, ii: 1282-c. 1550* (second ed., Cardiff, 1997)

Gwyddoniadur	John Davies, Menna Baines, Nigel Jenkins, Peredur I. Lynch (goln.), <i>Gwyddoniadur Cymru yr Academi Gymreig</i> (Caerdydd, 2008)
HMNLW	<i>Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales</i> (Aberystwyth, 1943–)
IGE <sup>2</sup>	Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (goln.), <i>Cywyddau Iolo Goch ac Eraill</i> (ail arg., Caerdydd, 1937)
Ioan	‘Yr Efengyl yn ôl Ioan’ yn y Testament Newydd
LBS	S. Baring-Gould and John Fisher, <i>The Lives of the British Saints</i> (London, 1907-13)
LD	Lewys Dwnn (ed. Samuel Rush Meyrick), <i>Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches: between the years 1586 and 1613, under the authority of Clarencieux and Norroy, two kings at arms</i> (Llandovery, 1846)
LGCD	E. D. Jones (gol.), <i>Lewys Glyn Cothi (Detholiad)</i> (Caerdydd, 1984)
J. E. Lloyd: HW <sup>3</sup>	J. E. Lloyd, <i>A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest</i> (third ed., London, 1939)
LS	S. Baring-Gould, <i>The Lives of the Saints</i> (third ed., Edinburgh, 1914)
Luc	‘Yr Efengyl yn ôl Luc’ yn y Testament Newydd
Llanstephan 6	E. Stanton Roberts (ed.), <i>Llanstephan MS. 6: A manuscript of Welsh poetry written in the early part of the 16<sup>th</sup> century</i> (Cardiff, 1916)
Maldwyn	<i>Maldwyn: Y Mynegai i Farddoniaeth Gymraeg y Llawysgrifau</i> <a href="http://maldwyn.llgc.org.uk">http://maldwyn.llgc.org.uk</a>
Mynegai	<i>Mynegai i Farddoniaeth Gaeth y Llawysgrifau</i> (Caerdydd, 1978)

Marc	‘Yr Efengyl yn ôl Marc’ yn y Testament Newydd
Math	‘Yr Efengyl yn ôl Mathew’ yn y Testament Newydd
MWM	Daniel Huws, <i>Medieval Welsh Manuscripts</i> (Aberystwyth, 2000)
NBSBM	Tegwen Llwyd, ‘Noddwyr Beirdd yn Siroedd Brycheiniog a Maesyfed’ (M.A., Cymru [Aberystwyth], 1988)
NLWCM	J. H. Davies, <i>The National Library of Wales: Catalogue of Manuscripts</i> , i (Aberystwyth, 1921)
ODCC <sup>3</sup>	F. L. Cross and E. A. Livingstone (ed.), <i>The Oxford Dictionary of the Christian Church</i> (third ed., Oxford, 1997)
ODNB	H. C. G. Matthew and Brian Harrison (ed.), <i>Oxford Dictionary of National Biography: in association with The British Academy: From the earliest times to the year 2000</i> (Oxford, 2004)
OED <sup>2</sup>	<i>The Oxford English Dictionary</i> (second ed., Oxford, 1989)
Ormerod	George Ormerod, <i>The history of the county Palatine and city of Chester; compiled from original evidences in public offices, the Harleian and Cottonian mss., parochial registers, private muniments, unpublished ms. collections of successive Cheshire antiquaries, and a personal survey of every township in the county; incorporated with a republication of King’s Vale Royal and Leycester’s Cheshire Antiquities</i> (London, 1882)
PACF	J. E. Griffith, <i>Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families: with their Collateral Branches in Denbighshire, Merionethshire and other parts</i> (Horncastle, 1914)

Peniarth 53	E. Stanton Roberts a Henry Lewis (goln.), <i>Peniarth 53</i> (Caerdydd, 1927)
Peniarth 57	E. Stanton Roberts (ed.), <i>Peniarth MS. 57</i> (Cardiff, 1921)
Peniarth 67	E. Stanton Roberts (ed.), <i>Peniarth MS. 67</i> (Cardiff, 1918)
Peniarth 76	E. Stanton Roberts a W. J. Gruffydd (goln.), <i>Peniarth 76</i> (Caerdydd, 1927)
RWM	J. Gwenogvryn Evans, <i>Report on Manuscripts in the Welsh Language</i> (London, 1898-1910)
1 Sam	‘Llyfr Cyntaf Samuel’ yn yr Hen Destament
2 Sam	‘Ail Lyfr Samuel’ yn yr Hen Destament
SCWMBLO	F. Madan and H. H. E. Craster, <i>A Summary Catalogue of Western Manuscripts in the Bodleian Library at Oxford</i> (Oxford, 1924)
SP	David Rees, <i>The Son of Prophecy: Henry Tudor’s Road to Bosworth</i> (London, 1985)
THSC	<i>The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion</i> , 1892/3–
TWS	Elissa R. Henken, <i>Traditions of the Welsh Saints</i> (Cambridge, 1987)
TYP <sup>3</sup>	Rachel Bromwich (ed.), <i>Trioedd Ynys Prydein: The Triads of the Island of Britain</i> (third ed., Cardiff, 2006)
WATU	Melville Richards, <i>Welsh Administrative and Territorial Units: Medieval and Modern</i> (Cardiff, 1969)
WCCR <sup>2</sup>	Glanmor Williams, <i>The Welsh Church from Conquest to Reformation</i> (second ed., Cardiff, 1976)

WCD	Peter C. Bartrum, <i>A Welsh Classical Dictionary: People in History and Legend up to about A.D. 1000</i> (Aberystwyth, 1993)
WWR <sup>2</sup>	Howell T. Evans, <i>Wales and the Wars of the Roses</i> (new ed., Stroud, 1998)
YB	J. E. Caerwyn Williams, Gwyn Thomas a Gerwyn Williams (goln.), <i>Ysgrifau Beirniadol</i> (Dinbych, 1965–)

*Termau a geiriau*

a.	ansoddair	cys.	cysylltair
adf.	adferf	d.g.	dan y gair, geiriau
amhff.	amherffaith	dib.	dibynnol
amhrs.	amhersonol	dros.	(tros.) trosiadol
anh.	anhysbys	e.	enw
annib.	annibynnol	ed.	<i>edited by, edition</i>
ardd.	arddodiad	e.e.	er enghraifft
arg.	argraffiad	eith.	gradd eithaf
b.	benywaidd	enw.	enwedig
ba.	berf anghyflawn	e.p.	enw priod
be.	berfenw	etc. / &c.	<i>et cetera</i>
bf. (f.)	berf , -au	f.	(bf.) berf, -au
bg.	berf gyflawn	<i>fl.</i>	<i>floruit</i>
bg.a.	berf gyflawn ac anghyflawn	ffig.	ffigurol
		g.	(c.) canrif
c. (g.)	canrif	g.	gwrywaidd
c.	<i>circa</i>	gol.	golygydd,
cf.	cymharer		golygwyd gan
cmhr.	gradd gymharol	goln.	golygyddion



grch.	gorchmynnol	n.	nodyn
grff.	gorffennol	<i>ob.</i>	<i>obiit</i>
gthg.	gwrthgyferbyniad	pres.	presennol
gw.	gweler	S.	Saesneg
gwr. (wr.)	gwreiddiol	t.	tudalen
h.y.	hynny yw	tf.	torfol
<i>ibid.</i>	<i>ibidem</i>	tros. (dros.)	trosiadol
ll.	lluosog; llinell	tt.	tudalennau
llau.	llinellau	un.	unigol
llsgr.	llawysgrif	wr.	(gwr.) gwreiddiol
llsgrau.	llawysgrifau	ymad.	ymadrodd, -ion
myn.	mynegol		

# *Rhagymadrodd*

## *Cyflwyniad*

Yr oedd Robin Ddu ap Siencyn Bledrydd, neu Robin Ddu o Fôn, yn fardd toreithiog yn ystod cyfnod Rhyfeloedd y Rhosynnau. Er hyn, dim ond paragraff byr a geir amdano yn y *Cydymaith i Llenyddiaeth Cymru a'r Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940*. Yn ôl *Maldwyn: Y Mynegai i Farddoniaeth Gymraeg y Llawysgrifau* ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru,<sup>1</sup> priodolir 173 o gerddi iddo, ond nid yw'r cyfan yn waith dilys iddo ef. Fel brudiwr y'i hadwaenir, a phriodolwyd llawer o ddaroganau iddo o ganlyniad i'w enwogrwydd fel proffwyd. Datblygodd cymeriad Robin Ddu yn ffigwr llên gwerin tebyg i Fyrddin a Thaliesin, a chofnodwyd nifer o chwedlau amdano. Fodd bynnag, cadwyd, yn ogystal, nifer o gerddi mawl wedi'u priodoli i Robin Ddu i wrthrychau ledled Cymru, a cheir ganddo nifer o gerddi serch.

Y casgliad helaethaf mewn print o gerddi a briodolir i Robin Ddu sydd yn bodoli ar hyn o bryd yw'r casgliad o bymtheg cywydd yng ngwaith Owen Jones, *Ceinion Llenyddiaeth Gymreig*.<sup>2</sup> Cywyddau brud yw'r rhan fwyaf o'r rhai hyn, ond ceir hefyd gywydd serch a thri chywydd marwnad – i Dudur ap Dafydd ap Robert o Ddindaethwy,<sup>3</sup> i blant Gruffudd ap Rhys o Loddath,<sup>4</sup> ac i Owain Tudur.<sup>5</sup> Copiwyd llawysgrif P 76 gan E. Stanton Roberts a'i golygu gan W. J. Gruffydd yn y gyfres 'Adysgrifau o'r Llawysgrifau Cymraeg'. Ceir copi o bedwar cywydd serch a briodolir i Robin Ddu yma.<sup>6</sup> Golygwyd cywydd brud, a briodolir i Robin Ddu ymysg eraill yn y llawysgrifau, gan Gruffydd Aled Williams yn ei erthygl 'Cywydd Brud o

---

<sup>1</sup> <http://maldwyn.llgc.org.uk>

<sup>2</sup> Owen Jones (gol.), *Ceinion Llenyddiaeth Gymreig*, i (Llundain, 1876), tt. 212-21.

<sup>3</sup> Gw. cerdd 3 isod.

<sup>4</sup> Gw. cerdd 6 isod.

<sup>5</sup> Gw. cerdd 11 isod.

<sup>6</sup> Peniarth 76, tt. 33, 39, 121, 133.

waith Robin Ddu' yn y gyfrol *Bosworth a'r Tuduriaid*.<sup>7</sup> Golygodd Bleddyn Owen Huws gywydd gofyn y gellir dweud yn bendant mai Robin Ddu a'i canodd yn ei draethawd 'Astudiaeth o'r canu gofyn a diolch rhwng c. 1350 a c. 1630'.<sup>8</sup> Cynhwyswyd y cywydd yn ei gyfrol *Detholiad o gywyddau gofyn a diolch hefyd*.<sup>9</sup> Yn ogystal, cofnodwyd rhai englynion proffwydol a gedwid ar lafar gwlad, ynghyd â dyfyniadau o gerddi brud eraill a briodolir i Robin Ddu, gan Emyr Wyn Jones yn ei gyfrol *Ymgiprys am y Goron*.<sup>10</sup> Ni chafwyd ymgais i greu golygiad o'i holl waith.<sup>11</sup> Bwriad y traethawd hwn yw llunio golygiad o gasgliad o gerddi mawl Robin Ddu.

## *Y bardd*

### *Tystiolaeth y bardd a chofnodion amdano*

Dyma'r cofnodion a geir yn y *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru a'r Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* am Robin Ddu:

**ROBIN DDU AP SIENCYN BLEDRYDD** (*fl.* 1450), bardd, brodor o Fôn, ond ni wyddys fawr ddim arall amdano. Ymhlith tua deg a phedwar ugain o gywyddau a briodolir iddo ceir nifer o gywyddau brud, nifer ohonynt ar ffurf ymddiddan, ond priodolir rhai o'r rhain i Ddafydd Llwyd o Fathafarn, a awgrymodd yn un o'i gywyddau fod anghytundeb rhwng y ddau fardd ynglŷn â dehongli'r hen lyfrau darogan. Canodd Robin Ddu gywyddau i deulu Griffith, Penrhyn. Yr oedd yn bleidiwr i'r Tuduriaid a chanodd farwnad i Owain Tudur, taid Harri VII. Fe'i gelwid hefyd yn Robin Ddu Ddewin ac adroddir nifer o chwedlau am ei allu dewinol.<sup>12</sup>

---

<sup>7</sup> Gruffydd Aled Williams, 'Cywydd Brud o waith Robin Ddu', *Bosworth a'r Tuduriaid*, gol. Dafydd Glyn Jones a John Ellis Jones (Caernarfon, 1985), tt. 40-1.

<sup>8</sup> Bleddyn Owen Huws, 'Astudiaeth o'r canu gofyn a diolch rhwng c. 1350 a c. 1630' (Ph.D., Cymru [Bangor], 1994), cerdd 8.

<sup>9</sup> *idem* (gol.), *Detholiad o gywyddau gofyn a diolch* (Caernarfon, 1998), cerdd 8. Gw. cerdd 12, isod, am y golygiad.

<sup>10</sup> Emyr Wyn Jones, "'Robin Ddu yn Prphwudo' a'r 'Pasg Wyl Fair'", *Ymgiprys am y Goron*, Emyr Wyn Jones (Dinbych, 1992), tt. 83-118.

<sup>11</sup> Am gerddi Robin Ddu mewn print, gw. Gwilym Morus, 'Robin Ddu o Fôn' (M.A., Cymru [Bangor], 2006), 10, 8, 54-6.

<sup>12</sup> CLC<sup>2</sup> 634.

**ROBIN DDU** (*fl.* c. 1450), cywyddwr. Gelwir ef yn Robin Ddu ap Siencyn Bledrydd o Fôn yn rhai o'r llawysgrifau. Priodolir tua 90 o gywyddau iddo, ac y mae llawer ohonynt yn rhai brud. Yn un o'r rhain y mae'r bardd yn ymddiddan â'i lyfr brud, math ar gywydd brud a ganwyd hefyd gan Faredudd ap Rhys [q.v.] a Llywelyn ap Cynfrig Ddu o Fôn [q.v.]. Pleidiwr y Tuduriaid ydoedd, a chanodd farwnad i Owain Tudur [q.v.]. Ymhlith ei gywyddau mwyaf adnabyddus y mae'r cywydd marwnad a ganodd i saith o blant Gruffudd ap Rhys ap Maredudd o Loddaeth, a'i gywydd i'r llong a'i dug i Rufain ar bererindod yn 1450. Canwyd marwnad iddo gan Ifan Môn, un o'i ddisgyblion.<sup>13</sup>

Ceir ymdriniaeth o'r bardd gan Emyr Wyn Jones yn ei ysgrif "Robin Ddu yn Prphwudo" a'r 'Pasg Wyl Fair' a gynhwysir yn ei gasgliad, *Ymgiprys am y Goron*.<sup>14</sup> Yno, nodir bod dau ŵr o'r enw Robin Ddu – 'y naill yn fardd a'r llall yn ddewin'.<sup>15</sup> Ond, yr ymdriniaeth ddiweddaraf a'r fanylaf yw gwaith Gwilym Morus, 'Robin Ddu o Fôn' (M.A., Cymru [Bangor], 2006). Yn y traethawd hwnnw, trafodir cymeriad hanesyddol Robin Ddu, gan ddefnyddio tystiolaeth y cerddi a briodolir iddo, a cheir ymdriniaeth hefyd o ddelwedd y bardd-broffwyd a'r llên gwerin a ddatblygodd ynghylch y bardd.

Nid oes cofnod o Robin Ddu yn yr achau fel y'u ceir gan P. C. Bartrum, felly y mae bron yn amhosibl darganfod gwybodaeth am ei ach. Yr unig beth y gellir dweud yn bendant am ei deulu yw mai enw ei dad oedd Siencyn Bledrydd. Nid oes tystiolaeth chwaith, ar wahân i'w enw, mai brodor o Fôn ydoedd. Ceir rhywfaint o wybodaeth am y bardd o edrych ar dystiolaeth a geir yn y cerddi a gynhwyswyd yn y traethawd hwn.

Ceisiwyd dyddio'r cerddi yn y casgliad, gw. y nodiadau cefndir i bob cerdd. Yn achos y rhan fwyaf o'r cerddi, gwyddys yn union pwy yw'r gwrthrych neu gellir cynnig yn weddol bendant pwy ydyw. O ganlyniad, gellir dyddio'r cerddi hyn:<sup>16</sup>

3      *Marwnad Tudur ap Dafydd ap Robert o Ddindaethwy*      c. 1455

---

<sup>13</sup> ByCy 832.

<sup>14</sup> Jones, "Robin Ddu yn Prphwudo" a'r 'Pasg Wyl Fair', tt. 91-3, 116-17. Gw. hefyd *passim*.

<sup>15</sup> *Ibid.*, t. 116.

<sup>16</sup> Fe'u dyddir weithiau ar sail y rhif cenhedlaeth a roddir i'r gwrthrych yn yr achau fel y'u ceir gan P. C. Bartrum. Gall yr union ddyddiadau, felly, amrywio o hyd at ugain mlynedd i'r hyn a gynigir yma.

5	<i>Moliant Owain ap Siancyn</i>	c. 1490 – c. 1500
6	<i>Marwnad i blant Gruffudd ap Rhys o Loddath</i>	1447/8
7	<i>Moliant Wiliam Gruffudd Fychan, y Penrhyn</i>	1457-83
8	<i>Moliant Wiliam Gruffudd Fychan, Siambrlen Gwynedd</i>	1457-74
9	<i>Moliant Wiliam Herbert, Colbrwg</i>	c. 1480 – c. 1490
10	<i>Moliant Siôn ap Gwilym Fychan</i>	c. 1400 – c. 1480
11	<i>Marwnad Owain Tudur</i>	yn fuan wedi 1461
12	<i>I ofyn pâr o arfau gwynion gan Siôn ap Maredudd</i> <i>o Ystumcegid dros Ddafydd ap Siancyn o Garreg-y-gwalch</i>	c. canol y 15g. <sup>17</sup>

O'r dystiolaeth hon, gwelir mai yn ystod ail hanner y bymthegfed ganrif y canai Robin Ddu, ac ymddengys ei fod wedi bod yn moli gwrthrychau am gyfnod hir iawn o hyd at hanner canrif.<sup>18</sup> Ganwyd Siôn ap Gwilym Fychan, gwrthrych cerdd 10, c. 1400, ond o ystyried dyddiadau gweddill y cerddi, gellir tybio i'r cywydd gael ei ganu pan oedd Siôn yn ŵr canol oed neu'n hen. Nid oedd yn amlwg pwy oedd gwrthrych cerddi 2 a 4, ac yr oedd gwybod dyddiadau canu Robin Ddu o gymorth wrth eu dyddio hwy:

2	<i>Moliant Siôn Llwyd o Dir Brychan</i>	c. 1470-80
4	<i>Moliant Siôn ap Tomas</i>	c. 1470 – c. 1500

Ni ellir dyddio cerdd 1, sef *Moliant i Dduw*.

<sup>17</sup> Awgrymir yn Huws, 'Astudiaeth o'r canu gofyn a diolch rhwng c. 1350 a c. 1630', 482 (nodyn cefndir cerdd 8) ac *idem* (gol.), *Detholiad o gywyddau gofyn a diolch*, t. 120 (nodyn cefndir cerdd 8), fod Dafydd ap Siancyn ap Dafydd ab y Crach wedi gofyn i Robin Ddu ganu'r cywydd gofyn drosto, yn hytrach na'i ganu ei hun, am ei fod ar herw ar y pryd. Blodeuai Dafydd ap Siancyn tua chanol y bymthegfed ganrif, ByCy 91; ByCy<sup>2</sup> 77.

<sup>18</sup> Cytuna Gwilym Morus fod Robin Ddu yn canu yn ystod ail hanner y bymthegfed ganrif – o'r flwyddyn 1450 ymlaen. Fodd bynnag, nid oes dystiolaeth iddo ganu wedi'r flwyddyn 1485, gw. Morus, 'Robin Ddu o Fôn', 69, 28.

Gellir dyddio sawl cerdd arall o waith Robin Ddu na chynhwyswyd yn y traethawd hwn. Cefndir llawer o gerddi brud Robin Ddu oedd Rhyfeloedd y Rhosynnau (yn ail hanner y bymthegfed ganrif), a chyfeirid yn fynych ynddynt at y Tuduriaid, ac ymgrech Harri Tudur am goron Lloegr. Byddai'r cerdd hyn wedi eu cyfansoddi yn y cyfnod hwn.

Nid yw lleoli gwrthrychau cerddi Robin Ddu yn rhoi gwybodaeth bendant i ni ynglŷn â chartref y bardd – teithiodd Gymru benbaladr yn clera. Nodir isod gartrefi'r gwrthrychau:

- 2 Pontwilym, y Fenni-fach, Cantref Selyf, Brycheiniog
- 3 Gastell Bylchgwyn, Llanddyfnan, Dindaethwy, Môn
- 4 Slwch, Llanfrynach, Tir Ralph, Cantref Mawr, Brycheiniog
- 5 Allt y Fanog, Rhyndwyglydach, Gŵyr
- 6 Gloddaith, Eglwys-rhos, y Creuddyn, Sir Gaernarfon
- 7, 8 Y Penrhyn, Llandygái, Arllechwedd Uchaf, Sir Gaernarfon
- 9 Colbrwg, ger y Fenni, arglwyddiaeth y Fenni
- 10 Bedwellte, Gwynllŵg
- 11 Penmynydd, Dindaethwy, Môn, yn wreiddiol, o bosibl
- 12 Ystumcegid, Dolbenmaen, Eifionydd, Sir Gaernarfon.<sup>19</sup>

Er nad yw'r cerddi eu hunain yn rhoi gwybodaeth am gartref y bardd, ceir gwybodaeth ddiddorol yn olnod cerdd 3 yn nwy o'r llawysgrifau sydd yn ei chynnwys. Nodwyd wedi'r cywydd yn llawysgrifau C 1.20, 116, a C 4.110 [= RWM 47], 206, mai *Robin Ddu a'i Cant. Yr hwn y dywedir ei eni ym Mlhwyl Llanddeiniolen yn Swydd Gaernarfon, ac oedd yn byw ynghylch y Fl. 1460*. Wedi iddo gopïo marwnad Ieuan Môn Hen i Robin Ddu yn llawysgrif

---

<sup>19</sup> Am fapiau o raniadau tiriogaethol Cymru yn ystod cyfnod Robin Ddu, gw. R. R. Davies, *Conquest, Coexistence, and Change: Wales, 1063-1415* (Oxford, 1987) t. 393; *idem*, *Lordship and Society in the March of Wales: 1282-1400* (Oxford, 1978), t. xvi. Gw. hefyd WATU *passim*.

NLW 666C, ysgrifennodd William Jones ('Bleddyn'), Llangollen, nodyn yn trafod pwy oedd y bardd hwn a sut y bu iddo gael yr enw Robin Ddu o Fôn:

Nodiad – Mewn rhai llawysgrifau a fu yn fy meddiant gelwir Robin ddu yn Robin ddu o Fôn, Robin Ddu o Hiraddug, a Robin ddu o Arfon ai tybied mai yr un person oedd y tri hyn ai ynte a fu gan y tair Sir eu Rhobin ddu? Geilw y Parch D Ellis ef yn Robin ddu o Lanðeiniolen a dywedir ei eni yn Mryn Adda, yn agos ir Felin Heli, lle yr oedd hen furddyn yn aros a elwid yn Furðyn Robin ddu, a dywedir ymhellach ei fod wedi symud i Fon, ac iddo dreulio ei oes (fer fel yr ymddengis) farðonol yn y Plasnewydd yn y Sir honno, yr hyn mae'n debyg a berir ei alw yn Robin ðu o Fon. Am ba reswm ei gelwir yn R.Dd o Hiraðug nis gwn, os nad yw y cyfysgrifwyr wedi cymysgu ei waith ar eiddo Dafydd ddu o Hiraddug.<sup>20</sup>

Ceir sawl llawysgrif sydd yn rhoi cofnod o fywyd Robin Ddu gyda chasgliad o gerddi a briodolir iddo. Trafodir tri ohonynt – sydd mewn llawysgrifau yn llawiau Lewis Morris, Owen Williams ('Owain Gwyrfa'), ac Wiliam Henri Mounsey – yn nhraethawd Gwilym Morus.<sup>21</sup> Nododd Lewis Morris y blodeuai Robin Ddu rhwng 1430 a 1470, a'i fod yn byw yng Nghoed y Faenol yn Sir Gaernarfon. Yr oedd adfeilion y tŷ yno yn y ddeunawfed ganrif, ac fe'i hadnabyddid fel Murddun Robin Ddu.<sup>22</sup> Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ysgrifennodd Owain Gwyrfa yn ei lawysgrif ef – *Piser Hir Owen Williams* – y blodeuai'r bardd rhwng 1460 a 1500. Fe'i ganwyd yn Llanddeiniolen; a bu'n byw gerllaw Bryn Adda ger y Felinheli (ar ystad y Faenol), lle'r oedd adfail a elwir Murddun Robin Ddu.<sup>23</sup> Yn ôl Wiliam Henri Mounsey, yr oedd y bardd yn byw yng Nghapel Pentir ger Bangor ym 1460.<sup>24</sup> Y mae'n debyg fod y wybodaeth a geir yn y cofnodion hyn yn deillio o'r hyn a gedwid am y bardd ar lafar gwlad.

Ymddengys, felly, fod cysylltiad rhwng Robin Ddu a Llanddeiniolen a Bryn Adda, er nad yw Bleddyn ac Owain Gwyrfa yn cytuno ar leoliad geni'r bardd. Y mae'n amlwg fod

---

<sup>20</sup> NLW 666C, 69. Ymhellach ar y farwnad ei hun, gw. *Y bardd: Llên gwerin a chyfeiriadau llenyddol*, isod.

<sup>21</sup> Gw. Morus, 'Robin Ddu o Fôn', 10-13.

<sup>22</sup> Cw 14, 53; Morus, 'Robin Ddu o Fôn', 96.

<sup>23</sup> Cw 1, 149; Morus, 'Robin Ddu o Fôn', 110.

<sup>24</sup> Cw 2, 352; Morus, 'Robin Ddu o Fôn', 111.

traddodiad cryf yn lleol hyd at y bedwaredd ganrif ar bymtheg am adfail o'r enw Murddun Robin Ddu. Nid yw'n eglur pa dystiolaeth oedd gan Bleddyn dros nodi fod Robin Ddu wedi treulio ei oes farddonol yn y Plas Newydd. Gall fod yn gyfarwydd â'r cywydd *Pa seiri'n nhop y seren*, sef cywydd i'r Plas Newydd yn amser Wiliam Gruffudd Fychan. Y mae'n debyg mai Owain ap Llywelyn ab y Moel a'i cyfansoddodd, ond ceir copi ohono yn llawysgrif Ll 118, 78, wedi ei briodoli i Robin Ddu.<sup>25</sup>

Ceir dystiolaeth arall fod Robin Ddu yn gyfarwydd ag ardal y Fenai, ac y mae'n debyg mai dystiolaeth y bardd ei hun ydyw. Ceir darn o ryddiaith yn llawysgrif Cw 14, 42-4, wedi'i briodoli i Robin Ddu, sydd yn cyfeirio at nifer o leoliadau yn yr ardal – Pentir, y Penrhyn, Cadeirlan Bangor (Clochdy Deiniol) a Phorthaethwy.<sup>26</sup> O'r dystiolaethau hyn, dyma gasgliad Gwilym Morus:

... hawdd fuasai lleoli'r bardd yn Y Felin Heli neu Borth Dinorwig. Os gwir iddo gael ei eni yn Llanddeiniolen, ni symudodd yn bell iawn o fro ei febyd wrth fynd i fyw naill ai rhyw filltir i'r gogledd ym Mhentir neu ger Bryn Adda sydd nawr ar stad y Faenol. Gallasai fod wedi ennill ei gyfenw Robin Ddu o Fôn am iddo dreulio rhan sylweddol o'i yrfa'n clera'r ynys, gan groesi yno o'r Felinheli.<sup>27</sup>

Un gerdd sydd yn dystiolaeth i fywyd diddorol Robin Ddu yw ei gywydd i'r llong aeth ag ef ar ei bererindod i Rufain ym 1450. Dyma gopi o'r cywydd a godwyd o llawysgrif Cw 2 (A) 352C, sydd yn llaw Wiliam Henri Mounsey:

Cywydd y Llong

O waith Robin ddû o Fôn. Ef oedd byw ynghapel Pentir yn agos i Fangor. 1460.

4 Y llong dan y fantell hir  
Ysgafnwen waig a ofnir  
Aredig môr ir ydwyd  
Aradr y saint ar draws wyd  
Blin (f'anrhaith) ydyw'r daith dau

<sup>25</sup> Gw. *Cerddi annilys*, isod.

<sup>26</sup> Morus, 'Robin Ddu o Fôn', 12, 77-9.

<sup>27</sup> *Ibid.*, 12.



8                   Blin tŷ annedd blaen tonnau  
                   Cwrt hardd raffau cort a hwyl  
                   Cist y llynn castell anwyl  
                   Esmwyth ferch os mi ath fedd  
                   Dan un Dewin o Wynedd  
 12                  A oes bryd mor ysbrydawl  
                   A bod ar ffordd Beder a Phawl?  
                   Tuedd' y cymeredd mawr  
                   Tref Rufain tyrfa ryfawr  
 16                  Pylpyd lle i cyfyd cwfaint  
                   Pen gorsedd a senedd saint  
                   Cerdded plâs yr ysdasiwn  
                   Ar gris hir, mawr yw'r gras hwnn!  
 20                  Tramawr am ceidw rhag trymhaint  
                   Temlau a serclau y saint  
                   F'enaïd têg o fewn y tŵr  
                   Oedd fernagle i dduw farnwr  
 24                  Edrych y bum ar oedran  
                   Anness Surpaliws lân  
                   Mil a phedwar cant fardd main  
                   A dêg yn ôl y Deugain  
 28                  Termau pardwn gwnn yn gall  
                   A therm ruw bethau arall  
                   Curiais am bynciau arab  
                   Cael ysbort Nicolas Bâb  
 32                  Cael ceidwad cariad y côr  
                   Gwregis a bagl Sain grugor  
                   A meddiant mi a wyddwn  
                   Sin hoyw hael sy'n nwylo hwnn  
 36                  Agoriad Pedr ai goron  
                   gyda'r groes a'r gadair gronn  
                   Cael i ras coel ar oesoedd  
                   Pina eitha cwlp a oedd  
 40                  Maddau gweithred a meddwl  
                   Ymwrthod am pechod pŵl  
                   Cyfeirio o'r frô ar frŷs  
                   Cael pen ffordd Elen ddilys  
 44                  A dyfod er cydfod cŵr  
                   Ar wrthol i Lwybr Arthur  
                   Dyall cwmpasau Dien  
                   Mwndi fal hynt Mawndfil hên  
 48                  Wrth hynn o ffrwd arth un ffriw  
                   Winllong o'r hafn ewinlliw  
                   Cerch y cefnfor agored  
                   A'th garthen lwydwen ar led  
                   Od ai lle ni feiddiai fâd

52                   A ni i eisde yn wastad  
                       Serchog wyd na chais orchudd  
                       Sarn Badrig ymrig Morudd  
                       Hardd y môr herwydd y marn  
 56                   Hwyad o dderw a haiarn  
                       Parlwr fal tŵr ar fol tonn  
                       Prenol y pereunion  
                       Suthwraig ymdrechwraig drachref  
 60                   Tynn ar draws tonnau o'r dref;  
                       Na ddos tēg ith naddafan  
                       Ar lwff nes myned i'r lan  
                       Rhed ar frig rhaiadr o frys  
 64                   a ni unwaith i'n ynys  
                       Rhed ar nawdd, rho duw o'r nef  
                       Ymerodres môr adref  
                                   Robin Ddu ai cant

Y mae'n werth nodi yma y rhaglith i'r cywydd hwn mewn dwy lawysgrif arall. Yn Cw 1 (B) 149E, ceir *Cywydd o waith Robin Ddu Ddewin pan ar ei daith o'r Felin heli yn Arfon mewn llong, i ymweld a'r Pab o Rufainer mwyn cael ei nawdd a'i fendith.*; ac yn Ll 124, 196, ceir *Cyw: y llong . pan aeth y bardd i Rufain gida phererinion eraill . 1450 . pan oedd Nicolas yn Bâb.*

Nid oes amheuaeth ynglŷn ag awduriaeth y cywydd hwn. Yn ôl Maldwyn, ceir ugain copi ohono, a chodwyd y cywydd o ddwy lawysgrif arall gan Gwilym Morus, sef Cw 1 (B) 149E, a Cw 2 (A) 352C.<sup>28</sup> Lle ceir priodoliad, nodir mai Robin Ddu a'i canodd. Disgrifir y llong yn mynd ag ef i Rufain (llinell 14). Yn llinellau 25-6 ceir dyddiad y daith, sef 1450, a nodir yn llinell 30 mai enw'r Pab ar y pryd oedd Nicolas. Nicolas V oedd hwn, a fu'n Bab rhwng 1447 a 1455.<sup>29</sup> Cyhoeddodd Jiwibili ym 1450, ac y mae'n debyg mai ar gyfer y

---

<sup>28</sup> *Ibid.*, 106-12.

<sup>29</sup> Arno, gw. CE xi, 58-60, d.g. *Nicholas V, Pope.*

dathliadau hynny yr aeth Robin Ddu.<sup>30</sup> Ymddengys mai nawdd uchelwyr Môn ac Arfon a'i galluogodd i fynd ar y bererindod.<sup>31</sup>

### *Llên gwerin a chyfeiriadau llenyddol*

Yn ôl y rhaglith i'r casgliad o gywyddau Robin Ddu yn CLIG,

Y mae llawer o draddodiadau am y Bardd hwn ar lafar gwlad; trwy y rhai y gellir casglu, ei fod yn cael ei gyfrif gan ei gydoeswyr yn Ddewin, a Phroffwyd; a hynny, fe ddichon ar gyfrif ei wybodaeth a'i graffder rhagorol.<sup>32</sup>

Yn wir, ceir tystiolaeth yr ystyriai Robin Ddu ei hun yn ddewin – geilw ei hun yn *un Dewin o Wynedd* yn ei gywydd i'r llong.<sup>33</sup> Yr oedd delwedd y bardd-broffwyd yn bwysig iddo –

Ar ôl y mab darogan, y bardd-broffwyd oedd y cymeriad mwyaf amlwg yn nhraddodiad y mab darogan, ac fe fu'r beirdd yn ofalus i chwarae ar ystyron chwedlonol eu swydd. Mor gynnar â 1450 roedd Robin yn ei alw ei hun yn ddewin, ac yn sicr yn chwarae ar yr holl gyfeiriadaeth a geir yn y teitl hwnnw.<sup>34</sup>

Y testun mwyaf pellgyrhaeddol ei ddylanwad yng Nghymru'r Oesoedd Canol a'r Cyfnod Modern Cynnar, o bosibl, oedd *Historia Regum Britanniae* Sieffre o Fynwy, a luniwyd tua 1136 i 1138. Ynddo ceid myth yn ymwneud â tharddiad cenedl y Cymry neu'r Brytaniaid. Yr oedd yn eu hanes clodfawr gymeriadau enwog ac arwrol o Gaer Droea, a ymladdodd yn erbyn cewri i oresgyn Ynys Prydain. Ceid nifer o'r chwedlau sydd yng ngwaith

---

<sup>30</sup> Katharine K. Olson, 'Ar Ffordd Pedr a Phawl': Welsh Pilgrimage and Travel to Rome, c.1200-c.1530', *Cylchg HC xxiv.2* (Rhagfyr 2008), 1, *et passim*; G. Hartwell Jones, 'Celtic Britain and the Pilgrim Movement', *Y Cymmrodor*, xxiii (1912), 223-6; WCCR<sup>2</sup> 267; Thomas Roberts, 'Cywyddau pererindod', *Y Traethodydd*, 3edd cyfres, xiii (1944), 30-2.

<sup>31</sup> Cw 1 (B) 149E; Morus, 'Robin Ddu o Fôn', 15-16. Ymhellach ar bererindodau'r Cymry i Rufain, a'r cerddi a ganwyd ar yr achlysuron hynny, gw. Olson, 'Ar Ffordd Pedr a Phawl': Welsh Pilgrimage and Travel to Rome, c.1200-c.1530', 1-40; Glanmor Williams, 'Poets and Pilgrims in Fifteenth- and Sixteenth-Century Wales', THSC, 1991, 85-7, *et passim*; Jones, 'Celtic Britain and the Pilgrim Movement', 168-244, *et passim*; Roberts, 'Cywyddau pererindod', 28-39; Eamon Duffy, *The Stripping of the Altars: Traditional Religion in England c. 1400-c. 1580* (London, 1992), tt. 190-205; WCCR<sup>2</sup> 267-8, 499, 504 (ac ymhellach 490-505). Gw. cerdd 3, sydd yn cyfeirio at bererindodau Tudur ap Dafydd ap Robert o Ddindaethwy i Rufain a Santiago de Compostela; a 4.41, 42n, 43n, am fwy am gyrchfannau pererinion yng Nghymru.

<sup>32</sup> CLIG i, 212.

<sup>33</sup> Gw. uchod, ll. 10.

<sup>34</sup> Morus, 'Robin Ddu o Fôn', 38.

Sieffre yn yr *Historia Brittonum*, a briodolwyd i Nennius. Cyfeirid yn aml mewn cerddi brud at nifer o'r chwedlau hyn, er enghraifft, chwedl y ddraig goch a'r ddraig wen, a'r broffwydoliaeth ynghylch Cadwaladr Fendigaid.<sup>35</sup>

Cyfieithwyd yr *Historia Regum Britanniae* i'r Gymraeg, a gelwid ef yn *Brut y Brenhinedd*. Y mae'n debyg y byddai Robin Ddu wedi bod yn gyfarwydd â'r testun hwn, ac y mae'n bosibl mai ato y cyfeiriai pan soniai yn ei gerddi am lyfr a oedd yn ei feddiant y byddai'n ei ddefnyddio wrth broffwydo. Byddai cyfeirio at lyfr brud yn ffordd o roi awdurdod i'w broffwydoliaethau. I'r un perwyl cyfeirid at gymeriadau eraill a oedd wedi datblygu'n broffwydi neu ddewiniaid mewn llên gwerin, megis Myrddin a Thaliesin.<sup>36</sup>

Fel y soniwyd eisoes, datblygodd Robin Ddu yn gymeriad llên gwerin dros y canrifoedd, fel Myrddin a Thaliesin o'i flaen. Cadwyd englynion a phenillion a briodolid i Robin Ddu, y dewin, ar lafar gwlad am ganrifoedd. Yr oedd yr hanesion yn ei gylch 'yn ymrannu'n ddau ddsbarth, sef y rhai hynny sy'n canolbwyntio ar graffter meddwl Robin Ddu, a'r rhai hynny sy'n arddangos nodweddion goruwchnaturiol ei gymeriad, er bod y dosbarthiadau yma'n gorgyffwrdd weithiau.<sup>37</sup> Ceid hanesion am Robin Ddu yn ymwneud â'r Diafol. Sonnir am y Diafol yn cynorthwyo'r dewin i deithio pellteroedd maith mewn ychydig o amser. Mewn chwedlau eraill, byddai yntau yn twyllo'r Diafol mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.<sup>38</sup> Byddai'r dewin hefyd yn defnyddio swynion i gosbi pobl a oedd wedi'i dramgwyddo, drwy eu gwneud yn sâl neu drwy ladd eu hanifeiliaid.<sup>39</sup> Ceir chwedlau eraill am Robin Ddu yn defnyddio'i ddychymyg a'i feddwl craff i dwyllo pobl i gredu ei fod yn

---

<sup>35</sup> Gw. BD *passim*. Am y chwedl ynglŷn â tharddiad y Brytaniaid, gw. 3.36n; 7.24n; BD 2-21. Am chwedl y ddraig goch a'r ddraig wen, gw. 11.61-2n.

<sup>36</sup> Gw. yr ymdriniaeth o Robin Ddu fel bardd-broffwyd yn ail bennod traethawd Gwilym Morus, 'Robin Ddu o Fôn', 30-47.

<sup>37</sup> *Ibid.*, 58.

<sup>38</sup> *Ibid.*, 58-60; 61-3.

<sup>39</sup> *Ibid.*, 61.

ddewin.<sup>40</sup> Yn ôl Gwilym Morus, y mae'r 'llên gwerin sy'n cofnodi helyntion rhyfeddol y cymeriad Robin Ddu Ddewin wedi eu seilio ar ffigwr hanesyddol Robin Ddu o Fôn'.<sup>41</sup>

Cofnodwyd chwedlau am Robin Ddu yng Nghronicl Elis Gruffydd.<sup>42</sup> Lluniodd Elis Gruffydd – o'r Gronnant Uchaf, Gwespyr, plwyf Llanasa, Sir y Fflint, yn wreiddiol – ei gronicl pan oedd yn filwr yng ngwarchodlu Calais rywdro rhwng 1529 a 1552.<sup>43</sup> Edrydd hanes y byd o gyfnod Adda ac Efa hyd y flwyddyn 1552. Defnyddiodd y croniclydd lyfrau a llawysgrifau Cymraeg, Saesneg, Ffrangeg a Lladin fel ffynonellau, yn ogystal â thraddodiadau llafar Cymru a Lloegr.<sup>44</sup>

Ceir chwedl yn y Cronicl yn ymwneud ag Wiliam Gruffudd Fychan o'r Penrhyn, Sir Gaernarfon, a genedigaeth Harri Tudur. Yr oedd Robin Ddu wedi hysbysu Wiliam Gruffudd Fychan fod etifedd wedi'i eni i Edmwnd ab Owain Tudur, Iarll Richmond, ac y byddai'r etifedd, ryw ddydd, yn dwyn 'coron teyrnas Lloegr am ei ben'. Clywodd Wiliam fod Edmwnd wedi marw'n ddietifedd, a gwatwarodd a charcharodd y bardd o'r herwydd. Pan glywodd Wiliam wedyn fod Margaret Beaufort, Iarlles Richmond, yn feichiog, rhyddhaodd Robin Ddu. Yn ôl y chwedl hefyd, yr oedd Robin Ddu yn bresennol yng Nghastell Penfro pan anwyd yr etifedd. Rhoddwyd yr enw Owain arno, ond newidiwyd yr enw'n ddiweddarach i Harri. *Neithyr valkynt gwyr kymru ai galwai ef ywain yn vynnych no Hennri.*<sup>45</sup> Yr oedd *Owain*, wrth gwrs, yn enw arwyddocaol yn y traddodiad brud – dyma'r enw traddodiadol ar y Mab

---

<sup>40</sup> *Ibid.*, 64-8. Gw. yr ymdriniaeth o Robin Ddu mewn chwedloniaeth Gymreig nhrydedd pennod traethawd Gwilym Morus, *ibid.*, 48-68.

<sup>41</sup> *Ibid.*, 9-10.

<sup>42</sup> Ceir y Cronicl yn llawysgrifau NLW 5276D a NLW 3054D [= M 158].

<sup>43</sup> ByCy 300.

<sup>44</sup> Jerry Hunter, *Soffestri'r Saeson: Hanesyddiaeth a Hunaniaeth yn Oes y Tuduriaid* (Caerdydd, 2000), t. 7.

<sup>45</sup> NLW 3054D [= M 158], 324v.

Darogan. Wrth adrodd yr hanes, pwysleisiai Elis Gruffydd mai chwedl oedd hon, a'i bod yn bosibl na ddylid ei chredu – *os gellir hroddi koel ynn y bydd ar y chwedlau hynn*.<sup>46</sup>

Proffwydodd Robin Ddu farwolaeth Wiliam Gruffudd Fychan hefyd. Daeth ei broffwydoliaeth yn wir – cyd-ddigwyddodd marwolaeth Wiliam ag amgylchiadau eraill yr oedd Robin Ddu wedi'u rhag-weld. Ar ddiwedd y rhan, noda Elis Gruffydd fod y chwedlau hyn *ymysc ymrauaelion chwedle disynnwyr eraill*.<sup>47</sup> Y mae'n amlwg felly y gwyddai am fwy ohonynt, ond *yrhrain a vyddai drahir traythu ynnhyn o lauur ac arhynn o amser*.<sup>48</sup>

Er nad oedd Elis Gruffydd yn siŵr o ddilysrwydd yr hanesion hyn, gwyddys bod Robin Ddu ac Wiliam Gruffudd Fychan yn adnabod ei gilydd, a chanodd Robin Ddu ddau gywydd iddo.<sup>49</sup> Dywed Gwilym Morus y gall fod gwirionedd yn y stori am amgylchiadau geni Harri Tudur. Gwyddys bod Siasbar Tudur yn nodedig fel noddwr beirdd, a gwyddai am bwysigrwydd propaganda cerddi brud, ac felly,

Mae'n ddigon posib i Siasbar Tudur geisio sicrhau bod mantell y mab darogan bytholwyrdd yn pasio o'r tad i'r mab, o Edmwnd i Harri. Pa well ffordd o gyflawni hyn na gwahodd brudiwr fel Robin Ddu i fod yn bresennol yn ei gastell ar adeg yr enedigaeth, i'w noddi i groesawu'r bychan fel y mab darogan newydd a datgan hynny i'r cyhoedd? Fel rhan o strategaeth tymor hir yr oedd gosod seiliau cadarn ar gyfer cefnogaeth i Harri yn hanfodol, ac ar sail y nifer helaeth o gywyddau brud a ganwyd iddo, diau i Siasbar fod yn llwyddiannus yn hyn o beth.<sup>50</sup>

---

<sup>46</sup> *Ibid.*, 324r.

<sup>47</sup> *Ibid.*, 324v.

<sup>48</sup> *Ibid.*, 324v. Gw. hefyd Hunter, *Soffestri'r Saeson*, tt. 111-14; D. J. Bowen, 'Y canu i deulu'r Penrhyn o gyfnod y Tuduriaid hyd 1628', *Dwned*, 9 (2003), 92; WWR<sup>2</sup> 8-9 (lle y dywedir mai Gwilym ap Gruffudd a garcharodd Robin Ddu). Gw. NLW 3054D [= M 158], 324r-324v am hanesion Robin Ddu, Harri Tudur a Wiliam Gruffudd Fychan.

<sup>49</sup> Cerddi 7 ac 8, isod.

<sup>50</sup> Morus, 'Robin Ddu o Fôn', 19-20. Gw. hefyd Dafydd Johnston, 'Propaganda'r Prydydd: Gwleidyddiaeth Beirdd yr Uchelwyr', *Cof Cenedl: Ysgrifau ar Hanes Cymru*, xiv, gol. Geraint H. Jenkins (Llandysul, 1999), t. 41.

Dywed Emyr Wyn Jones fod enwi Harri Tudur yn Owain yn dangos ‘ymdrech gynnar at bropaganda bwriadol i gynnal a chefnogi enw a oedd eisoes ag arwyddocâd emosiynol a phroffwydol iddo i bobl Cymru.’<sup>51</sup>

Cyfeirir at Robin Ddu mewn cerddi cyfoes yn ogystal. Cyfeirir ato, ynghyd â Thaliesin, Myrddin ac Adda Fras, mewn cywydd brud gan Ddafydd Llwyd o Fathafarn, sydd ar ddull ymddiddan rhwng y bardd a’r wylan:

12                   Wrth ddarllen y sen y sydd  
                      O waith Robin, ddoeth rybudd,  
                      A Thaliesin, ddewin ddoeth,  
                      A Merddin burddysg mawrddoeth,  
16                   Ac Adda fras, gywydd frud, –  
                      Didwyll y mae’n dywedyd  
                      Proffwydoliaith maith i’n mysg  
                      O waith Ddewi, ddoeth wiwddysg.<sup>52</sup>

Prawf hyn y câi Robin Ddu ei ystyried yn broffwyd o’r un statws â’r tri arall yn ystod ei gyfnod ei hun. Cyfeirir yma at Ddewi Sant hefyd – priodolwyd brudiau iddo yntau.<sup>53</sup> Efallai mai’r cyfeiriad hwn at Robin Ddu sydd yn gyfrifol am briodoli’r cywydd iddo yn llawysgrif NLW 668C, 61.<sup>54</sup>

Ceir englynion i fab rhyw Robin Ddu gan Iorwerth Fynglwyd,<sup>55</sup> a chyfeirir at *Robin* mewn llinell o gasgliad arall o englynion gan yr un bardd.<sup>56</sup> Yn ôl y golygyddion, ‘rhyw glerwr anhysbys’ oedd hwn.<sup>57</sup> Nid oes unrhyw beth yn yr englynion sydd yn profi’n bendant

---

<sup>51</sup> Jones, “Robin Ddu yn Prphwudo’ a’r ‘Pasg Wyl Fair’”, t. 108.

<sup>52</sup> GDLI 15.11-18. Gw. hefyd *ibid.* 15.12n.

<sup>53</sup> *Ibid.* 15.18n.

<sup>54</sup> Dechreua’r cywydd â’r llinell *Dydd da’r wylan, leian lwyd*. Gw. cofnod y cywydd ym Maldwyn, sydd yn ei briodoli i Robin Ddu – cerdd 27557, yn dechrau â’r llinell *Dydd da fo i’r wylan leian lwyd* (27557).

<sup>55</sup> Howell Ll. Jones ac E. I. Rowlands (goln.), *Gwaith Iorwerth Fynglwyd* (Caerdydd, 1975), cerdd 38.

<sup>56</sup> *Ibid.*, 41.25.

<sup>57</sup> *Ibid.*, t. 125 (nodyn cefndir cerdd 38).

mai Robin Ddu ap Siencyn Bledrydd ydoedd, ond y mae'n bosibl mai ef ydoedd – gan gofio y blodeuai Iorwerth Fynglwyd rhwng c. 1485 a 1527.<sup>58</sup>

Canwyd marwnad i Robin Ddu gan Ieuan Môn Hen. Codwyd y copi hwn o'r cywydd o lawysgrif NLW 666C, 67:

Marwnad Robin Ddu.

Clafychais clwyf o achwyn  
Clod fy ngherdd clywed fy nghwyn  
Cwyn awenyddion yn cau  
4 Cuddig pensaer cywyddau  
Achlod a fu feddrod fwy  
Ach can Wynedd uwch Conwy  
Mab ifangc yn dyddyn dysg  
8 Merddin a hoffai'r mawrddysg  
Gwae a dyn iau gwawd yn ol  
Robin gerdd ddiarhebol  
Cynhilo cwyn o alaeth  
12 Cwyno'r wyf cynar aeth  
Cwyn awdwr can ni wadaf  
Cwyno am ein hathro wnaif  
Can oer alaeth cwyn Rolant  
16 Cwyn boneddigion ai cant  
Proffwyd a blysfwyd iw blas  
Prif fforddiol praff ei urddas  
Gweydd maith gywyddau Mon  
20 Gwaed irfedw a gwawd Arfon  
Gweddi a friw goydd y fro  
Gwedi alwer gwawd Iolo  
Gweuad a fu gwawd ei fai  
24 Gwawd Essyllt a godasai  
Ni bu'r wyl neb ar wawd  
A fai well ei fwyellawd  
Llais ei gerdd lliosawg oedd  
28 Lleision Gwynedd ai llysoedd  
Cloch arian daroganau  
Agwrdd ei frig ai gerdd frau  
Ceiliog Noe rhwng cilwg nwy  
32 Cerdd gynnes Caer Ddyganwy  
Iolo dau eiliad awen  
Dafydd bu holl Gymru ben

---

<sup>58</sup> *Ibid.*, tt. 3-5.



36 Bwyall Fleiddien o'r heniaith  
 Aniben oedd bwa'n hiaith  
 Newydd gyweirgorn awen  
 A swllt i wawd Essyllt wen  
 40 Malai'n dalm mawl yn deg  
 Meluster o aml osteg  
 Ei gariad oedd y gwr du  
 Im brodyr oll am brydu  
 44 Ninau'n ddisgyblion anwyl  
 Gwedd rym gywyddau'r wyl  
 Marwnadau meirwon ydym  
 Marwolaeth athrawiaeth rym  
 Cof air frig cyfair ei fron  
 48 Cur ar ddirwest cerddorion  
 Malai in frig mawl yn frau  
 Mesurid a mesurau  
 Gwanach gywyddau gwynion  
 52 Gwirodau mawl gwyrda Mon  
 Er a glyw o air ei glod  
 Gweirfil ni ddichon ~~gornod~~ gorfod  
 Ar yr un drych ei ran draw  
 56 Ar Alis y mae'r wylaw  
 Nid oes hawl na dewisolion  
 Athro mawr eithr Ieuan Mon  
 Brad ei bwys byred y bu  
 60 Brodyr oeddynt am brydu  
 Aeth yr awen i benyd  
 Aeth yn garth (gaeth) weithion i gyd  
 Aeth rhadau ei weithredoedd  
 64 Aeth i Nef athraw in oedd  
 Ieuan Mon ai Cânt

Y mae'n amlwg, o'r cywydd, fod Ieuan Môn Hen yn ddisgybl i Robin Ddu, ac nid ef oedd yr unig ddisgybl chwaith – cyfeirir ato fel *ein hathro* (llynell 14), *Ninau'n ddisgyblion anwyl* (llynell 43), *athro mawr* (llynell 58), ac *athraw in oedd* (llynell 64). Profir yma fod cysylltiadau cryfion rhwng Robin Ddu a Môn a Gwynedd – cyfeirir at *Wynedd uwch Conwy* (llynell 6), *Mon* (llynellau 19 a 52), *Arfon* (llynell 20), *Gwynedd* (llynell 28), a *Caer Ddyganwy* (llynell 32). Y mae'r cywydd yn dyst hefyd i alluoedd Robin Ddu fel *Proffwyd* (llynell 17), a cheir cyfeiriad at *daroganau* (llynell 29).

Fodd bynnag, er bod y cywydd yn profi rhai ffeithiau hysbys am Robin Ddu, dywed hefyd y bu i'r bardd farw'n ifanc – *Mab ifangc* (llynell 7) ydoedd, a *cynar aeth* (llynell 12). Profwyd uchod ei fod wedi bod yn canu am gyfnod maith – o hyd at hanner canrif. Un eglurhad posibl dros hyn yw mai ffug-farwnad yw hon. Yr oedd yn arfer poblogaidd ymysg y Cywyddwyr cynnar i ganu ffug-farwnadau i'w gilydd, ac y mae'n bosibl fod rhai o'r cywyddau hynny yn 'ymarferion yn null y farwnad ar y mesur newydd'.<sup>59</sup> Geill, felly, fod y cywydd hwn wedi'i ganu fel rhyw fath o ymarfer neu dasg gan ddisgybl i'w athro barddol, a dichon fod marwnadau gan ddisgyblion eraill Robin Ddu wedi bodoli ar un adeg.

### *Cerddi mawl*

Ceir yn y traethawd hwn olygiad o gerddi mawl Robin Ddu i bobl yn unig. Yn achos yr un cerdd ar ddeg cyntaf yn y casgliad, crëwyd y golygiad gan ddefnyddio'r ffynonellau llawysgrifol a restrir yng nghofnod y cerddi ym Maldwyn. Codwyd cerdd 12, *I ofyn pâr o arfau gwynion gan Siôn ap Maredudd o Ystumcegid dros Ddafydd ap Siancyn o Garreg-y-gwalch*, o Bleddyn Owen Huws (gol.), *Detholiad o gywyddau gofyn a diolch* (Caernarfon, 1998), cerdd 8, gan ei fod yn olygiad diweddar wedi'i lunio gan ddefnyddio'r llawysgrifau a restrir ym Maldwyn.<sup>60</sup>

Sonnir isod am y cerddi mawl nad ydynt yn rhan o'r casgliad hwn am eu bod yn cynnwys brud neu eu bod yn fawl i bethau yn hytrach na phobl. Trafodir cerddi a gambriodolwyd mewn rhai llawysgrifau i Robin Ddu, a chyfeirir hefyd at y cofnodau hynny ym Maldwyn o gerddi sydd yn rhannau o gerddi eraill.

---

<sup>59</sup> Huw Meirion Edwards, 'Murnio marwnadau: golwg ar y ffug-farwnad yng nghyfnod y cywydd', *Dwned*, 5 (1999), 59; gw. ymhellach *ibid.*, 47-70.

<sup>60</sup> Gw. ymhellach nodyn cefndir cerdd 12.

## *Y cerddi nas golygwyd*

Cyfeiria'r rhifau yn y cromfachau at rif cofnod y cerddi ym Maldwyn.

### *Cerddi mawl yn cynnwys brud*

*Gruffudd, awenydd uniawn (2524)*

Gw. *Cerddi annilys*, isod.

*Gwyddom dewi a goddef (10427)*

Gw. *Cerddi annilys*, isod.

### *Cerddi mawl i bethau, nid pobl*

*Y fun well ei llun a'i lliw (27664)*

Cywydd o fawl i'r llwyn banadl yw hwn. Y mae'r bardd yn moli'r banadl am ei fod yn blodeuo'n gynnar – yn Ebrill a Mai – gan ddarparu lloches i garwyr na allent aros hyd yr haf. Priodolir y cywydd i Ddafydd ap Gwilym mewn pymtheng llawysgrif, i Robin Ddu mewn tair llawysgrif sydd yn dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg, ac i Syr Dafydd Owain mewn un llawysgrif. Ceir golygiad ohono yn Owen Jones ac William Owen (goln.), *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym* (Llundain, 1789), cerdd XLVII; Ifor Williams a Thomas Roberts (goln.), *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr* (ail arg., Caerdydd, 1935), cerdd XLV; Helen Fulton (ed.), *Selections from the Dafydd ap Gwilym Apocrypha* (Llandysul, 1996), cerdd 24; Thomas Parry (ed.), *The Oxford Book of Welsh Verse* (Oxford, 1962), cerdd 63. Fodd bynnag,

o edrych ar arddull y cywydd, y mae'n debyg mai gwaith i fardd o'r bymthegfed ganrif ydyw.<sup>61</sup> Ymddengys, felly, mai Robin Ddu a'i canodd.

*Y llong tan y fantell hir (27666)*

Dyma gywydd o fawl i'r llong aeth â Robin Ddu ar ei bererindod i Rufain ym 1450.

Gw. ymhellach *Y bardd: Tystiolaeth y bardd a chofnodion amdano*, uchod.

*Cerddi annilys*

*Blin ydyw gan blanedau (27519)*

Cywydd marwnad i Siôn Pilstwn, Emral, Maelor Saesneg, Sir y Fflint. Ymddengys mai Rhys Goch Glyndyfrdwy (19398) a'i canodd, gan fod pum llawysgrif ar hugain yn ei briodoli iddo. Y mae dwy lawysgrif yn ei briodoli i Robin Ddu, ac un yn ei briodoli i Rys Goch Eryri (19355).<sup>62</sup>

*Dau can mlynedd cyn meithrin (27540)*

Englyn i Ddafydd ap Gwilym yw hwn. Fe'i priodolir i Robin Ddu mewn un llawysgrif, sef NLW 11993A, 36, sydd yn dyddio o'r 18g.<sup>63</sup> Y mae sawl copi o'r englyn yn bodoli sydd wedi ei briodoli i Daliesin neu'n ddiennw. Ceir y cofnod cynharaf o'r englyn yn llawysgrif P 53, 87, sydd yn dyddio o ddiwedd y 15g., ac y mae'n ddiennw yno.<sup>64</sup>

---

<sup>61</sup> Gw. Dafydd Johnston, 'Cerddi'r Apocryffa', t. 16, DG.net; (ed.), *The Oxford Book of Welsh Verse*, t. 545; Fulton (ed.), *Selections from the Dafydd ap Gwilym Apocrypha*, t. 192 (nodyn cefndir cerdd 24).

<sup>62</sup> Gw. GRhGE t. 34.

<sup>63</sup> HMNLW iv, 104.

<sup>64</sup> Dylan Foster Evans gyda Sara Elin Roberts, '“Myn Pedr, ni wn pwy ydwyd”, ar drywydd Dafydd ap Gwilym', tt. 11-12, DG.net.

*Gruffudd, awenydd uniawn (2524)*

Dafydd Llwyd o Fathafarn a ganodd y cywydd hwn. Cywydd ydyw yn ateb cywydd Gruffudd ap Llywelyn Fychan sydd yn holi ynghylch y brudiau. Gw. GDLI cerdd 78 am olygiad o'r cywydd, a cherdd 77 am gywydd Gruffudd. Priodolir y cywydd i Huw Pennant hefyd.

*Gwyddom dewi a goddef (10427)*

Cywydd brud a ganwyd pan garcharwyd Owain Tudur am briodi'r frenhines Catherine de Valois. Hi oedd gweddw Harri V, a mam y brenin Harri VI. Priododd Owain hi heb ganiatâd arbennig, ac yr oedd y briodas, felly, yn anghyfreithlon. Tra oedd Catherine yn fyw, yr oedd Owain yn ddiogel, ond wedi'i marwolaeth ym 1437, carcharwyd Owain am gyfnod.<sup>65</sup> Fe'i priodolir yn y llawysgrifau i Ieuan Gethin ab Ieuan ap Lleision, Robin Ddu, Owain neu Ieuan Waed Da a Dafydd Llwyd o Fathafarn. Derbynnir yn Nest Scourfield, 'Gwaith Ieuan Gethin ab Ieuan ap Lleision, Llywelyn ap Hywel ab Ieuan ap Gronow, Ieuan Du'r Bilwg, Ieuan Rudd a Llywelyn Goch y Dant' (M.Phil., Cymru [Abertawe], 1993), mai Ieuan Gethin ab Ieuan ap Lleision a'i canodd, a hynny ar sail nifer y llawysgrifau sydd yn ei briodoli iddo.<sup>66</sup> Nodir mai ei waith ef yw'r cywydd dan gofnod y bardd yn ByCy 389 hefyd. Ceir golygiad ohono yn W. J. Gruffydd (gol.), *Y Flodeugerdd Newydd* (Caerdydd, 1909), tt. 119-22, lle y'i priodolir i Ieuan Gethin. Gw. hefyd J. Morgan Williams, 'The works of some 15th century Glamorgan Bards' (M.A., Cymru, 1923), 13.

---

<sup>65</sup> WWR<sup>2</sup> 41-5.

<sup>66</sup> Gw. hefyd Morus, 'Robin Ddu o Fôn', 13-15.

*Pa seiri'n nhop y seren (27627)*

Dyma gywydd gan Owain ap Llywelyn ab y Moel i'r Plas Newydd ym Mhorthaml, Môn, yn amser Wiliam Gruffudd Fychan. Gŵr y Penrhyn, sef gwrthrych cerddi 7 ac 8, a fu'n gyfrifol am adeiladu'r Plas Newydd. Am hanes y teulu yn ymsefydlu yno, gw. nodyn cefndir cerddi 8 a 7. Priodolir y cywydd i Owain mewn tair llawysgrif – B 31064, 27a; Cw 11, 338; Cw 312, 91. Fe'i priodolir i Robin Ddu yn llawysgrif Ll 118, 78. Am olygiadau o'r cywydd, gw. Eurys Rolant (gol.), *Gwaith Owain ap Llywelyn ab y Moel* (Caerdydd, 1984), cerdd 23; Dafydd Wyn Wiliam, *Y canu mawl i deulu Plasnewydd* (Llangefni, 1992), cerdd I.

*Pe seithid Powys weithian (27630)*

Cywydd cyngor i Owain Vaughan neu Owain Fychan ap Siôn ab Owain Fychan o Lwydiarth, Llanfihangel yng Ngwynfa, Mechain, Powys, yw hwn. Priodolir y cywydd i Owain Gwynedd (*fl.* c. 1550-90) mewn nifer fawr o lawysgrifau (16022), a cheir cerddi eraill ganddo i'r teulu.<sup>67</sup> Priodolir y cywydd i Robin Ddu mewn un llawysgrif – Cw 24, 64. Y mae'r diwedd a'r priodoliad wedi'i golli yn llawysgrif C 16, 434. Ceir golygiad o'r cywydd yn D. Roy Saer, 'Testun beirniadol o waith Owain Gwynedd, ynghyd â rhagymadrodd, nodiadau a geirfa' (M.A., Cymru [Aberystwyth], 1961), 262. Ni all fod yn waith dilys Robin Ddu gan ei fod yn rhy ddiweddar – yn ôl Maldwyn (16022), canwyd y cywydd ym 1600, ac yr oedd y gwrthrych yn byw ar droad y ganrif.<sup>68</sup>

---

<sup>67</sup> ByCy 652.

<sup>68</sup> Gw. LD i, 294. Cyfeirir at ei daid, Owain ap Siôn ap Hywel Fychan, yn P. C. Bartrum: WG2 'Aleth' 7 (A), ac fe'i ganwyd c. 1500, yn ôl y rhif cenhedlaeth a roddir iddo.

*Y ddeuwr arglwyddiaidd (2938)*

Cywydd moliant i Edmwnd a Siaspar Tudur yw hwn, gydag elfen gref o frud ynddo. Y mae'r llawysgrifau'n ei briodoli i Ddafydd Nanmor, Robin Ddu a Dafydd Llwyd o Fathafarn. Fe'i derbynnir fel gwaith Dafydd Nanmor – ceir golygiad o'r cywydd yn Thomas Roberts & Ifor Williams (ed.), *The poetical works of Dafydd Nanmor* (Cardiff, 1923), cerdd XIII.

*Y milwr llwyd mal iarll hen (7603)*

Cywydd i Syr Wiliam Herbert, Colbrwg (gwrthrych cerdd 9), yn gofyn dros Dâm Annes, Abades Llanllŷr, am epa. Cedwid epa fel anifail anwes gan uchelwyr y cyfnod.<sup>69</sup> Fe'i priodolir yn y llawysgrifau i Huw Cae Llwyd, Siancyn Brydydd a Robin Ddu. Fe'i derbynnir fel cywydd gan Huw Cae Llwyd, a cheir golygiad ohono yn CHerb cerdd 57; Catrin T. Beynon Davies, 'Cerddi'r Tai Crefydd' (M.A., Cymru [Bangor], 1972), cerdd 44; Leslie Harries (gol.), *Gwaith Huw Cae Llwyd ac eraill* (Caerdydd, 1953), cerdd XXI.

*Cerddi sy'n rhan o gerddi eraill*

*Nid aeth enw doethineb (27612)*

Gw. hefyd *Nid aeth enw doethineb* (7582), a briodolir i Huw Cae Llwyd. Rhan o'r cywydd *Y milwr llwyd mal iarll hen* (7603), gw. *Cerddi annilys*, uchod.

*Gwŷdd a gro a gudd eu gr[] (27585)*

Ail linell cerdd 3, *Gwae'r beirdd mae'r gwŷr heb urddas*.

---

<sup>69</sup> CHerb 57.25n, 26n.

*Tuedd i cymuredd mawr (27645)*

Llinell o *Y llong tan y fantell hir (27666)*, gw. *Cerddi mawl i bethau, nid pobl, uchod*.  
Gw. copi o'r cywydd yn *Y bardd: Tystiolaeth y bardd a chofnodion amdano, uchod, llinell*  
13.

## *Llawysgrifau*

*Cynnwys nifer o'r llawysgrifau a restrir waith sawl copiwr. Ceisir dyddio'r llawysgrifau yn gyflawn yma. Fodd bynnag, pe gwyddys pwy a gopiodd y rhannau hynny sydd yn cynnwys y cerddi yn y casgliad hwn, rhoddir blaenoriaeth i'r wybodaeth honno a rhoddir gwybodaeth am weddill y llawysgrif mewn bracedi sgwâr. Defnyddiwyd y golygiadau yng nghyfres 'Beirdd yr Uchelwyr', Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, wrth lunio'r rhestr hon. Er bod y cerddi yn y casgliad yn waith dilys gan Robin Ddu, cofier nad yw pob un o'r llawysgrifau isod yn priodoli cerdd iddo.<sup>70</sup>*

*Daw'r llawysgrifau hynaf a ddefnyddiwyd o'r unfed ganif ar bymtheg. Y ddwy llawysgrif hynaf yw P 55 a P 60, y naill yn dyddio o c. 1500 a'r llall o c. 1510-15. Gall y ddwy hyn fod yn gyfoes â Robin Ddu, ac, yn ôl J. Gwenogvryn Evans, y mae'r copi o gerdd 5 yn P 60, 133 yn llaw'r bardd ei hun o bosibl, gw. isod. Daw y mwyafrif o'r llawysgrifau a restrir isod o'r ail ganrif ar bymtheg.*

---

<sup>70</sup> Gw. Teitlau neu raglithiau ac Olnodau'r cerddi am y priodoliadau.



*Llawysgrifau Ychwanegol yn y Llyfrgell Brydeinig, Llundain*

- B 10313, 141a:** Dafydd Jones, Trefriw, ail hanner y 18g. (nid cyn 1746), gw. CAMBM 1836, 29; ByCy 423; W. Gerallt Harries, 'Un Arall o Lawysgrifau Dewi Fardd', B xxvi (1974-6), 161-8.
- B 12230 [= RWM 52], 64:** Griffith Vaughan, c. 1688-9, gw. RWM ii, 1136-44; CAMBM 1842, 1.
- B 14874 [= RWM 51], 193a:** llaw anh., 17g., [a llawiau anh. eraill, 17g., ceir englynion ar ddalen 67 mewn llaw anh. (?Lewis Morris), diweddarach na gweddill y llsgr.,] gw. RWM ii, 1131-5; CAMBM 1844, 18-19.
- B 14901, 14b:** llaw anh., blynyddoedd cynnar y 18g., gw. CAMBM 1844, 28-9.
- B 14962, 47a:** Owen Jones 'Owain Myfyr' yn bennaf, c. 1768-99, gw. *ibid.*, 44.
- B 14966, 78a:** *Hirwyn Twm o'r Nant*, Wiliam Bodwrda a'i gynorthwywyr, c. 1644-50, gw. *ibid.* 46-7; R. Geraint Gruffydd, 'Llawysgrifau Wiliam Bodwrda o Aberdaron (a briodolwyd i John Price o Fellteyrn)', Cylchg LIGC viii (1953-4), 349-50; Dafydd Ifans, 'Bywyd a Gwaith Wiliam Bodwrda (1593-1660) o Aberdaron' (M.A., Cymru [Aberystwyth], 1974), 266-340; *idem*, 'Wiliam Bodwrda (1593-1660)', Cylchg LIGC xix (1975-6), 300-10, *passim*.
- B 14978, 258a:** *Llyvr Caer Rhun, No. I*, llawiau anh., c. 1600, gw. CAMBM 1844, 53.
- B 14979, 197a:** *Caer Rhun, No. II*, John Fowk, c. 1577-90, ac arall, gw. *ibid.* 53-4.
- B 14984, 332b:** *Caer Rhun, No. VII*, llaw anh., 17g., gw. *ibid.* 55-6.
- B 14991, 277b:** Owen Jones ('Owain Myfyr') a Hugh Maurice, 18-19g., (copi o waith Rhys Jones o'r Blaenau – Rhys Jones (gol.), *Gorchestion Beirdd Cymru: neu Flodau godidowgrwydd awen. Wedi eu lloffa, a'u dethol, allan o waith rhai o'r Awduriad*

*ardderchoccaf, a fu erioed yn yr Iaith Gymraeg* (Amwythig, 1773), gyda nodiadau, cymariadau ac ychwanegiadau,) gw. CAMBM 1844, 57-8.

**B 14999, 12b:** llaw anh., canol i ail hanner yr 16g., gw. *ibid.*, 60.

**B 15010, 18a + 37b:** *Y Digrif Doeth*, William Roberts, Llwynrhudol, 1757-63, (ychwanegwyd nifer o achau i'r llsgr.) gw. *ibid.* 65.

**B 24980 [= RWM 39], 13b:** *Llyvr Dolgellau*, llawiau anh., chwarter cyntaf yr 17g., gw. RWM ii, 1082-7; CAMBM 1861-75, 136.

**B 31058, 139a:** *Caer Rhun*, llawiau anh., 17g., gw. CAMBM 1876-81, 154.

**B 31059, 44a:** *Caer Rhun*, Rhisiart ap Siôn o Ysgorlegan, c. 1590-1600, gw. CAMBM 1876-81, 154.

**B 31073, 6a + 18a:** Owen Jones ('Owain Myfyr') a Hugh Maurice, 18-19g., gw. *ibid.* 154.

#### *Llawysgrifau yng nghasgliad Prifysgol Bangor*

**Ba 1267, 8b:** Rowland Lewis, Mallwyd, c. 1645, gw. 'Catalogue of Bangor MSS. General Collection' ii (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Bangor), 63; Rhiannon Francis Roberts a Geraint Gruffydd, 'Rowland Lewis o Fallwyd a'i Lawysgrifau', Cylchgr LIGC ix (1955-6), 496.

**Ba(M) 5, 104a + 116b:** llaw gynnar Thomas Wiliems, Trefriw, c. 1570-90, gw. E. Gwynne Jones & A. Giles Jones, 'A Catalogue of the (Bangor) Mostyn Collection', i (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Bangor, 1967), 31-4.

**Ba(M) 12, 1a:** llaw anh., diwedd yr 17g., gw. *ibid.* 69.

**Ba(M) 28:** llaw anh., diwedd yr 17g., gw. *ibid.* 76, 75; diolch i'r Athro Peredur I. Lynch am ei gymorth yn dyddio'r llsgr. hon.

*Llawysgrif yn Llyfrgell Bodley, Rhydychen*

**Bl.e.6, 63:** John Jones, Gellilyfdy, 1604, gw. SCWMBLO v, 689; *ibid.* vii, 252.

*Llawysgrif yng nghasgliad Bodewryd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**Bod 1, 410:** Wmffre Dafis, 1618-35, [ac Evan Lloyd o Flaen y Glyn], gw. ‘Schedule of Bodewryd Manuscripts and Documents’ (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1932), 1 (cywirwyd y catalog, sydd yn nodi fod y llsgr. yn llaw Sion Phylip); E. D. Jones, ‘The Brogyntyn Welsh Manuscripts’, Cylchg LIGC v (1947-8), 258, 234; ByCy 117.

*Llawysgrifau yng nghasgliad Brogyntyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**Brog (y gyfres gyntaf) 3, 298 + 584:** llaw anh., canol yr 17g., gw. ‘Catalogue of Brogyntyn Manuscripts and Documents’, i (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1937), 6-7; E. D. Jones, ‘The Brogyntyn Welsh Manuscripts’, Cylchg LIGC vi (1949-50), 1-42.

**Brog (y gyfres gyntaf) 4, 275:** Wiliam Bodwrda, canol yr 17g., gw. ‘Catalogue of Brogyntyn Manuscripts and Documents’, i (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1937), 8-9; E. D. Jones, ‘The Brogyntyn Welsh Manuscripts’, Cylchg LIGC vi (1949-50), 149-61; R. Geraint Gruffydd, ‘Llawysgrifau Wiliam Bodwrda o Aberdaron (a briodolwyd i John Price o Fellteyrn)’, Cylchg LIGC viii (1953-4), 349-50.

**Brog (y gyfres gyntaf) 5, 419:** llaw anh., diwedd yr 17g. (ar ôl 1683), [ceir eitemau mewn llawiau anh. diweddarach,] gw. ‘Catalogue of Brogyntyn Manuscripts and Documents’,

i (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1937), 10-12; E. D Jones, 'The Brogyntyn Welsh Manuscripts', *Cylchg LIGC v* (1947-8), 237-57.

*Llawysgrifau yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd*

**C 1.20, 112:** Elizabeth Phillips, 1850 (copi o C 4.110 [= RWM 47]), gw. Graham C. G. Thomas and Daniel Huws, 'Summary Catalogue of the Manuscripts of South Glamorgan Libraries, Cardiff Central Library, commonly referred to as the 'Cardiff MSS'' (Aberystwyth, 1994), 2-3.

**C 2.6 [= RWM 13], 94:** John Thomas Griffith, c. 1609, gw. RWM ii, 158-62; Thomas and Huws, 'Summary Catalogue of the Manuscripts ... commonly referred to as the 'Cardiff MSS'', 74.

**C 3.37 [= RWM 20], 118 + 136:** llaw anh., 1614-36, gw. RWM ii, 193-202; Thomas and Huws, 'Summary Catalogue of the Manuscripts ... commonly referred to as the 'Cardiff MSS'', 226.

**C 3.116 [= RWM 79], 223:** Edward Charles, 1796-9, gw. RWM ii, 297-9; Thomas and Huws, 'Summary Catalogue of the Manuscripts ... commonly referred to as the 'Cardiff MSS'', 235.

**C 4.10 [= RWM 84], 596 + 1015:** Dafydd Jones, Trefriw, canol y 18g., gw. RWM ii, 790-3; Thomas and Huws, 'Summary Catalogue of the Manuscripts ... commonly referred to as the 'Cardiff MSS'', 315.

**C 4.110 [= RWM 47], 205:** David Ellis, Cricieth, 1771-95, gw. RWM ii, 239-43; Thomas and Huws, 'Summary Catalogue of the Manuscripts ... commonly referred to as the 'Cardiff MSS'', 328.

**C 4.156 [= RWM 64], 293:** Margaret Davies, Coetgae-du, Trawsfynydd, 1736-7, gw. RWM ii, 272-85; Thomas and Huws, 'Summary Catalogue of the Manuscripts ... commonly referred to as the 'Cardiff MSS'', 334.

**C 5.30 [= RWM 65], 26:** llawiau anh., 1681-4 (gall fod yn llaw Siôn Dafydd Laes), gw. RWM ii, 285-9; Thomas and Huws, 'Summary Catalogue of the Manuscripts ... commonly referred to as the 'Cardiff MSS'', 439.

*Llawysgrifau yng nghasgliad Cwrwmawr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**Cw 11, 12 + 353 + 393:** David Ellis, Cricieth, 1777, (y mae ail ran y llsg. (tt. 265-475) yn gopi o lsg. Cw 312, gw. isod) gw. RWM ii, 895-900; B. G. Owens & R. W. McDonald, 'A Catalogue of the Cwrwmawr Manuscripts', i (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1980), 12-13.

**Cw 12, 85:** David Ellis, Cricieth, 1794 (copi o P 152), RWM ii, 900-3; Owens & McDonald, 'A Catalogue of the Cwrwmawr Manuscripts', i, 14-15.

**Cw 109, 66:** Charles Saunderson ('Siarl Wyn o Benllyn'), cyn 1832, gw. Owens & McDonald, 'A Catalogue of the Cwrwmawr Manuscripts', i, 140.

**Cw 312, 109 + 158:** llaw anh., diwedd yr 16g., gw. B. G. Owens, Rhiannon Francis Roberts & R. W. McDonald, 'A Catalogue of the Cwrwmawr Manuscripts', ii (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1993), 370; Eurys I. Rowlands, 'Llaw dybiedig Siôn Brwynog', Cylchg LIGC vii (1951-2), 381-2.

*Llawysgrifau yng nghasgliad J. Gwyneddon Davies ym Mhrifysgol Bangor*

**G 4, 98:** llaw anh., c. 1575, [y mae gweddill y llsg. mewn gwahanol lawiau, gan gynnwys llawiau Wiliam Middleton ac William Salesbury, o bosibl.] gw. R. Gwyneddon Davies, 'A Catalogue of MSS. the property of R. Gwyneddon Davies Caernarvon: MSS. 1-4' (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Bangor, 1916-17), 93b-117a; GSCMB 30; Ifor Williams, 'Protestaniaeth Wiliam Midleton', B viii (1935-7), 245-7.

**G 6, 75:** Peter Bailey Williams, 1794, gw. R. Gwyneddon Davies, 'A Catalogue of MSS. the property of R. Gwyneddon Davies Caernarvon: MSS. 5-25' (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Bangor, 1916-17), dan rif y llsg.; GSCMB 30-1.

**G 14, 74 + 83:** Peter Bailey Williams, 1796, gw. Davies, 'A Catalogue of MSS. the property of R. Gwyneddon Davies Caernarvon: MSS. 5-25', dan rif y llsg.; GSCMB 30-1.

*Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen*

**J 140 [= RWM 15], 512:** llaw anh., chwarter cyntaf yr 17g., gw. RWM ii, 57-64; E. D. Jones, 'The Brogyntyn Welsh Manuscripts', Cylchg LIGC vi (1949-50), 223.

*Llawysgrifau yng nghasgliad Llanstephan yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**LI 118, 102:** *Carpiog Aber Llyfeni*, Wmffre Dafis (ob. 1635), rhwng 1601 a 1635, gw. RWM ii, 579-92; E. D. Jones, 'The Brogyntyn Welsh Manuscripts', Cylchg LIGC v (1947-8), 234; ByCy 117.

**LI 122, 496:** Wiliam Bodwrda, rhwng c. 1644 a 1650, gw. RWM ii, 609-20; R. Geraint Gruffydd, 'Llawysgrifau Wiliam Bodwrda o Aberdaron (a briodolwyd i John Price o Fellteyrn)', Cylchg LIGC viii (1953-4), 349-50; Dafydd Ifans, 'Bywyd a Gwaith

Wiliam Bodwrda (1593-1660) o Aberdaron' (M.A., Cymru [Aberystwyth], 1974), 384-98; *idem*, 'Wiliam Bodwrda (1593-1660)', Cylchg LIGC xix (1975-6), 300-10.

**LI 123, 181:** Wiliam Bodwrda ac eraill, rhwng c. 1644 a 1650, gw. RWM ii, 620-34; Gruffydd, 'Llawysgrifau Wiliam Bodwrda o Aberdaron', 349-50; Ifans, 'Bywyd a Gwaith Wiliam Bodwrda', 354.

**LI 125, 577:** Wiliam Bodwrda a chynorthwydd, c. 1644-50, gw. RWM ii, 649-62; Gruffydd, 'Llawysgrifau Wiliam Bodwrda o Aberdaron', 349-50; Ifans, 'Bywyd a Gwaith Wiliam Bodwrda', 375-83.

**LI 133, 35 + 124 + 399 + 1185:** *Important Corpus of Welsh Poetry*, Samuel Williams [a Iaco ap Dewi (tt. 196-243)], ym 1712 y copiodd Iaco ei adran ef, gw. RWM ii, 664-94; Garfield H. Hughes, *Iaco ab Dewi 1648-1722* (Caerdydd, 1953), tt. 37-40; MWM 102.

**LI 147, 267:** David Parry (un o gynorthwywyr Edward Lhuyd), 1697, gw. RWM ii, 726; G. J. Williams ac E. J. Jones (goln.), *Gramadegau'r Penceirddiaid* (Caerdydd, 1934), t. xv.

**LI 168, 160:** llaw anh., c. 1630 (tt. 1-164) [a llaw arall anh., diwedd y 16g. (tt. 169-258)], RWM ii, 757-9.

**LI 173, 64 + 122:** llaw anh., 16-17g., gw. *ibid.* 764-6.

*Llawysgrif yng nghasgliad Plas Nantglyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**Nant 2, 146:** Foulke Wynne, Nantglyn, a Robert Lloyd, Segroed Uchaf, 17g., gw. 'A Schedule of the Plas Nantglyn Manuscripts and Papers' (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1949), 1-11.

*Llawysgrifau yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**NLW 96B, 3:** John Rowlands, canol y 19g. (copiwyd o lsg. C 2.6 [= RWM 13]), gw.

NLWCM 106.

**NLW 644B, 17:** *Llyfr Robert Hwmffra*, llaw anh., ?canol yr 17g., gw. HMNLW i, 44.

**NLW 659A, 30:** llaw anh., 19g., gw. *ibid.*, 45.

**NLW 666C, 65:** William Jones ('Bleddyn'), Llangollen, 19g., gw. *ibid.* 46.

**NLW 673D, 298:** William Jones ('Bleddyn'), Llangollen, 19g., gw. *ibid.* 47.

**NLW 728D, 49:** llaw anh., 16/17g., gw. *ibid.* 54.

**NLW 841E, 1:** llaw anh., 19g. gw. *ibid.* 65.

**NLW 1591D, 208:** Angharad Llwyd, hanner cyntaf y 19g., [ceir eitemau eraill mewn llawiau anh., 17-19g.,] gw. *ibid.* 136.

**NLW 2023B [= Panton 56], 382:** Evan Evans ('Ieuan Fardd'), canol y 18g., RWM ii, 862-3.

**NLW 3027E [= M 96], 297:** Siôn Dafydd Laes, o bosibl, tua chanol yr 17g., RWM i, 18-22; ByCy 119-20.

**NLW 3051D [= M 148], 493 + 498:** llawiau anh. [a Thomas Davies], ail hanner yr 16g. ond cyn 1594, gw. RWM i, 196-212; GIBH 206; MWM 314 n.49.

**NLW 3057D [= M 161], 57:** llawiau anh., c. 1558-63, [a llawiau anh., canol yr 17g.,] gw. RWM i, 242-55; MWM 327.

**NLW 3077B, 195:** llawiau anh., 17g., gw. HMNLW i, 264.

**NLW 5269B [= Dingestow 9], 489b:** un o gopiwydr Dr John Davies, Mallwyd, 1626-44, [a llawiau anh., 17-19g.,] gw. HMNLW ii, 82.

**NLW 19907B [= J. Gwenogvryn Evans ii.4], 250a:** Rhys Jones o'r Blaenau, 18g., [ar ddiwedd llsgr. yn llaw Robert Vaughan, Hengwrt, 17g.,] gw. 'Schedule of



Manuscripts, Books, etc., from the Library of the late Dr. John Gwenogvryn Evans’  
(cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1930), 3; ByCy 474.

**NLW 21248D [= M (heb ei rhifo)], 35 + 187b:** *Llyfr Gwyn y Berth-ddu*, sawl llaw (gan gynnwys llawiau Wmffre Dafis a Richard Cynwal), hanner cyntaf yr 17g., gw. ‘Catalogue of Mostyn MSS purchased in 1974’ (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1975), 24-65; GHD t. 127; GRhGE t. 292; MWM 327.

**NLW Mân Adnau 55B [= Abertawe 1], 130:** *Y Piser Hir*, David Ellis, Cricieth, c. 1788, gw. Dafydd Ifans, ‘A Schedule of Items and Collections Classified as Minor Deposits’ (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1975), 4.

**NLW Mân Adnau 1206B [= Tan-y-bwlch], 913 + 262:** llawiau anh., c. 1700, gw. ‘Schedule of the Contents of a Manuscript Volume of Welsh poetry known as Tanybwlch Manuscript’ (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1932), 1-42.

*Llawysgrifau yng nghasgliad Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**P 55, 84 + 165:** llawiau anh., [y mae cerddi Dafydd Epynt yn y llsgr. yn llaw’r bardd,] c. 1500, gw. RWM i, 421-5; MWM 63; GDEp tt. 209, 22-3.

**P 60, 133:** llawiau anh. (nifer o’r cerddi yn llaw’r bardd a’u cyfansoddodd – y mae’r gerdd gan Robin Ddu yn ei law ei hun o bosibl), c. 1510-15, gw. RWM i, 437-40; MWM 63.

**P 64, 167:** Simwnt Fychan, ar ôl 1577, gw. RWM i, 448-54.

**P 69, 129:** Rhys Cain, 1574-90, gw. *ibid.*, 467-70.

- P 72, 390:** Siôn Tudur, diwedd yr 16g., [gweddill y llsgr. yn llaw John Jones, Gellilyfdy, c. 1600, a llawiau anh., 16/17g. (dechreuwyd ysgrifennu'r llsgr. ym 1581),] gw. *ibid.* 477-86.
- P 97, 201:** llawiau anh., c. 1605 [tt. 292-97 yn llaw Robert Vaughan, Hengwrt, fe ymddengys] gw. *ibid.* 603-9.
- P 99, 230:** cynorthwydd Dr John Davies, Mallwyd, c. 1610-20, [ceir tair llaw arall – Dr John Davies, Mallwyd, ei hun, c. 1610-20, William Salesbury, ail hanner yr 16g., a llaw anh.,] gw. *ibid.* 613-24.
- P 100, 107 + 391:** Dr John Davies, Mallwyd (t. 107), a chynorthwydd (t. 391), c. 1610-20, gw. *ibid.* 624-34; Rhiannon Francis Roberts, 'Bywyd a gwaith Dr. John Davies, Mallwyd' (M.A., Cymru [Bangor], 1950), 342.
- P 124, 283 + 317:** llaw anh., ar ôl 1713, gw. RWM i, 754-68.
- P 152, 135:** Robert Vaughan, Hengwrt, canol yr 17g., gw. *ibid.* 927-32.
- P 184, i, 37:** rhan gyntaf y llsgr. mewn llaw anh., hanner cyntaf yr 17g., ar ôl 1606, [ail ran y llsgr. mewn llaw anh., ail hanner yr 16g., y drydedd ran mewn llaw anh., hanner cyntaf y 17g.,] gw. *ibid.* 1008-11.

**P 198, 143:** *Llyvyr Brith Cors y Gedol*, llaw anh., c. 1693-1701, gw. *ibid.* 1026.

**P 221, 136 + 182 + 197:** John Jones, Gellilyfdy, c. 1605-c. 1620, gw. *ibid.* 1045; Nesta Lloyd, ‘A History of Welsh Scholarship in the First Half of the Seventeenth Century, with Special Reference to the Writings of John Jones, Gellilyfdy’ (D.Phil., Oxford, 1970), 26-7; M. T. Burdett-Jones, ‘Trydydd Llyfr Cywyddau John Jones, Gellilyfdy’, YB xvi (1990), 127-40.

**P 312, ii, 84:** John Jones, Gellilyfdy, c. 1610-40, gw. RWM i, 1114-18.

### *Dull y golygu*

Ar y cyfan, defnyddiwyd yr un dull o olygu ac a geir yn y cyfrolau sydd yng nghyfres ‘Beirdd yr Uchelwyr’ Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Lluniwyd testun cyfansawdd o’r cerddi, gan nodi darlleniadau amrywiol yn yr ‘Amrywiadau’. Ni chafwyd llawer o amrywiadau yn nhrefn llinellau’r cerddi (ar wahân i gerddi 1 ac 11), sydd yn dangos na fu llawer o gylchrediad llafar ar y cerddi hyn, yn wahanol i gerddi brud y cyfnod.<sup>71</sup>

Bu llawer o ddadlau ynglŷn â’r dull hwn o olygu barddoniaeth oherwydd, fel y dywedodd Thomas Parry yn ei ragymadrodd i’w olygiad o *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, y mae

---

<sup>71</sup> Gw. ymhellach Heledd Haf Williams, ‘Rhai cerddi anghyhoeddedig a briodolir i Ddafydd Llwyd’ (M.A., Cymru [Bangor], 2006), 26-7; GIG xxvii-xxviii.

‘[d]ewis y darlleniad i’w gymeradwyo yng nghorff y gerdd ... i ryw raddau yn dibynnu ar chwaeth bersonol, a geill honno fod yn ffaeledig.’<sup>72</sup>

Ifor Williams a Thomas Roberts oedd y rhai cyntaf i ddefnyddio’r dull hwn yn *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a’i Gyfoeswyr* (ym 1914).<sup>73</sup> Bwriadodd Owain Myfyr a William Owen-Pughe ddilyn y drefn hon yn eu golygiad hwy o waith y bardd ym 1789, ond penderfynasant beidio gan fod cymaint o wahanol ddarlleniadau. Ceisiasant ‘ddethol y darlleniad gorau o ran purdeb iaith, synwyr, a chynghanedd.’<sup>74</sup> Dilynwyd a chywreiniwyd dull Ifor Williams a Thomas Roberts gan Thomas Parry yn ei olygiad ef o waith Dafydd ap Gwilym.

Ceir amheuaeth ynglŷn â pha mor ddilys yw’r dull hwn – dywedodd Ifor Williams, ei hun, yn ei ragymadrodd: ‘Ceisiwyd cael gafael ar y testyn cywir trwy gymharu y llawysgrifau gorau, ond methiant fu’r cynnyg yn aml oherwydd ein hanwybodaeth.’<sup>75</sup> Ceir trafodaeth gan Dafydd Johnston ar hyn yn y golygiad newydd o waith Dafydd ap Gwilym sydd ar-lein. Un feirniadaeth ar y dull

yw’r ddadl bod y cysyniad o destun sefydlog yn estron i ddiwylliant llafar, ac na fu un testun gwreiddiol sefydlog erioed am ei fod yn amrywio bob tro y câi’r gerdd ei pherfformio o’r newydd gan y bardd ei hun.<sup>76</sup>

Cofier hefyd fod bwlch mawr o amser (o leiaf gan mlynedd) rhwng cyfnod canu’r cerddi a phryd y copiwyd y llawysgrifau hynaf. Felly, pa mor debyg i’r cerddi gwreiddiol all y golygiadau fod? Beirniadwyd golygiad Thomas Parry oherwydd hyn gan rai fel Helen Fulton, a ddywedodd:

---

<sup>72</sup> GDG t. cxcv.

<sup>73</sup> Ifor Williams a Thomas Roberts (goln.), *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a’i Gyfoeswyr* (Bangor, 1914).

<sup>74</sup> Owen Jones ac William Owen (goln.), *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym* (Llundain, 1789), t. xli.

<sup>75</sup> Williams a Roberts (goln.), *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a’i Gyfoeswyr* (Bangor, 1914), t. lxxxv.

<sup>76</sup> Dafydd Johnston, ‘Egwyddorion y Testunau Golygedig’, t. 2, DG.net. Gw. hefyd Jerry Hunter, ‘Testun Dadl’, *Tu Chwith*, 3 (1995), 81–5; Helen Fulton, ‘Awdurdod ac Awduriaeth: Golygu’r Cywyddwyr’, *Cyfoeth y Testun: Ysgrifau ar Lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol*, gol. Iestyn Daniel, Marged Haycock, Dafydd Johnston a Jenny Rowland (Caerdydd, 2003), tt. 65–8, a gw. ymhellach yr ysgrif gyfan tt. 50–76.

The end results of this method ... are metrically and linguistically flawless poems, by 20th-century standards, which unfortunately do not appear exactly in that form in any single manuscript copy, but which are a compilation or patchwork of approved readings taken from several manuscript sources, often of different dates. The poems are, in fact, the product of the modern editor rather than of the renaissance scribe, still less of the medieval poet.<sup>77</sup>

Pan awn ati i olygu'r cywyddau, nid oes modd dod o hyd i ryw destun 'gwreiddiol' a awdurdodwyd gan ei awdur. Yn hytrach, talu teyrnged a wnawn i gopiwyr a chasglwyr llawysgrifau'r Dadeni. Fersiynau'r oes honno a geir yn y llawysgrifau, ffrwyth trosglwyddo'r cywyddau drwy estheteg a theorïau ystyr y Dadeni.<sup>78</sup>

Dyma a ddywedodd Thomas Parry ei hun dros ddefnyddio'r dull hwn:

Yn yr argraffiad hwn fe geisiwyd llunio testun safonol i'r cerddi, a'i gyfleu yn yr orgraff a gydnabyddir heddiw. Dull arall a gymeradwyir gan rai ysgolheigion, sef argraffu'r copi hynaf o'r gerdd ac ychwanegu amrywiadau o lsgrau. eraill. Ond pan fo bwch hir rhwng oes y bardd a'r copi hynaf o'i waith, fel y mae'n digwydd gyda DG, nid oes dim arwyddocâd na phwysigrwydd yn y copi hynaf, oherwydd fe eill hwnnw fod yn fwy llwgr na chopi diweddarach. Ac i'r sawl a fyn wybod natur ac ansawdd barddoniaeth DG, y mae argraffiad darllenadwy, wedi ei atalnodi i ddangos yr ystyr, yn fwy gwerthfawr na chopi nad yw'n profi dim yn derfynol ond orgraff rhyw gopiwr oedd yn byw gan mlynedd ar ôl marw'r awdur.<sup>79</sup>

Rhaid ystyried, felly, y ddadl bwysig sy'n codi o ganlyniad i'r holl waith dewis a dethol sydd ynghlwm â golygu, sef: pwy, mewn gwirionedd, sy'n gyfrifol am y cerddi golygedig fel testun terfynol – y bardd, copiwyr y llawysgrifau ynteu'r golygydd? Y mae'n amhosibl dweud pa mor debyg, mewn gwirionedd, yw'r testun golygedig i gyfansoddiad gwreiddiol y bardd. Yr unig beth y gall y golygydd ei wneud yw gwneud y gorau o'r ffynonellau sydd ganddo. Efallai bod testun terfynol, golygedig, cerddi beirdd o'r oesoedd canol a'r cyfnod modern cynnar yn artiffisial, ond dyna'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflwyno'r cerddi hyn i gynulleidfa'r unfed ganrif ar hugain, a'u trosglwyddo i'r oesoedd a ddêl.

<sup>77</sup> Fulton (ed.), *Selections from the Dafydd ap Gwilym Apocrypha*, tt. xix-xx.

<sup>78</sup> Fulton, 'Awdurdod ac Awduriaeth', 72-3. Gw. hefyd Johnston, 'Egwyddorion y Testunau Golygedig', t. 4.

<sup>79</sup> GDG t.cxciv.

## *Y testun*

### *1*

#### *Moliant i Dduw*

Adda a'i hil oedd dda'u helynt,  
Aeth i Uffern gaethwern gynt;  
A hil Noe hen, lawen lyw,  
4 A 'deiliodd rhag ofn Dilyw;  
Ac oes Abram ddiamau,  
Ben ffydd, myn Mair, nid gair gau;  
A chwbwl o oes Moesen –  
8 Bennaf a'r hynaf ŵr hen;  
Ac oes Dafydd, llywydd llwyd,  
Braff, y gŵr a fu broffwyd.  
Llyma'r pumoes, loes laesu,  
12 A fu yn Uffern ddygnwern ddu.  
Oni ddoeth, rhygoeth rhagor,  
Da iawn oedd eni Duw Iôr;  
A'u gwir brynu yn druan,  
16 Ar Ei gorff, aur yw Ei gân;  
Ac ar Ei gnawd, wiwgnawd waith,  
A'i waed pan oedd ddiwydwaith.  
Da fu i Fair, difai fawredd,

20 Ei ddwyn i'r byd heb wŷd wedd;  
Yn Dad, yn Fab, yn aberth,  
Yn Ysbryd Glân mewn cân certh;  
A dwyn gyda Duw Ei Dad,  
24 A glywais, ran goleuad.  
Seren hoyw lân loyw ar lwydd,  
Rhosyn wybr, rhyson ebrwydd;  
I ddangos, grym agos gred,  
28 Geni y Mab gogoned.  
Pan gyfodes yr Iesu  
Yn Wŷr o faint, iawn Iôr fu,  
Yn ddengmlwydd, cof hylwydd cain,  
32 Iôr yw rhagor, ar hugain;  
Yna y doeth ein gwiw ener,  
Crist Arglwydd Nef, hylwydd Nêr,  
I ddiodef, Nêr a'n gweryd,  
36 Drais drom loes dros bumoes byd.  
Nid amgen, awen ewybr,  
Y darfu, rhaid medru mydr.  
A Suddas gul, addas gawdd,  
40 Destun gwrthun, a'i gwerthawdd;  
Yr Arglwydd cun, hylwydd, cain,  
Rhygoeth, er deg ar hugain.

Nid amgen daith, faith fwriad,  
44 Bryd no duw Mercher y brad.  
Difiau, fy llew difai llwyd,  
Cwblach na dim y cablwyd.  
Duw Gwener, rhyw hyder rhwydd,  
48 Hynod Ei fawrglod f' Arglwydd.  
Ac ar bren, er gwir brynu  
Y byd o Uffern, y bu.  
A cherydd mawr a choron  
52 Ddrain bigog, Iôr enwog Iôn;  
A hoelion drud hirion draw,  
Duraidd alar, drwy'i ddwylaw;  
A hoel braff, rhygraff y'i rhoed,  
56 Ddudrom hir, drwy Ei ddeudroed.  
Rhod o ras, rhoed yr Iesu,  
O'r diwedd, mewn dyfnfedd du.  
A'r trydydd dydd, W'r tradoeth,  
60 Gwir dduw Pasg, ar dasg y doeth,  
Y codes, hanes hoywNuw,  
Furnwy fedd, o farw'n fyw.  
Goresgynnodd, dygodd yn dâl  
64 Holl Uffern irwern oerwal.  
Cwpláu a wnaeth, digaeth dôn,



A ddywod wrth 'r Iddewon.  
 Prynodd â'i gorff, heb orffwyll,  
 68 Y byd, yn gyflawn o'i bwyll.  
 Pymtheg y sydd, rhydd yw'r rhain,  
 Iôr wÿth rhagor, a thrigain;  
 A phum mil, grym seintfil grair,  
 72 Pedwar cant, gwarant gwirair;  
 O archollau, rhadau rhwydd,  
 Gras deirglod, ar Grist Arglwydd.  
 Aur Dy ddelw, er Dy ddolur,  
 76 Er Dy gorff ac er Dy gur.  
 Eurdeg W'r er Dy goron,  
 A'th waed gwiw, a'th friw i'th fron.  
 Pan fyddwy' dan furnwy fedd  
 80 Gerrig a phridd yn gorwedd,  
 Erglyw fy ngweddi, f' Arglwydd:  
 Dwg f'enaid, rhyw amnaid rhwydd,  
 Hyd atad i'th wlad a'th wledd,  
 84 Ar dri gair i'r drugaredd.

*Ffynonellau*

A – B 14984, 332b    B – B 15010, 37b    C – Brog (y gyfres gyntaf) 3, 584    D – Ll  
 173, 122    E – NLW Mân Adnau 1206B [= Tan-y-bwlch], 913

### *Amrywiadau*

1 A Adda [a'i h]il (*y mae'n llsg. hon yn aneglur iawn mewn rhai mannau*), B Adda ei hil, E Adda ei hîl. 2 A gaeth [w]e[rn], CDE gaeth wern. 3 AE Ar ail Noe, B Ar Ail Noè. 4 AE a adeiliodd (*y mae'n bosibl fod ymgais wedi bod i ddileu'r a ar ddechrau adeiliodd yn llsg. E*), B a adeilodd, C a deilodd, D a deiliodd; D ofyn. 5 D ddi a mav, E [d]diammau. 6 A benn ffydd i air, B Ben ffydd ei Air, E ben ffydd ei air; C gair nid gav. 7 C achwbwl, E A chwbl; A [o]; D foesen. 8 A benna[f] a[r] hyna[f], CD bena[f] ar hyna[f]; C hen (*wedi'i gywiro o hyhen*). 9 C dd[afydd]; A llwydd. 10 B ar Gwr, E ar gŵr. 11 A Llyma yr, B Llyna'r, D dymar, E llyna'r; A p[u]moes, B pum Oes, D pvm oes; AB lyssû, E lysy. 12 A ni bû yn Vphern, E A fy /n/ Vffern; B ddywern, C ddyfn wern, D ddygyn wern, E ddiwern. 13 AE O ni, C o ni; E ddaeth. 14 A da mwy; BE oedd ein, C fu eni. 15 AE An gwir, B A'n gwir. 17 C wiw gnaw[d] waith, D wiw gnawd waith, E wiwgnawdwaith. 18 B Ai Waedd; A ynn oedd, B yno oedd, C pand oedd, E oedd yn; A ddiwedd waith, B Ddiwid waith (*ceir einiaith wedi ei ysgrifennu mewn llaw arall uwch ben Ddiwid waith, i newid y llinell i Ai Waedd yno oedd Ddiweiniaith – sydd yn llinell gywir (ond 8 sill) o gynghanedd groes, gyda hanner cyntaf y gyfatebiaeth yn gorffen ar yno, yn hytrach nag ar Waedd*), C ddiwdwaith, E ddiwid waith. 19 A Da a fu; A ddifri fowredd, E difri fowredd. 22 A mew[n]. 23 CD [Ei]. 24 A ra n goleuad. 25 AE A seren; ABE [lân]; AE arwydd, B Arwÿdd, C [a]rwydd, D ar wydd. 26 A [r]hy son, C rhyw son, D rhv son, E rhy sôn; C ebrwdd. 27 ABE achos, D a gos. 30 E o faint, yn iawn; BE [lôr]. 31 A Yn ddeng mlwydd; A cû hylwydd, B Cu hÿlwÿdd, E cu hylwydd; D kai[n] (*ymyl y ddalen wedi'i difrodi*). 32 A ior yw y rhagor ar rhigiain. 33 A yno, E Yno; E daeth; ADE yn gwiw, C yngwiw; A en[e]r. 34 E Christ Arglwydd (*wedi'i gywiro o Christ Alglwydd; A naf, B Nâf, E*

naf; *D* hylwyd[d Nêr] (*ymyl y ddalen wedi'i difrodi*), *E* nêr (*wedi'i gywiro o nêf*). 35 *C* i ddiodde[f] y ner; *A* angweryd, *C* ar weryd. 36 *C* draig; *A* dro mloes; *B* bum Oes, *E* bum oes. 37 *A* amg[ ]en; *A* ewybyr, *B* [e]Wÿbr, *E* [e]wybr. 38 *ABE* i darfu, *D* i darfv; *A* yr h[ ] haid medrû (*gair wedi'i ddileu yma, o bosibl*), *CD* rhaid yw medrv. 39 *C* na; *B* Suddas goed, *E* suddas goel; *C* ddiras gawdd. 40 *AE* defyn, *B* Defÿn; *C* [g]wrthvn a[']i g]werthawdd. 41 *A* cû[n], *B* [cun], *E* cu[n]. 42 *A* rhy gaeth, *E* rhy goeth; *B* ar; *A* degar rhigiain. 44 *ABE* na; *E* Dydd; *A* mer[ch]er, *D* mercher (*wedi'i gywiro o merther, o bosibl*). 45 *A* Difia[u], *B* Dyfiau, *C* difie, *E* Difie; *B* fÿ'n, *D* fv; *B* difan. 46 *E* [C]wblach (*collwyd dechrau llinellau 46 a 48-72 yn y llsg. hon*); *AC* no; *E* ai cablwyd. 47 *A* [Du]w gwener, *B* Dÿdd Gwener, *E* Dydd gwener; *ABE* mawr hyder. 48 *A* hy[n]od, *E* [H]ynod. 49 *A* [Ac] Ar ryw brenn, *B* [Ac] Ar ryw Bren, *E* [Ac a]r ryw bren. 50 *E* [Y] byd; *A* o boenaû, *BE* i Uffern. 51 *E* [A]. 52 *B* Drain, *E* [Dd]rain; *D* pigog, *E* brigog; *AE* wr enwog, *B* Iawn enwog. 53 *E* [A]. 54 *B* Dur oedd, *E* [Du]raedd; *B* drwÿ ei ddwÿlaw, *C* drwy[']i ddwÿlaw. 55 *DE* [A] (*ymyl y ddalen wedi'i difrodi yn y ddwy lsg.*); *C* rygraff, *D* rhy graff; *C* a roed. 56 *A* ddûr drom, *C* ddv drem, *D* [Ddu]drom (*ymyl y ddalen wedi'i difrodi*), *E* [Dd]u drom. 57 *A* Rhyd o ras, *B* Rhÿd o Ras, *E* [Rh]yd o rês. 58 *A* or y diwedd, *E* [O'r] diwedd; *B* Dyfn fedd, *C* [d]yfnedd (*ceir twll yn y llsg., yma*), *E* dyfn fedd. 59 *C* y trydydd dydd, *E* [A'r] trydydd dydd; *C* dy wr. 60 *E* [Gw]ir; *AE* or dasc. 61 *E* [Y]; *A* ha[n]es; *A* hoyw wiwyw, *B* hoyw wiw ÿw, *CD* hoiw nvw, *E* hoyw wiw, yw. 62 *A* furn yw fedd, *B* farn yw fedd, *E* [Fu]rn yw fêdd; *ACDE* o farw yn fyw, *B* o farw yn fÿw. 63 *E* [Gor]esgynnodd dygodd /n/ dâl. 64 *E* [Ho]ll fawr Uffern; *A* ir wern, *BE* mewn, *D* i[r] wern; *AD* oer wal. 65 *A* Cwplhaû, *E* [Cw]plau. 66 *A* a ddowad, *B* A Ddowaid, *E* [A d]dywad; *ABE* [']r, *CD* yr. 67 *E* [Pr]ynôdd. 68 *D* y byd (*wedi'i gywiro o y bydd*), *E* [Y] byd; *ABE* o[']i bwyll. 69 *E* [Py]mtheg; *B* [y] sÿdd, *C* [y] sydd; *B* yn rhÿdd, *C* [rhydd], *E* rhwydd; *A* y[w'r] rhain, *D*

ywr hain. 70 *E* [Iôr]; *C* wrth rhagor. 71 *A* *A* ffumil, *C* a ffvmil, *E* [A p]hym mil; *A* saint hil, *B* Saint hil, *C* seithmil, *D* sentfil, *E* saint hîl. 72 *A* p[e]dwarcant, *E* [Pe]dwarcant. 73 *A* rhaddau, *C* rhodiav, *D* rhad rhodav. 74 *A* grest eurglod, *B* Grest irglod, *C* gras deirglod (*wedi'i gywiro o gras deirglodaid*), *E* grest irglod. 75 *B* ar dy Ddolûr. 76 *D* Ar dy gorff. 77 *D* evr dec. 78 *A* [ ]ath waed; *B* ith friw; *A* oth fron, *B* a'th fron, *D* [i'th fron] (*ymyl y ddalen wedi'i difrodi*), *E* ath fron. 79 *A* [Pan fydd]llwy (*darn aneglur*); *A* tan fynwŷ, *B* du fynwŷ, *E* da fynwŷ; *A* fedd [ ]yn (*y mae hwn, o bosibl, yn cyfeirio at yr hyn a geir ar ddechrau'r ll.*). 80 *A* o g[er]rig, *C* geirig; *A* yn i [go]rffedd (*y mae'n bosibl y ceisiwyd dileu'r yn, yma*). 81 *A* fy arglwydd, *B* fy Arglwŷdd, *D* [f']arglwydd, *E* [f']Arglwudd. 82 *C* anaid rhwydd, *D* amaid rhwyd[d]. 83 *E* Byd; *A* attat. 84 *A* ar dir gair, *E* Ar drigair; *A* [i']r drigaredd, *C* oi drigaredd, *E* i[r] drigaredd.

### *Teitl neu raglith*

*A* [ ]owydd yn dangos y pumoes a fu [ ]yn Crist [ ] modd [ ] prynnodd Crist y byd [ ]digaeth i frad [ ]ad [ ]dioddefaint ai gyfodiad. Robinn Dhu. *B* Cowydd i Dduw. *E* Cywydd i Dduw.

### *Olnod*

*A* Robin Ddu. *B* Robin Ddû. *C* Robin ddv ai kant. *D* Robvn đđv ai Kant. *E* 1460 Robin Ddû ai Cant.

*ABE* 1-84.

*C* 1-2, 7-8, 3-6, 9-58, 65-6, 59-64, 67-84.

*D* 1-2, 7-8, 3-6, 9-20, [21-22], 23-58, 65-6, 59-64, 67-84.

*Moliant Siôn Llwyd o Dir Brychan*

Deau neu bryns yn dwyn brig,  
 Dwyrain gwaed, yr hen goedwig;  
 Sef yw'r bryd nesaf i'r brain –  
 4 Siôn Llwyd, dros y naill adain;  
 Gwaed ieirll wyd o goed i'r llall,  
 Gwedi bwrw gwaed byw arall.  
 Tywyllu'r lawnt a lliw'r wlad,  
 8 Tân gloyw wyt ti'n goleuad.  
 Ewch â thid, chwi a Thewdwr,  
 At Waithfoed gynt, wythfed gŵr;  
 Och Dduw! Tir achoedd y tad,  
 12 Onid eloch chwi'n daliad;  
 O bu'r anab ar weiniaid,  
 Weithian y rhoi wrth ein rhaid;  
 Dyn meinwyllt yn dân mynydd,  
 16 Dyn yw o faint, danoch fydd.  
 O dri llyw y'ch darllewyd:  
 O ffydd a lliw Gruffudd Llwyd;  
 Gwaed teirw hydr o goed Rhodram  
 20 Yt a fydd, gwaed Dafydd Gam;

Seiant ar ias o Went draw,  
Siôn Llwyd a'i bwys yn Llydaw.  
Llew wrth gynnull eirth gennyd,  
24 Llwyth Urien bell, wythran byd.  
Bwyall yt, y mab llwytu,  
Fall Dduw, mae'r fwyall ddu?  
Carw wyd ar wŷr o'r cwr draw,  
28 A cheirw danoch o'r deunaw.  
Gwna ôl awch genol echwydd,  
Ni wnei di na iawn na dydd.  
Dyn gwâr wyd gyda'r naill,  
32 Dyn garw, doniog, i eraill.  
Llywarch wyd yn gwellhau'r chwedl,  
Lleiha gŵyn dy holl genedl.  
Wrth frwydr y'th fwriadwyd,  
36 Wŷr ddull a hap Gruffudd Llwyd.  
Dy wlad yw gwlad dan dy glog,  
Deffroi wlad, dy ffriw lidiog.  
Tir dad heb wad lle boch,  
40 Tir hydyna'r teirw danoch.  
Gwyllt ail wyd, gwell dy lidiaw,  
Gwyllt ar deirw, ach Gwallter draw.  
Dy fraich yw braich gyda brân,

- 44 Ceidw Duw'r braich, cadw Dir Brychan.  
Cyw edn wyd, acw dan iau,  
Clog aur yn cael y gorau.  
Cei y deyrnas, ein cadw arnam,
- 48 Cost fwyn, ys ceisiaw dy fam;  
Capten, gwaed Urien dewrwyd,  
Canmol oedd fwy, canmlwydd fych.

*Ffynhonnell*

NLW 728D, 49

*Amrywiadau*

7 tywllyr. 10 waith / voed. 12 ony / deloch; chwi / yn. 13 anap; weniaid. 14 [y]. 15 meinwyll.  
16 tanoch. 17 lliw. 18 grvff[udd]. 20 tafydd. 21 traw. 26 vallt. 33 gwellav / r. 34 llai / ha. 36  
grvff. 38 dy / ffoi. 43 dy / vraych. 45 acwy. 47 kai. 48 vwynys. 49 dewr / wych.

*Teitl neu raglith*

kowydd / moliant / Sion / llwyd / o dir / brychan / Robin / ddv / ai / kant.

*Olnod*

Robin / ddv / ai / kant.

*Marwnad Tudur ap Dafydd ap Robert o Ddindaethwy*

Gwae'r beirdd, mae'r gwŷr heb urddas,  
 Gwŷdd a gro a gudd eu gras.  
 Blwyddyn oer – ba le'dd awn ni? –  
 4 Fileines a fu 'leni.  
 Y Ficses, gelynes gwlad,  
 A dry glaw a drwg leuad.  
 Am Dudur, benadur byd,  
 8 Y mae'r heulwen mor rhewlyd.  
 Dau ofid am fab Dafydd  
 Dan y sêr i'n dwyn y sydd,  
 A hiraeth farw ein heryr,  
 12 Ac eisiau gorau o'r gwŷr.  
 O Fôn yr âi ef unwaith,  
 Wŷr Robert teg, er bwrw taith.  
 Dyrnod pen, dwyn capten ced,  
 16 Fu i Wynedd ei fyned.  
 Pererin, parai euraw,  
 I Beder oedd y bu draw.  
 Croesi, mawr y'i caraswn,  
 20 A wnâi y Pab wyneb hwn.



Cael cyffes a bodd Iesu,  
Cymod am ufudd-dod fu.  
Bwrw ail hynt a'r berwyl hon,  
24 Ar ôl ffin i'r ail ffynnon,  
Ac ar y ffordd, Iago'r ffydd,  
Ef a urddai ei fawrddydd.  
Synied Duw ar y sant hwn,  
28 Synied yntau Sant Antwn,  
Ac o fewn côr Iago fwyn  
Y gorweddodd gŵr addwyn.  
Llawer gwan yn ddianwyl,  
32 A llawer och, felly'r ŵyl.  
Castell a meddgell a mur,  
Ei fyd ydoedd, ef, Dudur,  
O rieni yr Ynys,  
36 O Roeg, ac o'r Arglwydd Rhys.  
Yn archangel y'i gwelid,  
Yn llew yn ymwan â llid;  
Yn gadarn fel darn o dŵr,  
40 Yn gall wawr, yn gellweiriwr.  
Gwae lawer mil gwylwyr Môn,  
A gwae'r ddwyradd gerddorion;  
Dwyn ein haul heb d'wnnu'n hwy,

44 Dwyn y doeth o Dindaethwy.  
Aed syched ar gyffredin,  
Aed tros gof wtres y gwin.  
Och Dduw Tad! O chuddiwyd hwn,

48 Bellach pwy a grybwyllwn?  
Pedr a roes pedwar wŵr ynn,  
Pyrth feddiant, porthfa iddyn',  
Angylion gwynion i'r gŵr

52 A'n ceidw rhag pob hocedwr:  
Lywelyn sy', wiwlan sant,  
O'r tŵr uchaf o'r trichant;  
Hywel, wirwr helwriaeth,

56 Yw'r ail tŵr ar ael y traeth;  
Y trydydd, megis tŵr Edwart,  
Yw Dafydd, wŵr difai ddart;  
Gwilym, tŵr Môn y'i gelwir,

60 Glain teg a goleuni tir.  
Balchaf yng Nghastell Bylchwyn  
Yw'r tir hwnt a'r tyrau hyn.  
Torri'r gad ac anturynt,

64 Tyrau main nadd tir Môn ynt;  
Drwyddyn' ac nis dadwreiddir  
Galar y tad o gloi'r tir.

Ne' i'r tad, gwnawn euro'r tau,

68

Teiroes gan Dduw i'r tyrau.

*Ffynonellau*

A – C 1.20, 112

B – C 4.110 [= RWM 47], 205

C – NLW 666C, 65

*Amrywiadau*

2 A graw. 3 C ble 'dd euwn ni. 4 AB Filieinies, C Hil einioes. 5 ABC Y Fiches. 6 ABC gwlaw.  
8 AB haulwen. 13 A un waith. 15 A Dyrned; C cadpen. 24 A [f]fin. 26 AB Efe a urddai (yn  
llsgr. B, *ychwanegwyd a wedi i'r llinell gael ei hysgrifennu*); AB ei fawr-ddydd. 28 A Antwn  
(*wedi'i gywiro o hwn*). 30 A gorw eddodd. 31 AB ddi anwyl (*wedi'i gywiro o ddi anwyll yn  
llsgr. A*), C ddianwyl. 34 AB I fÿd, C I fyd. 36 AB Rÿs, C Rys. 38 C yn ymladd. 41 AB  
gwyliwyr. 43 B Dwyn ein haul (*ychwanegwyd ein wedi i'r llinell gael ei hysgrifennu*); B  
d'w'nu'n (*wedi'i gywiro o dywynu'n*); A hwg (hwy *blêr, fwy na thebyg*). 44 A Yw Dwyn [y]  
doeth, B Yw dwyn [y] doeth. 46 C dros. 49 ABC yn[n]. 50 B Py[rth] (*ceir twll yn y llsgr.,  
yma*); A porth fa. 55 AB Howel; ABC wiriwr. 57 C prydydd; C Edward. 58 C ddard. 59 AB ei  
gwelir. 67 C Ner.

*Teitl neu raglith*

A Cywydd Marwnad Tudur ap Dafydd ap Robert o Dindaethw ym Môn. R. Dd.. B Cywydd  
Marwnad Tudur ap Dafydd ap Robert o Dindaethwy ym Môn. R. Dd. (*collwyd rhan o'r y ar  
ddiwedd Dindaethwy, oherwydd ei fod ar ymyl y dudalen*). C Marwnad Tudur ab Dafydd ab  
Robert o Dindaethwy.

*Olnod*

A Robin Ddu a'i Cant. Yr hwn y dywedir ei eni ym Mlhwyf Llanddeiniolen yn Swydd Gaernarfon, ac oedd yn byw ynghylch y Fl. 1460. B Robin Ddu a'i Cant. Yr hwn y dywedir ei eni ym Mlhwyf Llanddeiniolen yn Swydd Gaernarfon, ac oedd yn byw ynghylch y Fl. 1460. (*dilynir hyn gan dair ll. aneglur, wedi'u gwasgu*). C Robin ddu ai Cant O L.G. O.W.

*Trefn y llinellau*

A [1], 2-68.

BC 1-68.

*Moliant Siôn ap Tomas*

Iesu Naf, galwaf Siôn wyn – ap Tomas,

Mab tymer o Siancyn;

Bid iddo, lle bo'i dyddyn,

4 Croes Duw ail a nawdd Crist wyn.

Cadwyd Crist 'n y byd, oni bo oediog – hwn,

Hŷn Siancyn ap Madog;

Cael yn y mab calonnog,

8 Ysgwier, gryfder y Grog.

Y Grog, gwna'n farchog fab ei fam – y gŵr,

Aur gwarel Dafydd Gam;

Ni bydd ŵr cadarn arnam

12 A fai fal ei dad a'i fam.

Ei dad oedd geidwad rhag ergydion – gwŷr,

Yntau o'r milwyr â yn syr Siôn.

Rhan Phylib Fychan fuon' – fal Cadell,

16 Rhan y sy' well, er hyn, i Siôn;

Rhan Tomas gwynias, Gynon – o'i hynaif,

I'r hen far, a saif rhan fawr i Siôn.  
Ei genedl a'i nerth, brig Einion – afael,  
20 Ni bu undyn hael os anhael Siôn.  
Achau agwrdd gynt marchogion – o'r Gart,  
Pa wŷth is ei wart? Pa waeth yw Siôn?  
Nid undyn sy' ynn ond Siôn – ail Deulym,  
24 Nid tref y sy' ym ond tra fo Siôn.  
Ni erddir y tir tirion – hyd Galais,  
Ni ddilea Sais, oni ddêl Siôn.  
Eginyn terwyn waed hirion – ddugiaid,  
28 Ieirll a barwniaid sy' arddelwaid Siôn.  
Piler dan y sêr yr oes hon – bellach,  
Pwy y sydd ablach na sadach na Siôn?  
Pwy'r undyn sy' ynn ond Siôn – ap Tomas?  
32 Pwy'r dyn a welas Siarlas mal Siôn?  
Pwy gynt a roddynt arwyddion – Cadell?  
Pa un y sy' well? Penna' yw Siôn.  
Ys bo iddo fo hyd fôn – y draethen,  
36 Ys bo da ei sen, ys byd da i Siôn.  
Ef a rydd rywddydd roddion – yn gywraint,  
Ef a ddywed saint hawddfyd i Siôn.  
Emyn Gurig wyn o'r ganon – fo'i ras,  
40 Megis y cafas Siarlas i Siôn.

Nawdd Mair o'r gadair rhag ergydion – haint,  
Nawdd Dewi a'r saint, nawdd Duw ar Siôn;  
Nawdd Derfel, Sariel, ar Siôn – ap Tomas,  
44 Nawdd Duw ac Andras rhag sias ar Siôn;  
Nawdd Idnerth a'i nerth, nawdd Non – a'i gweryd,  
Nawdd Iesu hefyd, rhag symud Siôn.

### *Ffynonellau*

A – B 14991, 277b    B – LI 133, 35    C – NLW 2023B [= Panton 56], 382    D – P 100,  
107

### *Amrywiadau*

3 *ACD* bo i. 4 *D* Christ. 5 *ABC* Cedwyd, *D* Kedwyd. 6 *B* ab; *D* Mhadog. 9 *ACD* [e]i. 14 *B* â  
(*wedi'i gywiro o ac*). 15 *ACD* Phylip; *B* fel. 17 *BD* gwnias; *B* hŷnaif (*wedi'i gywiro o hŷnaif*).  
20 *B* o's. 21 *A* a gwrdd. 23 *A* yn[n]. 24 *AC* tra fu. 30 *AC* [y]; *AC* [na] Sion. 31 *A* [Siôn]. 32 *A*  
Siarles. 34 *B* [y]; *AC* pennaf. 35 *AC* Fôn. 36 *A* [da] (*gadawyd bwlch rhwng y geiriau bo ac ei*  
*yma – y mae'n bosibl fod y llsg. hon yn gopi o lsgr. C, ac nad oedd y copi ydd A yn deall yr*  
*hyn a geir yn C*), *C* da (*nid yw'r gair yn eglur iawn – ymddengys fod llythyren arall ar ôl yr*  
*a*). 37 *ABCD* ryw ddydd; *A* y[n]. 38 *BD* hawdd fyd. 39 *A* ennyn (*camgymeriad arall am ei fod*  
*yn gopi o C, efallai*), *C* emyn (*nid yw'r llythyren m yn y gair hwn yn eglur yma*); *BD* Girig;  
*ABCD* fo i. 40 *AC* i cafas; *A* Son, *C* Sion (*nid yw'r io yng nghanol yr e. hwn yn eglur iawn*).

*Teitl neu raglith*

A Awdl i Sion ab Thomas. C Awdl i Sion ap Thomas. D owdl i Sion ap Tomas.

*Olnod*

A Robin Ddu ai Cant. B Robin ddu a'i cant. C Robin Ddu ai cant. D Robin Ddu a'i K.

*Trefn y llinellau*

A 1-22, + Nid undyn Sy yn ond tra fu Sion (*hanner cyntaf ll. 23 ac ail hanner ll. 24*), [23-4],  
25-46.

Teils dur oll fel tal y stryd.  
Erchi 'r wyf i ar ryw fan  
48 Wisg ar ffurf ysgraff arian.  
Ysgyrion ne hinon haf,  
Ysydd fel asau Addaf.  
O wÿr, ond teg o'r un tÿwr  
52 A roes hudol ar sawdiwr?  
Mwy yw na gÿwn, y mae'n gau,  
Ac â mil o gymalau:  
Llafnau, crymanau llyfnion,  
56 Llwyth iâ ar frig llethr y fron.  
Powls dur yw, palis a drig,  
Pysg ir, pais Gai o Warwig.  
Ei theiliwr a wnaeth hoelion  
60 Aur ym mhwys i wrymio hon.  
Cyfliw maes iâ yw'r cofl mau,  
Cynhwyllion fel canhwyllau.

*Ffynonellau*

Bleddyn Owen Huws (gol.), *Detholiad o gywyddau gofyn a diolch* (Caernarfon, 1998), cerdd 8; *idem*, 'Astudiaeth o'r canu gofyn a diolch rhwng c. 1350 a c. 1630' (Ph.D., Cymru [Bangor], 1994), cerdd 8.

## Nodiadau

### I

Yn ôl Eurys I. Rowlands, y prif fathau o ganu crefyddol Cymraeg yn ystod y 14g. a'r 15g. oedd y canlynol: I barddoniaeth ddefosiynol, neu fawl uniongyrchol i Dduw, Crist a'r Saint; II cerddi pregethwrol yn moesoli; III cerddi ynglŷn â marwolaeth a diddymder pethau bydol; IV cerddi â rhyw fath o gysylltiad crefyddol – cerddi yn cyfeirio at bererindodau (sydd hefyd yn gysylltiedig â'r dosbarth cyntaf, uchod); cerddi i glerigwyr; a cherddi mawl, serch ac ymryson sydd yn cynnwys delweddau neu fotiffau crefyddol.<sup>88</sup> Perthyn y cywydd hwn gan Robin Ddu i'r dosbarth cyntaf, sydd yn deillio'n uniongyrchol o draddodiad canu mawl y bardd llys.<sup>89</sup>

Ymhellach ar fywyd crefyddol y 15g., sydd yn gefndir i'r cywydd hwn, gw. Eamon Duffy, *The Stripping of the Altars: Traditional Religion in England c. 1400-c. 1580* (London, 1992), *passim*; WCCR<sup>2</sup> *passim*. Gw. hefyd y bennod ar y canu crefyddol yn Dafydd Johnston, *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300-1525* (Caerdydd, 2005), tt. 195-231; GIBH tt. 8-17; GGM tt. 125-8 (nodyn cefndir cerdd 1).

Ceir y cywydd hwn mewn pum llsgr. O drefn y llau. a'r darlleniadau, gwelir bod cysylltiad rhwng llsgrau. *A*, *B* ac *E* – gall *E* fod yn gopi o *A*, a *B* yn gopi o *E*. Ceir cysylltiad rhwng llsgrau. *C* a *D*.

1     **Adda**   Y dyn cyntaf a greodd Duw. Fe'i crëwyd ar y chweched dydd. Bwytaodd ffrwyth o'r pren gwybodaeth da a drwg, yn groes i orchymyn Duw, ac am hynny, fe'i

---

<sup>88</sup> Eurys I. Rowlands, 'Religious Poetry in late Medieval Wales', B xxx (1982-3), 1-19.

<sup>89</sup> Nododd Eurys I. Rowlands israniadau i'r canu defosiynol, gw. *ibid.*, 3-4.

gyrrwyd ef ac Efa, ei wraig, o Ardd Eden, gw. Gen i.26-v.5; CE i, 129-32, d.g. *Adam*; ODCC<sup>3</sup> 15. Gw. hefyd GSDT 2.65n; GGLI 2.5n; ASC 3.14n; a 1.11-12n.

**hil** ‘had, hiliogaeth’, ‘disgynyddion’; ‘cyff’, ‘llinach’; mewn bioleg, ‘dosbarth cyfyngach na’r rhywogaeth’; ‘(yn y ll.) dernynnau mân’; golyga *hil Adda(f)* yr hil ddynol, GPC 1866.

- 3 **Noe** Y mae *Noe* yn ffurf ar *Noa*, gw. J. Vendryes, ‘Gallois Noe, Neuwy, Nouguy’, *Bulletin de la Société de Linguistique de Paris*, xliii (1947), 32-7. Ef, ynghyd â’i deulu a gwryw a benyw o bob rhywogaeth, oedd yr unig rai i oroesi’r Dilyw a anfonodd Duw i ddinistrio pob creadur am fod y ddaear yn llygredig a drwg. Y mae’r hil ddynol, felly, yn disgyn o Noa, GGLI 2.5n; GRhGE 4.78n. Am hanes Noa a’r dilyw, gw. Gen vi.1-viii.19; CE xi, 88-9, d.g. *Noe*; ODCC<sup>3</sup> 1157. Gw. hefyd 1.11-12n.

**lawen lyw** Llsgrau. *lawen liw*. Gw. 2.7n. Gall mai *lliw* a geir yma, yn golygu ‘pryd, gwedd’ neu ‘cyflwr, ystad, ymddangosiad’, GPC 2192-3. Fodd bynnag, efallai bod *llyw*, yn golygu ‘arweinydd, pennaeth’, ‘captan, peilat’, yn fwy addas yma, GPC 2287.

- 4 **Dilyw** Gw. Gen vi.1-viii.19; 1.3n.

- 5 **Abram** Patriarch Hebreaid a ystyrir yn dad ysbrydol y ffydd Gristnogol oherwydd ei ffydd gadarn yn Nuw, GGLI 2.5n. Am hanes Abram gw. Gen xi.26-xxv.18; CE i, 51-4, d.g. *Abraham*; ODCC<sup>3</sup> 6. Gw. hefyd 1.11-12n.

- 6 **Mair** Y Forwyn Fair, mam Iesu Grist. Y mae’n ffigur blaenllaw iawn yn niwinyddiaeth yr Eglwys Gatholig, ac fe’i cyfrifir yn un o brif saint yr Eglwys. Ymddangosodd yr angel Gabriel iddi yn ei hysbysu ei bod yn feichiog o’r Ysbryd Glân, a hithau’n wryf. Gw. CE xv, 464-72, d.g. *Virgin Mary, The Blessed*; ODCC<sup>3</sup> 1047-9; GGLI 2.21n, 10.73n, 18.2n. Am y defosiwn i Fair yn yr Oesoedd Canol, gw.

CE xv, 459-64, d.g. *Virgin Mary, Devotion to the Blessed*; Jane Cartwright, *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod: Agweddau ar Wryryfdod a Diweirdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol* (Caerdydd, 1999), tt. 15-75, *et passim*; WCCR<sup>2</sup> 481-7; GDEp tt. 84-5 (nodyn cefndir cerdd 2); R. R. Davies, *The Age of Conquest: Wales 1063-1415* (Oxford, 2000), tt. 207-8. Gw. hefyd y llyfryddiaeth yn GIBH 5.4n.

7 **Moesen** Hen ffurf ar enw Moses, GGLI 2.6n; GSdT 5.27n. Ef a arweiniodd yr Hebreaid o'u caethiwed yn yr Aifft, ac a dderbyniodd y Deg Gorchymyn gan Dduw, gw. Ecs i-xiv. *passim*; Deut v.1-21; Ecs xx.1-17; CE x, 596-7, d.g. *Moses*; ODCC<sup>3</sup> 1118. Ystyrir Moses gan y beirdd yn sylfaenydd cenedl Israel, a sonnir amdano fel trefnydd ac arweinydd, gw. D. Myrddin Lloyd, *Rhai Agweddau ar Ddysg y Gogynfeirdd* (Caerdydd, 1977), 22; GGLI 2.6n. Gw. hefyd 1.11-12n.

9 **Dafydd** Brenin cyntaf Jwda, ac y mae ei linach a'i frenhiniaeth yn ganolog i'r ffydd, GGLI 2.7-8n. Am hanes Dafydd gw. 1 Sam xvi-xxxi. *passim*; 2 Sam *passim*; 1 Bren i.1-ii.12; 1 Cr x-xxix *passim*; CE iv, 642-4, d.g. *David*; ODCC<sup>3</sup> 452-3. Gw. hefyd 1.11-12n.

11-12 **pumoes ... / A fu yn Uffern** Yn ystod yr Oesoedd Canol arferid rhannu hanes y byd yn nifer o gyfnodau cyn Crist ac ar ei ôl. Yr amser rhwng cymeriadau neu ddigwyddiadau Beiblaidd arwyddocaol oedd yn diffinio'r 'oesoedd' hyn. Un o'r rhaniadau mwyaf poblogaidd oedd y chwe oes o Adda hyd Noa, o Noa hyd Abraham, o Abraham hyd Foses, o Foses hyd Ddafydd, o Ddafydd hyd Iesu Grist, ac o Iesu Grist hyd Ddydd y Farn. Ceir llawer o gyfeiriadau at y pum oes cyn Crist gan y beirdd Cymraeg. Gw. GIBH 8.9n. Gw. hefyd 1.1n, 3n, 5n, 7n, 9n. Ceir traddodiad fod Iesu wedi mynd i Uffern rhwng y Croeshoeliad a'r Atgyfodiad, ac wedi achub pumoes y

- byd drwy ryddhau'r eneidiau a oedd wedi bod yn gaeth yno ers dechrau amser. Gw. CE vii, 143-4, d.g. *Harrowing of Hell*; GGLI 2.10n Gw. hefyd GPC 2928.
- 13 **rhagor** Ceir sawl ystyr posibl. Gall fod yn e. – ‘blaen y gad’; ‘rhagoriaeth, ardderchogrwydd’, ‘person neu beth rhagorol’; ‘pellter’; ‘ychwaneg, mwy’; yn a. – ‘gwell’, ‘rhagorol’; neu yn adf. – ‘yn fwy, ymhellach, yn ychwanegol’. Gw. GPC 3021-2. Yr ystyr yma yw ‘yn fwy, ymhellach, yn ychwanegol’.
- 18 **diwydwaith** ‘*diwyd + gwaith*’. ‘Diwyd, dyfal ei waith’, GPC 1062. Nodir yn GPC y daw'r cofnod cynharaf o'r a. hwn o hanner cyntaf yr 16g. Ond ceir yma enghraifft gynharach.
- 20 **gwedd** Ceir dau ystyr i'r e. *gwedd*, sef ‘golwg’, ‘wynepryd’, ‘delw’, ‘ffurf’, ‘tebygrwydd’, ‘dull, agwedd’; ac ‘iau i gysylltu dau ych, &c.’, ‘pâr neu ragor (o geffylau neu o ychen) dan yr iau’, yn ffig. ‘rhwym, caethiwed, ymostyngiad’, ‘hil, epil, plant’, GPC 1609. Gall fod yma ‘delw’, ‘ffurf,’ neu'r ystyr ffig. ‘caethiwed’.
- 25-8 **Seren ... / ... / I ddangos ... / Geni y Mab gogoned** Pan aned Iesu, gwelwyd seren newydd yn y dwyrain gan sêr-ddewiniaid. Arweiniodd y seren hwy at Iesu ym Methlehem. Gw. Math ii.1-12.
- 25 **ar lwydd** Gw. yr Amrywiadau am ddarlleniadau'r llsgrau. Diwygiwyd ar sail y gynghanedd.
- 29 **Iesu** Arno, gw. CE viii, 374-85, d.g. *Jesus Christ*; ODCC<sup>3</sup> 872-5.
- 31-2 **Yn ddengmlwydd ... / ... ar hugain** Cyfeiriad yw hwn at oed Iesu ar ddechrau ei weinidogaeth, Luc iii.23. Credir i'w weinidogaeth barhau am ychydig dros ddwy flynedd cyn ei groeshoelio. Gw. CE viii, 377-9, d.g. *Jesus Christ: III Chronology*.



- 32 **rhagor** Gw. 1.13n. Adf., yn golygu ‘yn fwy, ymhellach, yn ychwanegol’ yw’r ystyr mwyaf tebygol yma hefyd.
- 35 **gweryd** Gall hwn fod yn ffurf 3 un. pres. myn. y be. *gwarded*, gw. GPC 1582; neu’n e., yn golygu ‘iachawdwriaeth, gwardedigaeth’, GPC 1649. Y f. sydd yma. Gw. hefyd GIBH 5.57n.
- 39-42 **Suddas ... / ... a’i gwerthawdd / ... / ... er deg ar hugain** Jiwddas Iscariot oedd y disgybl a fradychodd Iesu am ddeg darn arian ar hugain, gw. 1.44n, 45n. Gw. hefyd CE viii, 539-41, d.g. *Judas Iscariot*; ODCC<sup>3</sup> 907.
- 41 **cun** Ceir tri gwahanol ystyr i’r gair hwn, sef ‘arglwydd, pennaeth, llywriadwr’, neu ‘haid o gŵn neu o fleiddiaid; llu, byddin’, neu ‘aruchel, gwych, hardd’, GPC 629-30. Yr ystyr mwyaf tebygol yma yw’r olaf o’r rhai hyn (ond y mae’n bosibl fod y bardd yn chwarae ag ystyron geiriau yma hefyd, gan mai *Arglwydd cun* sydd yma).
- 43 **maith fwriad** Dyma ystyron *maith* – ‘hir, pell, helaeth, mawr, niferus’, ‘?o bell’; ‘hir (o ran amser, parhad)’, ‘mawr (am ansawdd, teimlad, &c.)’, ‘trist, chwerw’; ‘doeth, hirben, call, ffel, cyfrwys’, GPC 2325. Ceir mwy nag un ystyr i *bwriad* (gw. yr Eirfa), ond yr ystyron yn y cyswllt hwn yw ‘amcan, pwrpas, diben’ neu ‘cynllwyn, bradwriaeth’, GPC 335. Felly gall hwn fod yn gyfeiriad at amcanion Duw dros Iesu ers y cychwyn, neu at frad cyfrwys ei elynion a Jiwddas Iscariot. Gw. hefyd 1.39-42n.
- 44 **duw Mercher y brad** Dyma’r diwrnod yr aeth Jiwddas Iscariot i ymweld â’r prif offeiriaid i gynnig bradychu’r Iesu iddynt. Gw. Math xxvi.14-16; Marc xiv.10-11; Luc xxii.1-6.

- 45 **Difiau** Dydd Iau Cablyd. Diwrnod y Swper Olaf a'r noson pan fradychwyd Iesu gan Jiwdas yng Ngardd Gethsemane. Gw. Math xxvi.17-56; Marc xiv.12-50; Luc xxii.7-53; Ioan xiii.1-xviii.11.
- llew** Y mae'r llew yn un o'r arwyddion a geir yn y brudiau am y Mab Darogan, gw. R. Wallis Evans, 'Trem ar y Cywydd Brud', *Harlech Studies*, gol. B. B. Thomas (Cardiff, 1938), t. 162; *idem*, 'Prophetic Poetry', *GWL* ii<sup>2</sup>, 267. Gwelid Iesu fel Mab Darogan, GIBH 4.56n, 8.19n; GGL1 2.87n.
- 47 **duw Gwener** Dydd Gwener y Groglith, pryd y croeshoeliwyd Iesu. Gw. Math xxvii. *passim*; Marc xv. *passim*; Luc xxii.66-xxiii.56; Ioan xviii.28-xix.42.
- 49 **pren** Dyma ystyron posibl *pren*: 'coeden'; 'defnydd prennog sy'n ffurfio prif sylwedd boncyff a changhennau coeden', 'y defnydd hwn wedi ei dorri a'i baratoi at adeiladu, gwneud dodrefn, offer, &c.', 'wedi ei wneud o'r defnydd hwn'; 'darn o bren, ffon neu wialen bren, boncyff, darn o goed defnydd'; 'croes (Crist)', 'croc bren, sibed'; ceir hefyd enghreifftiau ffig., GPC 2873-4. Yn amlwg, at y Groes y cyfeirir yma. Yr oedd yr ymadrodd *pren croes* neu *pren y groes* yn gyffredin yn y canu crefyddol Cymraeg a Lladin, a daeth yn fath o *dopos* yn y canu Cymraeg am Ddioddefaint Crist. Ceir nifer o chwedlau canoloesol ynglŷn â tharddiad pren y Groes. Gw. GIBH 12.2n; ASC 11.2n.
- 51-2 **a choron / Ddrain** Rhoddwyd coron o ddrain ar ben Iesu cyn ei groeshoelio, a'i watwar gan ei alw yn 'Frenin yr Iddewon', gw. Math xxvii.29; Marc xv.17-18; Ioan xix.2-3.
- 53-6 **A hoelion ... / ... drwy'i ddwyllaw, / A hoel ... / ... drwy ei ddeudroed** Dyma ddisgrifiad o'r croeshoelio, gw. Math xxvii.35; Marc xv.24; Luc xxiii.33; Ioan xix.18.

- 53 **drud** Gall hwn olygu un o sawl peth. Gall fod yn a. yn golygu ‘uchel ei bris’; ‘gwrol’; ‘rhyfygus’; ‘garw, creulon’; neu ‘enbyd’, ‘poenus’. Gall hefyd fod yn e. yn golygu ‘arwr’, ‘un ffôl neu annoeth ei wrhydri’, ‘dyn llidiog’. Gw. GPC. 1086. ‘Garw, creulon’, neu ‘enbyd’, ‘poenus’ yw’r ystyr yma.
- 54 **duraidd** ‘*dur* + *-aidd*’. ‘Dur, durol’, ‘caled’, yn ffig. ‘ffyddlon’, GPC 1099. Yn ôl GPC, daw’r cofnod cynharaf o’r a. hwn o ddechrau’r 17g. Gall fod yma enghraifft gynharach o’r a. Fodd bynnag, ystyr yr a. *dur* yw ‘a wnaed o ddu’, yn ffig. ‘caled’, ‘creulon’, GPC 1099. Gan fod ‘caled’ neu ‘creulon’ yn fwy synhwyrol yn y cyswllt hwn, efallai y dylid ychwanegu’r ystyron hyn i *duraidd*.
- 55 **rhoed** Dylid nodi yma mai un ystyr i *rhoi* yw ‘bradychu; traddodi (i garchar, &c.)’, gw. GPC 3087-8.
- 57-8 **rhoed yr Iesu, / ... mewn dyfnfedd du** Cyfeiriad at roi Iesu ym medd Joseff o Arimathea, gw. Math xxvii.57-61; Marc xv.42-7; Luc xxiii.50-6; Ioan xix.38-42.
- 59-62 **A’r trydydd dydd, ... / Gwir dduw Pasg, ... / Y codes ... / ... o farw’n fyw** Ar y trydydd dydd wedi’r croeshoelio, atgyfododd Iesu, gw. Math xxviii.1-10; Marc xvi.1-8; Luc xxiv.1-12; Ioan xx.1-10.
- 61 **hanes** ‘stori’r gorffennol, chwedl, adroddiad’, GPC 1819-20. Fodd bynnag, nis defnyddiwyd yn y cyswllt hwn hyd ddiwedd y 14g. i ddechrau’r 15g. Yr ystyr gwreiddiol yw ‘dirgelwch, cyfrinach’, GPC 1820. Y mae’r ddau ystyr yn addas yma.
- 62 **murnwy** Nid yw’n eglur beth yn union yw *murnwy*. Gall fod yn ffurf ar yr e. neu’r a. *murn*, yn golygu ‘twyll’, ‘brad’, ‘cynllwyn’, ‘bradlofruddiaeth’, ‘dichellgar’, GPC 2504. Awgrymir yr ystyr ‘cudd’ neu ‘cêl’ yn Donald Evans (gol.), *Y Flodeugerdd o Gywyddau* (Abertawe, 1981), t. 138. ‘Cudd’ yw’r ystyr a roir i *murn* yn y ll. gyffelyb

hon yng nghywydd Maredudd ap Rhys i Grog Caerlleon: *A'r marw'n fyw o'r murn fedd*, GMRh 2.48.

63 **tâl** Yr anrhaith a ddaeth Iesu yn ôl gydag Ef o Uffern, gw. 1.11-12n.

64 **oerwal** Y mae hwn yn e. cyfansawdd o *oer* + *gwâl*. Ceir dau ystyr i *gwâl*, sef 'gorweddle creaduriaid (gwyllt a gwâr), lloches, ffau', hefyd yn ffig., neu '?arweinydd, pennaeth', 'rheolwr', GPC 1564-5. Yr ystyr yma yw 'gorweddle creaduriaid', 'ffau'.

69-74 **Pymtheg y sydd ... / ... a thrigain, / A phum mil ... / Pedwar cant ... / O archollau ... / ... ar Grist Arglwydd** 5,475 o archollau ar Grist Arglwydd. Erbyn y 15g. yr oedd defosiynau i'r archollau a dderbyniodd Iesu yn ystod y croeshoelio wedi datblygu. Dyma un o'r cyltiau mwyaf poblogaidd yn Ewrop yn ystod yr Oesoedd Canol diweddar. Ceid pum prif archoll (y Pum Archoll Sanctaidd) – yn y lle'r aeth yr hoelion drwy'i ddwylo a'i draed, ac yn ei ystlys, lle y'i trywanwyd (gw. 1.78n). Gw. Duffy, *The Stripping of the Altars*, tt. 238-48; GIBH 10.3n, 11.17n. Fodd bynnag, credid bod llawer mwy o fân-archollau ar gorff Iesu, a wnaed o ganlyniad i gael ei fflangellu a gwisgo'r goron ddrain (gw. 1.51-2n). Yn ôl traddodiad canoloesol, ceid tua 5,466 ohonynt i gyd. Y mae Pymtheg Gweddi San Ffraid yn gyfres o weddiâu a adroddid i fyfyrion ar Ddiodeffaint Iesu. Fe'u tadogir ar San Ffraid (y Santes Birgitta o Sweden, c. 1303-73), a daethant yn boblogaidd iawn yn ystod y 14g., a chafwyd cyfieithiadau Cymraeg iddynt mewn llsgrau. yn dyddio o ganol y 15g. ymlaen. Ceir hanes llunio'r gyfres mewn rhai o'r llsgrau. hyn: 'Dywedir bod San Ffraid ar ryw adeg yn dymuno gwybod rhifedi archollion Iesu Grist a'i fod Yntau wedi ymddangos iddi a gorchymyn dywedyd 'y xv gweddi hyn beunydd tyrwy y vylwyddyn ar xv pater ar xv avi a iij

kredo' fel yr anrhydeddid pob archoll ac y ceid breintiau arbennig', Brynley F. Roberts, 'Pymtheg Gweddi San Ffraid a'r Pardwn', B xvi (1954-6), 255. O adrodd y weddi bymtheg gwaith mewn diwrnod am flwyddyn, byddid wedi'i hadrodd 5,475 o weithiau i gyd. Gellir dod i'r casgliad, felly, mai dyna'r nifer o archollion a oedd ar Iesu. Gw. CE xv, 714-15, d.g. *Wounds, The Five Sacred*; Roberts, 'Pymtheg Gweddi San Ffraid a'r Pardwn', 254-68; Duffy, *The Stripping of the Altars*, tt. 249-56; WCCR<sup>2</sup> 95.

70 **rhagor** Gw. 1.13n, 32n. Yr un yw'r ystyr yma hefyd.

72 **gwirair** 'gwir + gair'. 'Gwirionedd', 'gwirionedd derbyniedig, gwireb, dihareb', GPC 1667. Gwyddys bod y gair hwn yn cael ei ddefnyddio o'r 16g. ymlaen (gw. GPC). Dyma enghraifft arall yn y cywydd o gofnod cynharach o air.

78 **briw i'th fron** Trywanwyd Iesu yn ei ystlys wedi iddo farw ar y Groes, a llifodd gwaed a dŵr o'r archoll, gw. Ioan xix.34. Dyma un o'r Pum Archoll Sanctaidd y ceid defosiynau iddynt, gw. 1.69-74n. Bu defosiwn mawr, yn arbennig, i'r archoll yn ei ystlys. Ceid maddeueb arbennig o gynnal defosiwn i'r archoll hon. Gw. GIBH 11.17n.

81-4 **fy ngweddi** Yn ystod yr Oesoedd Canol diweddar, defnyddid llawer ar yr iaith frodorol gan wŷr lleyg yn eu dyletswyddau crefyddol, er bod cyfieithu'r Beibl, gwasanaethau'r *Breviarium*, a'r Offeren wedi'i wahardd. I ryw raddau, gallai rhywun addoli yn ei iaith ei hun (yr iaith frodorol fyddai cyfrwng defosiwn preifat). Ar wahân i'r Pader, Ave Maria, a'r Credo, a ddisgwylid i leygwr eu gwybod, ceid gweddïau 'gwerin' poblogaidd a fyddai'n cael eu dysgu a'u cofio. Cynrychiolent grefydd syml y lleygwr di-ddysg. Ceid hefyd 'weddïau preifat', a oedd yn '[dd]efosiynau dosbarth cymdeithasol uwch, llythrennog', Brynley F. Roberts, 'Rhai Gweddïau Preifat

Cymraeg', B xxv (1972-4), 146. Yr oedd y rhai hyn yn weddïau ffurfiol yn Lladin, a cheid cyfieithiadau Saesneg a Ffrangeg ohonynt. Fe'u cofnodwyd mewn llyfrau yn ystod y 14g. a'r 15g., a defnyddid hwy yn ystod gwasanaethau'r eglwys ac yn rhan o ddefosiynau'r cartref. Daeth y gweddïau hyn yn gyffredin yn y Gymraeg hefyd. Gw. Roberts, 'Rhai Gweddïau Preifat Cymraeg', 145-55; WCCR<sup>2</sup> 94-5. (Ymhellach ar y cefndir, gw. Duffy, *The Stripping of the Altars*, tt. 53-87; WCCR<sup>2</sup> 81-113.) Un o'r gweddïau preifat hyn oedd yr *Anima Christi*, a ddaeth yn boblogaidd ledled Ewrop o ddechrau'r 14g. ymlaen. Credir mai'r Dominiciaid fu'n gyfrifol am ledaenu'r weddi, mewn oes pan oedd defosiwn i Ddiodeffaint Crist wedi dod yn amlwg iawn. Yr oedd yr *Anima Christi* yn hysbys yng Nghymru erbyn canol y 14g. – y mae'r ffurf gynharaf ar y weddi y gwyddys amdani yng Nghymru mewn englynion gan Ddafydd ap Gwilym. (Gw. M. Paul Bryant-Quinn, 'Ailystyried 'Englynion yr Offeren' gan Ddafydd ap Gwilym', *Dwned*, 7 (2001), 27-42; DG.net cerdd 2.) Ceir cyfieithiadau Cymraeg o'r *Anima Christi* yn y llsgrau., a cheir trafodaeth ar hanes y cyfieithu gan Brynley F. Roberts, 'Tri chyfieithiad Cymraeg o'r weddi 'Anima Christi'', B xvi (1954-6), 268-71. Hyd yma, yr unig gerdd Gymraeg arall a ddarganfuwyd sydd yn cyfeirio'n benodol at y weddi yw cywydd 'Y grog yn Aberhonddu' gan Ieuan Brydydd Hir (gw. GIBH cerdd 12). Seiliwyd rhan olaf y cywydd ar y weddi. Ceir adlais yn y weddi fer sydd ar ddiwedd cywydd Robin Ddu o englynion Dafydd ap Gwilym a chywydd Ieuan Brydydd Hir. Cf. llau. Robin Ddu:

Erglyw fy ngweddi, f' Arglwydd:  
Dwg f' enaid, rhyw amnaid rhwydd,  
Hyd atad i'th wlad a'th wledd,  
Ar dri gair i'r drugaredd.

â'r llau. hyn gan Ddafydd ap Gwilym:

Poed gwir, neu'n dygir i deg frenhiniaeth – nef  
Yn ufudd wrogaeth,  
Gwlad uchel, wlad feithrad faeth,  
Gwledd ddiwagedd dduwogaeth.

DG.net 2.33-36, a'r llau. hyn gan Ieuan Brydydd Hir:

Ac na ad o'th wlad a'th lu  
I'm henaid ymwahanu.  
Gwnaf, yn ddwyfol ei foli,  
Gywydd i Fab – gwahodd fi –  
Yr ŵyl ydd af i'r wledd wen  
Berffaith, heb dranc, heb orffen.

GIBH 12.65-70. Awgrymodd M. Paul Bryant-Quinn efallai i englynion Dafydd ap Gwilym ddylanwadu ar gywydd Ieuan Brydydd Hir, 'a bod Ieuan yn ddyledus iddynt nid o ran testun yn unig, ond am beth o'i ddelweddaeth a'i eirfa hefyd', M. Paul Bryant-Quinn, 'Enaid y Gwir Oleuni': y Grog yn Aberhonddu', *Dwned*, 2 (1996), 64. Fodd bynnag, collwyd llawer o ganu crefyddol y cyfnod, ac y mae'n debygol fod mwy o gerddi nag englynion Dafydd ap Gwilym yn unig wedi dylanwadu ar gywydd Ieuan Brydydd Hir. Nid yw cywydd Robin Ddu yn dilyn geiriad y weddi Ladin wreiddiol na'r cyfieithiadau Cymraeg a wnaed ohoni (gw. GIBH tt. 10-11). Awgryma hyn ei fod yn fwy cyfarwydd â cherddi Dafydd ap Gwilym, Ieuan Brydydd Hir, ac eraill, nag â'r *Anima Christi* ei hun. Ni cheir yn y llau. hyn gyfeiriad uniongyrchol at y weddi. Gw. GIBH tt. 10-12; *ibid.* 12.50n; M. Paul Bryant-Quinn, 'Ailystyried 'Englynion yr Offeren' gan Ddafydd ap Gwilym', *Dwned*, 7 (2001), 27-42; DG.net, Nodiadau: 2 – Englynion yr Anima Christi; Bryant-Quinn, 'Enaid y Gwir Oleuni': y Grog yn Aberhonddu', 51-93; CE i, 515, d.g. *Anima Christi*; ODCC<sup>3</sup> 70-1; WCCR<sup>2</sup> 95; GDG<sup>3</sup> t. 433 (nodyn cefndir cerdd 2).

83 **gwledd** Diwedd glo cyffredin iawn mewn cerddi defosiynol yw'r bardd yn datgan ei ddymuniad i gael ei wahodd i'r *wledd* – cyflea lawenydd y Nef, ASC 5.102n; DG.net 2.36; GHS 7.72, 10.57; GIBH 7.65n, 12.68-9n; GMBen 10.86n; GSRh 12.288; GLIG 2.8. Gw. hefyd 1.81-4n.

2

Fel yr awgryma'r rhaglith i'r cywydd hwn yn yr unig lsg. lle'i cynhwysir, yr oedd gwrthrych y cywydd – gŵr o'r enw Siôn Llwyd – yn frodor o Frycheiniog (gw. hefyd 2.44n).<sup>90</sup> Fodd bynnag, o edrych ar yr achau a olygwyd gan P. C. Bartrum,<sup>91</sup> y mae'n anodd canfod pwy yn union oedd hwn. Pe cymerid bod Siôn Llwyd yn fab i'r Gruffudd Llwyd y cyfeirir ato yn y cywydd (2.18n, 36) a'i fod o dde Cymru, gellir awgrymu fel a ganlyn:

Ceir John Llwyd ap Gruffudd ap John Llwyd ym mynegai Brycheiniog a Rhwng Gwy a Hafren,<sup>92</sup> ond, yn ôl y rhif cenhedlaeth a roddir, fe'i ganwyd ef tua'r flwyddyn 1500, felly y mae'n rhy ddiweddar i fod yn wrthrych cywydd gan Robin Ddu.<sup>93</sup> Posibilrwydd arall yw'r John Llwyd ap Lewys ap Hywel ap Gruffudd Llwyd, a geir yn yr un mynegai.<sup>94</sup> Yr oedd ef yn ddisgynydd i Dewdwr Mawr (gw. 2.9n), ond ni lwyddwyd i ddarganfod y cysylltiad rhyngddo â theulu Dinefwr (gw. 2.24n, 49, 43n, 3), ac ni chanfuwyd enghreifftiau eraill o ganu i'r teulu. Felly, annhebygol yw mai hwn ydyw. Canfuwyd dau John Llwyd ap Gruffudd

---

<sup>90</sup> Gw. NBSBM 206-8 am drafodaeth ar y cywydd.

<sup>91</sup> Gw. P. C. Bartrum: WG1&2.

<sup>92</sup> P. C. Bartrum: WG2 (cyfrol XIII).

<sup>93</sup> Gw. P. C. Bartrum: WG2 'Drymbenog' 6 (A).

<sup>94</sup> Gw. *ibid.* 'Rhys ap Tewdwr' 22.



Llwyd ym mynegai P. C. Bartrum: WG2 i'r Deheubarth.<sup>95</sup> Ni cheir cymeriad posibl yn y mynegai arall o ardal yn ne Cymru, sef mynegai Gwent a Morgannwg.<sup>96</sup>

Felly, ymddengys mai un o'r ddau John Llwyd ap Gruffudd Llwyd o'r Deheubarth yw gwrthrych y cywydd hwn. Y cyntaf yw John Lloyd ap Gruffudd Llwyd ap John o Gefnfarchen, 'Llanfallteg, Daugleddau'.<sup>97</sup> Nodir ei fod wedi'i eni tua 1500, felly gwelir ei fod yntau o gyfnod diweddarach na'r bardd. Yr ail yw John Llwyd ap Gruffudd Llwyd ap Maredudd o Dre Castell, Llandeilo Fawr.<sup>98</sup> Fe'i ganed oddeutu 1470 – dyma'r gwrthrych mwyaf tebygol, felly. Ailbriododd ei fam â Siôn Dew ap Gwilym Hafard Hen ap Siôn Hafard Grwca,<sup>99</sup> ac yr oeddynt yn byw ym Mhontwilym, y Fenni-fach, Cantref Selyf, Brycheiniog. Os oedd Siôn Llwyd yn ifanc pan ailbriododd ei fam, byddai wedi mynd i fyw gyda hi yng Nghantref Selyf. Gellir casglu, felly, i'r cywydd gael ei ganu yn ystod y cyfnod pan oedd yn byw yno, a cheir tystiolaeth o fewn y cywydd fod Siôn Llwyd yn ifanc ar y pryd – fe'i gelwir yn *cyw edn* (2.45n).

Yr oedd Siôn Llwyd o deulu a oedd yn noddwyr beirdd – canwyd cywyddau i'w dad ac i frawd ei daid (Morgan ap Rhys ap Gwilym), gan Lewys Glyn Cothi;<sup>100</sup> a cheir cywydd i fab Siôn Llwyd, Rhydderch Llwyd, gan Wiliam Llŷn;<sup>101</sup> yn ogystal â cherddi i'w deulu ar ochr ei fam. (Yr oedd Annes yn chwaer i Fargred, sef mam Siôn ap Tomas, gwrthrych cerdd 4.) Yr oedd yr Hafardiaid yn deulu o noddwyr beirdd yn ogystal. Ceir awdl i lystad Siôn Llwyd gan Lewys Glyn Cothi,<sup>102</sup> a chywyddau iddo gan Huw Cae Llwyd.<sup>103</sup> Cofnodwyd

---

<sup>95</sup> P. C. Bartrum: WG2 (cyfrol XV).

<sup>96</sup> *Ibid.* (cyfrol XVI).

<sup>97</sup> *Ibid.* 'Cydfifor ap Dinawal' 6 (A3).

<sup>98</sup> *Ibid.* 'Einion ap Llywarch' 9 (C).

<sup>99</sup> *Ibid.* 'Havard' 2.

<sup>100</sup> GLGC cerddi 28 a 34.

<sup>101</sup> Roy Stephens, 'Gwaith Wiliam Llŷn' (Ph.D., Cymru [Aberystwyth], 1983), cerdd 105.

<sup>102</sup> GLGC cerdd 138; NBSBM 158-60.

<sup>103</sup> Leslie Harries (gol.), *Gwaith Huw Cae Llwyd ac eraill* (Caerdydd, 1953), cerddi XX, XXII; NBSBM 160-3.

hefyd fod awdl wedi'i chanu i hanner brawd Siôn, Wiliam Hafard ap Siôn, gan Hywel Dafï;<sup>104</sup>  
a bod cywydd gofyn iddo gan Huw Cae Llwyd.<sup>105</sup>

- 2     **dwyrain**   Gall fod yn e.g., yn golygu ‘un o bedwar prif bwynt y cwmpawd’,  
‘cyfeiriad codiad haul; rhan ddwyreiniol y ddaear; parth neu du dwyreiniol gwlad,  
&c.; codiad; ffyniant’. Gall hefyd fod yn a., yn golygu ‘yn gorwedd i gyfeiriad y  
dwyrain, yn perthyn i’r dwyrain, dwyreiniol; yn codi, yn dyrchafu, buddugol’. Gw.  
GPC 1110. Fwy na thebyg, yr ystyr yma yw ‘yn codi, yn dyrchafu, buddugol’.
- 3     **brain**   Gw. 2.43n am bwysigrwydd y *frân* yn y canu mawl a’r canu brud.
- 4     **Siôn Llwyd**   Gwrthrych y cywydd, gw. y nodyn cefndir.
- 7     **tywyllu’r lawnt**   Llsg. *tywllyr lawnt*. Diwygiwyd ar sail ystyr, ac er mwyn cwblhau’r  
saith sill yn y llinell. Ceir dau ystyr i *lawnt*, sef ‘darn o dir glas neu borfa’, ‘tir agored,  
gwastadedd, llannerch’, yn dros. mewn herodraeth, ‘maes neu wyneb tarian, sef  
cefndir arfbais’; a ‘lliain main tebyg i gamrig, rhan o wisg (e.e. penwisg) a wnaed  
ohono; llewys esgob’, ‘swydd neu urdd esgob’, GPC 2055-6. ‘Tir agored’ a geir yma.
- lliw**   Gall yr e. hwn olygu un o sawl peth – ‘unrhyw un o’r elfennau yr ymranna  
goleuni iddynt, e.e. mewn sbectrwm’; ‘ymddangosiad allanol yr wyneb neu’r croen (o  
ran lliw), pryd, gwedd, wynepryd’; ‘cyflwr, ystad, ymddangosiad’, ‘cymeriad’,  
‘llewyrch, graen’, ‘mymryn (lleiaf)’, ‘ateg, sail (i stori, &c.)’; ‘cyfrwng arlunwyr,  
peintwyr, &c., i liwio, paent’, ‘colur’, ‘llifyn’; yn rhethregol, ‘ffigur neu droad  
ymadrodd’; ‘rhith, esgus’; neu ‘(peth) unlliw â (gwrthrych neu liw a nodir)’, GPC

---

<sup>104</sup> Gw. Peniarth 67, cerdd LIII, sef copi o’r cywydd o P 67, 183 – llsg. yn llaw Hywel Dafï ei hun (gw. RWM i, 460-5; MWM 63). Priodolir yr awdl i Huw Cae Llwyd mewn rhai llsgrau. Gw. NBSBM 165-7 am drafodaeth ar yr awdl.

<sup>105</sup> Harries (gol.), *Gwaith Huw Cae Llwyd ac eraill*, cerdd XVII; NBSBM 163-5. Nodir, fodd bynnag, ‘nad oes sicrwydd i bwy y’i canwyd’, *ibid.* 163. Gw. hefyd *ibid.* 157-73 am drafodaeth ar y cerddi i deulu Pontwilym.

2192-3. Ceir ystyr cyfreithiol yn ogystal – ‘hysbysiaeth, tystiolaeth, neu gyhuddiad fod lleidr wedi ei weld ac eiddo lladrad ganddo; proses cyfreithiol ynglŷn â hyn’, GPC 2193. Posibilrwydd arall yw mai’r e. *llyw* sydd yma, yn golygu ‘darn llydan gwastad symudol yn starn cwch neu long i lywio’r cwrs’, hefyd yn ffig.; ‘starn’, ‘cynffon anifail, pysgodyn neu aderyn; dirgelwch (gwraig); cynffon gwisg laes; ?rhan o gert, sef y polyn neu’r pawl i ieuo ychen wrtho; ?carn, dwrn, neu goes arf, e.e. gwaywffon; haeddel fawr neu hegl gam aradr; olwyn lywio cerbyd modur; y cynn ar feic i reoli cyfeiriad yr olwyn flaen’; neu ‘arweinydd, pennaeth, rheolwr, arglwydd, llywodraethwr, hefyd am Dduw neu am Grist; captan, peilat; ?llu, plaid; arweinyddiaeth’, GPC 2287. Yr hyn a geir yma yw ‘cyflwr, ystad, ymddangosiad’. Gw. hefyd 2.17n, 18n.

- 9 **Tewdwr** Tewdwr Mawr ap Cadell (byw 1010), fwy na thebyg, sef tad Rhys ap Tewdwr (*ob.* 1093) a oedd yn frenin Deheubarth, WCD 612. Yr oedd yn ddisgynydd i Hywel Dda, Rhodri Mawr a Llywarch Hen, gw. P. C. Bartrum: WG1 ‘Tewdwr Mawr’ 1; *ibid.* tt. 42, 41, 12; J. E. Lloyd: HW<sup>3</sup> 393 n. 116. Gw. ByCy 790 am Rys ap Tewdwr, a 2.33n am Lywarch Hen. Yr oedd mam Siôn Llwyd, Annes ferch Ieuan ap Morgan, o lwyth Bleddyn ap Maenyrch, gw. P. C. Bartrum: WG2 ‘Bleddyn ap Maenyrch’ 20 (C<sub>2</sub>). Elen ferch Dewdwr Mawr oedd mam plant Bleddyn ap Maenyrch, gw. P. C. Bartrum: WG1 ‘Tewdwr Mawr’ 1. Wrth gwrs, y mae’n debygol y gallai Siôn Llwyd olrhain ei dras i Dewdwr Mawr drwy sawl cangen. Ceir sawl Tewdwr â chysylltiadau â Brycheiniog. Posibiliadau eraill yw mai cyfeiriad yw hwn at Dewdwr ap Gruffudd ap Nowy, Tewdwr ab Elise, neu Dewdwr ap Griffri ab Elise, brenhinoedd Brycheiniog rhwng diwedd yr 8g. a dechrau’r 10g., gw. WCD 611; P. C. Bartrum:

WG1 t. 23; neu Dewdwr ap Rhain, brenin Brycheiniog yn nechrau'r 8g., gw. WCD 612; P. C. Bartrum: WG1 t. 20; neu Dewdwr Brycheiniog, cyndad i lwyth ym Mrycheiniog, gw. WCD 612. Y mae'n amlwg fod Tewdwr yn enw a gysylltid â llinach brenhinoedd teyrnas Brycheiniog. Gall hwn, felly, fod yn gyfeiriad amwys at un uchel ei barch ym Mrycheiniog.

- 10 **Gwaithfoed** Llsgr. *waith / voed*. Diwygiwyd ar sail ystyr. Ni ellir bod yn hollol sicr pwy yn union oedd y Gwaithfoed hwn. Gellir olrhain disgynyddiaeth Siôn Llwyd yn bendant i Waithfoed o Went (ganwyd c. 1100) – mam Elidir Ddu, cyndad i Siôn, oedd Gwladus ferch Phylib ab Y Bach ap Gwaithfoed o Went, P. C. Bartrum: WG2 'Einion ap Llywarch' 9 (C); P. C. Bartrum: WG1 'Einion ap Llywarch' 9, 8, 7, 6, 4, 'Gwaithfoed' 6, 1. Fwy na thebyg, yr oedd Gwaithfoed o Went, sef tad Aeddan, Y Bach a Gwyn, yr un person â Gwaithfoed o Geredigion (neu Waithfoed ab Einudd ap Pwyll, a thad i Gydifor), gw. WCD 302, d.g. *Gwaithfoed ab Einudd ap Pwyll*; P. C. Bartrum: WG1 'Gwaithfoed' 1. Yn ogystal, ceir cymysgwch yn yr achau ynglŷn â Gwaithfoed o Geredigion – gall fod yn Waithfoed ab Einudd ap Pwyll ap Peredur Beiswyrdd (neu Beiswyn) neu'n Waithfoed ap Cydifor ap Peredur Beiswyrdd, P. C. Bartrum: WG1 t. 49. Nodir yn NBSBM 207-8 mai Gwaithfoed arall yw'r un y cyfeirir ato yn y cywydd hwn, sef tad Cydrych o Wynfe: 'Priododd taid Elidir Ddu [ar ochr ei dad, sef Rhys ap Gronwy ab Einion ap Llywarch] â 'Margred kaeres off Gruffydd ap Kyfrych ap Gwaithvoe[d']'. Cafwyd y wybodaeth hon o LD i, 131. Ond, ni sonnir am un o'r enw Margred yn ferch i Gruffudd ap Cydrych ap Gwaithfoed yn yr achau fel y'u ceir gan P. C. Bartrum, gw. P. C. Bartrum: WG1 'Cydrych' 1. A gwagedd Rhys

ap Gronwy oedd Gwladus ferch Cadwgon ab Iorwerth<sup>106</sup> a Nest ferch Dafydd Fras ap Hywel Fychan,<sup>107</sup> gw. *ibid.* ‘Einion ap Llywarch’ 4. (Ni wyddys pa un o’r ddwy yw mam ei blant.) Fodd bynnag, y mae LD i, 131, hefyd yn nodi mai mam Elidir Ddu oedd *Gwladys v Bach ap Gwaithvoed* (enwir hi mewn rhai copïau o’r achau fel merch i *Philip ap Bach, Lord of Ysgynvraith*), sydd yn ategu P. C. Bartrum: WG1 ‘Gwaithfoed’ 6. Y mae’n bosibl y gallai Siôn Llwyd olrhain ei achau i un o’r sawl Gwaithfoed arall a geir yn yr achau, gw. P. C. Bartrum: WG1 (cyfrol 5), tt. 70, 120. Fodd bynnag, derbynnir yma mai at Waithfoed o Went (neu Waithfoed o Geredigion) y cyfeirir.

**wythfed** Y mae’n bosibl fod y rhif *wyth*, yma, yn dynodi cyflawnder neu berffeithrwydd. Defnyddid y rhifau *saith* a *naw* yn yr un modd yn ogystal. Gw. GLI 15.13n, 1.71n; GIRh 7.99-102n; GSCyf 16.1n.

13 **ar weiniaid** Llsgr. *ar / weniaid*. Diwygiwyd ar sail ystyr. Ceir dau bosibilrwydd yma – y cyntaf yn ffurf l. ar yr e. *gwan*, yn golygu ‘dyn eiddil, un egwan’, ‘un ofnus’, ‘dyn claf neu fethedig’, ‘un tlawd ac anghenus neu isel ei fyd’, ‘un dibynnol mewn teulu (e.e. plentyn)’, GPC 1571-2; a’r llall yn ffurf l. ar yr e. *gweiniad*, yn golygu ‘gwanwr, trywanwr, archollwr’, ‘picellwr; ymosodwr, rhuthrwr, ysbeiliwr’, GPC 1619. Gall fod yn unrhyw un o’r ystyron hyn.

15 **meinwyllt** Llsgr. *meinwyllt*. Diwygiwyd ar sail ystyr. Y mae hwn yn a. cyfansawdd o’r a. *main* + *gwyllt*.

17 **o dri llyw** Llsgr. *o / dri / lliw*. Diwygiwyd ar sail ystyr. Gw. 2.7n. ‘Arweinydd’ yw ystyr *llyw* yma – cyfeiria’r *tri llyw* at Ruffudd Llwyd (2.18n, 36), Dafydd Gam (2.20n)

---

<sup>106</sup> P. C. Bartrum: WG1 ‘Llywarch ap Brân’ 2.

<sup>107</sup> *ibid.* ‘Rhydderch ap Tewdwr’ 1.

ac, un ai Rhodram (a bwrw mai cyfeiriad at berson ydyw – gw. 2.19n), neu Urien (2.24n, 49).

**darllewyd** Y mae'n debyg mai'r hyn a geir yma yw ffurf amhrs. grff. myn. y be. *darlleaw*, neu *darllen*, yn golygu 'amgyffred (drwy gyfrwng y llygad, ond drwy gyfrwng y cyffyrddiad i'r deillion) ystyr symbolau sgrifenedig neu brintiedig', 'dod i wybod (ffaith, &c.) trwy lyfr, &c.', yn dros., 'canfod drwy sylwi (e.e. pryder ar wyneb), deall (cymeriad person)', GPC 895. 'Canfod drwy sylwi' neu 'deall (cymeriad person)' yw'r ystyr mwyaf tebygol yma.

18 **lliw** Gw. 2.7n. Gall *lliw*, yma, olygu 'pryd, gwedd, wynepryd' neu 'cymeriad', 'llewyrch'.

**Gruffudd Llwyd** Llsgr. *grvff / llwyd*. Y mae'r copiyydd wedi talfyrru'r enw, er bod angen yr enw llawn ar gyfer y llinell gyfan o gynghanedd. Gruffudd Llwyd oedd tad Siôn Llwyd, gw. y nodyn cefndir. Ceir cywydd gan Lewys Glyn Cothi i Siôn ap Dafydd ap Gruffudd ap Gwallter o Gydweli yn gofyn am fwcled dros Ruffudd Llwyd, gw. GLGC cerdd 28. Yr oedd Siôn ap Dafydd yn ewythr iddo ar ochr ei fam. Ceir y cywydd hwn yn llaw Lewys Glyn Cothi ei hun, fwy na thebyg, yn llsgr. P 109, gyda llun o arfbais Gruffudd Llwyd uwch ei ben, gw. GLGC t. 536 (nodyn cefndir cerdd 28); DWH i, 102-3, 77.

19 **teirw** Ffurf l. ar yr e. *tarw*, sef 'ych gwryw annisbaddedig'. Mewn herodraeth gellir cael 'llun o darw fel dyfais'. Mewn seryddiaeth, y *tarw* yw'r 'ail o ddeuddeg arwydd y Sodiad'; 'y cytser *Taurus*'. Defnyddir *tarw*, hefyd, yn ffig. 'am bennaeth dewr neu arwr ffyrnig, ac fel enw ar y Mab Darogan'. Gw. GPC 3452-3. Ar y *tarw* fel arwydd brud, gw. 11.29n. Gan nad oes cyfeiriadau brudiol amlwg yn y cywydd hwn, y mae'n

fwy tebygol mai cyfeiriad herodrol a geir yma at aelodau o deulu a oedd â tharw ar ei arfbais. Yn ystod y 15g., daeth yn arferiad mewn cywyddau mawl i roi disgrifiad o arfbais y gwrthrych, a, phe bai anifail ar yr arfbais, i ddefnyddio'r anifail hwnnw fel symbol am y gwrthrych, gw. DWH i, 70-190. Bu achyddiaeth yn bwysig mewn barddoniaeth Gymraeg o'r dyddiau cynnar, a byddai'r beirdd yn moli hynafiaid eu noddwyr a'u hach fonheddig yn barhaus. Fodd bynnag, ni cheid llawer o sôn am herodraeth yn y farddoniaeth cyn canol y 15g. O ganol y ganrif honno ymlaen daeth herodraeth yn fwyfwy pwysig, a rhoddai rhai beirdd gymaint o bwyslais ar eu gwybodaeth o arfbeisiau ag ar eu gwybodaeth o achau. Gw. *ibid.* 70. 'The period when heraldic description flourished in Welsh poetry extended from the middle of the fifteenth century until the first quarter of the seventeenth', *ibid.* 180. Ymhellach ar y defnydd o herodraeth mewn barddoniaeth Gymraeg, gw. *ibid.* 70-190. Ceid llun tarw, neu ben tarw ar arfbeisiau sawl teulu, gw. DWH iii, 3-4, 109. Ar arfbeisiau Bledri ap Cydifor a'i ddisgynyddion<sup>108</sup> yr oedd tri phen tarw, gw. DWH ii, 33, a changhennau o'i linach yn DWH iii, 3-4, 109. Gall fod *teirw* yn y cywydd hwn yn gyfeiriad atynt hwy. (Gw. DWH i, 158, 162-4, am enghreifftiau eraill.) Posibilrwydd arall yw mai cyfeiriad ydyw at yr Hafardiaid o Frycheiniog, neu, yn arbennig, at deulu hanner brawd Siôn Llwyd, sef Wiliam Hafard. Ailbriododd Annes, mam Siôn Llwyd, â Siôn Hafard Dew, gw. P. C. Bartrum: WG2 'Havard' 2; gw. hefyd y nodyn cefndir. (Ceir cywydd iddo gan Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC cerdd 138.) Yr oeddynt yn byw ym Mhontwilym, y Fenni-fach, Cantref Selyf, Brycheiniog. Ar arfbeisiau'r Hafardiaid, ceid tri phen tarw a phen tarw unigol, gw. DWH ii, 221. Hefyd, cf. â defnydd Dafydd

---

<sup>108</sup> Gw. P. C. Bartrum: WG1 'Cydifor Fawr' 1 *et passim*; P. C. Bartrum: WG2 'Cydifor Fawr' *passim*; am Bledri ap Cydifor a'i ddisgynyddion.

Epynt a Lewys Glyn Cothi o'r e. *tarw* wrth sôn am ddau fab a dau wŷr i Wladus ferch Dafydd Gam. Disgrifia Dafydd Epynt Syr Rhosier Fychan o Dretŵr,<sup>109</sup> ei mab o'i phriodas gyntaf â Syr Rhosier Fychan o Frodorrdyn, fel y *tarw o Went* (GDEp 13.55n). Yn ei awdl foliant i'w fab yntau – Syr Tomas ap Syr Rhosier Fychan<sup>110</sup> – cyfeiria Lewys Glyn Cothi ato fel yr *hendarw cryf* (GLGC 130.8). Y mae [*t*]arw mawr yn drosiad am Syr Rhisiart Herbert,<sup>111</sup> mab o ail briodas Gwladus â Syr Wiliam ap Tomas o Raglan, y Marchog Glas o Went (gw. GDEp 9.9-10n). Yn ogystal, cyfeirir at fab Syr Rhisiart, Wiliam Herbert,<sup>112</sup> fel *tarw* (GDEp 10.22n). Credir mai cyfleu natur arwrol y gwrthrych a wna *tarw* yn yr achosion hyn – nid oes i'r e. unrhyw arwyddocâd herodrol neu frudiol, GDEp 9.9-10n, 10.21-2n. Gall fod yma e. a arferid ei ddefnyddio gan y beirdd wrth sôn am ddisgynyddion Gwladus. Ymhellach ar Wladus, gw. nodyn cefndir cerdd 9; a gw. 2.20n am ei thad, Dafydd Gam.

**coed Rhodram** Gall mai enw lle yw hwn, ond ni lwyddwyd i ddarganfod ei leoliad – nid oes cyfeiriad amdano yn ArchifMR. Ar y llaw arall, y mae'n bosibl fod *coed* yma'n gyfeiriad at gyff teuluol gŵr o'r enw Rhodram, gw. GDEp 21.31n. Gw. hefyd NBSBM 207.

- 20 **gwaed Dafydd Gam** Llsgr. *gwaed* / *tafydd* / *gam*. Dafydd ap Llywelyn ap Hywel Fychan, gw. P. C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Maenyrch' 20. Yr oedd yn frodor o Frycheiniog – hanai o Fleddyn ap Maenyrch, un o dywysogion cynnar teyrnas Brycheiniog, a bu ef a nifer o'i gyndeidiau yn swyddogion yn arglwyddiaeth Brycheiniog. Daeth Harri IV yn Arglwydd Brycheiniog ym 1384 o ganlyniad i'w

<sup>109</sup> *Ibid.* 'Drymbenog' 2 (C1); P. C. Bartrum: WG1 'Drymbenog' 2.

<sup>110</sup> P. C. Bartrum: WG2 'Drymbenog' 2 (C2, C1).

<sup>111</sup> *Ibid.* 'Godwin' 8 (B1); P. C. Bartrum: WG1 'Godwin' 8.

<sup>112</sup> P. C. Bartrum: WG2 'Godwin' 8 (B1).



briodas ag aeres teulu Bohun, a chafodd Dafydd Gam y cyfle i wasanaethu fel milwr dros y brenin. Yr oedd yn wrthwynebwr i wrthryfel Owain Glyndŵr, ac ni lwyddodd Glyndŵr i ennill cefnogaeth yn rhannau o dde-ddwyrain Cymru o'i herwydd. Bu'n deyrngar yn ddiweddarach i Harri V, ac fe'i lladdwyd ym 1415 tra'r oedd yn ymladd dros y brenin ym mrwydr Agincourt. Ceir traddodiad iddo gael ei urddo'n farchog ar faes y gad, ac yntau ar farw, ond nid oes sail hanesyddol i hyn. Gw. ByCy 93; ODNB xiv, 902-3, CLC<sup>2</sup> 159; Gwyddoniadur 262; Rees Davies, 'Brecon, Owain Glyn Dŵr and Dafydd Gam', *Brycheiniog*, xxxii (2000), 51-60; R. R. Davies, *The Revolt of Owain Glyn Dŵr* (Oxford, 1995), tt. 225-8, 302; D. J. Bowen, 'Gwladus Gam a'r Beirdd', YB xxiv (1998), 60-1, 89, *et passim*; GRhGE 9.58n, 60n; GDEp 10.42n; WWR<sup>2</sup> 28; GLMorg 43.21n; GHS 4.22n. Mam Siôn Llwyd oedd Annes ferch Ieuan ap Morgan ap Dafydd Gam, gw. P. C. Bartrum: WG2 'Bleddyn ap Maenyrch' 20 (C<sub>2</sub>, C<sub>1</sub>); P. C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Maenyrch' 20. Ymhellach ar Frycheiniog, gw. 2.44n.

- 21 **Seiant** Nid yw'n eglur cyfeiriad at beth yw hwn. Gall fod yn enw lle, ond ni cheir cofnod o'r enw yn ArchifMR.
- 23 **llew** 'anifail rheibus melynfrwn ei liw o deulu'r gath', ac weithiau'n dros. Gall olygu, yn ffig., 'person nerthol glew, penderfynol, &c., ymladdwr gwrol a ffyrnig, gŵr o fonedd, un urddasol; hefyd yn enw ar y Mab Darogan'. Fe'i ceir yn dros. neu mewn cyd-destun felly, yn golygu 'llun neu ddelw llew, e.e. ar darian, ac yn enw. fel dyfais mewn herodraeth'. Mewn seryddiaeth, y llew yw'r 'pumed o ddeuddeg arwydd y Sodiad; y cytser Leo'. Gw. GPC 2168-9. Am restr o'r enwau a geir yn y brudiau am y Mab Darogan, a'i elynion, gw. R. Wallis Evans, 'Trem ar y Cywydd Brud', *Harlech*

*Studies*, gol. B. B. Thomas (Cardiff, 1938), tt. 161-2; *idem*, ‘Prophetic Poetry’, *GWL* ii<sup>2</sup>, 266-7. Gan nad oes cyfeiriadau brudiol amlwg yn y cywydd, y mae’n fwy tebygol mai cyfeiriad herodrol yw hwn. Ar yr arferiad o ddefnyddio anifail a oedd ar arfbais gwrthrych fel symbol am y gwrthrych hwnnw mewn cywyddau mawl, gw. *DWH* i, 70-190; 2.19n. Yr oedd llew du ar arfbais Dafydd Gam, cyndad i Siôn Llwyd, gw. *DWH* ii, 104-5; a cheir cyfeiriadau at hyn mewn barddoniaeth Gymraeg, gw. *DWH* i, 79-80, 109-10, 160-1, 165-6. Yr oedd gan ei ddisgynyddion, yr Herbertiaid,<sup>113</sup> dri llew gwyn ar eu harfbais, a chyfeirid atynt hwy yn aml yn y cywyddau fel *llewod*, gw. *DWH* ii, 225-36; *GDEp* t. 117 (nodyn cefndir cerdd 9), 10.12n; *CHerb* i, lxiv; *GDGor* 3.33n; *GLl* t. 194 (nodyn cefndir cerdd 18), 18.56. Ymhellach ar y defnydd o *llew* mewn barddoniaeth i gyfeirio at yr Herbertiaid, gw. *DWH* i, 78-9, 114, 131, 158, 159, 162, 164, 167, 171; 9.17n, 11n. (Am deuluoedd eraill y ceid llew neu ben llew ar eu harbeisiau gw. *DWH* iii, 5-28, 110-11.) Disgynnai’r Herbertiaid o ail briodas Gwladus Gam. Defnyddiai Lewys Glyn Cothi *llew* fel trosiad am ddisgynyddion Gwladus Gam o’i gŵr cyntaf, sef y Fychaniaid; e.e., gelwir Watcyn Fychan, Hergest,<sup>114</sup> mab Tomas Fychan a oedd yn fab i Syr Rhosier Fychan o Frodorddyn a Gwladus Gam, yn *llew Herast* (*GLGC* 125.64) a’r *llew o Herast* (*GLGC* 127.58); a chyfeirir at dri mab Syr Tomas,<sup>115</sup> mab Syr Rhosier Fychan o Dretŵr, fel y *tri llew* neu’r *trillew* (*GLGC* 131.37, 65). Gw. hefyd *GLGC* 128.8, 129.12, 13, 14, 130.21, 132.43, 45, 133.42. Ceir ambell enghraifft gan feirdd eraill yn ogystal, e.e., gw. *GDGor* 2.10n; *GLl* 23.13. Fe’i deellir yn ffig. am ‘person nerthol glew, penderfynol’, ‘ymladdwr gwrol a ffyrnig, gŵr o fonedd, un urddasol’, yn yr achosion hyn. Cyfeiriad yw hwn, fwy na thebyg, at

<sup>113</sup> P. C. Bartrum: *WG1* ‘Godwin’ 8; P. C. Bartrum: *WG2* ‘Godwin’ 8 (A, B).

<sup>114</sup> *Ibid.* ‘Drymbenog’ 2 (B1).

<sup>115</sup> *Ibid.* ‘Drymbenog’ 2 (C2).

gysylltiad teuluol Siôn Llwyd â Dafydd Gam, yr Herbertiaid a'r Fychaniaid. Ymhellach ar Ddafydd Gam a'i ddisgynyddion, gw. 2.20n; cerdd 9. Gw. hefyd 2.19n, 27n.

**eirth** Llsgr. *Jeirll*. Diwygiwyd ar sail y gynghanedd. Ffurf l. *arth* – ‘unrhyw un o amryw fathau o famoliaid mawr trwchus eu ffwr o deulu'r *Ursidae* sy'n cerdded ar wadnau eu traed’, ac fe'i deellir yn ffig. ‘yn enw. am berson ffyrnig neu arw’, GPC<sup>2</sup> 482. Gall fod yn gyfeiriad herodrol at deulu ag arth ar ei arfbais neu grest, gw. DWH iii, 2, 132. Posibilrwydd arall yw mai cyfeiriad brudiol ydyw – yr oedd yr *arth* yn un o'r enwau a ddefnyddid am y gelyn, gw. Evans, ‘Trem ar y Cywydd Brud’, t. 161; *idem*, ‘Prophetic Poetry’, t. 267.

- 24 **Urien** Sef Urien Rheged ap Cynfarch Oer. Ef oedd brenin teyrnas Rheged yn yr Hen Ogledd yn ystod ail hanner y 6g., a cheir nifer o gerddi iddo gan y bardd Taliesin. Yr oedd yn rhyfelwr ffyrnig a heb ei ail, yn deyrn teg, ac yn noddwr hael. Gw. WCD 632-5; TYP<sup>3</sup> 508-12; CLC<sup>2</sup> 744; Gwyddoniadur 941. Gan fod Siôn Llwyd o lwyth Einion ap Llywarch, yr oedd yn ddisgynydd i Urien, gw. P. C. Bartrum: WG1 ‘Einion ap Llywarch’ 1; *ibid.* tt. 51, 11. Ni ellir bod yn hollol sicr a oedd y ddisgynyddiaeth hon yn gywir ai peidio – gall fod yn greadigaeth gan deulu Gruffudd ap Nicolas yn y 15g., neu gan ei hendaidd, Elidir Ddu, yn ystod y ganrif flaenorol. Gw. Ralph A. Griffiths, *Sir Rhys ap Thomas and his Family: A Study in the Wars of the Roses and Early Tudor Politics* (Cardiff, 1993), tt. 8-9; GDEp 9.14n. Gw. hefyd GGLI 11.50n am gyfeiriadau pellach ar y cerddi ‘Canu Urien’. Yr oedd Urien yn gefnder i Lywarch Hen (2.33n), gw. P. C. Bartrum: WG1 tt. 11, 9.

25 **bwyall** ‘erfyn miniog at dorri coed, etc.’, ‘erfyn cyffelyb a ddefnyddid i ryfela gynt’. Gall, mewn barddoniaeth, fod yn ffig. ‘am fedr a chelfyddyd farddonol berffeithiedig’, GPC 357-8. Dywedir yn GPC ei bod yn bosibl mai tarddiad y traddodiad yw’r cyfeiriad hwn at Lawdden gan Uto’r Glyn – *Llawdden â’i fwyell eiddaw / Ni âd gwýdd deunydd lle daw*, gw. GGI<sup>2</sup> XLII.47-8. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau cynharach gan Rys Goch Eryri a Llywelyn ab y Moel wrth sôn am y bardd Gruffudd Llwyd – *Ni welir mwy ôl bwyall* (GRhGE 6.63n), *Bwyall y gerdd a bioedd* (GSCyf 14.21n). Nid yw’n eglur beth yw ystyr *bwyall* yn 2.25 nac, ychwaith, y *fwyall ddu* yn 2.26.

26 Y mae’r ll. hon un sill yn fyr.

**fall Dduw** Llsg. *vallt / ddvw*. Diwygiwyd ar sail y gynghanedd, ac am mai amrywiad diweddarach yw *mallt*. Ceir sawl ystyr – ‘pla, haint’, ‘pydredd’, ‘marwoldeb, dinistr’, hefyd yn ffig.; ‘drwg, drygioni, un (rhai) drygionus, Belial, Satan, (y) diafol’; fel a., ‘pwr, llygredig’, ‘drwg’, ‘melltigaid’, ‘blin, sâl, afiach’, ‘mud (am dân, poen, &c.)’; neu ‘diod a wneid o rawn trwy eplesiad, diod frag, cwrw’, ‘brag’, GPC 2331. Yr hyn a geir yma yw ‘pla, haint’, ‘dinistr’ [gan] Dduw.

**bwyall ddu** Gw. 2.25n.

27 **carw** ‘anifail pedwartroediog yn cnoi ei gil ac sy’n hynod am ei gyrr canghennog, hydd, bwch danas,’ yn ffig. ‘am arglwydd, pendefig, noddwr, arweinydd doeth, &c.’, GPC 434. Gellir ychwanegu’r ystyron ‘arwr’, ‘milwr ifanc’, ac ‘uchelwr’ yn ogystal, gw. GGLI t. 324, GRhGE t. 260, GDEp t. 191. Defnyddid *carw* yn aml yn ffig. mewn canu moliant a dychan, gw. G 115; GGLI 12.38n. Fe’i rhestrir fel un o’r enwau am y Mab Darogan yn Evans, ‘Trem ar y Cywydd Brud’, t. 162; *idem*, ‘Prophetic Poetry’, tt. 266-7. Ar y *carw* yn arwydd o hirhoedledd, gw. GGLI 6.4n, GDLI 48.65n. Gan nad

oes cyfeiriadau brudiol amlwg yn y cywydd, y mae'n fwy tebygol mai cyfeiriad herodrol yw hwn. Ar yr arferiad o ddefnyddio anifail a oedd ar arfbais gwrthrych fel symbol am y gwrthrych hwnnw mewn cywyddau mawl, gw. DWH i, 70-190; 2.19n. Ceir enghreifftiau o'r *carw* mewn cyd-destun herodrol mewn cerddi, gw. GRhGE 3.71n, 94n. Y mae'n bosibl, felly, fod *carw* yn gyfeiriad herodrol at ddisgynyddion Gruffudd Gŵyr,<sup>116</sup> o linach Bleddyn ap Maenyrch, a oedd yn dod o Forgannwg, gw. DWH ii, 187-8. Fodd bynnag, gall fod yn gyfeiriad at unrhyw ddisgynydd i Faenyrch<sup>117</sup> neu Bleddyn ap Maenyrch,<sup>118</sup> gw. DWH ii, 360, 32. (Am deuluoedd eraill y ceid *carw* neu ben *carw* ar eu harbeisiau gw. DWH iii, 28-30, 111.) Cyfeiriad yw hwn, felly, at gysylltiadau Siôn Llwyd â llinach Bleddyn ap Maenyrch drwy ei fam, Annes, gw. P. C. Bartrum: WG2 'Bleddyn ap Maenyrch' 20 (C2). Ymddengys y *carw* yn fynych fel trosiad am rai o'r Fychaniaid yng ngherddi Lewys Glyn Cothi a Llawdden iddynt, gw. GLGC 125.44, 129.15 (*hydd*), 16 (*hyddod*), 131.74; GLI 22.2n, 23.9. Yr oedd y Fychaniaid hefyd yn disgyn o lwyth Bleddyn ap Maenyrch, drwy Gwladus ferch Dafydd Gam, gw. P. C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Maenyrch' 20; 2.19n. Gw. hefyd GLGC 134.3 am drosiad o Forgan ap Dafydd Gam,<sup>119</sup> eto gan Lewys Glyn Cothi.

- 29 **genol echwydd** Ceir sawl ystyr i *cenol* neu *canol* – 'pwynt perfedd', 'craidd, hanner y ffordd rhwng dechrau a diwedd neu rhwng dau eithaf (o ran lle ac amser, &c.)'; neu 'gwely afon, cerrynt, gwely'r môr', 'camlas', hefyd yn ffig.; neu 'rhigol sy'n rhedeg ar hyd llafn cleddyf, ellyn, &c.', GPC 414. Ceir mwy nag un ystyr i *echwydd* yn ogystal

<sup>116</sup> P. C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Maenyrch' 31, 1.

<sup>117</sup> *Ibid.* 'Maenyrch' *passim*.

<sup>118</sup> *Ibid.* 'Bleddyn ap Maenyrch' *passim*.

<sup>119</sup> P. C. Bartrum: WG2 'Bleddyn ap Maenyrch' 20 (C1); P. C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Maenyrch' 20.

– gall fod yn e.g. yn golygu ‘y drydedd awr o’r dydd (h.y. naw o’r gloch y bore); yr ysbaid rhwng hynny a chanol dydd; canol dydd; gorffwysfa anifeiliaid rhag haul canol dydd’, neu’n a. a hefyd fel e.g. yn golygu ‘croyw; dŵr croyw, ?rhaeadr’, GPC 1162. Rhydd G yr ystyron canlynol: e.g. yn golygu ‘canol dydd, nawnddydd; gorffwysfa anifeiliaid rhag haul canol dydd’; ac e.g. yn golygu ‘dwfr rhedegog, afon, rhaeadr’. Ychwanegir hefyd y gall fod yn f. gyflawn, yn golygu ‘llifo, llifo ymaith, cilio; pallu, bod yn eisiau’. Gw. G 436-7. O ystyried y cyd-destun, cynigir mai ystyr y cymal yw cerrynt afon neu raeadr. Ymhellach ar ystyr *echwydd*, gw. John Morris-Jones, ‘Taliesin’, *Y Cymmrodor*, xxviii (1918), 68-70; Ifor Williams (gol.), *Canu Llywarch Hen* (Caerdydd, 1935), tt. 117-18; *idem* (gol.), *Armes Prydein: o Lyfr Taliesin* (Caerdydd, 1955), tt. 62-5; *idem* (gol.), *Canu Taliesin* (Caerdydd, 1960), tt. xxv-xxvi.

30 **dydd** Y mae’r e. *dydd* yn golygu sawl peth – ‘y cyfwng rhwng rhyw un nos a’r nos ddilynol’, ‘diwrnod, pedair awr ar hugain’; neu ‘diwrnod penodol, diwrnod wedi’i neilltuo i bwrpas arbennig, &c.’, ‘barn; cyflafaredd, cytundeb, cymod’, ‘oed (cariadon), pwyntmant; cyfarfod, brwydr, cad’; neu ‘oes (neu ran neilltuol o oes) person, bywyd’, ‘adeg goruchafiaeth neu fuddugoliaeth’, ‘diwrnod olaf (oes), diwedd einioes, (diwrnod) marwolaeth’, GPC 1119-1120. Yr hyn a geir yma yw ‘cytundeb’, ‘oed’, ‘cyfarfod’, neu ‘brwydr’.

31-2 Y mae ll. 31 un sill yn fyr. Y mae’r cwpled hwn yn enghraifft o’r *topos* ‘gwan wrth wan, garw wrth arw’ sy’n gyffredin iawn yn y canu mawl.

33 **Llywarch** Yr oedd Siôn Llwyd yn ddisgynnydd i Einion ap Llywarch, gw. y nodyn cefndir, felly gall fod yn gyfeiriad at y Llywarch hwn. Ar y llaw arall, efallai mai cyfeiriad ydyw at Lywarch Hen, yr arweinydd milwrol o’r Hen Ogledd yn y 6g.

Cyfansoddwyd cylch o englynion amdano yn ystod y 9g. neu'r 10g., lle y'i portreadir fel hen ŵr blin ac unig. Gw. WCD 423-5; TYP<sup>3</sup> 422-4; ByCy 563; Ifor Williams (gol.), *Canu Llywarch Hen* (Caerdydd, 1935), *passim*; CLC<sup>2</sup> 86-7. Yr oedd Llywarch Hen yn gefnder i Urien Rheged (2.24n, 49), gw. P. C. Bartrum: WG 1 tt. 11, 9.

34 **lleiha** Llsgr. *llai / ha*. Diwygiwyd ar sail ystyr.

**ewyn** Ceir dau ystyr posibl i *ewyn* yn y cyfnod hwn, sef 'achwyniad', 'achos anghydfod neu ofid', 'galar, gofid'; (mewn cyfraith) 'achos cyfreithiol', 'cyhuddiad' neu 'cinio, swper', 'gwledd', GPC 653-4. 'Achos anghydfod neu ofid', 'galar, gofid' a geir yma.

37 **clog** Y ddau ystyr posibl yw 'mantell, hugan, cob, cochl', yn ffig. 'gorchudd, cysgod'; a 'craig, clogwyn, dibyn' (digwydd mewn enwau lleoedd), GPC 505. Yr ystyr ffig. a geir yma.

38 **deffroi** Llsgr. *dy / ffrei*. Diwygiwyd ar sail ystyr.

42 **Gwallter** Gall hwn fod yn un o sawl Gwallter, e.e. nain Siôn Llwyd (mam i'w dad) oedd Angharad ferch Dafydd ap Gruffudd ap Gwallter ab Ieuan ap Llywelyn Fychan, gw. P. C. Bartrum: WG1 'Elystan Glodrydd' 57; ac yr oedd Gwallter ap Morgan ap Dafydd Gam yn frawd i'w daid, gw. P. C. Bartrum: WG2 'Bleddyn ap Maenyrch' 20 (C3); *ibid.* 'Bleddyn ap Maenyrch' 20 (C1). Yr oedd *Gwallter* yn enw cyffredin gan yr Hafardiaid, a Gwallter ap Gwilym Hafard yn noddwr hysbys i feirdd, GDEp t. 188 (nodyn cefndir cerddi Atodiadau ii-iv); P. C. Bartrum: WG1 'Havard' 3. Gall hwn, felly, fod yn gyfeiriad at aelod o deulu Hafard, gan gofio hefyd mai tri phen tarw oedd ar arfbais y teulu hwnnw (gw. 2.19n, 40, 42). Yr oedd gan Siôn Hafard Dew, llystad Siôn Llwyd, frawd o'r enw Gwallter, gw. P. C. Bartrum: WG2 'Havard' 2; a Gwallter

oedd enw brawd i Siôn Hafard Grwca, eu taid, yn ogystal, gw. *ibid.* ‘Havard’ 1. Fodd bynnag, nid oedd Siôn Dew yn ddisgynnydd uniongyrchol i un o’r enw Gwallter, gw. *ibid.* ‘Havard’ *passim*. Ni lwyddwyd i olrhain ach Siôn Llwyd i lwyth Gwallter Hen (gw. P. C. Bartrum: WG1 ‘Gwallter Hen’). Trigai Gwallter Hen a’i lwyth ym Mrycheiniog.

- 43 **braich** Ceir sawl ystyr i’r e. hwn – ‘aelod o’r corff dynol sy’n cyrraedd o’r ysgwydd i’r llaw’, yn aml fe’i ceir yn ffig. ‘am gymorth, cynhaliaeth, sail hyder, cadernid’; ‘aelod blaen neu goes flaen anifail; adain aderyn’; neu ‘esgair (o fynydd), pentir; cainc (o fôr)’; ‘adain (am olwyn neu rod neu felin wynt)’, ‘cainc’, ‘handlen; llorp’, GPC 307. Fwy na thebyg, yr hyn a geir yma yw ‘cynhaliaeth’, ‘cadernid’. Gw. hefyd 2.44n.
- brân** ‘aderyn gweddol o faint, gloywddu ei blu a chanddo gan amlaf big ddu a thraed du ac sy’n adnabyddus wrth ei grawc gras, cigfran,’ yn aml yn ffig. ‘am glepgi’, ‘digwydd hefyd mewn e.p. ac enwau afonydd’. Defnyddir *brân* ar lafar yn ne Cymru i olygu ‘chwelydr neu astyllen bridd aradr sy’n troi drosodd bridd y gŵys, castin’; ac ar lafar yn y gogledd i olygu ‘darn o haearn neu o bren ar flaen trol neu gert a thyllau neu riciau ynddo er mwyn codi neu ostwng cist y drol fel y bo’r angen, standard’. Gw. GPC 308. Yr aderyn a geir yma. Y mae’n gyfeiriad brudiol a herodrol at lwyth Einion ap Llywarch. Gallai ei ddisgynnyddion olrhain eu hachau at Urien Rheged (gw. 2.24n), a mabwysiadodd y teulu frain Urien ar ei arfbais. ‘Priodolid y brain gan draddodiad i Owain ab Urien a oedd yn byw ganrifoedd cyn bod cyfundrefn arfbeisiau etifeddol’, LGCD 2.13-18n. Yng nghanu brud cyfnod Rhyfeloedd y Rhosynnau, cyfeiriai’r *frân*, bob amser, at Syr Rhys ap Thomas ap Gruffudd (c. 1449-1525).<sup>120</sup> Gw. DWH ii, 561-2; GDEp 9.16n, 13.41-2n; GDGor 2.30n; Evans, ‘Trem ar y Cywydd Brud’, tt. 161-2;

---

<sup>120</sup> P. C. Bartrum: WG2 ‘Einion ap Llywarch’ 7 (A3, A1).



*idem*, 'Prophetic Poetry', tt. 266, 268; Johnston, *Llên yr Uchelwyr*, t. 363; SP 101-2; Enid Roberts, *Dafydd Llwyd o Fathafarn* (Caerarfon, 1981), t. 20. Rhys ap Thomas oedd prif gynorthwywr Cymreig Harri Tudur, wedi iddo ddod yn frenin. Fe'i gwnaed yn farchog gan Harri Tudur ar ôl brwydr Bosworth, gan iddo fod yn hanfodol i'w ymgyrch yn erbyn Richard III. Yr oedd hefyd yn noddwr hael i'r beirdd. Gw. Griffiths, *Sir Rhys ap Thomas and his Family*, tt. 81-6, *et passim*; ByCy 790-1; GDEp tt. 134-6 (nodyn cefndir cerdd 12); SP 96-7, 110-37; Johnston, *Llên yr Uchelwyr*, tt. 364-5. Gw. DWH ii, 498-9 am ddisgrifiadau o arfbesiau Rhys ap Thomas. Gwyddys bod tair brân ar arfbais Gruffudd Llwyd, tad Siôn Llwyd, gan fod Lewys Glyn Cothi wedi darlunio'r arfbais yn llsgr. P 109 uwch ben ei gywydd yn gofyn i Siôn ap Dafydd ap Gruffudd ap Gwallter o Gydweli dros Ruffudd Llwyd am fweled. Ceid dau flaidd yn chwarter cyntaf a phedwerydd chwarter yr arfbais, sef amrywiad ar flaidd y Dwniaid, gan ei fod yn ddisgynnydd i'r teulu hwnnw. Yr oedd tair brân Urien yn y trydydd chwarter, a'r ail chwarter yn wag. Gw. GLGC t. 536 (nodyn cefndir cerdd 28); DWH i, 102-3, 111-12; 2.18n. Am drafodaeth bellach ar y defnydd hwn o *frain* mewn barddoniaeth Gymraeg, gw. DWH i, 98-100, 117-18, 120, 129-34, 158, 162, 173-4, 177, 180. Gw. hefyd GDLl cerdd 46.

- 44 **Ceidw Duw'r braich, cadw Dir Brychan** Cf. â'r cwpled hwn mewn marwnad gan Lewys Glyn Cothi i Forgan ap Dafydd Gam: *Morgan oedd darian ei dir / a braich hendaidd Brychandir*, GLGC 134.49-50; a'r ll. hon yn awdl farwnad Ieuan ap Dafydd, Llangewydd, gan Lewys Morgannwg: *Cai Hir Brychandir, braich ei hendaidd*, GLMorg 14.60. Gw. hefyd 2.43n.

**Tir Brychan** Brycheiniog. Ceir enghraifft o [t]ir *Brychan* yng nghywydd marwnad Lewys Glyn Cothi i Feredudd ap Morgan ap Dafydd Gam (GLGC 136.18). Cf. â'r defnydd o *Brychandir* am Frycheiniog, uchod a GLGC 110.6, a *gwlad Frychan* mewn cerddi eraill gan Lewys Glyn Cothi (GLGC 89.47, 105.11, 129.1, 131.65, 134.9). Lleolir Brycheiniog yn yr ardal o amgylch dyffrynnoedd Wysg a Llynfi, yn neddwyrain Cymru. Yr oedd yn deyrnas annibynnol Gymreig yn ystod y canrifoedd ôl-Rufeinig. Adwaenid y deyrnas fel Brycheiniog ar ôl yr hanner Gwyddel, Brychan, a honnai pob un o frenhinoedd diweddarach Brycheiniog eu bod yn ddisgynyddion iddo. Yr oedd y llinach wedi dod i ben erbyn c. 930, a daeth Brycheiniog yn rhan o deyrnas Deheubarth. Goresgynnwyd Brycheiniog gan y Normaniaid wedi marwolaeth Rhys ap Tewdwr, brenin Deheubarth, ym 1093. Daeth, felly, yn un o arglwyddiaethau'r Mers. Ym 1521, daeth yr arglwyddiaeth yn eiddo i'r Goron. Gw. Gwyddoniadur 97. Gwnaed Brycheiniog yn sir gan 'Ddeddf Uno' 1536, a pharhaodd i fod yn uned llywodraeth leol hyd 1974 pan ddaeth yn ddosbarth oddi mewn i sir newydd Powys. Gw. *ibid.* 855-6. Ymhellach ar Frycheiniog, gw. Rees Davies, 'Brecon, Owain Glyn Dŵr and Dafydd Gam', *Brycheiniog*, xxxii (2000), 51-60; GSDDT 13.1n; ac ar Frychan, gw. 10.40n. Gw. y nodyn cefndir am gysylltiadau Siôn Llwyd â Brycheiniog.

- 45 **cyw edn** Ymddengys i'r cywydd hwn gael ei ganu pan oedd y gwrthrych yn ifanc – gw. y nodyn cefndir. Dyma ystyr *cyw*: 'aderyn ifanc neu newydd ddeor'; 'anifail ifanc'; yn ffig. '(yn fynych mewn cellwair neu ddychan) gŵr ifanc, ysgolhaig neu ddisgybl ifanc; plentyn, baban; un diffygiol mewn synnwyr; drygwr', GPC 828. Fe'i ystyrir yn drosiad am ddisgynydd yn ogystal, gw. GDGor 2.18n. 'Disgynydd' neu 'plentyn' sydd yma. Gellir deall *edn* yn ffig. ac yn dros. am 'pendefig' neu 'gwron'

(cf. y defnydd o *gwalch* am ‘milwr gwych, ymladdwr glew, pendefig; gwron, arwr’, GPC 1565-6), gw. GLI 17.12n. (Gw. GPC 1166-7 am *edn.*)

**acw** Llsgr. *acwy*. Diwygiwyd am mai amrywiad o’r 16g. ar *acw* yw *acwy*, GPC<sup>2</sup> 16.

48 **mwyn** Gall *mwyn* fod yn un o sawl peth. Gall fod yn a., yn golygu ‘tyner, tirion, addfwyn’, ‘teg, hyfryd’; yn e., y golygu ‘un o ddsbarth o sylweddau solet anorganig naturiol’, ‘un o’r sylweddau hyn (yn enw. un metelaidd) a fwyngloddid’; gall hefyd fod yn e. neu’n ardd. yn golygu ‘budd, lles, gwerth, elw; trysor, cyfoeth; meddiant, mwyniant, defnydd’ (fel ardd., ‘myn’), GPC 2519. Yn y cyd-destun hwn, gall *mwyn* olygu ‘budd, lles’, a hefyd ‘tyner’, ‘addfwyn’, yn enw. pe cymerid *cost* i olygu, yn ffig., ‘darparwr’.

49 **dewrwyth** Llsgr. *dewr* / *wyth*. Diwygiwyd ar sail y gynghanedd ac aceniad y cwpled. Y mae’n a. cyfansawdd o ‘*dewr* + *gwych*’, yn golygu ‘tra gwrol, godidog o ddewr’, GPC 943. Ceir y cofnod cyntaf y gwyddys amdano o’r a. hwn yng ngwaith Tudur Aled (*fl.* 1480-1526). Y mae hon yn enghraifft gyfoes, os nad cynharach.

### 3

Gwrthrych y farwnad hon<sup>121</sup> yw Tudur ap Dafydd ap Robert o Gastell Bylchwyn, sydd ym mhlwyf Llanddyfnan yng nghwmwd Dindaethwy ar Ynys Môn.<sup>122</sup> Yn ôl y rhif cenedlaeth a roddir iddo gan P. C. Bartrum yn yr achau, fe’i ganwyd tua 1400. Arferid noddi

---

<sup>121</sup> Fe’i golygwyd yn Dafydd Wyn Wiliam, *Y Canu i Mawl i Rai Teuluoedd o Gwmwd Dindaethwy* (Llandysul, 2010), cerdd I; *idem*, ‘Mawl y Beirdd i Deulu Castell Bylchwyn, Llanddyfnan’, *Trafodion Cymdeithas Hynafiaethwyr a Naturiaethwyr Môn* (1987), 35-6; a cheir y cywydd hefyd yn CLIG i, 218 – testun sydd yn seiliedig ar lsgr. C, fe ymddengys.

<sup>122</sup> Gw. P. C. Bartrum: WG2 ‘Iarddur’ 2 (A1); P. C. Bartrum: WG1 ‘Iarddur’ 2.

beirdd yng Nghastell Bylchwyn, a cheir sawl cerdd i deulu Tudur ap Dafydd ap Robert.<sup>123</sup> Cyfansoddwyd y farwnad hon tua 1455. Sonnir ynddi am ddau bererindod y bu Tudur arnynt – y cyntaf i Rufain (3.13-22n) a’r ail i Santiago de Compostela (3.23-30n) yng ngogledd-orllewin Sbaen. Bu Robin Ddu, yntau, ar bererindod i Rufain, a chyfansoddodd gywydd i’r llong y teithiodd arni.<sup>124</sup> Y mae’n bosibl fod Tudur wedi mynd ar yr un pererindod ym 1450, neu ym 1455. Yr oedd y flwyddyn honno yn Flwyddyn Sanctaidd, pryd y rhoddai’r Pab faddeueb i rai a fyddai’n ymweld â Rhufain. Credir i Dudur fynd ar ei ail bererindod yn ystod 1455. Ymddengys iddo fynd yn lle cyflawni penyd gyhoeddus – daethai hyn yn arferiad o’r wythfed ganrif ymlaen.<sup>125</sup> Credir iddo farw yn Sbaen a chael ei gladdu yn Eglwys Iago (3.29n-30). Ymhellach ar bererindodau’r Cymry i Rufain, gw. cywydd Robin Ddu i’r llong yn *Y bardd: Tystiolaeth y bardd a chofnodion amdano yn y Rhagymadrodd*, a’r cyfeiriadau pellach yno.

Yr oedd gan Dudur ap Dafydd ap Robert gysylltiadau teuluol â sawl teulu o noddwyr beirdd. Yr oedd ei fam, Angharad ferch Hywel ap Dafydd, yn orwyres ar ochr ei mam i Fadog Gloddaith, a thrwy hynny, yr oedd Tudur yn gyfylder i blant Gruffudd ap Rhys ap Gruffudd ap Madog Gloddaith.<sup>126</sup> Yn ogystal, yr oedd ail wraig Tudur, Myfanwy ferch Dafydd ab Ieuan, yn chwaer i Sioned – gwraig Gruffudd a mam y plant.<sup>127</sup> Gw. cerdd 6, sydd yn farwnad i saith o’r plant. Ceid cysylltiad teuluol pell rhwng Tudur â theulu’r Penrhyn, yn ogystal – yr

---

<sup>123</sup> Gw. Wiliam, ‘Mawl y Beirdd i Deulu Castell Bylchwyn, Llanddyfnan’, 27-41 *passim*.

<sup>124</sup> Cywydd yn dechrau â’r ll. *Y llong tan y fantell hir*. Fe’i cynhwysir mewn nifer o lsgrau. – gw. Maldwyn cerdd 27666; Mynegai 4482. Ceir y rhaglith hwn i’r cywydd yn Ll 124, 196: *Cyw: y llong . pan aeth y bardd i Rufain gida phererinion eraill . 1450 . pan oedd Nicolas yn Bâb*. Ymhellach arni, gw. *Y bardd: Tystiolaeth y bardd a chofnodion amdano yn y Rhagymadrodd*.

<sup>125</sup> Wiliam, ‘Mawl y Beirdd i Deulu Castell Bylchwyn, Llanddyfnan’, 27-8.

<sup>126</sup> P. C. Bartrum: WG1 ‘Iarddur’ 2, ‘Mabon Glochydd’ 2.

<sup>127</sup> *Ibid.* ‘Iarddur’ 2, ‘Carwed’ 2, ‘Mabon Glochydd’ 2.

oeddynt oll yn ddisgynyddion i Dudur ap Madog ab Iarddur.<sup>128</sup> Yn ogystal, yr oedd Myfanwy yn wyres i Wilym ap Gruffudd ap Gwilym o'r Penrhyn a Morfudd ferch Goronwy ap Tudur drwy ei mam, Angharad.<sup>129</sup> Gw. cerddi 7 ac 8, sydd yn gywyddau i Wiliam Gruffudd Fychan ap Gwilym ap Gruffudd o'r Penrhyn; a hefyd gerdd 11, sydd yn farwnad i Owain Tudur, cefnder i Forfudd.<sup>130</sup>

Nid oes cyfeiriad at arfbais Tudur ap Dafydd ap Robert yn DWH ii, ond ceir disgrifiad yno o arfbais ei gyndadau. Ar arfbais Iarddur ap Cynddelw, ceid sieffrwn rhwng tri phen carw, DWH ii, 262-3. Yr oedd ei fab, Madog, yn arddel arfbais ei dad, ond hefyd arfbais ag arni garw cyfan, yn hytrach na phen carw, DWH ii, 352. Yr oedd ei fab yntau, Tudur, yn arddel yr arfbais honno yn ogystal, DWH ii, 557. Gw. hefyd DWH i, 208-9, am stori Madog a'i frawd, Iorwerth, a'u harfbeisiau. (Ceir cyfeiriad at yr arfbais ym marwnad Rhys Goch Eryri i Wilym ap Gruffudd o'r Penrhyn, GRhGE 3.71-2n, 94n; DWH i, 76.)

Ceir yn fynych yn y cywydd hwn ddelweddau yn ymwneud ag adeiladau. Dywedir yn 3.33-4: *Castell a meddgell a mur, / Ei fyd ydoedd*. Y trosiad amlycaf yw'r un o feibion Tudur ap Dafydd ap Robert fel *tyrau* (gw. 3.39n, 54n, 56n, 57n, 59n, 62, 64, 68). Ceir delwedd o'r tad fel castell, a'r pedwar mab fel tŵr ar bob un o'r pedair congl. (Cofier y deallir *tŵr* yn ffig. 'am arweinydd neu ryfelwr cadarn' yn ogystal, gw. GPC 3660; 3.39n.)

Ceir yr un ddelwedd mewn dau gywydd arall – y naill yn fawl gan Owain Waed Da i Ieuan ab Einion o Eifionydd a'i bedwar mab,<sup>131</sup> a'r llall yn farwnad gan Uto'r Glyn i Robert Trefor o'r Waun.<sup>132</sup> Yn y cywydd i Ieuan ab Einion o Eifionydd, sonnir am Gastell Cricieth,

---

<sup>128</sup> *Ibid.* 'Iarddur' 2. Gellir olrhain disgynyddiaeth teulu'r Penrhyn iddo drwy Efa ferch Gruffudd ap Tudur, sef hennain Gwilym ap Gruffudd ap Gwilym o'r Penrhyn, *ibid.* 'Marchudd' 6, 5.

<sup>129</sup> *Ibid.* 'Carwed' 2, 'Marchudd' 6, 13.

<sup>130</sup> Am y berthynas ag Owain Tudur, gw. nodyn cefndir cerdd 11.

<sup>131</sup> GMBen cerdd 15; IGE<sup>2</sup> cerdd LXXXII.

<sup>132</sup> GGI<sup>2</sup> cerdd XVIII. Y Robert Trevor ab Edward ap Dafydd a geir yn P. C. Bartrum: WG2 'Tudur Trefor' 14 (B); P. C. Bartrum: WG1 'Tudur Trefor' 14 yw hwn, nid y Robert Trevor ap John Trevor Hen ab Edward ap

sydd mewn adfeilion, a dywedir fel yr ystyrir Ieuan bellach fel castell a'i feibion yn dyrau – *Ifan ... / Yw'r castell ... / Fab Einiawn yw'r mawrddawn mau / A'i feibion, dewrion dyrau.*<sup>133</sup>

Eto, yng nghywydd Guto'r Glyn, y mae *castell* yn drosiad am dad Robert Trefor, Edward ap Dafydd, a'r *tyrau* yn drosiad am ei feibion – *Castell oedd ef [Edward] i Drefawr, / A'i bedwar mab, dyrau mawr.*<sup>134</sup> Ceir cyffelybiaethau eraill rhwng cywydd Guto'r Glyn a'r cywydd uchod gan Robin Ddu. Adleisia 3.33, uchod, *Castell a meddgell a mur*, y ll. hon gan Uto'r Glyn: *Castell a meddgell ym oedd.*<sup>135</sup> Gelwir Robert Trefor yn *tŵr Edwart*<sup>136</sup> – cf. â 3.57-8n, uchod, lle y dywedir fod Dafydd ap Tudur ap Dafydd ap Robert *megis tŵr Edwart*. Fodd bynnag, nid cyfeiriad at dad nac unrhyw berthynas arall i Ddafydd sydd yma – nid oedd ganddo berthynas agos o'r enw Edward nag Iorwerth. Nid cyffelybu Dafydd i Robert Trefor a wna Robin Ddu yma chwaith.<sup>137</sup> Y mae'n bosibl y gall fod yn gyfeiriad at dŵr un o gestyll Edward I – Castell Beaumaris, efallai, gan mai hwnnw yw'r agosaf at Gastell Bylchwyn. Yr oedd cyfeirio at *Tŵr yr Eryr* i gyfleu cadernid gwrthrych neu i ddisgrifio llys yn boblogaidd yn y cywyddau mawl. Hwn oedd prif dŵr Castell Caernarfon, a'r mwyaf trawiadol. Gw. GSC 13.6n; GGI<sup>2</sup> XVIII.20; GRhGE 2.1n, 21-2n, 68, a'r cyfeiriadau pellach yno. (Nid ymddengys fod *Tŵr Edwart* yn enw ar unrhyw un o dyrau'r ddau gastell hyn, gw. A. J. Taylor, *The King's Works in Wales: 1277-1330* (London, 1974), tt. 376, 401; Richard Haslam, Julian

---

Dafydd sydd yn P. C. Bartrum: WG2 'Tudur Trefor' 14 (C1). Cyfeirir at ei gywely, sef *merch Wilym* (GGI<sup>2</sup> XVIII.52), a oedd yn *ferch o Wynedd* (GGI<sup>2</sup> XVIII.47). Hon oedd Elsbeth, sef merch Gwilym ap Gruffudd ap Gwilym o'r Penrhyn o'i ail wraig, Sioned Stanley, gw. P. C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 6. (Yr oedd Elsbeth yn chwaer i Wiliam Gruffudd Fychan ap Gwilym ap Gruffudd o'r Penrhyn – gwrthrych cerddi 7 a 8.) Daliai Robert Trefor swyddi uchel yn Ninbych, gw. P. C. Bartrum: WG1 'Tudur Trefor' 14; GGI<sup>2</sup> XVIII.59-62.

<sup>133</sup> GMBen 15.25-8; IGE<sup>2</sup> LXXXII, 250.1-5. Gw. hefyd GMBen t. 255 (nodyn cefndir cerdd 15); IGE<sup>2</sup> LXXXII, 249.19n.

<sup>134</sup> GGI<sup>2</sup> XVIII.9-10.

<sup>135</sup> GGI<sup>2</sup> XVIII.14.

<sup>136</sup> GGI<sup>2</sup> XVIII.19.

<sup>137</sup> Nid oedd y ddau yn perthyn i'w gilydd, ond ceid cysylltiad trwy briodasau rhyngddynt – yr oedd mam yng nghyfraith Tudur, Angharad ferch Gwilym o'r Penrhyn, yn hanner chwaer i Elsbeth, gwraig Robert Trefor. Gw. P. C. Bartrum: WG1 'Iarddur' 2, 'Carwed' 2, 'Marchudd' 6, 'Tudur Trefor' 14.

Orbach and Adam Voelcker, *et al.*, *Gwynedd: Anglesey, Caernarvonshire and Merioneth* (New Haven and London, 2009), tt. 99, 290.)

Ymddengys fod Robin Ddu yn gyfarwydd â chywydd Guto'r Glyn i Robert Trefor,<sup>138</sup> a chywydd Owain Waed Da hefyd, o bosibl.<sup>139</sup> Ceir adlais o ddelwedd y *tŵr* ym marwnad Lewys Môn i Hywel ap Tudur o Gastell Bylchwyn, lle y gofynnir *Ple rhoed doe piler y tŵr?*, GLM XXVIII.61. Am enghreifftiau pellach o'r defnydd o *dŵr* mewn cerddi mawl, gw. GLI 6.65, 13.56, 20.4n; GHS 26.58, 63, 66, 17.38, 43; GIRh 10.53; GSdT 9.9.

Cynhwysir y cywydd hwn mewn tair llsgr. yn unig. Y mae'r cywydd yn llsgr. A yn gopi o'r un yn llsgr. B.<sup>140</sup> Yn ôl olnod C copiwyd y cywydd yno o *L.G. O.W.* Ymddengys, o nodyn arall yn y llsgr., mai llsgr. gan Owen Williams o'r Waunfawr, neu 'Owain Gwyrfaï', yw hon.

2 **gwŷdd** Llsgrau. *Gwydd*. Gall hwn fod yn *gŵydd* neu *gwŷdd*, a cheir sawl ystyr i'r ddau. (Am yr holl ystyron posibl, gw. GPC 1752-3, d.g. *gŵydd*; G 730-1, d.g. *gŵyð*; GPC 1753-4, d.g. *gwŷdd*; GPC 1652, d.g. *gwëydd*, *gwehydd*, *gwŷdd*; GPC 1609, d.g. *gwedd'* (amrywiad arno); G 731-2, d.g. *gŵyð*.) *Gwŷdd* sydd yma, yn golygu 'pren(nau), coed(en), cangau, brigau', 'fforest, coedwig, llwyn(i)', yn ffig. 'llinach, tras, cyff'; 'calaf, corsen(nau)'; 'coedwydd, coed defnydd', hefyd yn ffig. 'am ddefnydd barddoniaeth'; 'gwaywffyn'; 'hwylbrennau', GPC 1753. Gellir deall *gwŷdd* ('coedwydd, coed defnydd') yn ffig. am arch (gw. yr enghraifft yn GPC 1753), a dyna sydd yma.

---

<sup>138</sup> Bu farw Robert Trefor ym 1442, P. C. Bartrum: WG1 'Tudur Trefor' 14. Byddai'r farwnad wedi'i chyfansoddi yn fuan wedyn.

<sup>139</sup> A gyfansoddwyd ym 1404 neu'n fuan wedyn, GMBen t. 255 (nodyn cefndir cerdd 15).

<sup>140</sup> Graham C. G. Thomas and Daniel Huws, 'Summary Catalogue of the Manuscripts of South Glamorgan Libraries, Cardiff Central Library, commonly referred to as the 'Cardiff MSS'' (Aberystwyth, 1994), 2-3.

- 3-8 Ceir yn y llau. hyn nifer o gyfeiriadau at y tywydd sydd yn ymdebygu i arwyddion brud – *blwyddyn oer* (3.3), *glaw a drwg leuad* (3.6), *Y mae'r heulwen mor rhewlyd* (3.8). Ymhellach ar arwyddion brud hyn, gw. EVW 238 (Mynegai), d.g. *Seasons, et passim*; y cyfeiriadau yn GDGor t. 99; R. Wallis Evans, 'Trem ar y Cywydd Brud', *Harlech Studies*, gol. B. B. Thomas (Cardiff, 1938), tt. 154-6. Fodd bynnag, nid hyn sydd yma. Ceir nifer o wahanol arwyddion neu ddelweddau cyffredin yn y cywyddau marwnad. Un enghraifft o'r rhai hynny yw'r 'set ... o arwyddion sy'n cysylltu â motiffau "an-naturiol", lle mae tirlun natur a thywydd yn newid i arwyddo galar', ACM 260. Mewn cywyddau marwnad i uchelwyr, defnyddir delweddau o wlybaniaeth, tywyllwch ac oerfel i gyfleu galar, gw. *ibid.* 260-8. Yr oedd cysylltiad rhwng yr arwyddion hyn ac arwyddion Dydd y Farn, gw. *ibid.* 262-3. Ymhellach ar arwyddion Dydd y Farn, gw. William W. Heist, 'Welsh Prose Versions of the Fifteen Signs Before Doomsday', *Speculum*, xix (1944), 421-32; Dat vi.12-17, vii.16, viii.6-ix.2; Math xxiv.29; Marc xiii.24; Luc xxi.25-6. Gw. hefyd gyfeiriadau cyffelyb ym marwnad Gruffudd ab yr Ynad Coch i Lywelyn ap Gruffudd, ein Llyw Olaf, GBF 36.63-76n.
- 5 **y Ficses** Llsgrau. *Y Fiches* (wedi'i danlinellu yn y tair llsgr.). Diwygiwyd ar sail ystyr. Yr hyn a geir gan Owen Jones yn ei olygiad o'r cywydd yw *Y Fiches*, gw. CLIG i, 218; a cheir *Y ficses* yn Wiliam, 'Mawl y Beirdd i Deulu Castell Bylchgwyn, Llanddyfnan', 35. Gall fod yma dreigladd o'r e.b. *buches*, yn golygu '?bywyd, buchedd' neu 'buarth godro, lle caeëdig y dygir gwartheg iddo i'w godro, ffald, beudy'; 'cyrchfa, mangre, cynullfan', GPC 344. Y mae'r e.g. *ficses* neu *ficsys* (benthyciad o'r S. *bissex*) yn golygu '?argoel(ion)', GPC 1269. Dyma'r e. mwyaf



tebygol yn y cyswllt hwn. Yn ôl GPC, ceir y cofnod cynharaf o'r e. hwn yng ngwaith Lewys Môn (*fl. c.* 1480-1527), gw. GLM XLVI.9n. Dyma enghraifft gynharach, felly.

(Dylid nodi yma ystyr *bissext*, sef 'the intercalary day in leap-year', OED<sup>2</sup> ii, 225.)

6 **glaw** Llsgrau. *gwlaw*. Camsillafiad o *glaw* yw *gwlaw*. Digwydd yr enghraifft gynharaf ym 1681, a hynny dan ddyllanwad *gwlyb*, *gwlych*. Gw. GPC 1406.

7 **Tudur** Gwrthrych y cywydd, gw. y nodyn cefndir.

9 **Dafydd** Tad y gwrthrych, gw. y nodyn cefndir.

11 **eryr** Ceir sawl ystyr posibl yma. Gellir deall *eryr*, yr aderyn rheibus, yn ffig. 'mewn daroganau, chwedloniaeth, llên apocalyptaidd, &c.'; yn ffig. 'arwr', 'pennaeth', 'tywysog', 'arweinydd', 'ysglyfiwr', 'dyn ysbrydol neu nefol'; 'yr aderyn hwn fel arwyddlun herodrol neu fel gwaith celfyddyd', GPC 1240. Yr oedd yr *eryr* yn arwydd brud am y Mab Darogan. Am restr o'r enwau a geir yn y brudiau am y Mab Darogan, a'i elynion, gw. Evans, 'Trem ar y Cywydd Brud', tt. 161-2; *idem*, 'Prophetic Poetry', tt. 266-7. Nid ymddengys fod *eryr* ar arfbeisiau teulu Tudur ap Dafydd ap Robert, ar ochr ei dad na'i fam. (Gw. y nodyn cefndir am yr arfbais y byddai Tudur o bosibl wedi'i defnyddio.) Dylid nodi y ceid gwalch neu *eryr* ar arfbais cyndad i ail wraig Tudur, sef Carwed o Dwrcelyn, DWH ii, 66-7. Gwraig Tudur oedd Myfanwy ferch Dafydd ab Ieuan, gw. P. C. Bartrum: WG1 'Carwed' 2. Y mae'n bosibl ei bod hithau'n arddel yr arfbais honno. Fodd bynnag, fwy na thebyg nid yw *eryr*, yma, yn arwydd herodrol, ac nid yw'n debygol o fod yn arwydd brud chwaith, gan nad oes cyfeiriadau brudiol amlwg eraill yn y cywydd. Fe'i deallir, yma, yn ffig. am 'arwr', 'pennaeth', 'arweinydd'. Ar amrywiol arwyddion a symboliaeth yn ymwneud â'r *eryr*, gw. GGLI 6.11n.

- 13-22 Cyfeiriad sydd yma at bererindod Tudur ap Dafydd ap Robert i Rufain, gw. y nodyn cefndir.
- 14 **Robert** Taid y gwrthrych, gw. y nodyn cefndir.
- 15 **dyrnod pen** Ceir sawl ystyr i *pen* – am yr holl ystyron, gw. GPC 2726-9. Y pen dynol, neu'r 'pen o'i ystyried yn eisteddle'r deall neu'r emosiynau', 'bywyd', sydd yma, GPC 2726. Gw. yr Eirfa am ystyr *dyrnod*. Ceir adlais yma o farwnad Iolo Goch i Dudur Fychan o Benmynydd – *Dyrnod pen hyd ymennydd / Ar dlodion gwlad Fôn a fydd*, GIG IV.27-8.
- 17-18 **Pererin ... / I Beder** Pedr (i'w ynganu yn ddwysill yma, ac yn unsill yn 3.49). Cyfeiriad sydd yma at bererindod i Rufain. Credid bod Eglwys Sant Pedr ar y safle lle y croeshoeliwyd yr Apostol Seimon Pedr (gw. 11.21-2n). Yr oedd yn un o bedair prif eglwys Rhufain, ac yn un o'r saith a oedd ar gylchdaith y pererinion. Gw. CE xi, d.g. *Peter, Basilica of Saint*; Katharine K. Olson, 'Ar Ffordd Pedr a Phawl': Welsh Pilgrimage and Travel to Rome, c.1200-c.1530', Cylchg HC xxiv.2 (Rhagfyr 2008), 30, 32-3. Ymhellach ar yr Apostol Seimon Pedr, ceidwad allweddau'r Nef, gw. 8.60n; CE xi, 744-52, d.g. *Peter, Saint*; ODCC<sup>3</sup> 1260-1.
- 19-20 **Croesi ... / A wnâi y Pab wyneb hwn** Ystyron posibl *croesi* yn y cyfnod hwn yw 'mynd neu symud dros', 'gwneuthur neu osod yn groes', 'nodi â chroes'; neu 'gwneud arwydd y groes', 'bendithio', 'amddiffyn'; neu 'croeshoelio', GPC 605. 'Gwneud arwydd y groes', 'bendithio' a geir yma – bendithiwyd Tudur ap Dafydd ap Robert gan y Pab yn ystod ei bererindod i Rufain. Gw. 3.13-22n a'r nodyn cefndir.
- 23-30 Sonnir yma am ail bererindod Tudur ap Dafydd ap Robert i Santiago de Compostela, lle y bu farw, gw. y nodyn cefndir.

- 24 **ffin** Ceir dau bosibilrwydd yma – gall olygu ‘terfyn, goror’, ‘ardal’, ‘diwedd, cyflawniad’; neu ‘dirwy, cosb, camlwrw, fforffed, tâl’, GPC 1288-9. Yr ystyr mwyaf tebygol yma yw ‘cosb’, ‘fforffed’. Awgryma Dafydd Wyn Wiliam i Dudur ap Dafydd ap Robert fynd ar ail bererindod er mwyn cael osgoi cyflawni penyd cyhoeddus, gw. Wiliam, ‘Mawl y Beirdd i Deulu Castell Bylchgwyn, Llanddyfnan’, 28; a’r nodyn cefndir.
- 28 **Sant Antwn** Ymdegyys mai’r meudwy Sant Antwn yr Anialwch, neu Sant Antwn o’r Aifft, oedd hwn. Ceir sawl ffynnon ledled Prydain wedi’i chysegru iddo – un yn Llansteffan. Fe’i ganed tua chanol y 3g. yn yr Aifft ac, yn ôl y *Vita Antonii (Bywyd Antwn)* a dadogwyd ar Sant Athanasius, bu fyw nes oedd yn 105. Antwn oedd sylfaenydd mynachaeth Gristnogol. Gw. CE i, 553-5, d.g. *Anthony, Saint*; ODCC<sup>3</sup> 80-1, d.g. *Antony, St, of Egypt*. Credid y gellid gwella anhwylderau’r croen pe byddid yn gweddio iddo, gw. CE i, 555, d.g. *Anthony, Saint, Orders of: II Antonines (Hospital Brothers of St. Anthony)*; OED<sup>2</sup> i, 510, d.g. *Anthony’s or St. Anthony’s fire*.
- 29 **côr Iago** Ystyron posibl *côr* yw ‘cangell, cafell, cysegr’, ‘llys’, ‘cylch, cwmpas’; neu ‘corff o gantorion mewn eglwys’, ‘cynulliad (o grefyddwyr, saint, proffwydi, &c.)’, ‘torf’, ‘cymdeithas neu gwfaent o wŷr llên’; neu ‘preseb’; neu ‘cân, cerdd’, GPC 554-5. Gellir ychwanegu’r ystyr ‘ceidwad, cynheiliad’, G 163-4. Digwydd *côr* hefyd fel elfen mewn e. cyfansawdd, fel *amgor, bangor*, gan olygu ‘plethiad, rhwymyn, tro’, ‘terfyn, ffin’, GPC 555. Yr hyn a geir yma yw ‘cangell, cafell, cysegr’ Iago. Yn ôl traddodiad, yn Santiago de Compostela y claddwyd yr Apostol Iago. Credir i Dudur farw yn ystod ei bererindod yno, a chael ei gladdu yn Eglwys Iago, gw. Wiliam, ‘Mawl y Beirdd i Deulu Castell Bylchgwyn, Llanddyfnan’, 28; a’r nodyn cefndir.

Ymhellach ar Sant Iago, gw. CE viii, 279-80, d.g. *James the Greater, Saint*; ODCC<sup>3</sup> 857, d.g. *James, St, 'the Great'*.

**mwyn** Gw. 2.48n. Yr a., yn golygu 'tyner, tirion, addfwyn', 'teg, hyfryd', a geir yma.

- 31 **dianwyl** Gw. yr Amrywiadau am ddarlleniadau'r llsgrau. Ceir nifer o wahanol bosibiliadau yma. Gall fod yn gyfuniad o *di-*, sydd yn rhagddodiad cadarnhaol a chryfhaol, neu *di-*, sydd yn negydd mewn cyfansoddeiriau, GPC 943, gydag *anwyl<sup>1</sup>*, *anwyl<sup>2</sup>*, neu *annwyl*. Ystyr yr a. *anwyl<sup>1</sup>* yw 'hy, digywilydd, haerllug, heb fod yn swil', GPC<sup>2</sup> 391. Y mae'r e.g. *anwyl<sup>2</sup>*, neu *anhwyl*, yn golygu 'anhwylder neu salwch (corfforol neu feddyliol), clefyd', 'gwallgofrwydd', hefyd yn ffig., GPC<sup>2</sup> 299-300. (Os mai hyn a geir yma, y mae hwn yn enghraifft gynnar o'r e.) Digwydd *annwyl* fel a., yn golygu 'a gerir', 'cu, hoff', 'gwerthfawr', 'dymunol', ac fel e., yn golygu 'person a gerir, anwlyd, cariad', GPC<sup>2</sup> 345. Y ddau gyfansoddair mwyaf tebygol yw *di-* (cadarnhaol) + *anwyl<sup>2</sup>*, a *di-* (negydd) + *annwyl*. Ni ellir bod yn sicr o'r darlleniad cywir, ond cynigir mai *dianwyl* sydd yma.

- 32 **gŵyl** Gall *gŵyl* olygu 'dydd neu ddyddiau pryd na chyflawnir gwaith beunyddiol, dydd neu ddyddiau o ddifyrrwch neu adloniant', 'dydd gŵyl (grefyddol)', 'gwylmabsant'; neu 'gwyliadwriaeth, gwarchodaeth, gwylfa nos', GPC 1758-60. 'Gwylfa nos', neu wylnos, yw'r ystyr mwyaf tebygol yma.

- 33 **Castell a meddgell a mur** Gw. y nodyn cefndir. Gall *castell* fod yn gyfeiriad cyffredinol, yn golygu 'adeilad helaeth wedi ei gadarnhau i ddal gwarchae, caer, amddiffynfa, cadarnle; plasty castellog', GPC 438 (fe'i deellir weithiau fel 'amddiffynfa' yn ffig., G 116). Ar y llaw arall, gall gyfeirio'n benodol at Gastell Bylchgwyn. Gw. hefyd 3.39n. Ymhellach ar Gastell Bylchgwyn, gw. 3.61n.

- 34 **byd** Y mae'n werth nodi yma holl ystyron *byd* yn y cyfnod hwn. Un ystyr yw 'y ddaearen', 'y greadigaeth neu ran ohoni', yn aml yn ffig. 'am gylch, maes, &c.'; 'bywyd dyniolaeth ar y ddaear'; 'oes neu holl gyfnod bodolaeth y ddaear neu'r greadigaeth'; 'holl drigolion y ddaear neu ran ohoni', 'rhai bydol, digrefydd'. Ystyr arall yw 'meddiannau, eiddo, cyfoeth'; 'anwylyd, cariadferch'. A'r ystyr olaf yw 'trafferth, helynt, cyffro, gofal, trwbl'. Gw. GPC 360-1. (Gall *byd* olygu 'bwyd' yn ogystal, gw. GPC 361.)
- 35 **O rieni yr Ynys** Ymddengys fod nifer o hynafiaid Tudur ar ochr ei dad yn frodorion o Ynys Môn, gw. P. C. Bartrum: WG1 'Iarddur' 2. Y mae'n bosibl fod cartref mam Tudur, Angharad, ar Ynys Môn hefyd, ond ni wyddys yn bendant, gw. *ibid.* 'Mabon Glochydd' 2.
- 36 **O Roeg** Cyfeiriad yr hwn at y myth fod cysylltiad rhwng tarddiad y Cymry â Groeg. Yn ôl yr *Historia Brittonum*, a briodolwyd i Nennius, a *Historia Regum Britanniae* Sieffre o Fynwy, tarddiad y Brythoniaid oedd y cymeriad chwedlonol Brutus. Yn ôl y chwedl fel y'i ceir gan Sieffre o Fynwy, ffodd Aeneas Ysgwyddwyn – taid neu hendaidd i Frutus – o Gaer Droea wedi'r distryw. Ganwyd Brutus yn yr Eidal, ac, ar ôl iddo ladd ei dad drwy ddamwain, aeth i Roeg. Yno rhyddhaodd ddisgynyddion gwŷr Troea, a ddaethai i Roeg wedi'r distryw. Hwylodd Brutus oddi yno gyda'i ddilynwyr i Ynys Leogetia, ac yn ddiweddarach i Fôr Tiren lle y darganfyddasant fwy o dras Caer Droea. Yn y diwedd, daethant i Ynys Prydain, a elwid y pryd hynny y Wen Ynys, ac ymsefydlu yno. (Daeth yr enw *Cymraeg* ar yr iaith o *Cam Roeg*, yn ôl Sieffre.) Gw. BD 2-21; WCD 62, d.g. *Brutus*.

**Arglwydd Rhys** Rhys ap Gruffudd ap Rhys ap Tewdwr Mawr (1132-97), P. C. Bartrum: WG1 ‘Rhys ap Tewdwr’ 4, 3, 1. Ei fam oedd Gwenllian ferch Gruffudd ap Cynan. Yr oedd yn arglwydd ar Ddeheubarth. Cadarnhawyd ei awdurdod gan y brenin Harri II, a’i gwnaeth yn Ustus De Cymru a’i gydnabod yn fel teyrn Cymreig mwyaf blaenllaw ei gyfnod. Gw. ByCy 788-9; ac ymhellach arno, gw. Nerys Ann Jones a Huw Pryce (goln.), *Yr Arglwydd Rhys* (Caerdydd, 1996). Yr oedd yr Arglwydd Rhys yn gyndad i Dudur, a gallai olrhain ei dras iddo drwy sawl cangen. Dyma rai o’r canghennau: mam Gruffudd ap Madog Gloddaith oedd Teili – merch i Syr Gruffudd Llwyd ap Rhys ap Gruffudd a Gwenllian ferch Cynan ap Maredudd, ill dau yn ddisgynyddion i’r Arglwydd Rhys, gw. P. C. Bartrum: WG1 ‘Mabon Glochydd’ 2, ‘Marchudd’ 17, 14, 4, ‘Rhys ap Tewdwr’ 4; *ibid.* ‘Mabon Glochydd’ 2, ‘Marchudd’ 17, ‘Rhys ap Tewdwr’ 6, 4. Yn ogystal, y mae’n bosibl mai mam plant Tudur ap Madog ab Iarddur oedd Morfudd ferch Rhys ap Maredudd ap Rhys Gryg ab yr Arglwydd Rhys, P. C. Bartrum: WG1 ‘Iarddur’ 2, ‘Rhys ap Tewdwr’ 11, 8, 4. Cofier y geill fod mwy o gysylltiadau na hyn.

- 38 **llew** Gw. 2.23n. Deellir *llew*, yma, yn ffig. am ‘person nerthol glew, penderfynol’, ‘ymhladdwr gwrol a ffyrnig, gŵr o fonedd, un urddasol’, gw. GPC 2168-9.
- 39 **tŵr** Gw. y nodyn cefndir a 3.33n.
- 40 **cellweiriwr** ‘un chwannog i ysmalio, digrifwr; digrifwas a gedwid gan bendeigion gynt i beri difyrrwch’, GPC 460. Yn ôl GPC, daw’r cofnod cynharaf o’r e. hwn o waith Tudur Aled – o’r cyfnod rhwng 1480 a 1525. Dyma enghraifft gynharach.
- 42 **dwyradd gerddorion** Prydyddion a thelynorion. Ni chymeradwyid arddel dwy grefft, fodd bynnag ceir sawl enghraifft o rai a allai brydyddu a chanu’r delyn.

Rhoddid yr un urddas i'r ddwy grefft. Gw. GLIGut 14.28n, tt. 4-5; Enid Roberts, 'Marwnadau Telynorion', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, xv (1966), 80-117 *passim*; GDLI 71.33n.

43 **dwyn** Y mae'r defnydd o'r berfenw *dwyn* yn gyffredin iawn yn y cywyddau marwnad, yn enwedig mewn marwnadau uchelwyr – 'Mae *dwyn* yn golygu "cymryd neu gipio ymaith drwy farwolaeth a chymryd einioes ymaith" yn ogystal â'r ystyr bellach o gipio neu ladrata. Yng nghyd-destun genre y farwnad gall yr ystyr fwy penodol o gludo a chario ymaith fod yr un mor weithredol ... Rhaid deall amlystyredd y ferf "dwyn" i ddeall proses arwyddocáu motiff colled. Rhan o'r proses arwyddocáu delfrydol sy'n digwydd yn y farwnad yw fod cipio unigolyn i'w farwolaeth yn gyfystyr â cholli gwerthoedd neu ddelfrydau cymdeithasol', ACM 269-70. Gw. GPC 1129-30 am holl ystyron *dwyn*.

44 **Dwyn y doeth o Dindaethwy** *Dindaethwy* yw'r ffurf wreiddiol, nid *Tindaethwy*, fel y rhagdybir gan y treigladd. Ffurf lwgr yw *Tindaethwy*. Ceir yr un ll. ym marwnad Lewys Môn i Hywel ap Tudur, GLM XXVIII.21n; a cheir *Tindaethwy* wedi'i dreiglo mewn cywydd arall gan Lewys Môn, XL.67n. *Dindaethwy* yw'r ffurf a ddefnyddir gan Iolo Goch yn ei farwnad i Dudur Fychan, a cheir y nodyn hwn amdano: 'mynych gamsillefir yr enw â *T-*; e.e. gw. mynegai BBCS. [*Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*] 1. 377, 4. 379, lle mynnir rhoi *T-*, er mai *D-* sydd yn yr hen destunau y cyfeirir atynt', IGE<sup>2</sup> V, 12.20n.

49 **pedwar ŵr** Cyfeiriad yw hwn at bedwar mab Tudur ap Dafydd ap Robert, gw. 3.53n, 55n, 58n, 59n. Yn ôl yr achau, yr oedd gan Dudur chwe phlentyn –Llywelyn, Hywel, Gwerful, Elen, Dafydd a Gwilym, P. C. Bartrum: WG2 'Iarddur' 2 (A1). Gwyddys mai

Lleucu ferch Llywelyn ab Ieuan o Arianell, Llechgynfarwy,<sup>141</sup> gwraig gyntaf Tudur, oedd mam Llywelyn a Hywel. Myfanwy ferch Dafydd ab Ieuan o Lwydiarth, Llannerch y medd,<sup>142</sup> ei ail wraig, oedd mam Elen. Ond ni nodir pa un o'r ddwy oedd mam y tri arall. Fodd bynnag, noda Dafydd Wyn Wiliam mai Lleucu oedd mam y pedwar mab yn ôl tystiolaeth y beirdd, *idem*, 'Mawl y Beirdd i Deulu Castell Bylchwyn, Llanddyfnan', 34.

- 53-4 **Lywelyn sy' ... / O'r tŵr uchaf** Mab hynaf y gwrthrych, gw. 3.49n; P. C. Bartrum: WG2 'Iarddur' 2 (A<sub>2</sub>). Ymhellach ar *tŵr*, gw. 3.39n a'r nodyn cefndir.
- 53 **gwiwlan** 'gwiw + glân'. 'Sanctaidd, teilwng a phur, glân, glân ei fuchedd, addas, gweddus; hawddgar; teg, harddwych', GPC 1674. Nodir yn GPC y ceir y cofnod cynharaf o'r a. hwn yng ngwaith Siôn Brwynog yn yr 16g. Fodd bynnag, ceir enghraifft mewn cywydd gan Ruffudd Llwyd (*fl.* c. 1380-1410), gw. GGLI 5.38. Os digwydd i'r enghreifftiau gan Ruffudd Llwyd a Robin Ddu fod yn gamgymeriadau copïo gan gopiŵyr diweddarach, posibliadau eraill yma fyddai'r a. *gwiwlon* ('gwiw + llon'), yn golygu 'teilwng a llon neu hapus, rhagorol, mwyn, tirion; ffyrnig, diellon'; neu'r a. *gwiwlun* ('gwiw + llun'), yn golygu 'ffurf osgeiddig; hardd ei llun (am ferch), lluniaidd, gosgeiddig, o adeiladwaith hardd, ac iddo ffurf deilwng', gw. GPC 1674.
- 55-6 **Hywel ... / Yw'r ail tŵr** Ail fab y gwrthrych, gw. 3.49n; P. C. Bartrum: WG2 'Iarddur' 2 (A<sub>1</sub>). Ef a ddilynodd ei dad yng Nghastell Bylchwyn. Canwyd marwnad iddo gan Lewys Môn, gw. GLM cerdd XXVIII; Wiliam, 'Mawl y Beirdd i Deulu Castell Bylchwyn, Llanddyfnan', 28-9. Ymhellach ar *tŵr*, gw. 3.39n a'r nodyn cefndir.

---

<sup>141</sup> P. C. Bartrum: WG1 'Iarddur' 4.

<sup>142</sup> *Ibid.* 'Carwed' 2.



- 55 **gwirwr** Llsgrau. *wiriwr*. Diwygiwyd ar y sail na cheir cofnod o *gwiriwr* cyn 1722, gw. GPC 1670. Awgrymir mai *gwirwr* sydd yma, sef e. cyfansawdd o *gwir* + *gŵr*.
- 56 **ael y traeth** Cyfeiriad at safle Castell Bylchwyn yw hwn – fe saif ar godiad tir, lai na dwy filltir o draeth y Benllech a Thraeth Coch. Gw. Wiliam, ‘Mawl y Beirdd i Deulu Castell Bylchwyn, Llanddyfnan’, 27; Richards, ‘Cwmwd Dindaethwy’, 34. Gw. hefyd 3.61n.
- 57-8 **Y trydydd, megis tŵr Edwart, / Yw Dafydd** Trydydd mab y gwrthrych, gw. 3.49n. Ymhellach ar *tŵr* a *tŵr Edwart*, gw. 3.39n a’r nodyn cefndir.
- 59 **Gwilym, tŵr Môn y’i gelwir** Pedwerydd mab y gwrthrych, gw. 3.49n. Ymhellach ar *tŵr*, gw. 3.39n a’r nodyn cefndir.
- 61 **Castell Bylchwyn** Castell Bylchwyn ym mhlwyf Llanddyfnan, cwmwd Dindaethwy, oedd cartref Tudur ap Dafydd ap Robert. Yr oedd yn gartref i uchelwyr ac yn gyrchfan i’r beirdd. ‘Castell’ yw enw’r tŷ erbyn heddiw. Gw. Wiliam, ‘Mawl y Beirdd i Deulu Castell Bylchwyn, Llanddyfnan’, 27; Bedwyr Lewis Jones, ‘Tai lle noddid beirdd, c. 1340-1640’, AM 58-9. Gw. hefyd y nodyn cefndir; 3.33n, 56n. *Bylchwyn* neu *Gastell Bylchwyn* yw’r ffurf a ddefnyddir gan Lewys Môn hefyd yn ei farwnad i Hywel ap Tudur a chan Ddafydd Glyn Dyfrdwy yn ei gywydd yn gofyn am gleddyf gan Domas Fychan ap Hywel ap Tudur dros Wiliam Gruffudd o Feaumaris, gw. GLM XXVIII.40; Wiliam, ‘Mawl y Beirdd i Deulu Castell Bylchwyn, Llanddyfnan’, 37 (llau. 11-12). (Yr oedd Castell Bylchwyn yn drefgordd yn ogystal, gw. Richards, ‘Cwmwd Dindaethwy’, 34.)

Ceir yr awdl hon mewn pedair llsgr., ond nid oes awgrym yn yr un o'r rhaglithiau pwy yn union oedd Siôn ap Tomas, y gwrthrych. Fodd bynnag, o edrych ar gynnwys yr awdl, gellir gwneud awgrymiadau. Ymddengys mai Siôn ap Tomas ap Siancyn ap Madog ydoedd (4.1n-2, 6n), a bod cysylltiad rhyngddo a Phylib Fychan (4.15n) a Dafydd Gam (4.10n). Gellir casglu o'r cyfeiriad at Ddafydd Gam mai brodor o Frycheiniog oedd Siôn.

Nid oes yr un John ap Thomas ap Jenkin ap Madog rhwng y blynyddoedd 1350 a 1450 ym mynegai yr achau a olygwyd gan P. C. Bartrum, nac ychwaith rhwng 1400 a 1500 yn unrhyw ran o Gymru.<sup>143</sup> Y mae'n bosibl mai disgynnydd, efallai, i Siancyn ap Madog oedd Siôn ap Tomas.<sup>144</sup> Ceir llawer o gofnodion am rai o'r enw John ap Thomas ym mynegai Brycheiniog a Rhwng Gwy a Hafren,<sup>145</sup> a gellid dadlau dros dderbyn un o nifer ohonynt fel gwrthrych yr awdl hon.<sup>146</sup> (Gellid diystyru'r rhai a aned tua'r flwyddyn 1500 – rhif cenhedlaeth 15 – am eu bod yn rhy ddiweddar i fod yn wrthrych cerdd gan Robin Ddu.) Ceir hefyd ym mynegai'r achau am ardaloedd Brycheiniog a Rhwng Gwy a Hafren un o'r enw James ap Thomas ap Jenkin ap Madog.<sup>147</sup> Awgrymir mai ef yw gwrthrych yr awdl hon.

Ganed Siôn ap Tomas tua'r flwyddyn 1470 (yn ôl rhif cenhedlaeth P. C. Bartrum). Yr oedd yn fab i Domas ap Siancyn ap Madog ap Richard Fawr o Slwch, Llanfrynach, Tir Ralph, Brycheiniog. Ei fam oedd Margred ferch Ieuan ap Morgan ap Dafydd Gam.<sup>148</sup> Lladdwyd

<sup>143</sup> P. C. Bartrum: WG1 (cyfrol 7); P. C. Bartrum: WG2 (cyfrolau XIII-XVIII).

<sup>144</sup> Am yr ystyr 'disgynnydd' i *mab*, gw. GPC 2293.

<sup>145</sup> P. C. Bartrum: WG2 (cyfrol XIII), tt. 53-5.

<sup>146</sup> Byddai cyfeiriadau (annelwig, hyd yn oed) at arfbais y gwrthrych wedi bod yn ddefnyddiol i ddarganfod pwy ydoedd, ond ni cheir unrhyw gyfeiriad felly yn y cywydd.

<sup>147</sup> P. B. Bartrum: WG2 'Bleddyn ap Maenyrch' 11 (B1).

<sup>148</sup> *Ibid.* 'Bleddyn ap Maenyrch' 20 (C2, C1); P. C. Bartrum: WG 1 'Bleddyn ap Maenyrch' 20.

Richard Fawr gan Dafydd Gam – a oedd yn digwydd bod yn gyfylder iddo hefyd – yn stryd fawr Aberhonddu, a ffodd Dafydd Gam o'r herwydd.<sup>149</sup>

Mam Tomas ap Siancyn oedd Denys ferch Tomas Fychan ap Phylib Fychan o Dyle Glas, Felindre, Talgarth, Brycheiniog.<sup>150</sup> Bu Denys yn briod ddwywaith. Ei gŵr cyntaf oedd Syr Rhosier Fychan o Dretŵr.<sup>151</sup> Yr oedd yntau yn ddisgynydd i Ddafydd Gam hefyd – yr oedd yn fab i Wladus ferch Dafydd Gam o'i phriodas gyntaf â Syr Rhosier Fychan, Brodorddyn.<sup>152</sup>

Bu Fychaniaid Tretŵr yn deyrngar i'r Iorciaid yn ystod Rhyfeloedd y Rhosynau. Bu Rhosier Fychan yn ymladd drostynt ym mrwydr Mortimer's Cross, ac ef a arweiniodd Owain Tudur i'w ddiennyddio wedi'r frwydr. Dienyddiwyd yntau gan Siasbar Tudur, mab Owain, ym 1471. Yr oedd Tomas Fychan – mab Denys o'i phriodas gyntaf – yn deyrngar i'r Iorciaid. Bu'n dal swyddi pwysig yn ne Cymru dan y brenhinoedd Edward IV a Richard III. Fe'i hurddwyd yn farchog am ei deyrngarwch i Richard III yn ystod gwrthryfel Dug Buckingham ym 1483.<sup>153</sup> Fodd bynnag, collodd ei ffydd ynddynt, a chafodd bardwn gan Harri Tudur pan ddaeth ef yn frenin.

Yr oedd Fychaniaid Tretŵr yn noddwyr beirdd amlwg. Canwyd iddynt gan nifer fawr o feirdd y cyfnod – gan Lewys Glyn Cothi, Dafydd Epynt, Huw Cae Llwyd, Ieuan ap Huw Cae Llwyd, Hywel Swrdwal a'i fab Ieuan, Bedo Brwynllys, ac eraill; a chredir mai Hywel

---

<sup>149</sup> ByCy 93. Am y berthynas rhyngddynt, gw. P. C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Maenyrch' 11, 10, 'Trahaearn Fawr' 11, 'Bleddyn ap Maenyrch' 17, 18, 20; LD ii, 57.

<sup>150</sup> P. C. Bartrum: WG2 'Llywarch ap Brân' 11 (A1).

<sup>151</sup> *Ibid.* 'Drymbenog' 2 (C1).

<sup>152</sup> P. C. Bartrum: WG1 'Drymbenog' 2, 'Bleddyn ap Maenyrch' 20.

<sup>153</sup> Gw. ByCy 940; W. R. B. Robinson, 'Knighted Welsh Landowners, 1485-1558: A provisional List', Cylchg HC xiii (1986-7), 287; GDEp t. 142 (nodyn cefndir cerdd 13).

Dafi oedd bardd teulu swyddogol Syr Tomas Fychan.<sup>154</sup> Ysgrifennodd Lewys Glyn Cothi ei ddwy awdl i'r teulu yn Llyfr Coch Hergest pan oedd y llsg. honno yn Nhretŵr.<sup>155</sup>

Nid oedd disgynyddion Denys o'i hail briodas mor adnabyddus â'r Fychaniaid, ond y mae'n bosibl eu bod hwythau hefyd wedi bod yn noddï beirdd. Deuai Margred, mam Siôn ap Tomas ap Siancyn, o deulu o noddwyr beirdd – yr oedd yn ddisgynydd i Ddafydd Gam.<sup>156</sup> Yr oedd Margred yn chwaer i Annes, sef mam Siôn Llwyd, gwrthrych cerdd 2.

Fel y soniwyd eisoes, ceir yr awdl hon mewn pedair llsg. Gall fod yr awdl yn llsg. A yn gopi o'r un yn llsg. C. Ymddengys fod cysylltiad rhwng y copiau yn llsgau. B a D hefyd. Ceir nodiadau ar ymyl y ddalen ger yr awdl yn llsg. D. Ni ellir bod yn sicr a ydynt yn yr un llaw â'r awdl ei hun.

1 **Siôn ... ap Tomas** Gwrthrych yr awdl, gw. y nodyn cefndir.

2 Ceir y gair *cabla* ar ymyl y ddalen ger y ll. hon yn llsg. P 100 (D). Ymddengys bod y person a ysgrifennodd hyn wedi tybio fod Robin Ddu yn galw Siôn ap Tomas yn 'Iesu' ac, felly, yn cablu.

**tymer** Gall *tymer*, yma, olygu 'hwyl (ddrwg), temper, anian, natur', 'cymedroldeb, sobreiddiwch'; 'hinsawdd, tywydd', GPC 3675. Neu gall fod yn amrywiad ar yr e. *tymyr*, yn golygu 'tiriogaeth, bro, talaith, teyrnas, gwlad, mamwlad, tir(oedd), ystad, cyfoeth, eiddo', GPC 3678. Yr ystyr mwyaf tebygol yma yw 'anian, natur'.

---

<sup>154</sup> Ymhellach ar deulu Tretŵr, gw. ByCy 940-1; Gwyddoniadur 945; WWR<sup>2</sup> (y cyfeiriadau d.g. *Vaughan, Sir Roger (of Tretower)* a *Vaughan, Thomas (son of Sir Roger)* yn y mynegai). Ar y canu i'r teulu, gw. NBSBM 222-71. Gw. golygiadau'r cerddi – GLGC cerddi 130, 131; GDEp cerddi 13, 14; Leslie Harries (gol.), *Gwaith Huw Cae Llwyd ac eraill* (Caerdydd, 1953), cerddi XXVI, XXVII, XXVIII, XLIX; Peniarth 67, cerddi LXXIII, LXXIV; GHS cerddi 2, 3, 26. Am ymrysonau Hywel Dafï â Huw Cae Llwyd a Bedo Brwynllys yn Nhretŵr, gw. NBSBM 248-50; Dafydd Johnston, *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300-1525* (Caerdydd, 2005), tt. 255-6, 397.

<sup>155</sup> Johnston, *Llên yr Uchelwyr*, t. 254.

<sup>156</sup> Ymhellach ar Ddafydd Gam a'i ddisgynyddion, gw. 2.10n; cerdd 9.

- 5     **cadwyd** Gw. yr Amrywiadau am ddarlleniadau'r llsgrau. Diwygiwyd ar sail ystyr.
- 6     **Siancyn ap Madog** Siancyn ap Madog ap Richard Fawr o Slwch, Llanfrynach, Tir Ralph, Brycheiniog, gw. P. C. Bartrum: WG2 'Bleddyn ap Maenyrch' 11 (B1); a'r nodyn cefndir.
- 10    **Aur gwarel Dafydd Gam** Ceir dau ystyr posibl i *cwarel* yn y cyfnod hwn, sef 'chwarel, cloddfa gerrig', 'mwynglawdd', 'craig', hefyd yn ffig.; a 'saeth fer drom â phen ysgwâr a saethid o fwa croes', 'paen o wydr ysgwâr neu ar lun diemwnt', hefyd yn ffig. ac yn dros., GPC 633. Cynigir mai 'saeth fer drom â phen ysgwâr a saethid o fwa croes' sydd yma. Cofier y lladdwyd Dafydd Gam ym mrwydr Agincourt ym 1415 – brwydr sydd yn nodedig am ei defnydd o'r bwa hir. Yr oedd canran uchel o fyddin Lloegr yn saethwyr, a llawer o'r rhai hynny yn Gymry. Yn ogystal â miloedd o wŷr bwa hir, yr oedd nifer fawr o saethwyr bwa croes yn bresennol yn y frwydr. Ymddengys i Ddafydd Gam fynd i ymuno â Harri V yn ei ymgyrch yn Ffrainc gyda saethwyr bwâu hir, DNB xx, 392-3. Ymhellach ar y saethwyr yn Agincourt a'r frwydr ei hun, gw. Christopher Hibbert, *Agincourt* (London, 1964), tt. 33-39, *et passim*; John Keegan, *The Face of Battle: A Study of Agincourt, Waterloo and the Somme* (London, 2004), tt. 79-116 (tt. 90-107 yn arbennig). Gellid deall *cwarel* yn dros. yma hefyd – am ddisgynnydd, efallai. Yr oedd Siôn yn ddisgynnydd i Ddafydd Gam drwy ei fam – Margred ferch Ieuan ap Morgan ap Dafydd Gam, gw. y nodyn cefndir. Ymhellach ar Ddafydd Gam, gw. 2.20n.
- 15    **Phylib Fychan** Nain Siôn ap Tomas ar ochr ei dad oedd Denys ferch Tomas Fychan ap Phylib Fychan o Dyle Glas, Felindre, Talgarth, Brycheiniog, P. C. Bartrum: WG2

‘Drymbenog’ 2 (C2, C1), ‘Llywarch ap Brân’ 11 (A1); P. C. Bartrum: WG1 ‘Llywarch ap Brân’ 11; a’r nodyn cefndir.

**Cadell** Ceir sawl posibilrwydd yma, gw. WCD 72-4; GLMorg 3.39n. Cyfeiriad yw hwn, fwy na thebyg, at Gadell ap Rhodri Mawr o Ddeheubarth (*ob.* 910), tad Hywel Dda, gw. P. C. Bartrum: WG1 tt. 42, 41. Wedi marwolaeth Rhodri Mawr, rhannwyd ei diroedd rhwng ei feibion. Cafodd Cadell dir sylweddol yn ne Cymru, lle y bu ei ddisgynyddion yn rheoli am sawl cenhedlaeth. Gw. J. E. Lloyd: HW<sup>3</sup> 326; G 90; WCD 73.

17 **Tomas** Tomas ap Siancyn ap Madog – tad y gwrthrych, gw. y nodyn cefndir.

**Cynon o’i hynaif** Gall hwn fod yn un o sawl Cynon (gw. WCD 183-4). Fodd bynnag, awgrymir yma mai Cynon ap Brychan ydoedd, gw. P. C. Bartrum: WG1 t. 27. Brychan oedd sefydlydd traddodiadol Brycheiniog, a honnai pob un o frenhinoedd diweddarach Brycheiniog eu bod yn ddisgynyddion iddo, gw. 2.44n. Nid oes sicrwydd o fodolaeth Cynon fel mab iddo. Ymddengys mai sant wedi ymsefydlu ar Ynys Manaw yn ystod y 6g. ydoedd. Gw. WCD 183 (d.g. *Cynon (ab Arthen) ap Brychan*), 25 (d.g. *Arthen ap Brychan*); LBS ii, 273. Gw. hefyd WCD 181 (d.g. *Cynin (ap Brychan)*).

18 **bar** Ceir sawl ystyr posibl i *bar*. Gall fod yn ‘darn hir anhyblyg o bren, metel, &c., a ddefnyddir fel arfer fel rhwystr, cyswllt, neu arf’, ‘postyn, trosol’, hefyd yn ffig., ‘eginyn’, yn ffig.; mewn herodraeth, ‘stribed lorweddol, hefyd mewn ystyr letach am fend’; ‘banc (o dywod, gwaddod llaid, &c.)’, ‘morglawdd’; mewn cyfraith, ‘rheilen y saif carcharor, &c., wrthi mewn llys barn’, ‘llys barn’, ‘bargyfreithwyr fel dosbarth’, ‘dyfarniad, barn’, hefyd yn ffig., GPC<sup>2</sup> 576. Gall hefyd olygu ‘pen, blaen, brig, copa’,

‘llwyn, tusw, cangen, mwng o wallt’, GPC<sup>2</sup> 577. Cynigir yn betrus fod *bar* yn ffig. yma, ac fe’i deellir fel ‘amddiffynnydd’, gw. GPC 256.

- 19 **Einion afael** Ystyron posibl *gafael*, yma, yw ‘y weithred o afaelyd neu gydio’, hefyd yn ffig.; neu, mewn cyfraith, ‘daliad o dir etifeddol dan y gyfundrefn lwythol Gymreig yn amrywio o le i le o ran ei fesur ac ar wasgar yn aml mewn parseli o dir, gan ffurfio rhan o’r ‘gwely’, is-wely, rhan, deiliadaeth’; neu ‘cynhalbren’, yn ffig. am ‘cynheiliad, cynhaliaeth’, GPC 1368-9. Yr hyn a geir yma, fwy na thebyg, yw ‘tir Einion’. Dau bosibilrwydd yw fod hwn yn gyfeiriad at Elfael neu at dir a oedd yn eiddo i Einion Sais. Yr oedd Elfael yn gantref ac arglwyddiaeth yn nwyrain y Mers, yn hen ranbarth Rhwng Gwy a Hafren, sydd yn ffinio ar Frycheiniog, gw. John Davies, *Hanes Cymru* (ail arg., London, 2007), tt. 105, 61, 78, 134; J. E. Lloyd: HW<sup>3</sup> 254; WATU 267; R. R. Davies, *Lordship and Society in the March of Wales: 1282-1400* (Oxford, 1978), t. xvi; GHS 26.17n, 39n. Yn ystod y 12g. yr oedd Einion Clud yn teyrnasu ar Elfael, gw. ByCy 201, d.g. *Elstan Glodrydd*; GLGC 143.32n; P. C. Bartrum: WG1 ‘Elystan Glodrydd’ 40. Yr oedd Einion Sais (13g.) yn gyndad i Ddafydd Gam ac, felly, i Siôn ap Tomas, gw. P. C. Bartrum: WG2 ‘Drymbenog’ 2 (C<sub>2</sub>, C<sub>1</sub>); P. C. Bartrum: WG1 ‘Drymbenog’ 2, ‘Bleddyn ap Maenyrch’ 20, 18, 17, 16, 13; 4.10n; GDEp 10.29n; ByCy 93. Safai castell Einion Sais ym Mhen Pont ar afon Wysg, ym Mrycheiniog. Ymhellach arno ef a’i ddisgynyddion, gw. Davies, *Lordship and Society*, tt. 225-6.
- 21 **marchogion o’r Gart** Yn llsg. P 100 (*D*), tanlinellwyd *marchogion* | *o’r gart*, a cheir y nodyn hwn ar ymyl y ddalen *marchog o’r Gart*. / *Kt. of the Garter*. Y mae *gart* yn amrywiad ar *gartr*, sef ‘gardas, arwydd y bennaf a’r fwyaf anrhydeddus o urddau’r marchogion ym Mhrydain’, GPC 1383. Nid yw’n eglur cyfeiriad at bwy yw hwn; fodd

bynnag, cynigir mai at Wiliam Herbert, Iarll cyntaf Penfro, y cyfeirir. Yr oedd yn fab i Wladus Gam o'i hail briodas â Syr Wiliam ap Tomas o Raglan; ac yn gefnder i Ieuan ap Morgan ap Dafydd Gam, taid Siôn ap Tomas. Gw. P. C. Bartrum: WG1 'Godwin' 8, 'Bleddyn ap Maenyrch' 20; P. C. Bartrum: WG2 'Bleddyn ap Maenyrch' 20 (C1). Wiliam Herbert oedd Cymro mwyaf dylanwadol ei ddydd. Dibynnai'r brenin Edward IV yn drwm arno – cafodd swyddi pwysig gan y brenin, ac fe'i gwnaed yn farchog o Urdd y Gardys ym 1462. Gw. ByCy 333, 932-3 (d.g. *Vaughan (teulu), Brodorddyn*). Ymhellach ar Wiliam Herbert, gw. nodyn cefndir cerdd 9, sydd yn gywydd i'w nai, Wiliam Herbert, Colbrwg. Gw. hefyd 2.23n.

- 23 **Deulym** Nid yw'n eglur cyfeiriad at beth na phwy yw hwn. Y mae'n driw i reolau'r mesur. Cytuna'r pedair llsgr. ar y darlleniad, ac ymddengys, o edrych ar llsgr. NLW 2023B (C), ei fod yn enw priod. Gall fod yn e. cyfansawdd o *deu-* + *llym*. Gall *deu-*, sydd yn ffurf ar *dau* mewn cyfansoddeiriau, olygu 'dau, dwbl', ac fe'i ceir gydag ystyr gryfhaol yn ogystal, GPC 935. Y mae gan yr a. *llym* (yn golygu 'miniog', 'pigog'; 'treiddiol', 'garw', 'tost', 'ffyrnig', 'craff', 'llymsur', 'cyflym') rym enwol yn ogystal, GPC 2269. Awgrymir mai llysenw ar rywun ydyw.
- 25 **Calais** Porthladd yn Ffrainc a oedd ym meddiant Lloegr ar y pryd. Ysgrifennwyd *Calais* ar ymyl y ddalen ger y ll. hon yn llsgr. P 100 (D). Dylid ynganu *Calais* yn ffonetig yma er mwyn odli â *Sais* yn y ll. nesaf.
- 32 **Siarlas** Cyfeiriad yw *Siarlas* at yr Ymherodr Siarlymaen neu Siarl Fawr (742-814), brenin y Ffranciaid. Ef oedd y brenin mwyaf dylanwadol yr Oesoedd Canol, a bu'r rhan fwyaf o diroedd gorllewin a chanolbarth Ewrop dan ei reolaeth. Fe'i coronwyd yn Ymherodr gan y Pab Leo III yn y flwyddyn 800. Yr oedd Siarlymaen yn enwog am



ei ddewrder, a chyfeirir ato yn y Trioedd fel un o'r *naw milwr gwrolaf, ag urddasaf or holl vyd*, TYP<sup>3</sup> 133. Ar Siarlymaen, gw. CE iii, 610-18, d.g. *Charlemagne*; GLMorg 7.64n, 43.32n; GSDT 16.15n, a'r cyfeiriadau pellach yno.

- 38-46 Yn rhan olaf yr awdl, y mae Robin Ddu yn gofyn nawdd nifer o saint i Siôn ap Tomas. Yr oedd i grefydd le pwysig yn y canu mawl, a pheth cyffredin ar ddiwedd cerdd fawl fyddai i'r bardd ddymuno gras dwyfol ar fywyd y gwrthrych. 'Y cysyniad allweddol yma yw bod mawl y bardd yn gyfrwng i drosglwyddo bendith ddwyfol'. Gw. Johnston, *Llên yr Uchelwyr*, 197-9. Gw. hefyd *ibid.* 307-10 ar arfer y beirdd o alw ar i Dduw a'r saint iacháu eu noddwyr.
- 39 **Emyn Gurig** Sant oedd Curig (*fl.* 550?), a gysylltir â sawl man yng Nghymru, ond yn bennaf â Llangurig yn Arwystli. Sonnid amdano'n fynych gan y beirdd Cymraeg, a fyddai yn ei alw weithiau yn *Curig Lwyd* (h.y. 'sanctaidd') neu *Curig Farchog*. Credid y bu'n filwr cyn dod yn fynach. Fe'i cymysgir â'r plentyn o ferthyr, Cyriacus, a laddwyd gyda'i fam, Julita, yn Nharsus yn ystod yr erledigaeth yng nghyfnod Diocletian, tua'r flwyddyn 304. Y mae hanes y ddau sant hyn yn *Buchedd Ciric*, buchedd Ladin a gyfieithwyd i'r Cymraeg. Ceir ynddi hanes cysylltiad Curig â Maelgwn Gwynedd. Gw. LBS ii, 192-200; WCD 155; TWS 262-8; GHS tt. 185-6 (nodyn cefndir cerdd 20), a'r cyfeiriadau pellach yno. Priodolid Emyr Gurig iddo, sef math o emyn neu weddi a elwid *lorica*, sydd yn gofyn am amddiffyniad y Drindod mewn perygl. Gw. IGE<sup>2</sup> XXIX, 87.1n; LBS ii, 194-5; GPC 1211; Brynley F. Roberts, 'Rhai Swynion Cymraeg', B xxi (1964-6), 202-3; GLI 14.58n.
- 41 **nawdd Mair o'r gadair** Gwelir yn yr Eirfa mai un ystyr i *cadair* yw 'gorsedd', GPC 375. Yr oedd darlunio Mair fel *regina coeli* (brenhines y Nefoedd) yn eistedd ar ei

gorsedd yn beth cyffredin mewn celfyddyd grefyddol yr Oesoedd Canol. Gw. André Grabar, *Christian Iconography, A Study of Its Origins: The A. W. Mellon Lectures in the Fine Arts, 1961, The National Gallery of Art, Washington, D.C.* (London, 1969), tt. 41, 80, a llun 205; a hefyd Robert Milburn, *Early Christian Art and Architecture* (Aldershot, 1988), y cyfeiriadau d.g. *Virgin Mary: with Child, enthroned* yn y mynegai. Daethai pererindodau yn dathlu cwlt y Forwyn Fair yn eithriadol o ffasiynol o tua chanol y 15g. ymlaen, ac yr oedd delweddau ohoni yn atyniadau canolog i bererindodau o'r fath. Ceid enghraifft o Fair ar ei gorsedd yn Llanystumdwy. Gw. WCCR<sup>2</sup> 492-4; Glanmor Williams, 'Poets and Pilgrims in Fifteenth- and Sixteenth-Century Wales', THSC, 1991, 77, 78-9, 96; G. Hartwell Jones, 'Celtic Britain and the Pilgrim Movement', *Y Cymmrodor*, xxiii (1912), 337-44. (Ymhellach ar y Forwyn Fair, gw. 1.6n.)

- 42 **Dewi** Sefydlydd Tyddewi a nawddsant Cymru. Yr oedd yn un o fynaich dylanwadol y 6g., a chysegrwyd sawl eglwys iddo yn ne Cymru, Llydaw, Cernyw a de-orllewin Lloegr. Arno, gw. LBS ii, 285-322; WCD 193-7; TWS 31-73; D. Simon Evans (gol.), *Buched Dewi* (ail arg., Caerdydd, 1965); ByCy 158. Bu Tyddewi yn gyrchfan pererinion ar hyd yr oesoedd. Ystyrir tri ymweliad â Thyddewi yn gyfwerth ag un i'r Tir Sanctaidd, a dau ymweliad gyfwerth ag un i Rufain; gw. Williams, 'Poets and Pilgrims', 70; Katharine K. Olson, "'Ar Ffordd Pedr a Phawl': Welsh Pilgrimage and Travel to Rome, c.1200-c.1530', Cylchg HC xxiv.2 (Rhagfyr 2008), 1. Ymhellach ar Dyddewi fel gyrchfan pererinion, gw. Jones, 'Celtic Britain and the Pilgrim Movement', 369-78; WCCR<sup>2</sup> 496.

43 **Derfel** Derfel ap Hywel ab Emyr Llydaw, P. C. Bartrum: WG1 t. 26. Sant o ddiwedd y 5g. a'r 6g. Fe'i enwir yn aml yn *Derfel Gadarn*. Bu'n filwr yn gynnar yn ei fywyd, a chyfeiriai'r beirdd yn fynych at ei rym a'i ddewrder. Yn ôl traddodiad, bu'n bresennol ym mrwydr Camlan, ac yr oedd yn un o'r saith a lwyddodd i ddianc. Cysegrwyd eglwys Llandderfel ym Mhenllyn iddo. Yno, ceid delw bren o Dderfel ar gefn ceffyl a ddaeth yn atyniad poblogaidd i bererinion. Llosgwyd delw Derfel yn Llundain ym 1538, ond y mae ei geffyl a'i ffon yn yr eglwys hyd heddiw. Gw. LBS ii, 333-6; WCD 192-3; TWS 206-9; W. Gareth Evans, 'Derfel Gadarn – A Celebrated Victim of the Reformation', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd*, xi (1990-3), 137-51; Jones, 'Celtic Britain and the Pilgrim Movement', 323-5; Williams, 'Poets and Pilgrims', 76-7; WCCR<sup>2</sup> 497.

**Sariel** Un o'r saith archangel, yn ôl Llyfr Enoch, gw. CE xii, 640, d.g. *Raphael ...*, *Saint*. Gw. hefyd GLGC 85.55-60n.

44 **Andras** Sant o'r 5g. Yr oedd yn fab i Sant Rhain Dremrudd ap Brychan (ond ni nodir hyn yn yr achau a olygwyd gan P. C. Bartrum, gw. P. C. Bartrum: WG1 t. 27). Dywedir bod eglwys Llanandras yn esgobaeth Llandaf wedi'i chysegru iddo. Ceir Llanandras yn esgobaeth Henffordd yn ogystal, ac ystyrir eglwys y plwyf fel un wedi'i chysegru i Andreas, yr Apostol. Y mae'n debygol mai i'r Apostol y cysegrwyd y ddwy eglwys. Gw. LBS i, 157. Ymhellach ar yr Apostol Andreas, gw. CE i, 471, d.g. *Andrew, Saint*; ODCC<sup>3</sup> 60. Gall hwn fod yn gyfeiriad at un o'r ddau hyn. (Ymhellach ar Frychan, gw. 2.44n.)

45 **Idnerth** Cyfeiriad at Idnerth ab Iorwerth Hirflawdd (9g.), fwy na thebyg. Yr oedd yn un o hynafiaid Elystan Glodrydd. Gw. P. C. Bartrum: WG1 t. 46; WCD 380. Yr oedd

yn wŷr i Frychan drwy'i fam, Arianwen, gw. *ibid.* tt. 46, 27. Gw. hefyd GLGC 143.29n. (Ymhellach ar Frychan, gw. 2.44n.)

**Non** Santes o hanner olaf y 5g., a mam Dewi Sant, gw. 4.42n. Ceir ei hanes ym Muchedd Dewi gan Rhygyfarch. Y mae sawl eglwys a chapel wedi eu cysegru iddi yng Nghymru, gan amlaf yn agos i eglwysi a gysegrwyd i Ddewi. Ymhellach arni gw. LBS iv, 22-5; WCD 508; TWS 156-60; ByCy 646.

5

Canwyd y cywydd hwn i Owain ap Siancyn ab Ieuan Gwyn o Allt y Fanog, Rhyndwyglydach, Gŵyr Uwch Coed.<sup>157</sup> Yn ôl y rhif cenedlaeth a rydd P. C. Bartrum iddo yn yr achau, fe'i ganwyd tua'r flwyddyn 1470. Y mae'n debyg ei fod yn dal yn fyw ym 1566, felly gellir tybio mai yn y blynyddoedd wedi 1470 y'i ganwyd.<sup>158</sup> Gellir dyddio'r cywydd i'r cyfnod pan oedd Owain yn briod â'i wraig gyntaf – Als ferch Siôn ap Rhosier, o Lanfrynach, Brycheiniog (5.30n, 28n) – ond ni wyddys bryd yn union yr oedd hynny. Yn ôl yr achau, yr oedd gan Owain bum mab – Rhosier, Gruffudd, Rhisiart, Harri a Tomas – a anwyd tua'r flwyddyn 1500. Nid yw'n eglur pwy oedd eu mam. Gan na cheir sôn am blant i Owain yn y cywydd o gwbl, gellir dyddio'r cywydd i'r cyfnod cyn 1500.<sup>159</sup>

Cyfeirir yn y cywydd at Urien (5.12n) a Thewdwr Mawr (5.50n), a oedd, yn ôl yr achau, yn gyndadau i Owain. Sonnir, yn ogystal, am aelodau o linach Als – Adam ap Rhys ab

---

<sup>157</sup> P. C. Bartrum: WG2 'Bleddyn ap Maenyrch' 33 (D1). Ar gartref Owain, gw. 5.10n, 42n.

<sup>158</sup> Gw. Herman Nickerson yn *National Genealogical Society Quarterly*, 67:1 (September 1978), 164. Ni allai fod wedi'i eni llawer diweddarach na hyn, fodd bynnag, gan na fyddai wedi bod yn bosibl iddo fod yn wrthrych cywydd gan Robin Ddu.

<sup>159</sup> Cyfeirir at y cywydd hwn yn Eirian E. Edwards, 'Noddwyr y Beirdd yn Siroedd Morgannwg a Mynwy' (M.A., Cymru [Aberystwyth], 1970), 328, fel cerdd i noddwr heb ei leoli. Ni cheir ymdriniaeth â'r cywydd yn y traethawd.

Einion Sais (5.26n) ac Awbrai Hen (5.34n) (a chofier y gallai hithau olrhain ei hach i Urien). Yr oedd Owain hefyd yn ddisgynnydd i Ifor Hael (5.8n), ac y mae'n amlwg fod Owain, yntau, yn rhannu'r un nodweddion â'i gyndad. Pwysleisir haelioni Owain yn y cywydd hwn, yn enwedig o 5.19 ymlaen, lle y ceir sawl cyfeiriad at fwyd a diod. 'Daliai gallu milwrol i fod yn bwysig ar adegau a chan rai beirdd, ... ond gwarineb y llysoedd yw'r elfen fwyaf arwyddocaol yng nghanu mawl Beirdd yr Uchelwyr'.<sup>160</sup> Yr oedd y tŷ ei hun yn ganolog i ddelfryd perchentyaeth, a chyfeiria i bardd at haelioni'r noddwr a'i wraig wrth fwydo'r rhai yr oeddynt yn eu noddi. Gelwir cartref Owain ac Als yn *llys y hail a llyn* (5.45). 'Fe welir yng nghanu mawl y bymthegfed ganrif fod lle blaenllaw i'r bartneriaeth rhwng gŵr a gwraig mewn perchentyaeth'.<sup>161</sup>

Ni cheir cofnod o gerdd arall i Owain ap Siancyn nac aelodau o'i deulu agosaf ym Maldwyn, ond canodd sawl bardd i'w dad yng nghyfraith, Siôn ap Rhosier (gw. 5.28n).

- 1 **Cadell** Cadell ap Rhodri Mawr. Daeth Seisyllwg i'w feddiant wedi marwolaeth ei dad. Crëwyd y deyrnas hon pan gyfunwyd teyrnasoedd Ceredigion ac Ystrad Tywi gan Seisyll, c. 730. Yr oedd Seisyllwg, felly, yn cynnwys Gŵyr. Gw. 4.15n; Gwyddoniadur 844; 5.44n.
- 3 **llew** Gw. yr Amrywiadau am ddarlleniadau'r llsgrau. Gw. 2.23n. Nid yw hwn yn debygol o fod yn gyfeiriad herodrol. Pe bai gan Owain ap Siancyn arfbais, y mae'n debyg mai carw fyddai arno – carw oedd ar arfbais Hywel Melyn (gw. 5.46n), hendaidd iddo ar ochr ei dad, DWH ii, 257-8. Yr oedd dau gyndad i Owain yn arddel arfbeisiau â llew arnynt. Ceid llew coch ar arfbais Ifor Hael (gw. 5.8n) ac Elystan Glodrydd (gw.

---

<sup>160</sup> Dafydd Johnston, *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300-1525* (Caerdydd, 2005), t. 168.

<sup>161</sup> *Ibid.*, t.169. Gw. hefyd *ibid.*, tt. 183-5.

5.48n), DWH ii, 271, 145-6. Fodd bynnag, annhebygol ydyw mai cyfeiriad at un o'r ddau hyn sydd yma. Yn hytrach, deellir *llew* yma ac yn 5.17 yn ffig. am 'person nerthol glew, penderfynol', 'ymladdwr gwrol a ffyrnig, gŵr o fonedd, un urddasol', GPC 2168-9.

**Troea** Gw. yr Amrywiadau am ddarlleniadau'r llsgrau. Yn ôl yr *Historia Brittonum*, a briodolwyd i Nennius, a *Historia Regum Britanniae* Sieffre o Fynwy, tarddiad y Brythoniaid oedd y cymeriad chwedlonol Brutus a ymsefydlodd ar Ynys Prydain. Yr oedd yn ŵyr neu'n orwyr i Aeneas o Gaer Droea. Gw. BD 2-21; WCD 62, d.g *Brutus*; 3.36n; 7.24n.

**llythyr wen** Gw. yr Amrywiadau am ddarlleniadau'r llsgrau. Ceir y ffurf f. ar yr a. *gwyn* yma oherwydd digwydd *llythyr* yn eithriadol fel e.b. Gw. GPC 2284-5.

4 **pair** Ceir sawl posibilrwydd yma. Gall fod yr e. *pair*, yn golygu 'crochan', 'llestr toddi', hefyd yn ffig., 'yn enw. am le o brofedigaeth neu gosbedigaeth'; neu'r e. *pair* sydd yn golygu 'arglwydd, pennaeth', 'arglwyddiaeth, awdurdod', GPC 2669-70. Y mae'n bosibl hefyd mai ffurf 3 un. pres. myn. y be. *peri* sydd yma – yn golygu 'creu, llunio, ffurfio, gwneud', GPC 2685. Cynigir mai 'arglwyddiaeth' a geir yma.

**llw** Y mae *llw*, yma, yn e.b., gw. GPC 2233.

5 **aurblanc** E. cyfansawdd o *aur-* + *planc* yw hwn. Ceir dau ystyr i *planc* yn y cyfnod hwn, sef 'darn hirgul o bren wedi ei lifio a'i lyfnhau i'w ddefnyddio wrth adeiladu, &c., astell, bwrdd, ystyllen', 'plât', hefyd yn ffig.; a 'ceffyl', hefyd yn ffig., GPC 2816. Fe'i deellir yma yn ffig. am Owain ap Siancyn.

**Owain ap Siancyn** Gwrthrych y cywydd, gw. y nodyn cefndir.

- 6 **Ieuan Gwyn** Ieuan Gwyn ap Hywel Melyn ap Gwilym Gam, taid y gwrthrych, P. C. Bartrum: WG2 ‘Bleddyn ap Maenyrch’ 33 (D<sub>1</sub>); P. C. Bartrum: WG1 ‘Bleddyn ap Maenyrch’ 33. Gw. hefyd 5.16n, 48n.
- 8 **Ifor Hael** Ifor ap Llywelyn ab Ifor o Wern y Clepa, Basaleg, Gwynllŵg (*ob.* 1361), gw. P. C. Bartrum: WG1 ‘Cydifor Fawr’ 16. Ef oedd prif noddwr Dafydd ap Gwilym, a’r bardd hwnnw a roddodd iddo’r enw Ifor Hael. Pwysleisir haelioni Ifor yng ngherddi Dafydd ap Gwilym iddo, ac fe’i cymharir ynddynt â Rhydderch Hael a Nudd Hael (5.23n), gw. DG.net cerddi 11-17; GDG<sup>3</sup> cerddi 5-11. Daeth Ifor ei hun yn symbol o haelioni a noddwr delfrydol o ganlyniad. Gw. ByCy 390; CLC<sup>2</sup> 361-2; TYP<sup>3</sup> 5-7. Yr oedd Owain ap Siancyn yn ddisgynydd i Ifor Hael ar ochr ei fam, Sioned – ei mam hi oedd Marged ferch Tomas ab Ifor Hael, P. C. Bartrum: WG2 ‘Bleddyn ap Maenyrch’ 33 (D<sub>1</sub>); P. C. Bartrum: WG1 ‘Einion ap Llywarch’ 8, ‘Cydifor Fawr’ 16; a’r nodyn cefndir.
- 9-10 **Rhif naw llys Rhufain a’i llog, / Rhif deunaw’r Hafod Wennog** Gellir dehongli *rhif naw* fel ‘cynifer ... â’ naw (9), gw. GPC 3069, 2555. Yn aml mewn barddoniaeth, defnyddid y rhifyn *naw* i gyfleu cyflawnder neu berffeithrwydd, GLI 1.71n; 2.10n. (Defnyddid y rhifau *saith* ac *wyth* yn yr un modd.) Yr oedd yn arfer gan y beirdd hefyd i ddefnyddio’r rhifyn *naw* a chyfuniadau ohono i gyfleu helaethrwydd, GRhGE 9.21n, 5.13n; GHD 2.4n. (Yn ogystal, cyfeiriai’r cyfreithiau at naw tŷ (h.y., naw adeilad) o fewn llys, gw. Iorwerth C. Peate, *The Welsh House: A Study in Folk Culture* (second ed., Liverpool, 1944), t. 113.) Y mae’n amlwg y credai Robin Ddu fod Hafod Wennog ddwywaith cystal â llys Rhufain am ei gyflawnder a’i helaethrwydd.

- 9 **llys Rhufain** Gw. yr Eirfa a GPC 2276, d.g. *llys*<sup>1</sup>, am ystyr *llys*. Y mae *llys Rhufain* yn cyfateb i *llys* y *Pab*, sef y ‘*papal curia*’, gw. GPC 2276. Casgliad o adrannau yw’r *Curia*, sydd yn cynorthwyo’r *Pab* i lywodraethu’r Eglwys Gatholig. Arno, gw. CE xiii, 147-54, d.g. *Roman Curia*.
- 10 **Hafod Wennog** Ymddengys, o’r cofnod o’r cywydd hwn ym Maldwyn ac yn y Mynegai 4475, mai cartref Owain ap Siancyn oedd Hafod-unog. Yn ôl cofnod RWM o’r gerdd yn llsgr. *B* (P 312, ii, 84), y mae hwn yn gywydd *J Ywein ab Siankyn . . . Hafod Unnog*, gw. RWM i, 1116. Gwall yw *Hafod Unnog*, yma, am *Hafod Wnnog*. Digwydd y camgymeriad oherwydd dull John Jones, Gellilyfdy, wrth gopïo’r llsgr. o ysgrifennu’r llythyren *w* fel hyn: *u*. (Rhydd ddot dan lythrennau i ddynodi fod angen dyblu’r llythyren neu ychwanegu’r llythyren *h* – gw. y nodyn ar ddechrau’r Amrywiadau.) Ceir cofnod o ddau *Hafodwnnog* yn ArchifMR – un yng Nghaeo, Sir Gaerfyrddin, a’r llall yn Llandysiliogogo, Sir Aberteifi. Y mae’r ddau le hyn yn rhy bell o Wyr i fod yn gartref i Owain ap Siancyn. Fodd bynnag, ceir *Hafod Wennog* yng nghwmwd Nedd, yn arglwyddiaeth Morgannwg. Gellir bod yn weddol sicr, oherwydd ei leoliad, mai at y lle hwn y cyfeirir. Fodd bynnag, Allt y Fanog oedd cartref Owain, ei dad o’i flaen, a’i ddisgynyddion drwy ei fab, Rhosier, gw. P 120, 507; Edward Lhwyd (ed. Rupert H. Morris), ‘Parochialia: being a summary of answers to “Parochial queries in order to a geographical dictionary, etc., of Wales”’, iii, *Archaeologia Cambrensis*, supplement (July 1911), 146; P. C. Bartrum: WG2 ‘Bleddyn ap Maenyrch’ 33 (D<sub>1</sub>); 5.42n. Ni sonnir am *Hafod Wennog* na *Hafod Wnnog* yn yr achau, gan Edward Lhwyd, nac yn llsgr. P 120.



- 12 **Urien** Urien Rheged ap Cynfarch Oer. Arno, gw. 2.24n. Yr oedd mam Owain ap Siancyn – Sioned ferch Gwilym Fychan ap Gwilym – o lwyth Einion ap Llywarch ac, felly, yn ddisgynnydd i Urien, gw. P. C. Bartrum: WG2 ‘Bleddyn ap Maenyrech’ 33 (D<sub>1</sub>); P. C. Bartrum: WG1 ‘Einion ap Llywarch’ 8, 7, 6, 4, 1; *ibid.* tt. 51, 11. Gallai Als, gwraig Owain, olrhain ei hachau i Urien yn ogystal (drwy’i mam), gw. P. C. Bartrum: WG2 ‘Trahaearn Fawr’ 10 (A<sub>1</sub>), ‘Aubrey’ 2, 1; P. C. Bartrum: WG1 ‘Einion ap Llywarch’ 7. (Ymhellach ar Als gw. 5.30n.) Cofier na ellir bod yn sicr a yw’r ddisgynnyddiaeth o Urien yn gywir ai peidio – gw. 2.24n.
- 14 **Sy’ wayw’n y seirff fal Sain Siôr** Yn ôl GPC, y mae *sarff* yn ‘neidr, weithiau mewn ystyr letach, e.e. am sgorpion’; ‘arwr, rhyfelwr, arweinydd, pennaeth’, ‘un o symbolau’r canu brud’, hefyd yn ffig.; ‘symbol o Satan neu’r Diafol (yn enw. fel temtiwr), hefyd fel symbol neu enghraifft o falais, cyfrwystra, dichell, atgasrwydd, &c.’; mewn seryddiaeth, ‘sgorpion, yr wythfed o ddeuddeg arwydd y Sodiad’, GPC 3179. Yr oedd Sain Siôr yn ferthyr, ac fe’i mabwysiadwyd yn nawddsant Lloegr yn ystod teyrnasiad Edward III, fe ymddengys. Cyfeirir ato yn aml yn y canu mawl. Gall mai cyfeiriad yw hwn at y traddodiad fod Sain Siôr wedi lladd draig gyda gwaywffon. Dichon y gellir deall *sarff* mewn ystyr letach am ddraig. Ymhellach ar Sain Siôr, ac arno ef a’r ddraig, gw. CE vi, 453-5, d.g. *George, Saint*; LS iv, 301-10; ODCC<sup>3</sup> 664-5.
- 15 **Teirgwent** Gwent Uwch Coed, Gwent Is Coed, a Gwent Ganol. Sonnir gan amlaf am ddwy Went, fodd bynnag, ceid rhaniad o dair yn ogystal. Gw. CHerb 25.59n; GLMorg 30.15n; 5.53n.
- 16 **tir Ieuan Gwyn** Ynys Derw (sef cartref ei dad), o bosibl; neu ardal Rhyndwyglydach yn gyffredinol. Gw. 5.46n, 42n.

- 23 **Nudd Hael** Nudd Hael ap Senyllt ap Cedig ap Dyfnwal Hen (byw 525), P. C. Bartrum: WG1 t. 22. Yn y Trioedd, cyfeirir ato ef a'i gefndryd, Rhydderch Hael a Mordaf Hael, fel *Tri Hael Enys Prydein*, TYP<sup>3</sup> 5-7. Ymddengys fod Nudd yn dywysog yng Ngogledd Prydain, er na sonnir amdano yn *Bonedd Gwŷr y Gogledd*. Ceir llawer o gyfeiriadau at haelioni Nudd gan y beirdd. Gw. TYP<sup>3</sup> 464-6; WCD 509; CLC<sup>2</sup> 539-40. Cymharai Ddafydd ap Gwilym Ifor Hael (gw. 5.8n) ag ef, DG.net 11.26n, 12.1n.
- 24 **Owain ... a'i winwydden** Gw. yr Eirfa am ystyr *gwinwydden*. Cyfeiriad yw hwn at wraig Owain, Als, gw. 5.30n.
- 25 **gwrhewc** Gw. yr Amrywiadau am ddarlleniadau'r llsgrau. – y maent yn awgrymu'r darlleniad *wrhawc*. Gall fod yma *gwrhewg*, sef amrywiad ar *gorhëwg*, yn golygu 'nwyfus', 'tanbaid', 'eiddgar', 'digywilydd', 'gwasaid', GPC 1709, 1486. Posibilrwydd arall yw mai *gwriog* sydd yma, yn golygu 'priod (am wraig), a gŵr ganddi', hefyd yn ffig., GPC 1710. Ceir sawl enghraifft yn GPC o *gwriog* wedi ei sillafu *gwryawc*. Cynigir, ar sail ystyr, mai *gwrhewg* (neu *gwrhewc* oherwydd y gynghanedd) sydd yma, yn golygu 'nwyfus'.
- 26 **Eigr** Eigr ferch Amlawdd Wledig (byw 445), P. C. Bartrum: WG1 t. 24. Gwraig Gorlois, Iarll Cernyw, ac yna gwraig Uthr Bendragon (arno, gw. 9.21n). Hi oedd mam y brenin Arthur. Yr oedd yn adnabyddus fel merch eithriadol o brydferth – yn ôl *Historia Regum Britanniae* Sieffre o Fynwy, hi oedd y ferch decaf ar Ynys Prydain. Gw. WCD 228-9; BD 136-40; TYP<sup>3</sup> lxxvii, 364.
- Adam** Cyfeiriad yw hwn at un o hynafiaid Als ferch Siôn ap Rhosier (gwraig Owain ap Siancyn), sef Adam ap Rhys ab Einion Sais, Porth Gogof, Ystradfellte, Brycheiniog, gw. P. C. Bartrum: WG2 'Trahaearn Fawr' 10 (A1); P. C. Bartrum: WG1

‘Trahaearn Fawr’ 10; P. C. Bartrum: WG2 ‘Gunter’ 2; P. C. Bartrum: WG1 ‘Bleddyn ap Maenyrch’ 25, 24, 23. Ceir cyfeiriad at yr Adam hwn mewn dau gywydd gan Ddafydd Epynt. Cyfeirir at gysylltiad tad Als, Siôn ap Rhosier o Lanfrynach, â *had Adam* mewn cywydd iddo ef a’i wraig, GDEp 16.30n; a sonnir am *coed Adam* yn y cywydd marwnad i gefnder Siôn, Hywel Amhadog ap Trahaearn, GDEp 21.31n (*coed* yn yr ystyr ‘cyff teuluol’). Yr oedd *Tylwyth Adam* yn ymadrodd a ddefnyddid yn fynych am ddisgynyddion Adam, gw. John Williams (ed. Joseph Alfred Bradney), *Llyfr Baglan or The Book of Baglan: compiled between the years 1600 and 1607* (London, 1910), tt. 99, 123, 228. (Ymhellach ar Als, gw. 5.30n; ac ar Einion Sais, gw. 4.19n.)

28 **gwŷdd** Nid yw’n eglur o ddarlleniadau’r llsgrau. ai *gwŷdd* ynteu *gwŷdd* yw hwn. (Am yr holl ystyron posibl, gw. GPC 1752-3, d.g. *gwŷdd*; G 730-1, d.g. *gwŷd*; GPC 1753-4, d.g. *gwŷdd*; GPC 1652, d.g. *gwëydd*, *gwehydd*, *gwŷdd*; GPC 1609, d.g. *gwedd*’ (amrywiad arno); G 731-2, d.g. *gwŷd*.) Fwy na thebyg, *gwŷdd* sydd yma, yn golygu, yn ffig., ‘llinach, tras, cyff’, GPC 1753. Gw. hefyd 3.2n.

**Siôn ap Rhosier** Tad yng nghyfraith Owain ap Siancyn, gw. 5.30n. Yr oedd yn frodor o Lanfrynach, Brycheiniog. Cadwyd cerddi gan Ddafydd Epynt, Tomas Derllys ac Owain Ieithon iddo yn llsgr. P 55, gw. P 55, 41 (hefyd yn Ll 55, 120), 154, 156; GDEp cerdd 16. Cyfeirir at y croeso a’r haelioni a geid yn llys Siôn gan y tri bardd, ac fe’i cymharir â Nudd (5.23n) yng nghywydd Owain Ieithon, NBSBM 115. Ymhellach ar Siôn ap Rhosier a’r canu iddo, gw. NBSBM 114-17; GDEp cerdd 16 a’r nodiadau arni.

- 30 **Als** Gwraig gyntaf Owain oedd Als ferch Siôn ap Rhosier, P. C. Bartrum: WG2 ‘Trahaearn Fawr’ 10 (A1). Ymddengys i’r cywydd gael ei ganu pan oedd yn briod â hi. Nodir ddwywaith mewn un fersiwn o’r achau mai merch i Siôn ap Siôn ap Rhosier ydoedd, gw. *ibid.* ‘Trahaearn Fawr’ 10 (A1, A2). Fodd bynnag, pe bai hyn yn wir, byddai wedi cael ei geni yn rhy ddiweddar i gael ei chrybwyll mewn cywydd gan Robin Ddu, ac y mae’r cywydd yn tystiolaethu mai Siôn ap Rhosier oedd ei thad, gw. 5.28n.
- 33 **Hail i’w llew, ŵr hael llawen** Gw. yr Amrywiadau am ddarlleniadau’r llsgrau. Diwygiwyd er mwyn cael ystyr ac i gael saith sill yn y ll.
- 34 **Awbrai Hen** Mam Als oedd Mawd ferch Morgan Awbrai Hen ap Gwallter, P. C. Bartrum: WG2 ‘Aubrey’ 2.
- 36 **Owain y Glyn** Owain ap Gruffudd Fychan ap Gruffudd, neu Owain Glyndŵr (c.1359-c.1416). Gw. P. C. Bartrum: WG1 ‘Bleddyn ap Cynfyn’ 5 am ei ach. Fe’i hadwaenid fel *Owain y Glyn* neu *Owain Glyn* gan feirdd y cyfnod, gw. e.e. GLGC 17.39n; 187.21; 199.53; GIRh 4.78n. Arno, gw. ByCy 650-1; Gwyddoniadur 672-3; CLC<sup>2</sup> 549; R. R. Davies, *The Revolt of Owain Glyndŵr* (Oxford, 1995), *passim*; J. E. Lloyd, *Owen Glendower: Owain Glyndŵr* (Oxford, 1931), *passim*; Glanmor Williams, *Owain Glyndŵr* (Cardiff, 1993), *passim*.
- 37 **Taliad am ei dad a’i wedd** Gw. yr Amrywiadau am ddarlleniadau’r llsgrau. Dewiswyd y darlleniad hwn ar sail ystyr.
- gwedd** ‘hil, epil, plant’, GPC 1609.
- 42 **Llycharth** Yn ArchifMR ceir cofnodion o *Llychard Fawr* a *Llychard Fach* yn Rhyndwyglydach, Gŵyr Uwch Coed, a gwelir bod *Llycharth* yn ffurf ar yr enw.

Nododd Edward Lhwyd fod tai hynafol teulu Hywel Melyn yn Rhyndwyglydach ym mhlwyf Llangyfelach, a'r tai hynny oedd Ynys Penllwch, Llycharth, Ynys Derw, ac Allt y Fanog. Yn ôl Lhwyd, Ynys Penllwch oedd cartref 'Jo: ap gr. ap ho: melyn'; Llycharth oedd cartref 'Dd. ap Jo ap [?Gruffudd ap Hywel Melyn]'; Ynys Derw oedd cartref 'gr ap Jo [ap Gruffudd] ap ho: melyn'; ac Allt y Fanog oedd cartref 'Jenkin ap Jeuan gwyn ap ho: melyn'. Gw. Lhwyd, 'Parochialia', iii, 146; gw. hefyd P 120, 507, 504; P. C. Bartrum: WG2 'Bleddyn ap Maenyrch' 33 (F1, F2, D1). Ceid, felly, gysylltiad teuluol rhwng Owain ap Siancyn a Llycharth.

- 43 **Morgannwg** Un o deyrnasoedd cynnar Cymru, ac fe'i henwyd ar ôl un o frenhinoedd Glywysing – Morgan ab Athrwys (*ob. c.* 700) neu Forgan Hen ab Owain (*ob.* 974), gw. WCD 484, 485-6; GLMorg 3.45n. Yr oedd yn cynnwys Glywysing, Gwent, a dau o gantrefi Ystrad Tywi ar adegau. Goresgynnwyd y deyrnas a'i brenin, Iestyn ap Gwrgant, yn y 1080au gan Robert Fitz Hammo, a sefydlodd arglwyddiaeth Morgannwg. Ffiniau'r arglwyddiaeth oedd afonydd Tawe a Rhymni, ac yr oedd rhwng Gŵyr a Gwynllŵg (gw. 5.44n), felly nid oedd yn cynnwys holl diroedd hen deyrnas Morgannwg. Ym 1536 crëwyd Sir Forgannwg, a gynhwysai yr arglwyddiaeth, ynghyd â Gŵyr a Chilfái. Gw. Gwyddoniadur 634-5.
- 44 **Gŵyr a Gwynllŵg** Yr oedd Gŵyr yn gwmwd yn Ystrad Tywi, a daeth yn rhan o deyrnas Deheubarth. Yn ystod y 12g., daeth Gŵyr yn un o arglwyddiaethau'r Mers. Terfynai ar ffin orllewinol arglwyddiaeth Morgannwg (gw. 5.43n). Gw. Gwyddoniadur 423; WATU 86, 282; R. R. Davies, *Lordship and Society in the March of Wales: 1282-1400* (Oxford, 1978), t. xvi. Un o gantrefi Glywysing oedd Gwynllŵg. Fe'i cipiwyd gan y Normaniaid, ac fe'i gelwid yn aml yn arglwyddiaeth Casnewydd.

Yr oedd yr ardal hon yn terfynu ar ffin ddwyreiniol arglwyddiaeth Morgannwg. Gw. Gwyddoniadur 421; WATU 86, 281; Davies, *Lordship and Society*, t. xvi; J. E. Lloyd: HW<sup>3</sup> 278.

- 46 **Ilys Hywel Melyn** Yr oedd Hywel Melyn ap Gwilym Gam ap Hywel Fychan yn hendaid i Owain ap Siancyn. Ei gartref oedd Ynys Derw, Rhyndwyglydach, Gŵyr Uwch Coed. Gw P. C. Bartrum: WG2 'Bleddyn ap Maenyrch' 33 (D<sub>1</sub>); P. C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Maenyrch' 33; 5.42n.
- 47 **coed Elidir** Gall fod yn enw lle – ceir un enghraifft o *Coed Elidir* yn ArchifMR. Fodd bynnag, ni wyddys ei leoliad. Derbynnir mai cyfeiriad yw hwn at gyff Elidir (gw. 2.19n). Yr oedd mam Owain ap Siancyn – Sioned ferch Gwilym Fychan ap Gwilym – yn ddisgynydd i Elidir Ddu, gw. P. C. Bartrum: WG1 'Einion ap Llywarch' 8, 7, 6. Honnid bod Elidir Ddu ab Elidir ap Rhys (c. 1270), o'r Crug, ger Llandeilo, yn ddisgynydd i Urien Rheged, ond ni ellir bod yn sicr a yw'r ddisgynyddiaeth yn gywir ai peidio. Y mae'n bosibl mai yn amser Elidir Ddu y crëwyd y ddisgynyddiaeth, a chredir mai ef oedd y cyntaf o'i linach i ddefnyddio'r enw *FitzUrien*. Bu ar bererindod i'r Tir Sanctaidd, a daeth, o'r herwydd, yn un o gymeriadau mwyaf nodedig ei ach a'r aelod cynharaf o'i deulu i gael ei ystyried yn ffigur hanesyddol gan feirdd diweddarach. Disgrifiwyd 'Syr' Elidir Ddu fel *Marchog y Beddrod Sanctaidd*, *Marchog Cales* neu *Cadiz*, a *Marchog Rhodes* gan Lewys Dwnn. Gw. Ralph A. Griffiths, *Sir Rhys ap Thomas and his Family: A Study in the Wars of the Roses and Early Tudor Politics* (Cardiff, 1993), tt. 8-11; P. C. Bartrum: WG1 'Einion ap Llywarch' 6; LD i, 38, 210, 131; LD ii, 57. Gw. hefyd 2.24n, 10n.

- 48 **Elystan** Elystan neu Elstan Glodrydd ap Cuhelyn ab Ifor (ganwyd c. 970), P. C. Bartrum: WG 1 ‘Elystan Glodrydd’ 1, t. 46. Yr oedd yn gyndad i lawer o deuluoedd yn ardal Rhwng Gwy a Hafren, a gelwir ei lwyth yn un o bum Brenhinllwyth Cymru. Tarddai tywysogion diweddarach Maelienydd ac Elfael o’r llwyth drwy Madog ab Idnerth ap Cadwgan ab Elystan Glodrydd. Gw. WCD 247; ByCy 201; J. E. Lloyd: HW<sup>3</sup> 406 n. 31 Yr oedd Owain ap Siancyn yn ddisgynnydd i Elystan drwy ei hennain, Mabli ferch Gruffudd ap Llywelyn Foethus, P. C. Bartrum: WG2 ‘Bleddyn ap Maenyrch’ 33 (D1); P. C. Bartrum: WG1 ‘Bleddyn ap Maenyrch’ 33, ‘Elystan Glodrydd’ 54. Nid yw’n eglur o’r achau ai Mabli oedd mam Ieuan Gwyn ynteu ail wraig Hywel Melyn (a oedd yn ferch i Ddafydd ab Owain Gethin o Lyntawe<sup>162</sup>). Dichon fod y cyfeiriad hwn yn y cywydd yn profi disgynyddiaeth Owain ap Siancyn o Elystan drwy Fabli. (Gw. hefyd 5.3n.)
- 49 **Symud twys a symud tŵr** Gw. yr Amrywiadau am ddarlleniadau’r llsgrau. Diwygiwyd ar sail ystyr.
- twys** Y mae *twys* yn amrywiad ar yr e. *tywys*, yn golygu ‘y rhannau o blanhigion grawnog sy’n dwyn y blodau neu’r hadau’; enghreifftiau ffig. a thros., ac enghreifftiau mewn cyd-destun ffig.; ‘pidyn, cal’, GPC 3688, d.g. *tywys*<sup>1</sup>. Fodd bynnag, dichon mai’r hyn a geir yma yw amrywiad ar *tywys* arall, sy’n golygu ‘(safle yn y) blaen, brig’, ‘arweinydd’, ‘arweiniad, cyfarwyddyd’ – ni cheir enghreifftiau eraill o *twys* yn amrywiad ohono, gw. GPC 3688, d.g. *tywys*<sup>2</sup>.
- 50 **tad Rhys ap Tewdwr** Tewdwr Mawr ap Cadell ab Einion, P. C. Bartrum: WG1 ‘Tewdwr Mawr’ 1, t. 42. Arno, gw. 2.9n. Gan fod Owain ap Siancyn o lwyth Bleddyn

<sup>162</sup> P. C. Bartrum: WG1 ‘Bleddyn ap Maenyrch’ 29.

ap Maenyrch, yr oedd yn ddisgynnydd iddo – Elen ferch Dewdwr Mawr oedd mam plant Bleddyn ap Maenyrch, gw. P. C. Bartrum: WG1 ‘Tewdwr Mawr’ 1.

- 53 **Dwywent** Gwent Uwch Coed a Gwent Is Coed, gw. WATU 81; J. E. Lloyd: HW<sup>3</sup> 278-9; CHerb 1.19n, 25.59n. Gw. hefyd 5.15n.

6

Y mae hwn yn un o gywyddau enwocaf Robin Ddu – fe'i ceir mewn dros ddeg llawysgrif ar hugain, a cheir dau gopi printiedig ohono.<sup>163</sup> Cywydd marwnad i saith o blant y Gloddaith, a fu farw yn ystod yr un wythnos ym 1447 neu 1448 o glwy'r nodau, ydyw. Plant oeddynt i Ruffudd ap Rhys ap Gruffudd ap Madog Gloddaith a Sioned, ei wraig.<sup>164</sup> Gwelir yr achau yn P. C. Bartrum: WG1 ‘Mabon Glochydd’ 2, lle nad enwir ond un plentyn i Ruffudd a Sioned, sef Margred. Hi oedd yr unig blentyn i oroesi. Nid yw Robin Ddu yn enwi Margred yn y cywydd, ond enwir y saith a fu farw (gw. 6.45-60) – Catrin, yr hynaf; Dafydd, y mab hynaf; Wiliam; Rhys; Llywelyn; Siôn; ac Annes.

Y mae Gloddaith, yn y Creuddyn (gw. 6.2n), yn enwog fel un o bum llys teulu Mostyn – un o'r teuluoedd mwyaf blaenllaw yng ngogledd Cymru am y canrifoedd dilynol. Y pedwar llys arall oedd Pengwern, ger Llangollen; Trecastell, ger Penmon, Ynys Môn; Mostyn, Sir y Fflint; a Thregarnedd, ger Llangefni. Pan briododd Margred (a oedd yn etifeddes Tregarnedd yn ogystal) â Hywel ab Ieuan Fychan, etifedd Pengwern, Trecastell a Mostyn, daeth y llysoedd ynghyd. Rhisiart, mab Hywel a Margred, oedd y cyntaf i bechenogi'r pum llys, a'i

---

<sup>163</sup> R. Williams, *The History and Antiquities of the Town of Aberconwy and its Neighbourhood* (Denbigh, 1835), 128-30; CLIG i, 218-19. Y ddau wedi'u copïo o un llsgr., fwy na thebyg (ond nid yr un llsgr.).

<sup>164</sup> Sylwer ar y camgymeriad yn y rhaglith i'r cywydd mewn rhai o'r llsgrau., yn rhoi'r ach fel Rhys ap Gruffudd ap Madog Gloddaith.



fab ef, Tomas, oedd y cyntaf i'w hetifeddu. Tomas ap Rhisiart a'i frawd, Pirs, oedd y cyntaf i ddefnyddio'r cyfenw Mostyn.<sup>165</sup> Yr oedd Margred ferch Gruffudd ap Rhys, felly, yn gangen allweddol yn y goeden achau enwog hon.<sup>166</sup>

Yr oedd teulu Gloddaith yn gefnogol i wrthryfel Owain Glyndŵr. Ymddengys i Rys ap Gruffudd ap Madog Gloddaith gymryd rhan flaenllaw yn y gwrthryfel.<sup>167</sup> Yn ystod Rhyfeloedd y Rhosynnau, cefnogai'r teulu achos y Lancastriaid.<sup>168</sup> Ymddengys fod Hywel ab Ieuan Fychan o Fostyn mewn cysylltiad â Siasbar Tudur, a'i fod yntau wedi cael croeso a lloches ym Mostyn.<sup>169</sup> Ceir hefyd draddodiad fod Harri Tudur yn ogystal wedi ymweld â Mostyn cyn brwydr Bosworth. Bu Rhisiart ap Hywel yn bresennol ym Mosworth, ac fe'i gwobrwywyd am hynny.<sup>170</sup>

Yr oedd teulu Gloddaith yn deulu o noddwyr beirdd. Canwyd cywydd marwnad i Ruffudd ap Rhys gan Dudur Aled.<sup>171</sup> Yng 'Nghywydd y Fwyall', Maredudd ap Rhys, cyfeirir at haelioni Sioned;<sup>172</sup> ac y mae'n bosibl fod Tudur Aled wedi canu iddi.<sup>173</sup> Ceir marwnadau i'w thad, Dafydd ab Ieuan ap Hywel o Lwydiarth, Ynys Môn, gan Hywel Cilan<sup>174</sup> a Dafydd

---

<sup>165</sup> Ymhellach ar deulu Mostyn a'u cysylltiad â Gloddaith, gw. A. D. Carr, 'Medieval Gloddaith', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 38 (1977), 7-32; *idem*, 'The making of the Mostyns: the genesis of a landed family', THSC, 1979, 137-57; *idem*, 'The Mostyn family and estate, 1200-1642' (Ph.D., Cymru [Bangor], 1976), 110-40, *et passim*; Lord Mostyn & T. A. Glenn, *History of the family of Mostyn of Mostyn* (London, 1925), *passim*. Gw. hefyd 6.2n, isod. Ymhellach ar Fargred, gw. Carr, 'Medieval Gloddaith', 25-31; Mostyn & Glenn, *History of the family of Mostyn of Mostyn*, tt. 60-6.

<sup>166</sup> Ymhellach ar Fargred, gw. Carr, 'Medieval Gloddaith', 25-31; Mostyn & Glenn, *History of the family of Mostyn of Mostyn*, tt. 60-6.

<sup>167</sup> *Ibid.*, 'Medieval Gloddaith', 21-4; *idem*, 'The Mostyn family and estate, 1200-1642', 130-3.

<sup>168</sup> *Idem*, 'Medieval Gloddaith', 29; *idem*, 'The Mostyn family and estate, 1200-1642', 137-8.

<sup>169</sup> Mostyn & Glenn, *History of the family of Mostyn of Mostyn*, tt. 57-8, 59-60; R. Alun Charles, 'Teulu Mostyn fel noddwyr y beirdd', *Llên Cymru*, ix (1966-7), 78-9; *idem*, 'Noddwyr y Beirdd yn Sir y Fflint' (M.A., Cymru [Aberystwyth], 1967), 9.

<sup>170</sup> Gw. Mostyn & Glenn, *History of the family of Mostyn of Mostyn*, tt. 73-4, 206-7, am hanes ymweliad Harri Tudur â Mostyn. Ymhellach ar gefnogaeth Rhisiart ap Hywel a'r teulu i achos y Lancastriaid a Harri Tudur, gw. *ibid.* tt.73-9.

<sup>171</sup> T. Gwynn Jones (gol.), *Gwaith Tudur Aled* (Caerdydd, 1926), cerdd LXXXV.

<sup>172</sup> GMRh cerdd 1.

<sup>173</sup> Cywydd yn dechrau â'r ll. *Sioned hil fel Saint Elen*, C 4.10 [= RWM 84], 1023; Maldwyn cerdd 25127.

<sup>174</sup> Islwyn Jones (gol.), *Gwaith Hywel Cilan* (Caerdydd, 1963), cerdd XX; M. T. Burdett-Jones, 'Trydydd Llyfr Cywyddau John Jones, Gellilyfdy', YB xvi (1990), 139.

ab Edmwnd.<sup>175</sup> Canodd Tudur Aled i Fargred hefyd;<sup>176</sup> a cheir cywyddau moliant iddi hi a'i hail ŵr, Harri Salbri Fychan, gan Lewys Môn.<sup>177</sup> Bu disgynyddion Margred o'i gŵr cyntaf – y Mostyniaid – yn noddwyr beirdd amlwg. Canwyd iddynt gan nifer o feirdd.<sup>178</sup>

Ceir cysylltiadau rhwng teulu'r Gloddaith a theluoedd eraill o noddwyr beirdd y canodd Robin Ddu iddynt. Fel y gwelir yn nodyn cefndir cerdd 3, yr oedd Tudur ap Dafydd ap Robert o Gastell Bylchwyn yn gyfyrder i blant Gruffudd ap Rhys;<sup>179</sup> a'i wraig, Myfanwy, yn fodryb iddynt.<sup>180</sup> Yn ogystal, yr oedd Sioned, eu mam, yn wyres i Wilym ap Gruffudd ap Gwilym o'r Penrhyn a Morfudd ferch Goronwy ap Tudur, a oedd yn gyfneither i Owain Tudur, gw. 6.50n; cerddi 7, 8 ac 11.

Ceir tair rhan i'r cywydd hwn: y mae'r cyntaf (6.1-40) yn frith o ddelweddau o goed a thorri coed; yn yr ail, rhestrir enwau'r plant (6.41-60); ac y mae'r drydedd rhan (6.61-8) yn gweithredu fel casgliad. Yn y rhan gyntaf ceir trosiad o'r plant fel brigau *O bren dihareb ei wraidd* (6.8); a datblygir y ddelwedd wrth bortreadu Duw fel y *Pensaer* (6.1) a'r *Gofynwr* (6.13n) sydd yn eu cymynu cyn pryd. Dymuna Robin Ddu gynydd i'r unig gainc nas torrwyd, sef Margred (6.15-18); ac, yn wir, fel y gwelir uchod, gwiredwyd ei ddymuniad.

Yr oedd yn arfer gan y cywyddwyr mewn marwnadau ddefnyddio nifer o ferfenwau i gyfleu colled.<sup>181</sup> Ceir tri o'r berfenwau hyn yn y cywydd hwn: *dwyn* (6.16, 35, 55), *cwympo* (6.14) a *bwrw* (6. 19, 20, 22). Ar y defnydd o *dwyn* mewn marwnadau, gw. 3.43n. 'Mae'r ferf

---

<sup>175</sup> Thomas Roberts (gol.), *Gwaith Dafydd ab Edmwnd: a gasglwyd o ysgriflyfrau Peniarth, Llanstephan, Caerdydd, Havod, Mostyn, Coleg yr Iesu a'r Amgueddfa Brydeinig* (Bangor, 1914), cerdd XLI.

<sup>176</sup> Jones (gol.), *Gwaith Tudur Aled*, cerdd XXXIX.

<sup>177</sup> GLM cerddi LXI-LXII.

<sup>178</sup> Ymhellach ar deulu Gloddaith a'i ddisgynyddion fel noddwyr beirdd, gw. Charles, 'Teulu Mostyn fel noddwyr y beirdd', 74-110; *idem*, 'Noddwyr y Beirdd yn Sir y Fflint' 1-76, 192-201, 232, 234-5, 239-43; Carr, 'The Mostyn family and estate, 1200-1642', 332-60. Ceir cyfeiriad byr at y cywydd yn y ffynonellau hyn yn tt. 79; 9-10; 134 (yn y drefn honno).

<sup>179</sup> P. C. Bartrum: WG1 'Mabon Glochydd' 2, 'Iarddur' 2.

<sup>180</sup> *Ibid.* 'Mabon Glochydd' 2, 'Carwed' 2, 'Iarddur' 2.

<sup>181</sup> Gw. ACM 269-74.

“torri” yn amlwg yn addas iawn ar gyfer datblygu motiff colled yn y trosiadau’, a thorri coed yw un o’r trosiadau amlycaf. ‘Ni raid pwysleisio fod derwen yn un o ddelweddau set canu mawl am uchelwr ... Eithr nid derwen yw’r unig bren sy’n arwyddo uchelwriaeth a nawdd cymdeithasol’ – ceir enghreifftiau o winwydd (6.20, 28), a phethau megis tant offeryn a bwa hela, yn ogystal.<sup>182</sup>

Yn aml ceir cyfeiriadau herodrol mewn cerddi mawl neu farwnad. Arddelai tad Gruffudd ap Rhys arfbais ei dad a’i daid, sef sieffrwn rhwng tair modrwy, ond cyda siff ermin.<sup>183</sup> Ni chyfeirir at yr arfbais hon yn y cywydd.

Soniwyd eisoes y cynhwysir y cywydd hwn mewn nifer fawr o llsgrau., ac nid ydynt oll yn cytuno ar bwy oedd y bardd.<sup>184</sup> Robin Ddu yw’r awdur yn ôl y rhan fwyaf ohonynt, a’r beirdd eraill yw Dafydd Llwyd o Fathafarn, Dafydd Nanmor, Ieuan Tew Brydydd Hen o Gydweli a Dafydd Nanconwy. Ceir y cywydd mewn tair llsgr. yng nghasgliadau teulu Mostyn – llsgrau. Ba(M) 12; Ba(M) 28; a NLW 3027E [= M 96]. Yn nwy o’r llsgrau. hyn, sef Ba(M) 12 a NLW 3027E, ceir y priodoliadau hyn: *Davydd llwyd o Nan Conwy ai cant medd eraill Robin Ddu a Dafydd Llwyd o Nan Conwy Medd Robin Ddu*.<sup>185</sup> Dyddir y ddwy llsgr. hyn i’r 17g. Ni wyddys pryd yr ysgrifennwyd Ba(M) 28, sydd yn cynnwys y cywydd hwn yn unig, ac wedi ei briodoli i Robin Ddu. Fodd bynnag, gellir ei dyddio i rywdro cyn diwedd y 18g., gan ei bod wedi dod i Fostyn o gasgliad William Vaughan, Cors y Gedol (1707-1775).<sup>186</sup> Y mae’n bosibl fod copi cynharach na’r tri hyn wedi bod ym meddiant y teulu ar un adeg, ond ei fod wedi ei golli.

---

<sup>182</sup> *Ibid.*, 270-3.

<sup>183</sup> DWH ii, 491, 194, 355; DWH i, platiau 1 (a, b, c). Gw. hefyd DWH i, 220, am drafodaeth ar yr arfbais.

<sup>184</sup> Gw. cofnodau’r cywydd ym Maldwyn (cerddi 27542, 2596, 2916, 10621, 2746); Mynegai 4479-80, 439, 484, 1827, 465.

<sup>185</sup> Gw. hefyd Mostyn & Glenn, *History of the family of Mostyn of Mostyn*, tt. 62-3, lle y cyfeirir at y farwnad, a gyfansoddwyd, yn ôl y llyfr, gan *Robin Ddu ab Siencin and Dafydd Llwyd of Nantconwy*.

<sup>186</sup> Gw. yr adran *Llawysgrifau* am ddyddiadau.

Fodd bynnag, er yr amwysedd yn llsgrau. Mostyn, gellir dweud yn weddol bendant mai Robin Ddu a ganodd y cywydd oherwydd nifer y llsgrau. sydd yn ei briodoli iddo. Y mae'r llsgrau. hynaf (a ddyddir o'r 16g.) yn gytûn ar Robin Ddu fel yr awdur.

- 2 **Gloddaith** Plasty ym mhlwyf Eglwys-rhos, y Creuddyn, Sir Gaernarfon, a chartref i Ruffudd ap Rhys, Sioned, a'u hwyth plentyn. Gellir olrhain preswylad y teulu yno i Fabon Glochydd (*fl. c.* diwedd y 12g.), ac yr oedd yn deulu amlwg yn yr ardal yn y cyfnod cyn 1282. Ailadeiladwyd Gloddaith gan Fargred ferch Gruffudd ap Rhys yn nechrau'r unfed ganrif ar bymtheg, a dyna yw cnewyllyn y tŷ presennol. Gw. Carr, 'Medieval Gloddaith', 7-32; *idem*, 'The Mostyn family and estate, 1200-1642', 110-40; P. C. Bartrum: WG1 'Mabon Glochydd' 1. Gw. hefyd y nodyn cefndir, uchod.
- 9 **Gruffudd ap Rhys** Tad y plant. Fe'i ganed *c.* 1411/12, a bu farw ym 1480, P. C. Bartrum: WG1 'Mabon Glochydd' 2; Carr, 'Medieval Gloddaith', 26. Ei dad oedd Rhys ap Gruffudd ap Madog Gloddaith, P. C. Bartrum: WG1 'Mabon Glochydd' 2, a'i fam oedd Catrin ferch Robin Llwyd ap Gruffudd o linach Ednyfed Fychan, *ibid.*, 'Marchudd' 5; 6.28n. Ymhellach ar Ruffudd, gw. Carr, 'Medieval Gloddaith', 24-7; *idem*, 'The Mostyn family and estate, 1200-1642', 133-5; Mostyn & Glenn, *History of the family of Mostyn of Mostyn*, tt. 61-3. Gw. hefyd y nodyn cefndir.
- 13 **Gofynwr** Gw. yr Amrywiadau am ddarlleniadau'r llsgrau. Gall fod yma *gofynnwr*, sef 'un sy'n gofyn', 'holwr', 'rhoddwr benthyg', GPC 1434. Fodd bynag, yn ôl GPC, ceir y cofnod cynharaf y gwyddys amdano o'r e. hwn yng ngeiriadur Syr Thomas Wiliems – *Thesaurus Linguae Latinae et Cambrobritannicae* – yn llsgr. P 228, o

ddechrau'r 17g. Oherwydd y cyd-destun, cynigir mai'r hyn sydd yma yw *gofynwr*, sef un sy'n gofynu, h.y. un sydd yn 'taro, torri i lawr, cymynu', GPC 1433.

19 **gweilch** Cyfeirir yma at y plant fel *gweilch*. Gellir deall *gwalch*, yr aderyn ysglyfaethus, yn ffig. ac yn dros. am 'milwr gwych, ymladdwr glew, pendefig', 'gwron, arwr', GPC 1565-6.

20 **Bro Gonwy** Yr ardal o gwmpas tref neu afon Conwy – y mae'r Gloddaith yn yr ardal honno. Afon Conwy yw'r ffin rhwng Gwynedd Uwch Conwy a Gwynedd Is Conwy (gw. 7.18n). Gw. hefyd 6.25n.

21 **poen** Ceir amwysedd yn yr ystyr yma – gall olygu 'dioddefaint dwys'; 'gwewyr meddwl', 'galar'; 'baich'; neu gall olygu 'cosbedigaeth', GPC 2839.

25 **Creuddyn** Cwmwd yng nghantref Rhos, Gwynedd Is Conwy, lle y saif y Gloddaith, gw. WATU 49, 188, 319. Daeth y cwmwd yn rhan o Sir Gaernarfon ym 1284, Gwyddoniadur 196, WATU 245, 26; 7.18n.

28 **gwŷdd gwin** H.y. gwinwydd.

**Robin Llwyd** Yr oedd Robin Llwyd ap Gruffudd ap Gronwy, yn hendaidd i'r plant – taid i Ruffudd ap Rhys ar ochr ei fam, Catrin, gw. P. C. Bartrum: WG1 'Mabon Glochydd' 2, 'Marchudd' 5. Yr oedd yn ddisgynydd i Ednyfed Fychan (*ob.* 1246), distain Llywelyn Fawr (ar Ednyfed Fychan a'i linach, gw. ByCy 167-8; P. C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 4). Ni wyddys ym mhle'r oedd cartref Robin Llwyd.

31 **rhagorau Yswallt** Oswallt Law-wyn neu Lafnwyn (*c.* 605-642), brenin Northumbria rhwng 634 a 642. Yr oedd yn fab i Aethelfrith o Fernicia, ac olynodd Oswallt ei frawd, Eanfrith, yn frenin Bernicia. Daeth yn rheolwr ar Northumbria gyfan wedi iddo drechu byddin Cadwallon ym mrwydr Canyscawl. Yr oedd Oswallt yn Gristion pybyr, ac yn

hael â'r tlawd. Fe'i lladdwyd mewn brwydr yng Nghroesoswallt, ac ef yw sant y dref. Gw. WCD 514; CE xi, 348-9, 348-9, d.g. *Oswald, Saint*; GSC 31.19n. Cyfeirir yma at wyrthiau Oswallt. Ceir nifer o hanesion am bobl ac anifeiliaid a oedd yn wael neu wedi eu hanafu yn cael iachâd yn y fan lle y lladdwyd Oswallt, neu gan bridd o'r lle, neu gan ddarn o'i groes, er enghraifft, gw. Bertram Colgrave and R. A. B. Mynors (ed.), *Bede's Ecclesiastical History of the English People* (reprint, Oxford, 1991), tt. 215-19, 241-55, 379-81.

- 34 **Sioned** Sioned ferch Dafydd ab Ieuan o Lwydiarth, Llannerch y medd, Ynys Môn, oedd mam y plant. Lladdwyd ei thad yn y Ffrae Ddu ym Meaumaris. Gw. P. C. Bartrum: WG1 'Mabon Glochydd' 2, 'Carwed' 2; Carr, 'Medieval Gloddaith', 25-6; *idem*, 'The Mostyn family and estate, 1200-1642', 134-5; 6.50n; a'r nodyn cefndir.
- 36 **ceirw** Deallir carw yma yn ffig. 'am arglwydd, pendefig', GPC 434; neu 'arwr', 'milwr ifanc', gw. GGLI t. 324, GRhGE t. 260, GDEp t. 191. Gw. hefyd 2.27n.
- 39 **blodau** Cofier mai ystyr arall i *blodau* yw 'y pennaf, y rhagoraf, pigion, goreuon, dewision', GPC 288. Y mae'r ystyr yn amwys yn y tri chyfeiriad sydd yma, gw. 6.65, 68.
- 43 **wyth** Cyfeiriad at wyth plentyn Sioned. Cofier hefyd fod y rhif *wyth* yn gallu dynodi cyflawnder neu berffeithrwydd, gw. 2.10n.
- 46 **ban fu'i ddydd** H.y., pan fu farw. Gw. 2.30n am holl ystyron *dydd*.
- 50 **gorwyr Wilym** Yr oedd Sioned ar ochr ei mam, Angharad, yn wyres i Wilym ap Gruffudd ap Gwilym o'r Penrhyn, P. C. Bartrum: WG1 'Carwed' 2, 'Marchudd' 6. Canodd Robin Ddu ddau gywydd i'w fab, Wiliam Gruffudd Fychan, sef hanner brawd i Angharad, gw. cerddi 7 ac 8.

- 57 **ne** Gall fod yma dalfyriad o *neu* (gw. GPC 2574-5, d.g. *neu'*). Posibilrwydd arall yw *gne* wedi'i dreiglo'n feddal, yn golygu 'lliw, gwawr, gwedd, golwg, pryd', GPC 1415.
- 65 **blodau** Gw. 6.39n.
- 68 **blodau** Gw. 6.39n.

7

Y mae'r cywydd hwn yn un o ddau a ganodd Robin Ddu i Wiliam Gruffudd Fychan o'r Penrhyn.<sup>187</sup> Yr oedd Wiliam yn fab i Wilym ap Gruffudd ap Gwilym o'i ail briodas â Sioned ferch Syr Wiliam Stanley. Gwelir yr achau yn P. C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 6. Gellir dyddio priodas ei rieni bron yn bendant i'r flwyddyn 1413, a chan y rhoddir y rhif cenedlaeth 12 iddo yn yr achau, gellir amcangyfrif y ganwyd Wiliam Fychan rhwng 1413 a c. 1415.<sup>188</sup> Bu farw yn y flwyddyn 1483.<sup>189</sup>

Ni ellir dyddio'r cywydd hwn yn hawdd. Cyfeirir at blant ac wyrion i Wiliam (gw. 7.57-60). Os canwyd y cywydd wedi i'r wyrion gael eu geni, gellir dyddio'r gerdd i'r cyfnod rhwng 1480, pan anwyd Syr Wiliam Gruffudd Ail,<sup>190</sup> a 1483. Fodd bynnag, gan nad enwir y plant na'r wyrion, gall mai gobeithio am barhad i'r llinach y mae'r bardd yma. Ymddengys mai cyfeiriad at Harri Tudur a geir yn 7.48, *Iarll Harri*; ac felly gellir dyddio'r cywydd yn bendant i'r cyfnod wedi 1457 (dyddiad geni Harri Tudur), neu efallai i ddiwedd oes Wiliam

<sup>187</sup> Am yr ail gywydd, gw. cerdd 8. Yn ogystal, priodolir cywydd Owain ap Llywelyn ab y Moel i'r Plas Newydd yn amser Wiliam Gruffudd Fychan i Robin Ddu yn llsgr. Ll 118, 78, gw. yr adran ar y *Cerddi annilys* yn y *Rhagymadrodd*. Am olygiadau o'r cywydd hwnnw, gw. Eurys Rolant (gol.), *Gwaith Owain ap Llywelyn ab y Moel* (Caerdydd, 1984), cerdd 23; Dafydd Wyn Wiliam, *Y canu mawl i deulu Plasnewydd* (Llangefni, 1992), cerdd I.

<sup>188</sup> A. D. Carr, 'Gwilym ap Gruffudd and the rise of the Penrhyn estate', *Cylchg HC xv* (1990-1), 10; P. C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 6. Rhoddir c. 1420 fel dyddiad ei eni yn ByCy<sup>2</sup> 96, a 1418-19 yn Eurys I. Rowlands, 'Tri Wiliam Gruffudd', *Llên Cymru*, ii (1952-3), 257.

<sup>189</sup> P. C. Bartrum: WG2 'Marchudd' 6 (B1); P. C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 6; ByCy<sup>2</sup> 96.

<sup>190</sup> P. C. Bartrum: WG2 'Marchudd' 6 (B4).

Gruffudd Fychan, pan ystyrir Harri Tudur yn brif ymgeisydd teulu Lancastr am goron Lloegr, ac wrth gwrs, yn Fab Darogan y Cymry. Ysgrifennwyd y dyddiad 1460 ger yr olnod yn llsgr. C (Cw 11, 355) mewn llaw wahanol i'r cywydd ei hun.<sup>191</sup>

Saif plasty y Penrhyn ym mhlwyf Llandygái yn Sir Gaernarfon. Bu teulu'r Penrhyn yn tra-arglwyddiaethu yn nhywysogaeth gogledd Cymru hyd at y Deddfau Uno, a bu i'r ystad le blaenllaw yn hanes yr ardal am ganrifoedd wedyn. Hon oedd yr ystad sylweddol gyntaf yng Ngwynedd i gael ei chreu gan brynu tiroedd.

Dechreuadau'r ystad oedd priodas Gwilym ap Gruffudd ap Heilyn ap Tudur ab Ednyfed Fychan<sup>192</sup> ag Efa ferch Gruffudd ap Tudur ap Madog ab Iarddur,<sup>193</sup> a ddigwyddodd tua'r flwyddyn 1340.<sup>194</sup> Etifeddasai brawd Efa, Gwilym, ystad sylweddol wedi ei gwasgaru dros ran eang o ogledd Cymru, ac yr oedd hefyd yn prynu tiroedd. Nid oedd ganddo etifedd a, phan fu farw ym 1376, gadawodd y rhan fwyaf o'i eiddo a'i diroedd i fab Efa, Gruffudd ap Gwilym,<sup>195</sup> sef taid Wiliam Fychan. Priododd Gruffudd etifeddes – Generys ferch Madog ap Goronwy Fychan<sup>196</sup> o Wredog yng nghwmwd Twrcelyn, Môn. Drwy hynny, cafodd Gruffudd fwy o diroedd yng ngogledd-orllewin Cymru, gan gynnwys rhan o Afael Goronwy ab Ednyfed yng Nghororion, Arllechwedd Uchaf. Priododd tad Wiliam Fychan, Gwilym ap Gruffudd ap Gwilym, yn gyntaf â Morfudd ferch Goronwy ap Tudur<sup>197</sup> o Benmynydd, Ynys Môn. Yn ddiweddarach, etifeddodd Morfudd diroedd ei thad, gan gynnwys gweddill Gafael Goronwy ab Ednyfed yng Nghororion, wedi marwolaeth ei brawd, Tudur. Yr oedd yr Afael

---

<sup>191</sup> Ysgrifennwyd y dyddiad gan *P.W.*, fe ymddengys. Y mae'r nodiadau hyn mewn llaw wahanol i nodiadau eraill a geir ar ymyl y llsgr., gw. e.e. 7.20n.

<sup>192</sup> P. C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 5.

<sup>193</sup> *Ibid.* 'Iarddur' 2.

<sup>194</sup> Yn ôl yr achau fel y'u ceir gan P. C. Bartrum, yr oedd Efa yn wraig i Ruffudd ap Heilyn, ac yn fam i Wilym; a Gwenhwyfar, merch i Ieuan ap Gruffudd, ficer Rhuddlan, oedd gwraig Gwilym, gw. P. C. Bartrum: WG1 'Edwin' 6.

<sup>195</sup> *Ibid.* 'Marchudd' 6, 5.

<sup>196</sup> *Ibid.* 'Marchudd' 11.

<sup>197</sup> *Ibid.* 'Marchudd' 13.



gyfan yn cyfateb i diriogaeth y Penrhyn. Erbyn diwedd y 14g., felly, yr oedd gan Wilym ap Gruffudd ystad sylweddol.

Gyda throad y ganrif daeth gwrthryfel Owain Glyndŵr, ac elwodd Gwilym ap Gruffudd yn fawr ohono. Tua'r flwyddyn 1403, ymunodd Gruffudd ap Gwilym a'i frawd, Bleddyn – tad ac ewythr Gwilym – â'r gwrthryfel, ac erbyn 1406 yr oedd y ddau wedi eu lladd. Nid yw cysylltiad Gwilym ei hun â'r gwrthryfel mor eglur. Y mae'n bosibl ei fod wedi bod yn bresennol yn y senedd ym Machynlleth. Fodd bynnag, ym mis Awst 1405, gwnaeth Gwilym a'i frodyr heddwch ag awdurdodau Sir y Fflint – cyn marwolaeth eu tad, o bosibl. Ni chawsant bardwn tan Gorffennaf 1407, a bu raid i Wilym dalu dirwy o gan swllt i gael y tiroedd a gollodd ei dad o ganlyniad i'r gwrthryfel yn ôl. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, cafodd bardwn yn y dywysogaeth, a derbyniodd diroedd fforffed saith gwrthryfelwr ar hugain, yn ogystal â'i diroedd ei hun. Ym 1410, derbyniodd hyd yn oed diroedd ewythr ei wraig, Gwilym ap Tudur ap Goronwy, ym Môn a Chororion.<sup>198</sup>

Erbyn hynny, yr oedd Morfudd wedi marw. Ym 1413, priododd Gwilym ap Gruffudd â Sioned, merch Syr William Stanley o Hooton, swydd Gaer. Trefnodd y byddai'r rhan fwyaf o'i diroedd yn cael ei etifeddu gan y mab cyntaf o'r briodas hon wedi ei farwolaeth. Byddai Tudur Fychan, ei fab o'i briodas gyntaf â Morfudd, yn derbyn etifeddiaeth ei fam, ond nid y cyfan ohoni. Rhoddodd Gwilym gyfran Morfudd o Afael Goronwy ab Ednyfed ynghyd â'r gyfran a gafodd ef drwy'i fam, gan ffurfio ystad y Penrhyn.

Wedi ei briodas â Sioned Stanley, ymddengys fod Gwilym ap Gruffudd wedi ceisio ymseisnigo. Cyflwynodd betisiwn a oedd yn gofyn am yr hawl iddo ef a'i ddisgynyddion gael prynu tiroedd yn Lloegr ac ym mwrdeistrefi Seisnig Cymru, a gofyn am gael ei eithrio o'r deddfau penyd yn erbyn y Cymry. Ychwanegodd ei fod ef a'i blant wedi bod yn deyrngar i'r

---

<sup>198</sup> Ymhellach ar ymwneud Gwilym ap Tudur a'i frawd Rhys yn y gwrthryfel, gw. nodyn cefndir cerdd 11.

Goron yn ystod y gwrthryfel, ei fod yn briod â Saesnes, a'i fod ef ei hun bron yn gyfan gwbl o dras Seisnig! Rhwng 1413 a'i farwolaeth ym 1431, bu Gwilym yn prynu tiroedd yn siroedd Môn a Chaernarfon, ond cafodd wared â'i etifeddiaeth yn sir y Fflint.<sup>199</sup>

Pan fu farw ei dad, yr oedd Wiliam Gruffudd Fychan dan oed, a bu'r ystad yng ngofal ei fam, Sioned, tan iddo ddod i oed. Ei dad fu'n gyfrifol am osod sylfaeni ystad y Penrhyn, ond gwnaeth Wiliam hyd yn oed fwy nag ef o ran prynu tiroedd yn siroedd Môn a Chaernarfon. Ceisiodd Wiliam, fel ei dad, gael ei eithrio o'r deddfau penyd. Dadleuodd ei fod yn Sais ar ochr ei fam ac yn rhannol felly ar ochr ei dad; a dywedodd am ffyddlondeb ei dad i'r Goron yn ystod y gwrthryfel. Caniatwyd ei gais ym 1440 ar yr amod na fyddai'n priodi Cymraes ac na fyddai'n derbyn swydd, ond dilëwyd yr ail amod ym 1443 gan fod ei fam yn Saesnes.

Rywdro cyn 1447, priododd Wiliam ag Alis ferch Syr Richard de Dalton o Apthorpe, swydd Northampton, a mab o'r briodas hon a olynodd ei dad yn y Penrhyn, sef Syr Wiliam Gruffudd Hen.<sup>200</sup> Ail wraig, neu ordderch, Wiliam oedd Gwenllian ferch Iorwerth ap Dafydd.<sup>201</sup> Robert, eu mab hynaf hwy oedd sylfaenydd teulu Griffith Plas Newydd yn Llanidan, Môn, a Llanfair-is-gaer yn sir Gaernarfon; ac Edmwnd, mab arall iddynt, oedd sylfaenydd teulu Griffith y Garreg-lwyd, Llanfaethlu, Môn.<sup>202</sup>

Cyfeirid at Wiliam Gruffudd Fychan fel *siambrlen Gwynedd* neu *siambrlen gogledd Cymru* (gw., e.e., 8.5n). Rhwng 1457 a 1463 bu'n ddirprwy i sawl siambrlen, ond nid

---

<sup>199</sup> Carr, 'Gwilym ap Gruffudd and the rise of the Penrhyn estate', 1-12, 19, *et passim*; D. J. Bowen, 'Y canu i Gwilym ap Gruffudd (m. 1431) o'r Penrhyn a'i fab Gwilym Fychan (m. 1483)', *Dwned*, 8 (2002), 59-62; ByCy<sup>2</sup> 95-6; R. R. Davies, *The Revolt of Owain Glyn Dŵr* (Oxford, 1995), tt. 314-6; J. R. Jones, 'The development of the Penrhyn estate up to 1431' (M.A., Cymru [Bangor], 1955), *passim*; Glyn Roberts, 'Wyrion Eden', *Aspects of Welsh History: selected papers of the late Glyn Roberts* (Cardiff, 1969), tt. 206-14; *idem*, 'Teulu Penmynydd', *Aspects of Welsh History*, tt. 254-7.

<sup>200</sup> P. C. Bartrum: WG2 'Marchudd' 6 (B3, B1).

<sup>201</sup> P. C. Bartrum: WG1 'Cadrod Hardd' 3.

<sup>202</sup> P. C. Bartrum: WG2 'Marchudd' 6 (B2, B1).

ymddengys iddo ef ei hun fod yn siambrlen. Cyfeiriai rhai beirdd ato fel cwnstabl Caernarfon yn ogystal. Daethai'n ysgwier o Neuadd a Siambr y brenin erbyn 1450-1; a derbyniodd roddion fel 'marsial neuadd y brenin' gan Edward IV ym 1462 a 1464. Bu'n gwasanaethu'n ogystal ar sawl comisiwn yng ngogledd Cymru yn ystod teyrnasiad Edward.<sup>203</sup>

Cafodd Wiliam Gruffudd Hen, fel ei dad, swyddi gan Edward IV, ac fe'i gwnaed yn siambrlen gogledd Cymru gan Richard III ym 1483. Yr oedd y ddau frenin hyn yn aelodau o gangen Efrog o'r teulu brenhinol, ond fe ymddengys fod Wiliam yn gefnogol i achos Harri Tudur, cynrychiolydd cangen Lancastr, ym mrwydr Bosworth. Daliwyd ef yn garcharor gan Richard III ychydig cyn y frwydr. Cadarnhawyd penodiad Wiliam fel siambrlen gogledd Cymru gan Harri Tudur wedi iddo ddod yn frenin, ac fe'i hurddwyd yn farchog ym 1489 pan wnaed Arthur yn dywysog Cymru.<sup>204</sup> Ceid, wedi'r cwbl, gysylltiad teuluol rhwng y Penrhyn a'r Tuduriaid – yr oeddynt yn ddisgynyddion i Ednyfed Fychan. Yn ogystal, tad Morfudd, gwraig gyntaf Gwilym ap Gruffudd oedd Goronwy ap Tudur, hanner brawd i Faredudd ap Tudur, sef tad Owain Tudur (gwrthrych cerdd 11) a hendaidd i Harri Tudur.<sup>205</sup>

Ceir chwedlau yng Nghronicl Elis Gruffydd am Robin Ddu ac Wiliam Gruffudd Fychan – un yn ymwneud â genedigaeth Harri Tudur, a'r llall yn ymwneud â marwolaeth Wiliam. Ymhellach ar y chwedlau, gw. *Y bardd: Llên gwerin a chyfeiriadau llenyddol yn y Rhagymadrodd*.

---

<sup>203</sup> Carr, 'Gwilym ap Gruffudd and the rise of the Penrhyn estate', 1-12, 18-19; Bowen, 'Y canu i Gwilym ap Gruffudd (m. 1431) o'r Penrhyn a'i fab Gwilym Fychan (m. 1483)', 62, 64, 76-7; ByCy<sup>2</sup> 96-7; Eurys I. Rowlands, 'Tri Wiliam Gruffudd', *Llên Cymru*, ii (1952-3), 256-7; Ralph A. Griffiths, *King and Country: England and Wales in the fifteenth century* (London, 1991), t. 268; WWR<sup>2</sup> 15; Glanmor Williams, *Recovery, Reorientation, and Reformation: Wales, c. 1415-1642* (Oxford, 1987), t. 11.

<sup>204</sup> D. J. Bowen, 'Y canu i deulu'r Penrhyn o gyfnod y Tuduriaid hyd 1628', *Dwned*, 9 (2003), 92-3; SP 33. Gw. hefyd J. Beverley Smith, 'Crown and Community in the Principality of North Wales in the Reign of Henry Tudor', *Cylchg HC iii* (1966-7), 159-62.

<sup>205</sup> P. C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 13. Gw. ymhellach nodyn cefndir cerdd 11.

Yr oedd teulu'r Penrhyn yn deulu o noddwyr beirdd.<sup>206</sup> Canodd sawl bardd i Wilym ap Gruffudd. Gwilym ap Sefnyn oedd y bardd a oedd yn canu'n bennaf iddo, ond y bardd pwysicaf a ganodd iddo oedd Rhys Goch Eryri. Canodd ddau gywydd i Wilym – un yn canmol ei lys yn y Penrhyn, a'r llall yn farwnad iddo. Canodd Ieuan ap Gruffudd Leiaf gywydd i lys y Penrhyn hefyd.<sup>207</sup> Canwyd i Wiliam Gruffudd Fychan gan y beirdd canlynol: Rhys Goch Eryri, Lewys Glyn Cothi, Cynwrig ap Dafydd Goch, Dafydd Llwyd o Fathafarn, Guto'r Glyn, Gutun Owain, Tudur Penllyn, Owain ap Llywelyn ab y Moel, a Hywel Dafî.<sup>208</sup> Ceir cywydd arall iddo ar wahân i hwn gan Robin Ddu, gw. cerdd 8.

Fel y gellid disgwyl, yr oedd gan y beirdd deimladau cymysg tuag at Wiliam Gruffudd Fychan a'i dad. Er eu bod yn parhau i noddi beirdd, yr oeddynt wedi elwa'n fawr o wrthryfel Glyndŵr ac wedi ceisio cael eu heithrio o'r deddfau penyd drwy bwysleisio eu Seisnigrwydd a'u teyrngarwch i'r Goron – hynny er bod Gruffudd ap Gwilym, tad Gwilym wedi'i ladd yn y gwrthryfel. Gwelir y tyndra hwn yng nghywydd Rhys Goch Eryri i Wiliam Gruffudd Fychan, sydd yn olrhain ei achau ar ochr ei dad hyd at Adda.<sup>209</sup> Yn ôl Ifor Williams, cefndir y cywydd oedd cais Wiliam i gael ei eithrio o'r deddfau penyd. Ceisia'r bardd atgoffa Wiliam o'i achau Cymreig. 'Canwyd y cywydd bondigrybwyll hwn pan oedd ei wrthrych yn prysur geisio profi ei fod yn fwy na hanner Sais. Coegni neu gerydd ydyw, ond odid'.<sup>210</sup> Fodd bynnag, nododd Dylan Foster Evans ei bod yn fwy tebygol fod hwn yn gywydd a gomisiynwyd gan Wiliam ei hun 'er mwyn dangos nad oedd ei ddatganiadau i'r llywodraeth yn ddim mwy nag ymdrech i

---

<sup>206</sup> Gw. Bowen, 'Y canu i Gwilym ap Gruffudd (m. 1431) o'r Penrhyn a'i fab Gwilym Fychan (m. 1483)', 59-78; *idem*, 'Y canu i deulu'r Penrhyn o gyfnod y Tuduriaid hyd 1628', *Dwned*, 9 (2003), 91-107, am ymdriniaeth o'r canu i deulu'r Penrhyn.

<sup>207</sup> Gw. *idem*, 'Y canu i Gwilym ap Gruffudd (m. 1431) o'r Penrhyn a'i fab Gwilym Fychan (m. 1483)', 62-76, a'r cyfeiriadau pellach yno. Am olygiad diweddarach o gywyddau Rhys Goch Eryri, gw. GRhGE cerddi 2 a 3.

<sup>208</sup> Gw. Bowen, 'Y canu i Gwilym ap Gruffudd (m. 1431) o'r Penrhyn a'i fab Gwilym Fychan (m. 1483)', 77, a'r cyfeiriadau pellach yno; GRhGE t. 176 (nodyn cefndir cerdd 4). Am olygiad diweddarach o gywydd Rhys Goch Eryri, gw. GRhGE cerdd 4.

<sup>209</sup> GRhGE cerdd 4.

<sup>210</sup> IGE<sup>2</sup> xlv.

ennill ei hawliau cynhenid, ac nad oedd a wnelont mewn unrhyw ffordd â'i Gymreictod na'r safle cymdeithasol a ddeilliai o'i ach Gymreig'.<sup>211</sup>

Ceir cysylltiadau rhwng teulu'r Penrhyn a noddwyr eraill y canodd Robin Ddu iddynt. Soniwyd eisoes am gysylltiad y teulu ag Owain Tudur, gwrthrych cerdd 11. Hanner chwaer Wiliam Gruffudd Fychan o'r Penrhyn oedd Angharad – merch Gwilym ap Gruffudd o'i briodas gyntaf â Morfudd ferch Goronwy. Un o'i phlant hi a Dafydd ab Ieuan o Lwydiarth, Ynys Môn, oedd Sioned, sef gwraig Gruffudd ap Rhys o Loddath a mam y saith plentyn a fu farw yn ystod yr un wythnos.<sup>212</sup> Canodd Robin Ddu farwnad iddynt – cerdd 6. Plentyn arall i Angharad a Dafydd oedd Myfanwy – ail wraig Tudur ap Dafydd ap Robert o Gastell Bylchgwyn, Ynys Môn, y canodd Robin Ddu gywydd mawl iddo (cerdd 3).<sup>213</sup> Priododd wyres i Wiliam Gruffudd Fychan, Siân ferch Syr Wiliam Gruffudd Hen, â Syr Wiliam Herbert, Colbrwg<sup>214</sup> – gwrthrych cerdd 9.

Arddelai deulu'r Penrhyn arfbais Ednyfed Fychan (gw. 7.19n), sef sieffrwn rhwng tri phen dynol, neu arfbais debyg – sieffrwn rhwng tair helmed. Seliodd Gwilym ap Gruffudd ei ewyllys â sêl o sieffrwn rhwng tair helmed, ond tri phen dynol oedd ar yr arfbais ar ffenestr liw er cof am Wiliam Gruffudd Fychan yn eglwys Llandygái.<sup>215</sup> Ni chyfeirir at yr arfbais hon yn y cywydd; fodd bynnag, y mae'r *hydd* yn 7.13 yn gyfeiriad at arfbais teulu Stanley ac, o bosibl, yn atgoffa rhywun o arfbais Iarddur, a oedd yn cael ei arddel gan deulu'r Penrhyn, gw. 7.13n.

---

<sup>211</sup> Gw. GRhGE tt. 175-6 (nodyn cefndir cerdd 4); Bowen, 'Y canu i Gwilym ap Gruffudd (m. 1431) o'r Penrhyn a'i fab Gwilym Fychan (m. 1483)', 64.

<sup>212</sup> P. C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 6, 'Carwed' 2, 'Mabon Glochydd' 2. Ymhellach ar Sioned, gw. 6.34n, 50n.

<sup>213</sup> P. C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 6, 'Carwed' 2, 'Iarddur' 2.

<sup>214</sup> P. C. Bartrum: WG2 'Godwin' 8 (B1), 'Marchudd' 6 (B3, B1).

<sup>215</sup> Gw. DWH ii, 180-2, 129-30; DWH i, 210-11.

Ceir y cywydd hwn mewn saith llsgr. – y saith yn cytuno mai Robin Ddu oedd y bardd. Daw'r ddwy llsgr. hynaf, sydd yn dyddio o ail hanner yr 16g. – Ba(M) 5 a NLW 3051D [= M 148] – o gasgliadau teulu Mostyn.<sup>216</sup> Ceid cysylltiad rhwng teulu'r Penrhyn a theulu Mostyn, fel y gwelir uchod, ac atgyfnerthwyd y cysylltiad drwy nifer o briodasau yn ystod y canrifoedd dilynol, er enghraifft priodas Siân Gruffudd ferch Syr Wiliam Gruffudd Ail<sup>217</sup> â'r 'Mostyn' cyntaf, Tomas ap Rhisiart ap Hywel.<sup>218</sup> Mewn chwech o'r saith llsgr. – pob un ond B (C 4.10 [= RWM 84]) – ceir y cywydd hwn mewn casgliad o gerddi mawl i aelodau o deulu'r Penrhyn.

Y mae'n debyg fod cysylltiad rhwng llsgrau. *F* (J 140 [= RWM 15]) a *G* (NLW 3051D [= M 148]) – ceir yr un darlleniadau ynddynt. Gall *F* fod yn gopi o *G*. Y mae *C* (Cw 11) yn gopi o *D* (Cw 312),<sup>219</sup> ac ymddengys fod cysylltiad rhwng llsgrau. *C* a *E* (G 14) hefyd.

1 **Wiliam** Wiliam ap Gwilym ap Gruffudd neu Wiliam Gruffudd Fychan o'r Penrhyn – gwrthrych y cywydd. Arno, gw. y nodyn cefndir a nodyn cefndir cerdd 8.

3 **eryr** Nid cyfeiriad brudiol sydd yma, ac nid yw'n gyfeiriad herodrol chwaith – gw. y nodyn cefndir am yr arfbeisiau a arddelid gan deulu'r Penrhyn. Deellir *eryr*, yma, yn ffig. am 'pennaeth', 'arweinydd', gw. GPC 1240. Ymhellach ar yr *eryr*, gw. 3.11n.

**gwleddlawn** 'gwledd + -lawn'. 'Helaeth ei wleddoedd, yn arlwyo'n fras', GPC 1693, d.g. *gwleddlon*. Ceir y cofnod cynharaf y gwyddys amdano o'r a. hwn o'r 16g. i'r 17g. Y mae hon yn enghraifft gynharach.

---

<sup>216</sup> Ymhellach ar y llsgrau. gw. yr adran *Llawysgrifau*.

<sup>217</sup> P. C. Bartrum: WG2 'Marchudd' 6 (B4).

<sup>218</sup> *Ibid.* 'Tudur Trefor' 13 (C2).

<sup>219</sup> Gw. Eurys I. Rowlands, 'Llaw dybiedig Siôn Brwynog', *Cylchgr LIGC* vii (1951-2), 381.

- 4 **y Penrhyn** Plasty ym mhlwyf Llandygái, Arllechwedd Uchaf, Sir Gaernarfon, a chartref gwrthrych y cywydd. Adeiladwyd y plasty presennol ym 1827, pan ymgorfforwyd ac ehangwyd tŷ llai, a adeiladwyd yn niwedd y 18g. Yr oedd y tŷ hwnnw yn ailfodeliad o'r tŷ gwreiddiol, a ddyddiai i'r 14g. Y mae'r seler a rhannau eraill o'r tŷ gwreiddiol y parhau i fod wedi eu hymgorffori i'r plasty presennol. Gw. Richard Haslam, Julian Orbach and Adam Voelcker, *et al.*, *Gwynedd: Anglesey, Caernarvonshire and Merioneth* (New Haven and London, 2009), tt. 398-404; RCAHMW, *An Inventory of the Ancient Monuments in Wales and Monmouthshire*, 'Caernarvonshire', iii, tt. 123-6, platiau 61 a 62. Ymddengys y daeth Gwilym ap Gruffudd ap Gwilym i fyw i'r Penrhyn pan briododd â Sioned Stanley ym 1413; ac yn ôl eu mab, Wiliam, Gwilym a adeiladodd faenor y Penrhyn. Gw. Carr, 'Gwilym ap Gruffydd and the rise of the Penrhyn estate', 9-10, 16-17. Gw. hefyd y nodyn cefndir am hanes dod â'r ystad ynghyd.
- 10 **Gwilym** Gwilym ap Gruffudd ap Gwilym o'r Penrhyn (*ob.* 1431), tad gwrthrych y cywydd, gw. P. C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 6. Arno, gw. y nodyn cefndir, a'r ffynonellau a nodir yno.
- 12 **Ystanlai** Cyfeiriad at deulu Stanley. Mam Wiliam Gruffudd Fychan oedd Sioned ferch Syr William Stanley o Hooton, swydd Gaer, P. C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 6; P. C. Bartrum: WG2 'Stanley' 1. Sioned Stanley oedd ail wraig ei dad, a gwelid y briodas fel uniad rhwng llinach fwyaf blaenllaw tywysogaeth gogledd Cymru a llinach fwyaf blaenllaw gogledd-orllewin Lloegr. Cyfrannodd y briodas yn fawr tuag at gynnydd ystad y Penrhyn. Gw. Carr, 'Gwilym ap Gruffydd and the rise of the Penrhyn estate', 10, 19; Bowen, 'Y canu i Gwilym ap Gruffudd (m. 1431) o'r Penrhyn a'i fab

Gwilym Fychan (m. 1483)', 60-1; 8.15n. Gw. hefyd y nodyn. Cryfhawyd y cysylltiad â'r Stanleiod gan briodas Wiliam Gruffudd Fychan ag Alis de Dalton – yr oedd ganddi gysylltiad â changen Lathom o'r teulu, gw. 8.49-50n. Yn ogystal, yn ôl Lewys Dwnn, mam Alis oedd Isabel, merch ac aeres Siôn Stanley, LD ii, 155.

13 **hydd** 'carw, bwch danas (fel y dengys yr ymad. *oes hydd, teiroes hydd, oed hydd, deuoed hydd, oedran hydd, &c.*, yng ngwaith rhai o'r cywyddwyr, ystyrir gynt fod iddo oes faith'), hefyd yn ffig., GPC 1956. Gall mai cyfeiriad herodrol yw hwn – ceid tri phen hydd ar arfbais teulu Stanley, DWH ii, 529. Cofier hefyd fel yr arddelai teulu'r Penrhyn arfbais Iarddur (arno, gw. 7.20n), sef carw neu bennau ceirw. Ceir cyfeiriadau at geirw Iarddur yng nghywydd marwnad Rhys Goch Eryri i dad Wiliam, sef Gwilym ap Gruffudd, GRhGE 3.71-2, 94; DWH i, 76. Hennain Gwilym ap Gruffudd oedd Efa ferch Gruffudd ap Tudur o lwyth Iarddur, P. C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 6, 5, 'Iarddur' 2. Nid yw'r rheswm dros arddel arfbais perthynas mor bell yn hollol eglur; fodd bynnag, awgrymir i Wilym wneud hynny am i'w dad etifeddu cryn dipyn o diroedd gan frawd Efa, Gwilym ap Gruffudd ap Tudur, GRhGE 3.71-2n; Carr, 'Gwilym ap Gruffydd and the rise of the Penrhyn estate', 3-4. Gw. DWH ii, 180-2, am arfbeisiau teulu'r Penrhyn; a DWH ii, 262-3, a nodyn cefndir cerdd 3 am arfbeisiau Iarddur ap Cynddelw a'i ddisgynyddion. Ymhellach ar y defnydd o *carw* mewn barddoniaeth, gw. 2.27n.

16 **Gwalchmai** Gwalchmai ap Gwyar. Yr oedd y cymeriad chwedlonol hwn yn nai i Arthur, ac fe'i dewiswyd ganddo i fod yn un o'r chwech i fynd gyda Chulhwch i chwilio am Olwen. Cyfeirir at Walchmai sawl gwaith yn y Trioedd – fel un o *Tri Deifyawc Enys Prydein*, TYP<sup>3</sup> 9-10 (*deifniog*, yn yr ystyr 'gŵr sylweddol, un abl o



gynhysgaeth neu fodd, perchen neu etifedd cyfoeth', GPC 921); *Tri Dyn Goreu wrth Ysp a Phellennigyon* [gwesteion a dieithriaid] *Ynys Prydein*, TYP<sup>3</sup> 205; *Tri Diofnog Ynys Brydain*, TYP<sup>3</sup> 234; a *Tri Marchoc Aurdavodiawc oedd yn Llys Arthur*, TYP<sup>3</sup> 266, 267, cxii-cxiii. Cyfeirir at ei geffyl, Ceincaled, fel un o *Tri Gohoew Edystyr* [march nwyfus] *Enys Prydein*, TYP<sup>3</sup> 111-12, lxxxv-lxxxvi a n. 136. Ymhellach ar Walchmai, gw. WCD 303-5, TYP<sup>3</sup> 367-71. Gw. hefyd GSDT 16.13n a'r cyfeiriadau pellach yno. Ar Arthur, gw. 11.13n.

**swydd Gaer** Gw. 7.12n.

- 18 **dwy Wynedd** Gwynedd Uwch Conwy ac Is Conwy. Yr oedd Gwynedd yn un o deyrnasoedd cynnar Cymru, ac fel arfer hon oedd y rymusaf o'r teyrnasoedd. Gwynedd Uwch Conwy oedd y rhan honno o Wynedd a oedd i'r gorllewin o afon Conwy, gan gynnwys Ynys Môn. Yr oedd Gwynedd Is Conwy, neu'r Berfeddwlad, i'r dwyrain o'r afon. Gweithredwyd Statud Rhuddlan ym 1284 gan Edward I, wedi iddo orchfygu Cymru, gan rannu craidd Gwynedd ar y pryd, sef Gwynedd Uwch Conwy, ynghyd â chwmwd Creuddyn (gw. 6.25n), yn siroedd Môn, Caernarfon a Meirionnydd. Daeth cantref Tegeingl yng Ngwynedd Is Conwy yn graidd Sir y Fflint, a rhannwyd gweddill y Berfeddwlad rhwng arglwyddiaethau Dinbych a Rhuthun – dwy o arglwyddiaethau newydd y Mers. Gw. Gwyddoniadur 420-1, 866, 74, 858; John Davies, *Hanes Cymru* (ail arg., London, 2007), t. 151. Safai'r Penrhyn yng Ngwynedd Uwch Conwy, ond yr oedd gan y teulu, yn draddodiadol, gysylltiadau cryfion ag ardaloedd yn Ngwynedd Is Conwy yn ogystal. Trigai Gruffudd ap Gwilym, taid Wiliam Gruffudd Fychan, yn Nant, yng nghwmwd Prestatyn, Sir y Fflint, ac yno

y ganwyd ei dad, Gwilym, o bosibl. Gw. Carr, 'Gwilym ap Gruffydd and the rise of the Penrhyn estate', 3-5.

- 19 **Ednyfed** Ednyfed Fychan ap Cynwrig ab Iorwerth (*ob.* 1246), P. C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 4, 3. Ef oedd distain Gwynedd rhwng *c.* 1215 a 1246 – dan Lywelyn ab Iorwerth a Dafydd ap Llywelyn – ac fe'i gwobrwywyd yn fawr gan Lywelyn am ei wasanaeth gwleidyddol a milwrol. Yr oedd yn enwog hefyd fel cyndad i'r Tuduriaid. Gw. ByCy 167-8; David Stephenson, *The Governance of Gwynedd* (Cardiff, 1984), tt. 207-9, a'r cyfeiriadau d.g. *Ednyfed Fychan* yn y mynegai. Yr oedd Wiliam yn ddisgynydd i Ednyfed drwy ei daid a'i nain ar ochr ei dad, sef Gruffudd ap Gwilym ap Gruffudd (gw. P. C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 6, 5, 4; ar Ruffudd, gw. y nodyn cefndir), a Generys ferch Madog ap Goronwy Fychan (gw. P. C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 6, 11, 4). Yr oedd Morfudd, gwraig gyntaf ei dad, yn ddisgynydd iddo, yn ogystal, gw. P. C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 13, 12, 11, 4. Arddelai deulu'r Penrhyn arfbais Ednyfed, gw. y nodyn cefndir.
- 20 **Iarddur** Iarddur ap Cynddelw o Arllechwedd Uchaf, tad llwyth Iarddur, sef un o bymtheg llwyth Gwynedd yn ôl rhai ffynonellau, P. C. Bartrum: WG1 'Iarddur' 1; P. C. Bartrum, 'Hen Lwythau Gwynedd a'r Mars', Cylchg LIGC xii (1961-2), 232; Roberts, 'Wyrion Eden', t. 206. Yn llsgr. *C* (Cw 11, 353) ceir y nodyn hwn ar ymyl y llsgr. mewn llaw wahanol i'r cywydd ei hun: *Iarddur Arglwydd y Llechwedd uchaf neu Arllechwedd, yn Swydd Gaernarfon*. Yn ôl y rhif cenedlaeth a roddir iddo yn yr achau, fe'i ganwyd *c.* 1170. Yr oedd Wiliam Gruffudd Fychan yn ddisgynydd iddo drwy ei hennain, Efa ferch Gruffudd ap Tudur, ac arddelai Wiliam ei arfbais. Gw. y nodyn cefndir a 7.13n; ac ymhellach ar yr arfbais, gw. nodyn cefndir cerdd 3.

**gwrddion** Ffurf lafar ar *gwyrdion* yw hwn, a chyfeiriad sydd yma at wisgoedd milwyr Gwynedd yng nghyfnod y tywysogion. (Ceir y darlleniad *gwyrdion* yn llsgr. A.) Ceir tystiolaeth mewn cerddi i Lywelyn Fawr mai gwyrdd a gwyn oedd lliwiau ei filwyr – *Ym bliant gwyrth ac un gwynn*, GLLLI 21.12n; *llyw gwyrdddrawd gwydrin*, GMB 17.15n.

- 23 **edryd** Gall hwn fod y e.g. *edryd*, yn golygu ‘haniad, ach, tras’, ‘gwehelyth, tylwyth, cenedl’; y bg. *edryd*, yn golygu ‘symud, teithio, rhedeg’; yr e.g. *edfryd*, yn golygu ‘adferiad (i’r cyflwr gwreiddiol, &c.), gwellhad’, ‘ad-daliad, iawn’; ‘barn, penderfyniad, dedfryd’; neu’r bg.a. *edfryd*, sydd â dau ystyr – ‘rhoi’n ôl, adfer, dychwelyd’, (mewn cyfraith) ‘ad-dalu’, ‘dwyn yn ôl (i’w gyflwr cyntefig, i iechyd, &c.)’; a ‘datgan, cyhoeddi, traethu’, GPC 1168, 1164; G 441, 493. Posibilrwydd arall yw mai e.p. sydd yma, ac mai cyfeiriad yw at Edryd ab Inethan ab Iasedd (ganwyd c. 1000). Ef oedd cyndad y rhan fwyaf o lwyth Marchudd yn Rhos, Uwch Dulas, WCD 224. Yr oedd Wiliam Gruffudd Fychan yn ddisgynnydd iddo, gw. P. C. Bartrum: WG1 ‘Marchudd’ 6, 5, 4, 3, 1. Ffurf arall ar yr enw yw *Uchdryd*, gw. GRhGE 4.21n. Er y cysylltiad rhwng y gwrthrych ac Edryd, derbynnir yr ystyr ‘haniad, ach, tras’, ‘gwehelyth, tylwyth, cenedl’ yma.

**glendyd** *glendid*, gw. GPC 1407. Defnyddiwyd y sillafiad hwn yn y rhan fwyaf o’r llsgrau. ac yma oherwydd y gynghanedd.

- 24 **Brutus** Yn ôl yr *Historia Brittonum*, a briodolwyd i Nennius, a *Historia Regum Britanniae* Sieffre o Fynwy, tarddiad y Brythoniaid oedd y cymeriad chwedlonol Brutus. Yr oedd yn fab i Silfius, ac yn wŷr neu’n orwyr i Aeneas o Gaer Droea. Ymsefydlodd Brutus ar y *Wenn Ynys*, a *mynnvys Brutus galv yr enys o’e enw ef*

*Brytaen, a'r genedyl yn Vrytannyeit*, BD 19. Wedi ei farwolaeth, rhannwyd Prydain rhwng ei dri mab, ac enwyd y rhannau ar eu holau – cafodd Locrinus Loegr, cafodd Camber Gymru, ac etifeddodd Albanactus yr Alban. Gw. WCD 62; BD 2-21. Gw. hefyd GLMorg 1.2n a'r cyfeiriad pellach yno.

26 **Troea** Caer Droea, gw. 7.24n; 3.36n.

27 **Noe** Y cymeriad Beiblaidd, Noa. Arno, gw. 1.3n. Yr oedd yr hil ddynol yn hanu o Noa, ac fe'i henwir yn y rhestr o gyndadau yng nghywydd Rhys Goch Eryri, *Achau Wiliam Fychan ap Gwilym ap Gruffudd o'r Penrhyn*, gw. GRhGE 4.78.

38 **tri dinas** E.g. oedd *dinas* yn y cyfnod hwn, GPC 1019, G 360. Nid yw arwyddocâd y ll. hon yn eglur; fodd bynnag, cynigir mai dinas yn yr ystyr 'caer, amddiffynfa, cadarnle'; yn ffig. 'amddiffyn, noddod, noddfa', sydd yma, ac mai cyfeiriad ydyw at blastai o eiddo Wiliam Gruffudd Fychan. Os felly, y Penrhyn ei hun fyddai un plasty. Plas Newydd fyddai un arall, gan mai Wiliam neu Wenllian a adeiladodd y plasty, Dafydd Wyn Wiliam, *Y canu mawl i deulu Plasnewydd* (Llangefni, 1992), t. 1; Bowen, 'Y canu i Gwilym ap Gruffudd (m. 1431) o'r Penrhyn a'i fab Gwilym Fychan (m. 1483)', 77-8. Fodd bynnag, nid enwir y Plas Newydd yn y cywydd, fel yr enwir y Penrhyn (7.4). Ni ellir, ychwaith, awgrymu trydydd plasty, heblaw Penmynydd – ond etifeddiaeth Tudur Fychan oedd y fan honno.

40 **teirsir** Byddai tair sir Gwynedd – Môn, Caernarfon a Meirionnydd – dan awdurdod y siambrlen. Fodd bynnag, gall mai cyfeiriad sydd yma at siroedd Môn, Caernarfon a Fflint. Yr oedd y Penrhyn ei hun yn Sir Gaernarfon, ond yr oedd Gwilym ap Gruffudd, tad Wiliam Gruffudd Fychan, wedi etifeddu tiroedd yn y tair sir. Gw. Carr, 'Gwilym ap Gruffydd and the rise of the Penrhyn estate', 3-12.

- 45 **Lliwio megis y lleuad** Gw. yr Eirfa am ystyron *lliwio*. ‘Goleuo fel y lleuad’ yw ystyr y ll. Fodd bynnag, efallai y dylid nodi yma fod lleuad ar arfbais Salbriaid Lleweni, DWH ii, 515-18. Priododd Sioned, merch Wiliam Gruffudd Fychan a’i wraig Alis de Dalton, â Syr Tomas Salbri ap Tomas Hen ap Harri, P. C. Bartrum: WG2 ‘Salesbury’ 2, 1. Ceid llew ar yr arfbais yn ogystal.
- 48 **Iarll Harri** Harri Tudur neu Harri ab Edmwnd ab Owain Tudur (1457-1509), P. C. Bartrum: WG2 ‘Marchudd’ 13 (A). Yn ystod blynyddoedd olaf Rhyfeloedd y Rhosynnau, ef oedd prif ymgeisydd cangen Lancastr o’r teulu brenhinol am goron Lloegr. Yr oedd ei dad yn fab i Owain Tudur a Catherine de Valois, gweddw Harri V; ond deuai ei hawl i’r goron drwy ei fam, Margaret Beaufort (P. C. Bartrum: WG2 ‘St. John’ 1), a oedd yn ddisgynydd i Edward III. Ystyrid Harri Tudur gan y Cymry yn Fab Darogan, a fyddai’n adennill coron Ynys Prydain i’r Brytaniaid; a bu cefnogaeth uchelwyr a beirdd Cymru yn ystod ei ymgyrch yn hollbwysig. Daeth yn frenin Lloegr a Chymru ym 1485 wedi ei fuddugoliaeth yn erbyn y brenin Richard III ym mrwydr Bosworth. Ymhellach arno a Rhyfeloedd y Rhosynnau, gw. Glanmor Williams, *Harri Tudur a Chymru: Henry Tudor and Wales* (Caerdydd, 1985), *passim*; SP *passim*; ByCy 316-17; WWR<sup>2</sup> 119-35, a’r cyfeiriadau d.g. *Henry VII (Henry Tudor, earl of Richmond)* yn y mynegai; a nodyn cefndir cerdd 11. Gw. y nodyn cefndir am y chwedl ynglŷn â Robin Ddu yn proffwydo genedigaeth Harri Tudur.
- 59 **fab Ifor Môn** Cyfeiriad, fwy na thebyg, at haelioni tad Wiliam Gruffudd Fychan, Gwilym ap Gruffudd – fe’i cymharir yma ag Ifor Hael (gw. 5.8n). Ymartrefodd Gwilym ym Mhenhwnllys a Phenmynydd ym Môn cyn priodi mam Wiliam a dod i fyw i’r Penrhyn, gw. Carr, ‘Gwilym ap Gruffydd and the rise of the Penrhyn estate’, 5-

6, 16; Bowen, ‘Y canu i Gwilym ap Gruffudd (m. 1431) o’r Penrhyn a’i fab Gwilym Fychan (m. 1483)’, 61.

8

Dyma’r cywydd arall a ganodd Robin Ddu i Wiliam Gruffudd Fychan o’r Penrhyn.<sup>220</sup> Gellir cynnig yn fras pryd y canwyd y cywydd hwn. Ceir cyfeiriad yma at wraig Wiliam, Alis ferch Syr Richard de Dalton (8.36), a briododd rywdro cyn 1447. Gelwir Wiliam yn *Siambrlen* yn y cywydd (8.5). Er nad ymddengys iddo ef ei hun ymgymryd â’r swydd, bu’n ddirprwy i sawl siambrlen rhwng 1457 a 1463.<sup>221</sup> Ni chyfeirir yma at Wenllian – ail wraig neu ordderch i Wiliam. Yn ôl Dafydd Wyn Wiliam, gellir amcangyfrif dyddiad geni Robert Gruffudd – mab hynaf Wiliam a Gwenllian – o gwmpas y flwyddyn 1460.<sup>222</sup> Nid yw hyn, wrth gwrs, yn brawf pendant fod Alis wedi marw cyn hynny. Gwyddys y prynodd Wiliam dyddyn Llwyn Moel yn nhrefgordd Porthaml yn Llanidan, Môn, yn y flwyddyn 1470, a’i fod ef neu Wenllian wedi adeiladu plasty Plas Newydd ar y safle ymhen tair neu bedair blynedd wedyn.<sup>223</sup> Tybir bod Alis wedi marw erbyn hynny. Gellir dyddio’r cywydd, felly, i’r cyfnod rhwng 1457 a 1474.

Y mae’r cywydd hwn yn anarferol iawn gan ei fod yn moli canghennau Seisnig o deulu’r Penrhyn, yn hytrach na’r canghennau o achau diledryw Cymreig. Dechreua’r cywydd

---

<sup>220</sup> Am y llall, gw. cerdd 7. Gw. nodyn cefndir y cywydd hwnnw am gyflwyniad i Wiliam Gruffudd Fychan a’i deulu.

<sup>221</sup> Gw. nodyn cefndir cerdd 7.

<sup>222</sup> Dafydd Wyn Wiliam, *Y canu mawl i deulu Plasnewydd* (Llangefni, 1992), tt. 1, 52.

<sup>223</sup> *Ibid.*, tt. 1, 52; D. J. Bowen, ‘Y canu i Gwilym ap Gruffudd (m. 1431) o’r Penrhyn a’i fab Gwilym Fychan (m. 1483)’, *Dwned*, 8 (2002), 77-8. Yn ôl Edmond Hugh Douglas Pennant, *The Welsh families of Penrhyn: a genealogical history of the Griffith family, Lords of Penrhyn, and the Williams family, of Cochwillan and Penrhyn* (Bangor, 1985), t. 19, adeiladwyd ym Mhorthaml ym 1479 ac aeth Wiliam Gruffudd Fychan yno i fyw ym 1482.

drwy gyfeirio at dad Wiliam Gruffudd Fychan, Gwilym ap Gruffudd ap Gwilym (8.7n); ac at Ednyfed Fychan (8.11n) a'i fab, Syr Tudur (8.9n), a oedd yn gymeriadau blaenllaw yn yr achau ar ochr ei dad. Ond, yna, dywed Robin Ddu fod *ystil y Meistr Wiliam / O'r un fodd o ran ei fam* (8.13-14). Yr oedd cyfeirio at Sioned Stanley, ac *Estynlwyth Ystanlai wych*,<sup>224</sup> yn beth cyffredin yn y moliannau iddo; ond yna â Robin Ddu rhagddo i enwi aelodau o achau'r Stanleiod, a hefyd achau Alis, ei wraig o Saesnes.

Ceir y cywydd hwn mewn tair llsgr. ar ddeg. Fodd bynnag, chwe llsgr. sydd yn cynnwys y cywydd yn gyfan (llsgrau. *BCEFGJ*). Yn y saith arall, ceir llau. 1-34 wedi'u dilyn gan hanner olaf cywydd gan Uto'r Glyn i Wiliam Gruffudd Fychan, gw. *Trefn y llinellau* uchod. Ceir golygiad o'r cywydd hwnnw, sydd yn dechrau â'r ll. *Y gŵr mawr a egyr Môn*, yn GGI<sup>2</sup> cerdd XX. Y mae'n debyg mai camgymeriad wrth gopïo llsgr. a fu'n gyfrifol am hyn.<sup>225</sup> Y mae'r chwe llsgr. sydd yn cynnwys y cywydd yn gyfan yn gytûn mai Robin Ddu a'i canodd.

Daw'r tair llsgr. hynaf, sef llsgrau. *B, J a K*, sydd yn dyddio i'r 16g., o gasgliadau teulu Mostyn.<sup>226</sup> Ceid cysylltiadau rhwng y ddau deulu, gw. nodyn cefndir cerdd 7. Cynhwysa llsgrau. *B a J* y cywydd yn gyfan, ond hanner y cywydd ynghyd â hanner cerdd Guto'r Glyn sydd yn llsgr. *K*. Dengys hyn fod y camgymeriad copïo wedi digwydd yn weddol gynnar.

Y mae'r llsgrau. sydd yn cynnwys y cywydd cyflawn bron yn union yr un rhai â'r llsgrau. y ceir y cywydd arall i Wiliam Gruffudd Fychan (cerdd 7) ynddynt. Ni chynhwyswyd cerdd 8 yn llsgr. J 140 [= RWM 15] am ryw reswm, er bod y llsgr. honno yn cynnwys

---

<sup>224</sup> GGI<sup>2</sup> XX.33.

<sup>225</sup> Ceir golygiad o'r cywydd gan Eurig Salisbury yn y golygiad o farddoniaeth Guto'r Glyn a gyhoeddir ar-lein erbyn 2012. Diolch i Dr Ann Parry Owen am yr wybodaeth hon.

<sup>226</sup> Gw. yr adran *Llawysgrifau* am y dyddiadau.

casgliad o gerddi mawl i aelodau o deulu'r Penrhyn.<sup>227</sup> Ceir y cywydd hwn yn ychwanegol yn llsg. Ll 122 (G) mewn casgliad o'r fath. O'r saith llsg. sydd yn cynnwys hanner cyntaf y gerdd gydag ail hanner cerdd Guto'r Glyn, nid oes yr un yn cynnwys casgliad o fwy na thair cerdd i deulu'r Penrhyn. Y mae pum llsg. (ADILM) un ai'n llsgrau. o gerddi a briodolir i Uto'r Glyn neu'n cynnwys casgliad o'i gerddi.

Ceir nodiadau ar nifer o'r enwau priod sydd yn y cywydd ar ymyl y ddalen yn llsgrau. C, D, ac F – yn yr un llaw â'r cywydd ei hun yn llsg. F; mewn llaw wahanol i'r cywydd yn llsg. D; ac mewn dwy law wahanol i'r cywydd, fe ymddengys, yn llsg. C.

2 **Gwynedd** Gw. 7.18n.

3 **Wiliam** Wiliam ap Gwilym ap Gruffudd neu Wiliam Gruffudd Fychan o'r Penrhyn – gwrthrych y cywydd. Arno, gw. nodyn cefndir cerdd 7 a nodyn cefndir y gerdd hon.

5 **siambrlen** Cyfeiriai'r beirdd yn aml at Wiliam Gruffudd Fychan fel *siambrlen Gwynedd* neu *siambrlen Gogledd Cymru*. Gw. ymhellach y nodyn cefndir.

6 **Selyf** Ffurf Gymraeg ar Solomon, mab y Brenin Dafydd yn y Beibl. Yr oedd yn frenin Israel ac yn enwog am ei ddoethineb, gw. 1 Bren iii.4-14. Sonnir amdano yn y Trioedd fel un o'r *Tri dyn a gauas Doethineb Adaf*, TYP<sup>3</sup> 135; a chyfeirir ato'n aml ym marddoniaeth yr Oesoedd Canol fel patrwm o ddoethineb. Ymhellach arno, gw. CE xiv, 135-7, d.g. *Solomon*; ODCC<sup>3</sup> 1515; TYP<sup>3</sup> 497; GGLI 10.8n.

7 **Gwilym** Gwilym ap Gruffudd ap Gwilym o'r Penrhyn (*ob.* 1431), tad gwrthrych y cywydd, gw. P. C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 6. Arno, gw. nodyn cefndir cerdd 7, a'r ffynonellau a nodir yno.

---

<sup>227</sup> Gw. nodyn cefndir cerdd 7.



- 9     **Syr Tudur**   Tudur ab Ednyfed Fychan ap Cynwrig (*ob.* 1278), P. C. Bartrum: WG1 ‘Marchudd’ 5, 4. Ohono ef y disgynnai deulu’r Penrhyn. Ef oedd distain Llywelyn ap Gruffudd ap Llywelyn rhwng 1268 a 1278, gan ddilyn ei frawd, Goronwy, yn y swydd. Gw. ByCy 167-8, d.g. *Ednyfed Fychan*; David Stephenson, *The Governance of Gwynedd* (Cardiff, 1984), tt. 218-21, 13, 17-19. Ceir nodiadau ar ymyl y ddalen ger y ll. hon yn llsgrau. *C* a *F*. Yn llsgr. *C* ceir *Syr Tudur o Benmynydd Taid Owain Tudor* (mewn llaw wahanol i’r gerdd ei hun); ac yn llsgr. *F* ceir *Taid Owain Tudur o Ben Mynydd* (yn yr un llaw â’r gerdd). Y Tudur hwnnw oedd Tudur ap Goronwy ap Tudur ap Goronwy ab Ednyfed Fychan (*ob.* 1367), P. C. Bartrum: WG1 ‘Marchudd’ 13, 12, 11, 4. Yr oedd yn daid hefyd i Forfudd, gwraig gyntaf Gwilym ap Gruffudd, gw. P. C. Bartrum: WG1 ‘Marchudd’ 13; nodyn cefndir cerdd 7. Ni châi ef ei adnabod fel *Syr Tudur*.
- 11    **Ednyfed**   Ednyfed Fychan, distain Llywelyn ab Iorwerth, a chyndad i Wiliam Gruffudd Fychan. Arno, gw. 7.19n.
- 15    **Ystanle**   Mam Wiliam Gruffudd Fychan oedd Sioned ferch Syr William Stanley o Hooton, swydd Gaer. Ystyrid y Stanleiod yn llinach mwyaf blaenllaw gogledd-orllewin Lloegr ar y pryd. Gw. 7.12n; nodyn cefndir cerdd 7; a hefyd nodyn *Awdle*, isod, a 8.49-50n.
- Awdle**   Arddelai’r Stanleiod berthynas â’r teulu Audley o swydd Stafford. Daethai Adam de Aldithlegh (neu Audley) o *Audithlegh* yn Normandi, a’i ddau fab, Liulph ac Adam, i Brydain gyda Gwilym Goncwerwr. Priododd mab i’r Adam ieuengaf, William, â Joan, merch ac aeres Thomas de Stonelegh (neu Stanley) o Stafford. Dyma ddechreuadau llinach Stanley. Gw. Ormerod ii, 411, 415-16; William Pollard, *The*

*Stanleys of Knowsley: A history of that noble family, including a sketch of the political and public lives of the Right Hon. the Earl of Derby, K.G., and the Right Hon. Lord Stanley, M.P.* (Liverpool, 1868), tt. 7-10; gw. hefyd CP xii, tt. 243-6. (Yn ôl yr achau fel y'u ceir gan Lewys Dwnn, gallai Syr William Stanley o Hooton, olrhain ei ach i Syr John Audley, LD ii, 316.) Ymhellach ar deulu Audley, a'i ddisgynyddion drwy Liulph, gw. ODNB ii, 929-31. Disgynai Emma ferch Henry Audley, gwraig Gruffudd ap Madog ap Gruffudd Maelor, Arglwydd Dinas Brân, o'r gangen hon i'r teulu, gw. P. C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Cynfyn' 4.

- 16 **traseifiad** Gw. yr Amrywiadau am ddarlleniadau'r llsgrau. Gan lsg. B yn unig y ceir y darlleniad *traseifiad*. Ceir *Tryseifiad* mewn tair llsgr., sydd yn awgrymu fod copi'wyr y llsgrau. hynny'n credu mai enw lle ydyw. Ni wyddys am unrhyw le o'r enw Tryseifiad na Threseifiad, ond ceir cofnod yn ArchifMR am *Traseifiad*. Fodd bynnag, nid enw lle ydyw. Caiff y gair *trasseiviad* ei restru mewn geirfa yn llsgr. P 169 – llsgr. sydd yn dyddio i 1588 neu ynghynt – a'r ystyr a rydd iddo yw *savadwy*, B ii, 239; RWM i, 963-4. Ceir *tra-seifiad* yn GPC 3558, a'r ystyr yno yw 'parhaus, arhosol, parhaol, bythol'. Ond yno nodir y daw'r cofnod cynharaf o'r gair o'r cyfnod 1604-7.
- 17 **Syr William** Syr William Stanley o Hooton, gw. 8.15n.
- 19 **Syr Adam Awdle** Adam de Audley neu Adam de Aldithlegh, gw. 8.15n.
- 22-3 **Syr Siams ... / Gorwyr Nores** Gall fod yma berson o'r enw Syr James Norris. Ymddengys ei fod, beth bynnag, yn ddisgynydd i un â'r cyfenw Norris. Cynigir mai cyfeiriad at aelod o deulu Norris neu le Norreys o swydd Gaer, sydd yma. Bu aelod o'r teulu hwn, John Norreys, yn gwnstabl Castell Conwy, a hefyd yn geidwad y fagnelaeth yng nghestyll Caer a Chaernarfon (os mai'r un person oedd y ddau John

Norreys hyn), gw. Ralph A. Griffiths, *King and Country: England and Wales in the fifteenth century* (London, 1991), t. 169; Ormerod ii, 857. Priododd Syr William Norris Hen (byw c. 1400-45) ag Annes ferch Maredudd ap Tudur, sef chwaer i Owain Tudur, P. C. Bartrum: WG1 ‘Marchudd’ 13; P. C. Bartrum: WG2 ‘Ashpool’. Priododd ŵyr iddynt, Harri Robins neu Henry Robinson ap Robin Norris ab William Norris, ag Elen ferch Syr William Stanley o Hooton, PACF 23; LD ii, 113-14; J. Y. W. Lloyd, *The history of the princes, the lords marcher, and the ancient nobility of Powys Fadog, and the ancient lords of Arwystli, Cedewen, and Meirionydd*, iii (London, 1882), t. 188. Ni wyddys pa William Stanley yw hwn, ond y mae’n debyg ei fod yn perthyn i Sioned Stanley. (Nid oes cofnod o’r briodas yn achau’r Stanleiod fel y’u ceir yn Ormerod ii, 416.) Dichon nad dyma’r unig gysylltiad rhwng y ddau deulu – y mae’n debygol fod priodas wedi uno’r teuluoedd ynghynt, ac y gallai Sioned Stanley olrhain ei hachau at y Norrisiaid.

25-6 **Syr Huw ... / Bricil** Syr Hugh Brickill, o bosibl. Priododd disgynnydd iddo, Angharad ferch Hywel ap Tudur ab Ithel Fychan, ag Edmund Stanley – brawd i Sioned Stanley. Mam Tudur ab Ithel Fychan oedd Margaret ferch Syr Hugh Brickill. Gw. P. C. Bartrum: WG1 ‘Edwin’ 10, 14; P. C. Bartrum: WG2 ‘Stanley’ 1. Ei dad yng nghyfraith oedd Syr Robert Hammond o Bulford, swydd Gaer. Dichon hefyd fod Syr Hugh Brickill yn frodor o swydd Gaer. Gellir amcangyfrif ei fod yn fyw erbyn y flwyddyn 1270, gan mai oddeutu’r flwyddyn honno y ganwyd ei wraig, Sioned, yn ôl y rhif cenedlaeth a roddir iddi yn achau fel y’u ceir gan P. C. Bartrum.

32 **gogan** ‘moli, clodfori’, GPC 1435.

- 36 **Alis** Alis, merch ac aeres ferch Syr Richard de Dalton o Apthorpe (gw. 8.38-40n), swydd Northampton, oedd gwraig gyntaf Wiliam Gruffudd Fychan, P. C. Bartrum: WG2 ‘Marchudd’ 6 (B1). Yn llsgr. *C*, ceir y nodyn hwn mewn llaw wahanol i’r cywydd ger enw Alis: *merch Syr Rich<sup>d</sup>: Dalton*; ac yn llsgr. *F* ceir *Merch Syr Richard Dalton. ~ of Apthorpe Northamp*: Ymhellach arni, gw. y nodyn cefndir a nodyn cefndir cerdd 7.
- 38-40 **Rhisiart ... / ... / Daltwn** Syr Richard de Dalton, gw. 8.36n.
- 38 **gwin Rosiel** ‘*Rochelle wine*’, GPC 1662, d.g. *gwin – gwin Rosiel*. Dinas a phorthladd ym Mae Biscay, ar arfordir gorllewinol Ffrainc, yw La Rochelle. Câi gwin, ymysg nwyddau eraill, eu hallforio oddi yno. Bu’r porthladd yn eiddo i Loegr am gyfnod yn ystod y Rhyfel Can Mlynedd. Gw. Wayne Northcutt, *The Regions of France: A Reference Guide to History and Culture* (Westport, 1996), tt. 218, 220-1, 223, 224, 227-8; Arthur Tilley, *Medieval France: a companion to French studies* (Cambridge, 1922), tt. 17, 122, 198-9. Cyfeirir at *win Rhosiel* neu *Rosiel* droeon yng ngherddi Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC 73.40, 91.57, 118.51, 135.29.
- 41 **Syr Siôn ap Syr Siôn** Cyfeiriad at daid neu hendaidd Alis. Tad Richard de Dalton oedd Syr John ap Syr John ap Syr John ap Syr Robert de Dalton, LD ii, 155. Deuai’r Daltoniaid o faenor Bispham, swydd Gaerhifryn. Ymhellach arnynt, gw. William Farrer & J. Brownbill (ed.), ‘Townships: Bispham’, *A History of the County of Lancaster*, vi (London, 1911), tt. 100-2.
- aur Sieb** ‘*gold of Cheapside*’, GPC<sup>2</sup> 536. Yr oedd ardal Cheap(side) yn Llundain yn enwog oherwydd ei siopau a’i marchnadoedd. Cyfeirid at *Sieb*, ac *aur Sieb*, yn aml gan y beirdd. Gw. T. H. Parry-Williams, *The English Element in Welsh: a study of*

*English loan-words in Welsh* (London, 1923), tt. 124, 225. Gw. hefyd Ifor Williams a Thomas Roberts (goln.), *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr* (ail arg., Caerdydd, 1935), II.20n.

- 42 **wyneb** *Wyneb*, yn yr ystyr 'anrhydedd, parch, statws, safle' a geir yma, GPC 3742.
- 43-4 **Syr Robert ... / Daltwn** Syr Robert de Dalton (*ob.* 1350) o Fispham – gorhendaidd Syr Richard de Dalton. Bu ef a'i fab, Syr John, yn ymladd yng Nghrecy ym 1346. Gw. 8.41n; LD ii, 155; Farrer & Brownbill (ed.), 'Townships: Bispham', *A History of the County of Lancaster*, vi, tt. 100-2.
- 43 **eryr** Nid cyfeiriad herodrol sydd yma. Llew oedd ar arfbais Syr Richard de Dalton, ac ymddengys ei fod wedi etifeddu'r arfbais gan ei dad, felly y mae'n debygol iawn mai honno oedd arfbais ei daid, Syr Robert de Dalton, gw. DWH ii, 109. Nid cyfeiriad brudiol sydd yma chwaith. Deellir *eryr*, yma, yn ffig. am 'pennaeth', 'arweinydd', gw. GPC 1240. Gw. hefyd 7.3n.
- 45 **Fenabl** Gw. 8.49-50n, isod, am Thomas de Lathom. Ei rieni oedd Syr Thomas de Lathom a Joanne ferch Syr Hugh de Venables o Kinderton. Gallai'r teulu olrhain ei ach i Gilbert de Venables o Venables yn Normandi. Gw. Ormerod iii, 198-9.
- 46 **Pilcintwn** Mam Syr Richard de Dalton oedd Isabel, a oedd yn ferch i Syr Roger de Pilkington (*c.* 1325-1407), *marchog urddasoll*, LD ii, 155; ByCy<sup>2</sup> 96. Cymerodd y teulu uchelwrol hwn ei enw o faenor Pilkington, ym Mhrestwich, swydd Gaerhirfryn. Ymhellach ar y teulu, gw. ODNB xl, 311-13, 331. Ail wr i Isabel oedd Syr John de Dalton; ei gŵr cyntaf oedd Thomas de Lathom, gw. 8.49-50n. Gw. Prifysgol Bangor, Penrhyn 6, am drwydded yn cyfreithloni priodas Syr John de Dalton ac Isabel. Dyddiad y drwydded oedd 14 Mehefin 1386.

**ellicant** Gall fod yma ffurf Gymraeg ar yr a. *elegant*, ond ni cheir enghreifftiau o'r Cymreigiad hwn yn GPC. Posibilrwydd arall yw mai cyfeiriad ydyw at fath o win, gw. GPC 1206 d.g. *elgant* – 'gwin coch a wneid yn Alicante yn Ysbaen'. Ceir y gair *el'gant* mewn cerdd gan Dudur Aled (*fl.* 1480-1526), lle y gall olygu un o'r ddau uchod, gw. T. Gwynn Jones (gol.), *Gwaith Tudur Aled* (Caerdydd, 1926), VII.8n.

47-8 **Syr Robert Wrswig** Syr Robert de Urswick o Upper Rawcliffe, swydd Gaerhirfryn. Yr oedd yn byw yn ail hanner y 14g. Ymddengys iddo briodi Elen, gweddw John ap Robert de Dalton, a llysfam i John ap John (gw. 8.41n). Chwech oed oedd y John ieuengaf pan fu farw ei dad ym 1369, felly y mae'n debyg y byddai wedi dod dan ofal ei llysfam a'i gŵr. Gw. Farrer & Brownbill (ed.), 'Townships: Bispham', *A History of the County of Lancaster*, vi, tt. 100-2, n. 10. Gw. hefyd *idem*, 'Townships: Upper Rawcliffe with Tarnacre', *A History of the County of Lancaster*, vii (London, 1912), tt. 267-73, n. 23.

49-50 **Syr Tomas ... / Laddwm** Gŵr cyntaf Isabel de Pilkington (gw. 8.46n), nain Alis ar ochr ei thad, oedd Thomas de Lathom (*ob.* 1383) o Lathom, swydd Gaerhirfryn, gw. CP iv, 205. Ceid cysylltiad rhwng teulu Lathom a'r Stanleiod hefyd. Ymddengys y daethai merch o briodas Isabel a Thomas de Lathom â Lathom a Knowsley i'r Stanleiod, gw. Michael K. Jones, 'Sir William Stanley of Holt: politics and family allegiance in the late fifteenth century', *Cylchg HC xiv* (1986-9), 15; ByCy<sup>2</sup> 96. Fodd bynnag, yn ôl CP, priododd Isabel de Lathom, chwaer Thomas, â John de Stanley. Drwy'r briodas hon y ceir y cysylltiad – etifeddodd Isabel ystadau ei nith wedi ei marwolaeth, gw. Barry Coward, *The Stanleys, Lords Stanley and Earls of Derby, 1385-1672: The origins, wealth and power of a landowning family* (Manchester,

1983), t. 3. Gw. hefyd ODNB lii, 226-7; Jones, ‘Sir William Stanley of Holt’, 3; Michael J. Bennett, ‘“Good lords” and “king-makers”: The Stanleys of Lathom in English Politics, 1385-1485’, *History Today*, 31:7 (July 1981), 12.

49 **bar** Gw. 4.18n am ystyron *bar*. Cynigir bod *bar* yn ffig. yma, ac fe’i deallir fel ‘amddiffynnydd’, gw. GPC 256. Gellir diystyru *bâr* (yn golygu ‘dicter’, ‘digofaint’, ‘angerdd’, ‘gofid’, ‘cwyn’; ‘awydd, chwant’, ‘barusrwydd’, gw. GPC<sup>2</sup> 577), oherwydd y darlleniad *barr* yn nwy o’r llsgrau. hynaf – llsgrau. *E a J*.

58 **Nudd** Nudd Hael. Arno, gw. 5.23n.

60 **Pedr** Yr Apostol Seimon Pedr. Fe’i hystyrir y blaenaf o’r deuddeg disgybl. Pan broffesodd Seimon fab Jona ei gred mai Iesu oedd Mab Duw, dywedodd Iesu wrtho: *Ac rwyf fi’n dweud wrthyt mai ti yw Pedr, ac ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys, ac ni chaff holl bwerau Hades y trechaf arni. Rhoddaf iti allweddau teyrnas nefoedd, a beth bynnag a waherddi ar y ddaear a waherddir yn y nefoedd, a beth bynnag a ganiatei ar y ddaear a ganiateir yn y nefoedd*, Math xvi.18-19. Dyma yw sail y gred fod Pedr yn geidwad allweddau’r Nef ac, felly, sail y Babaeth. Ymhellach ar Bedr, gw. CE xi, 744-52, d.g. *Peter, Saint*; ODCC<sup>3</sup> 1260-1.

9

Gwrthrych y cywydd hwn yw Wiliam Herbert o Golbrwg, ger y Fenni. Ef oedd mab hynaf ac etifedd Syr Rhisiart Herbert o Golbrwg – mab i Syr Wiliam ap Tomas o Raglan.<sup>228</sup>

Ei fam oedd Margred ferch Tomas ap Gruffudd o Ddinefwr.<sup>229</sup> Yr oedd, felly, yn perthyn i

---

<sup>228</sup> P. C. Bartrum: WG2 ‘Godwin’ 8 (B1); P. C. Bartrum: WG1 ‘Godwin’ 8.

<sup>229</sup> P. C. Bartrum: WG2 ‘Einion ap Llywarch’ 7 (A1).

ddau o deuluoedd mwyaf grymus de Cymru ar y pryd. Plentyn ifanc iawn oedd Wiliam pan etifeddodd Golbrwg – dienyddiwyd ei dad ym 1469 wedi brwydr Banbri. Gwnaed Wiliam yn farchog cyn 1499, am ei gyfraniad ym mrwydr Blackheath ym 1497 o bosibl<sup>230</sup> – ymddengys iddo ymuno â byddin ei ewythr, Syr Rhys ap Tomas, i drechu'r gwrthryfelwyr o Gernyw. Cynorthwyodd i drechu gwrthryfel Lambert Simnel ym 1487 ac i roi gwarchae ar dref Boulougne (neu Fwlen) yn Ffrainc ym 1492. Bu farw Wiliam oddeutu 1536-7, ac fe'i claddwyd yn Eglwys y Fenni.<sup>231</sup>

Ni sonnir am wraig na phlant iddo yn y cywydd. Priododd yn gyntaf â Siân ferch Syr Wiliam Gruffudd Hen o'r Penrhyn,<sup>232</sup> ac yna ag Emma ferch Thomas Champneys.<sup>233</sup> Gellir, felly, dybio i'r cywydd gael ei ganu cyn i Wiliam briodi.

Cymeriad amlycaf y teulu yng nghyfnod gwrthryfel Glyndŵr oedd Dafydd Gam (gw. 9.22n; 2.20n). Yr oedd yn deyrngar i frenin Lloegr ar y pryd, Harri IV, ac yn wrthwynebwr brwd i'r gwrthryfel. Ni lwyddodd Glyndŵr i ennill cefnogaeth yn rhannau o dde-ddwyrain Cymru o'i herwydd.<sup>234</sup> Ysgymunwyd y teulu gan eu cydwladwyr am eu gwrthwynebiad i Lyndŵr, ac awgryma Howell T. Evans mai'r rheswm dros fabwysiadu *Herbert* fel cyfenw oedd i geisio osgoi'r ddrwgdybiaeth a oedd gan y Saeson o'r Cymry wedi'r gwrthryfel.<sup>235</sup>

Syr Rhisiart Herbert ab Wiliam ap Tomas, sef tad Wiliam Herbert, oedd y cyntaf o'r Herbertiaid i ymgartrefu yng Ngholbrwg, ger y Fenni.<sup>236</sup> Yr oedd yn fab i Syr Wiliam ap

---

<sup>230</sup> W. R. B. Robinson, 'Knighted Welsh Landowners, 1485-1558: A provisional List', Cylchg HC xiii (1986-7), 295-6.

<sup>231</sup> Gw. CHerb ii, 206-7; GDEp tt. 116-19; a'r cyfeiriadau pellach yno.

<sup>232</sup> P. C. Bartrum: WG2 'Marchudd' 6 (B3).

<sup>233</sup> *Ibid.* 'Godwin' 8 (B1).

<sup>234</sup> Gw. Rees Davies, 'Brecon, Owain Glyn Dŵr and Dafydd Gam', *Brycheiniog*, xxxii (2000), 51-60; R. R. Davies, *The Revolt of Owain Glyn Dŵr* (Oxford, 1995), tt. 225-8, 302; WWR<sup>2</sup> 12.

<sup>235</sup> WWR<sup>2</sup> 46. Ymhellach ar fabwysiadu Herbert fel cyfenw, gw. 9.7n.

<sup>236</sup> Ymhellach ar Golbrwg, gw. Joseph Alfred Bradney, *A History of Monmouthshire: from the coming of the Normans into Wales down to the present time*, i.ii (London, 1906), tt. 185-6. Gw. hefyd CHerb ii, 116-17; CHerb i, xliii-xliv.



Tomas o Raglan, y Marchog Glas o Went, a Gwladus ferch Dafydd Gam.<sup>237</sup> Gwladus oedd ail wraig Syr Wiliam (ar ei briodas gyntaf, gw. 9.34n). Yr oedd Wiliam, yntau, yn ail ŵr i Wladus – ei gŵr cyntaf oedd Syr Rhosier Fychan o Frodorrdyn,<sup>238</sup> a laddwyd ynghyd â'i dad yng nghyfraith ym mrwydr Agincourt ym 1415. Disgynyddion o'r briodas honno oedd Fychaniaid Brodorrdyn, Hergest a Thretŵr.<sup>239</sup>

Syr Wiliam ap Tomas oedd sylfaenydd Herbertiaid Rhaglan.<sup>240</sup> Yr oedd yn ŵr blaenllaw iawn yng ngwleidyddiaeth de-ddwyrain Cymru yn ystod hanner cyntaf y bymthegfed ganrif, a bu'n dal nifer o swyddi yng Nghymru ac yn Lloegr yn ystod ei oes. Bu farw ym 1445 ac fe'i claddwyd ym mhriordy y Fenni.<sup>241</sup>

Dau fab enwocaf Wiliam oedd Wiliam<sup>242</sup> a Rhisiart Herbert.<sup>243</sup> Wiliam Herbert, Iarll Penfro (ganwyd c. 1423), a ddilynodd ei dad yn Rhaglan. Fe'i gwnaed yn farchog erbyn 1453. Yn ddiweddarach, derbyniodd lawer o anrhydeddau, megis ei urddo yn Farchog o Urdd y Gardys ym 1461 neu 1462, o ganlyniad i'w gefnogaeth i gangen Iorc o deulu brenhinol Lloegr (gw. isod).<sup>244</sup> Rhoddwyd swyddi iddo gan Edward IV, ac y mae'n amlwg fod y brenin yn dibynnu'n drwm arno i lywodraethu Cymru. Wiliam Herbert oedd Cymro mwyaf grymus

---

<sup>237</sup> P. C. Bartrum: WG1 'Godwin' 8, 'Bleddyn ap Maenyrch' 20.

<sup>238</sup> *Ibid.* 'Drymbenog' 2.

<sup>239</sup> Arnynt, gw. P. C. Bartrum: WG2 'Drymbenog' 2 (A1, B1, C1); ByCy 932-3, 936-7, 940-1; Gwyddoniadur 944-5, 945; nodyn cefndir cerdd 4. Ymhellach ar Wladus, gw. GLMorg 8.20n; GRhGE 9.56n; D. J. Bowen, 'Gwladus Gam a'r Beirdd', YB xxiv (1998), 60-93; gw. hefyd 2.23n, 27n.

<sup>240</sup> Gw. 9.34n.

<sup>241</sup> Gw. CHerb ii, 4-5, a'r ffynonellau pellach yno; Ralph A. Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages: The Structure and Personnel of Government: i. South Wales, 1277-1535* (Cardiff, 1972), tt. 147-8; CLC<sup>2</sup> 766.

<sup>242</sup> P. C. Bartrum: WG2 'Godwin' 8 (A1).

<sup>243</sup> *Ibid.* 'Godwin' 8 (B1).

<sup>244</sup> Gw. 4.21n.

ei ddydd. Dienyddiwyd ef ym 1469 wedi brwydr Banbri, ac fe'i claddwyd yn Abaty Tyndyrn.<sup>245</sup>

Yr oedd brawd Wiliam – Rhisiart Herbert, Colbrwg – yn farchog o Urdd y Badd. Daliai ef nifer o swyddi yn ne Cymru hefyd. Yr oedd yntau yn bresennol ym Manbri, a cheir tystiolaeth iddo ymladd yn arbennig o ddewr. Fodd bynnag, fe'i dienyddiwyd fel ei frawd wedi'r frwydr, ac fe'i claddwyd ym mhriordy y Fenni.<sup>246</sup>

Bu'r Herbertiaid yn amlwg iawn yn ystod Rhyfeloedd y Rhosynnau. Yr oedd gan Syr Wiliam ap Tomas gysylltiadau â'r ddwy gangen o deulu brenhinol Lloegr – bu'n dal swyddi yn Nugiaeth Lancastr yn ne-ddwyrain Cymru, ac ef oedd prif stiward ystadau Iorc yng Nghymru. Bu hefyd yn aelod o gyngor Dug Iorc, ond yr oedd y Lancastriaid yn parhau i ymddiried ynddo. Ar ei feddfaen, fe'i darlunnir yn gwisgo cadwyn SS y Lancastriaid.<sup>247</sup>

Yr oedd meibion Syr Wiliam ap Tomas, fodd bynnag, yn gefnogol i achos cangen Iorc. Bu Wiliam a Rhisiart Herbert yn ymladd dros yr Iorciaid ym mrwydr Mortimer's Cross ym 1461. Chwaraeodd Wiliam ran allweddol yn y fuddugoliaeth. Gwobrwywyd ef yn helaeth gan Edward IV, y brenin Iorcaidd, am ei wasanaeth. Cydweithiodd Rhisiart Herbert gyda'i frawd i geisio dileu'r gwrthwynebiad Lancastriaidd yng Nghymru, ac fe'i gwobrwywyd yntau yn hael hefyd.<sup>248</sup>

Ym 1461, gorchfygwyd Castell Penfro gan yr Iorciaid, a chipiwyd Harri Tudur – nad oedd ond pedair oed – gan luoedd Wiliam Herbert. Daeth Harri dan ofal gwraig Wiliam

---

<sup>245</sup> CHerb ii, 35-7; ByCy 333; GHS tt. 145-6 (nodyn cefndir cerdd 4), 148-9 (nodyn cefndir cerdd 5), 153-4 (nodyn cefndir cerdd 7); CHerb i, xxi-xxxviii; Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages*, tt. 155-6, 186, 252, 287, 399.

<sup>246</sup> CHerb ii, 115-16; CHerb i, xxxix-xlvi; Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages*, t. 156, 324, 328, 540.

<sup>247</sup> CHerb ii, 4, 6.33-60n; Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages*, t. 148; Glanmor Williams, *Recovery, Reorientation and Reformation: Wales c. 1415-1642* (Oxford, 1987), tt. 176-7.

<sup>248</sup> CHerb ii, 35-7, 115-16; WWR<sup>2</sup> (y cyfeiriadau d.g. *Herbert, Sir William (later Lord Herbert / earl of Pembroke)* a *Herbert, Sir Richard* yn y mynegai).

Herbert, Ann Devereux, ac felly y treuliodd ran o'i blentyndod yn Rhaglan. Gobeithiai Wiliam Herbert y byddai Harri, yn y pen draw, yn priodi ei ferch, Mawd.<sup>249</sup>

Yr oedd perthnasau Wiliam Herbert, Colbrwg, ar ochr ei fam, Margred, yn gefnogwyr i achos y Lancastriaid. Brawd Margred – Syr Rhys ap Tomas – oedd prif gynorthwywr Cymreig Harri Tudur wedi iddo ddod yn frenin. Bu'n allweddol yn ymgyrch Harri am y goron ym 1485, ac fe'i gwnaed yn farchog am ei wasanaeth ar faes Bosworth.<sup>250</sup>

Ymddengys i Wiliam Herbert, Colbrwg, dderbyn rhoddion gan y brenin Iorcaidd, Edward IV.<sup>251</sup> Yr oedd Wiliam yn ysgwier y corff i Richard III, ac fe'i gwobrwywyd gan Richard III am iddo gefnogi'r brenin yn ystod gwrthryfel Dug Buckingham ym 1483.<sup>252</sup> Er ei deyrngarwch i'r Iorciaid, bu Wiliam yn gefnogol iawn i Harri Tudur wedi iddo ddod yn frenin, fel y gwelir uchod.

Yr oedd yr Herbertiaid yn noddwyr beirdd enwog iawn. Canwyd nifer helaeth o gerddi iddynt dros gyfnod o dair cenhedlaeth. Yn ôl W. Gwyn Lewis, 'Gellir honni bod y canu i'r teulu arbennig hwn yn rhan o ganu beirdd yr uchelwyr ar ei orau, a bod i Raglan le anrhydeddus iawn yn y traddodiad barddol Cymraeg.'<sup>253</sup> Canodd pum bardd ar hugain i'r Herbertiaid. Guto'r Glyn oedd y bardd a ganodd fwyaf iddynt; ac, yn ogystal â chroesawu beirdd amlycaf y cyfnod i'w cartrefi, deuai beirdd nad oeddynt mor enwog atynt. Er mai cefnogwyr plaid Iorc oedd yr Herbertiaid, canwyd iddynt hefyd gan feirdd Lancastraid megis

---

<sup>249</sup> SP 69-72; Glanmor Williams, *Harri Tudur a Chymru: Henry Tudor and Wales* (Caerdydd, 1985), 18, 20.

<sup>250</sup> ByCy 790-1; SP 96-7, 110-37. Ymhellach arno, gw. Ralph A. Griffiths, *Sir Rhys ap Thomas and his Family: A Study in the Wars of the Roses and Early Tudor Politics* (Cardiff, 1993), *passim*.

<sup>251</sup> WWR<sup>2</sup> 115.

<sup>252</sup> CHerb ii, 206. Ymhellach ar gefnogaeth yr Herbertiaid i blaid Iorc, gw. D. H. Thomas, 'The Herberts of Raglan as supporters of the House of York in the Second Half of the Fifteenth Century' (M.A., Cymru [Caerdydd], 1967), *passim*; WWR<sup>2</sup> *passim*.

<sup>253</sup> W. Gwyn Lewis, 'Herbertiaid Rhaglan fel noddwyr beirdd yn y bymthegfed ganrif a dechrau'r unfed ganrif ar bymtheg', THSC, 1986, 60.

Lewys Glyn Cothi a Dafydd Llwyd o Fathafarn.<sup>254</sup> Yr oedd teulu Dinefwr yn deulu o noddwyr beirdd hefyd – ymhellach ar Syr Rhys ap Tomas, ewythr Wiliam Herbert, Colbrwg, fel noddwr beirdd, gw. y cyfeiriadau yn 2.43n. Canwyd deg cerdd i Wiliam Herbert, Colbrwg, ei hun.<sup>255</sup>

Ceid cysylltiad rhwng Wiliam Herbert a theulu'r Penrhyn, Sir Gaernarfon. Yr oedd y teulu hwn hefyd yn deulu o noddwyr beirdd, a chanodd Robin Ddu ddau gywydd i Wiliam Gruffudd Fychan o'r Penrhyn, gw. cerddi 7 ac 8. Gwraig gyntaf Wiliam Herbert oedd Siân ferch Syr Wiliam Gruffudd Hen o'r Penrhyn. Yr oedd yn wyres i Wiliam Gruffudd Fychan.<sup>256</sup>

Nodwedd gyffredin mewn cerddi i'r Herbertiaid oedd cyfeiriadau herodrol, ac y mae'n bosibl mai dyrchafu Wiliam Herbert, Rhaglan, yn Arglwydd Herbert ym 1461 fu'n gyfrifol am ennyn cymaint o ddiddordeb mewn herodraeth yng Nghymru.<sup>257</sup> Mewn cerddi i'w neiaint – Wiliam a Rhisiart Herbert, Colbrwg – cyfeirir at arfbeisiau eu tad a'u mam. 'Wrth ganu mawl Wiliam a Rhisiart, cydiodd y beirdd yn arfbeisiau'r ddau deulu, sef llewod a brain, gan eu plethu ynghyd yn eu delweddu.'<sup>258</sup> Ceid tri llew gwyn ar arfbais yr Herbertiaid,<sup>259</sup> a thair brân ar arfbais Tomas ap Gruffudd ap Nicolas, tad Margred.<sup>260</sup> Arddelai Tomas ap Gruffudd o

---

<sup>254</sup> Lewis, 'Herbertiaid Rhaglan fel noddwyr beirdd', 33-4. Nodir yma fod pedwar bardd ar hugain wedi canu i'r Herbertiaid. Wrth gynnwys Robin Ddu, felly, canodd pum bardd ar hugain i'r teulu.

<sup>255</sup> Am ymdriniaeth o'r canu i'r Herbertiaid rhwng hanner cyntaf y bymthegfed ganrif a hanner cyntaf yr unfed ganrif ar bymtheg, gw. *CHerb passim*. Ar y canu i Wiliam Herbert, Colbrwg, yn benodol, gw. *CHerb* i, lxiv-lxx; 204-28 (cerddi 53-61); *CHerb* ii, 206-36 (nodiadau cerddi 53-61). Nid yw'r traethawd yn cyfeirio at y cywydd hwn gan Robin Ddu. Gw. hefyd D. J. Bowen, 'Gwladus Gam a'r Beirdd', *YB* xxiv (1998), 60-93; Eirian E. Edwards, 'Noddwyr y Beirdd yn Siroedd Morgannwg a Mynwy' (M.A., Cymru [Aberystwyth], 1970), 180-214, 101-13 (ni chyfeirir at y cywydd hwn yma chwaith); *idem*, 'Cartrefi Noddwyr y Beirdd yn Siroedd Morgannwg a Mynwy', *Llên Cymru*, xiii (1974-81), 204-5, 199.

<sup>256</sup> Gw. P. C. Bartrum: WG2 'Marchudd' 6 (B3, B1).

<sup>257</sup> *CHerb* i, lxiv.

<sup>258</sup> *Ibid.*, lxiv. Ar gyfeiriadau herodrol mewn cerddi i Wiliam Herbert, Colbrwg, gw. DWH i (y cyfeiriadau d.g. *Herbert of Coldbrook, Sir William, son of Sir Richard* yn y mynegai).

<sup>259</sup> DWH ii, 225-36. Am arfbais Wiliam Herbert, Colbrwg, ei hun, gw. *ibid.* 228. Ymhellach ar y *llew* mewn barddoniaeth Gymraeg, gw. 2.23n.

<sup>260</sup> DWH ii, 542.

Ddinefwr arfbais Urien Rheged, a gallai, fel aelod o lwyth Einion ap Llywarch, olrhain ei ach iddo.<sup>261</sup>

Cynhwysir y cywydd hwn mewn un llsgr. yn unig, sef P 55. Hon yw'r llsgr. hynaf a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r golygiadau, ac y mae'r llawysgrifen yn aneglur mewn manau. Dyddir y llsgr. i c. 1500, ac ysgrifennwyd y cywydd hwn gan law anhysbys.<sup>262</sup> Gw. cerdd 10 am gywydd arall a ysgrifennwyd gan yr un llaw yn y llsgr. hon, ac a gynhwysir yno yn unig. Ceir yn y llsgr. hefyd gerddi gan Ddafydd Epynt yn llaw'r bardd ei hun. Cerddi ydynt i wrthrychau o dde-ddwyrain Cymru, neu sydd â chysylltiad â'r ardal, gan gynnwys yr Herbertiaid, y Fychaniaid a Rhys ap Tomas.<sup>263</sup>

- 5     **Wiliam**     Wiliam ap Rhisiart ab Wiliam neu Syr Wiliam Herbert o Golbrwg – gwrthrych y cywydd. Arno, gw. y nodyn cefndir.
- 7     **Herbart**     *Herbert* oedd y cyfenw a fabwysiadwyd gan feibion Syr Wiliam ap Tomas o Raglan a'u disgynyddion. Yr oeddynt yn ddisgynyddion i Herbert ap Godwin (byw 1207) o Gilleculum, gw. P. C. Bartrum: WG1 'Godwin' 8, 5, 2, 1. Am resymau posibl dros fabwysiadu'r cyfenw, gw. CHerb ii, 37-8, a'r cyfeiriadau pellach yno; y nodyn cefndir.
- 9     **nod**     Yr ystyr yn y gerdd hon (gw. hefyd 9.10, 27, 44) yw 'enwogrwydd, bri', 'enwog, nodedig', GPC 2587.
- 10    **nod**     Gw. 9.9n.
- 11    **llew mŵn gowls a lluman goch**     Gall mai cyfeiriad yw hwn at arfbais Dafydd Gam – ceid llew du gydag ewinedd a thafod coch arni. Dichon mai cyfeiriad at y tafod coch

---

<sup>261</sup> Gw. 9.19n isod. Ymhellach ar frair Urien a'r *frân* yn gyffredinol mewn barddoniaeth Gymraeg, gw. 2.43n.

<sup>262</sup> Gw. yr adran *Llawysgrifau*.

<sup>263</sup> GDEp cerddi 8, 9, 11, 12, 13, 16, 17, 19, 20, 22.

yw'r *mŵn gowls*, gw. yr Eirfa. Ceir enghraifft o'r arfbais hon, gyda choron ar ben y llew, ar gofgolofn Gwladus Gam mhriordy y Fenni. Gw. DWH ii, 104-5. Y mae'n bosibl y cysylltir Dafydd Gam â lluman goch.

- 15 **Godwin** Godwin, Iarll Cernyw (*ob.* 1199), P. C. Bartrum: WG1 'Godwin' 1. Yr oedd yn gyndad i'r Herbertiaid, a gallai olrhain ei ach i Facsen Wledig. Ymhellach ar Odwin a tharddiad y llinach, gw. P. C. Bartrum, 'Pedigrees of the Welsh Tribal Patriarchs', Cylchg LIGC xiii (1963-4), 124, 143; *idem*, 'Pedigrees of the Welsh Tribal Patriarchs', Cylchg LIGC xv (1967-8), 161; Francis Jones, 'An Approach to Welsh Genealogy', THSC, 1948, 426.
- 17 **brân a llew** Cyfeiriad yw hwn at arfbeisiau teuluoedd Herbert a Dinefwr, gw. y nodyn cefndir.
- 18 **Bychau swm er Esau oedd** Y mae'n debyg mai cyfeiriad sydd yma at Isaac yn bendithio ei fab ieuengaf, Jacob, yn hytrach na'r hynaf, Esau. Gan fod Esau yn ŵr blewog, twyllodd Jacob ei dad i feddwl mai ei frawd ydoedd drwy wisgo crwyn geifr am ei ddwylo a'i wegil. Dau fyn gafr, fodd bynnag, a ddefnyddiodd Jacob, nid bychod. Gw. Gen xxvii.1-45. Ymhellach ar hanes Esau a Jacob, gw. CE v, 527-8, d.g. *Esau*; CE viii, 261, d.g. *Jacob*.
- 19 **Urien** Urien Rheged ap Cynfarch Oer. Gallai mam Wiliam Herbert, Margred ferch Tomas ap Gruffudd, olrhain ei hach iddo. Honnai aelodau o lwyth Einion ap Llywarch eu bod yn ddisgynyddion i Urien, ond nid oes sicrwydd a oedd y ddisgynyddiaeth yn gywir ai peidio. Gw. 2.24n.
- 20 **Nudd** Nudd Hael. Arno, gw. 5.23n.

- Aberhodni** Ffurf ar *Aberhonddu* yw *Aberhodni*. Yr oedd Colbrwg tuag ugain milltir o Aberhonddu. Gw. Ifor Williams, *Enwau Lleoedd* (Lerpwl, 1945), t. 41; R. J. Thomas, *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru* (Caerdydd, 1938), i, tt. 149-54; GDEp 9.52n; CHerb 38.29-30n.
- 21 **Uthr** Uthr Bendragon ap Custennin Gorneu (byw 445), P. C. Bartrum: WG1 t. 25. Ef oedd tad y brenin Arthur a brawd Emrys Wledig, yn ôl *Historia Regum Britanniae* Sieffre o Fynwy. Uthr a olynodd Emrys ar orsedd Prydain. Syrthiodd mewn cariad ag Eigr, gwraig Gorlois, Iarll Cernyw (gw. 5.26n), a llwyddodd i'w dwyn oddi arno gyda chymorth hud Myrddin yn rhoi pryd a gwedd Gorlois ar Uthr. Dyna sut y cenedlwyd Arthur, gw. BD 136-40. Yr oedd y cymeriad Uthr yn bodoli yn y traddodiad Cymreig cyn cyfnod Sieffre. Ceir cyfeiriadau ato mewn cerddi; ac y mae hud Uthr yn un o *Teir Prif Hut Enys Prydein*, TYP<sup>3</sup> 61. Ymhellach arno, gw. WCD 636-7; TYP<sup>3</sup> 512-15, 101; CLC<sup>2</sup> 744. Ar Arthur, gw. 11.13n.
- 22 **Dafydd Gam** Hendaidd i Wiliam Herbert, Colbrwg. Yr oedd ei dad, Rhisiart Herbert, yn fab i Wladus ferch Dafydd Gam. Arno, gw. 2.20n; a'r nodyn cefndir.
- 24 **dau Syr Rhys** Yr oedd mam Wiliam, Margred ferch Tomas ap Gruffudd, yn chwaer i Syr Rhys ap Tomas, Dinefwr, P. C. Bartrum: WG2 'Einion ap Llywarch' 7 (A1) (arno, gw. y nodyn cefndir). Ond, fwy na thebyg, cyfeiria'r *dau Syr Rhys* at gyndadau iddi, sef Syr Rhys Ieuanc, a'i dad, Syr Rhys Hen ap Gruffudd ap Syr Hywel o Abermarlais. Mam Margred oedd Elsbeth ferch Syr Siôn Gruffudd ap Syr Tomas Gruffudd ap Syr Rhys Ieuanc. Gw. *ibid.*, 'Einion ap Llywarch' 7 (A1); P. C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 15. Gallent olrhain eu hachau i Ednyfed Fychan a'r tywysogion

Cymreig, P. C. Bartrum: WG1 ‘Marchudd’ 15, 14, 4; ByCy 790. Ar y ddau Rys, gw. Griffiths, *Sir Rhys ap Thomas and his Family*, t. 77 n. 134.

**Syr Siôn** Syr Siôn Gruffudd o Abermarlais – hendaid i Wiliam Herbert ar ochr ei fam, gw. *dau Syr Rhys*, uchod.

26 **yn ddyt** Dyma ddarlleniad y llsgr. Nid yw’n eglur beth yw’r ystyr yma.

27 **nod** Gw. 9.9n.

29 **tri Wiliam** Cyfeiriad at Wiliam Herbert ei hun; ei ewythr, Wiliam Herbert, Iarll Penfro; a’i daid, Syr Wiliam ap Tomas, Rhaglan, P. C. Bartrum: WG2 ‘Godwin’ 8 (B1, A1); P. C. Bartrum: WG1 ‘Godwin’ 8. Arnynt, gw. y nodyn cefndir.

30 **Gwent** Daeth y deyrnas hon yn ne-ddwyrain Cymru i fodolaeth wedi i’r Rhufeiniaid ymadael. Y mae ei henw yn tarddu o enw Caerwent. Bu’n rhan o deyrnas Morgannwg (5.43n) am gyfnodau. Yr oedd wedi’i rhannu’n ddau gantref – Uwch Coed ac Is Coed. Gw. Gwyddoniadur 405; *Dwywent* 5.53n; a hefyd *Teirgwent* 5.15n. Yr oedd Colbrwg a Rhaglan yng Ngwent, gw. y nodyn cefndir, a 9.34n.

**llwyn** Yr ystyr ffig. sydd yma, yn golygu ‘teulu, hiliogaeth, disgynyddion’, ‘nifer o bersonau, cwmni’, GPC 2244.

31 **bar** Gw. 4.18n am ystyron *bar*. Yr hyn a geir yma, fwy na thebyg, yw ‘eginyn’, yn ffig., GPC<sup>2</sup> 576.

33 **tair brân** Ceid tair brân Urien ar arfbais Wiliam Herbert, gw. DWH ii, 228; y nodyn cefndir.

34 **Glan Wysg** Ceir sawl enghraifft o’r enw hwn ym Mrycheiniog, gw. ArchifMR. Nid oedd Colbrwg yn bell o lannau’r Wysg.



**Rhaglan** Castell yng Ngwent, a phrif gartref yr Herbertiaid. Syr Wiliam ap Tomas oedd sylfaenydd y teulu yno. Ei wraig gyntaf oedd Elisabeth ferch Syr John Bluet o Raglan. Wedi ei marwolaeth, prynodd Wiliam yr ystad gan ei lysfab. Yn wreiddiol, maenordy Normanaidd oedd Rhaglan, ond fe'i trawsnewidwyd gan Wiliam yn gastell gwych yn null y 15g. yn y cyfnod rhwng y 1420au a'r 1440au. Gwnaeth ei fab, Wiliam Herbert, Iarll Penfro, ddatblygiadau pellach yno. Gw. CHerb 1.1n; GSCyf 16.6n. Ymhellach, gw. John Newman, Frances Lynch, William Manning and Stephen Hughes, *Gwent / Monmouthshire* (London, 2000), tt. 488-511; Horatia Durant, *Raglan Castle* (Pontypool, 1966), tt. 13-26, *et passim*; Arthur Clark, *Raglan Castle and the Civil War in Monmouthshire* (Chepstow, 1953), tt. 1-2; Joseph Alfred Bradney, *A History of Monmouthshire: from the coming of the Normans into Wales down to the present time*, ii.i (London, 1914), tt. 28-31; Anthony Emery, 'The development of Raglan castle and keeps in late mediaeval England', *Archaeological Journal*, cxxxii (1975), 151-86. Ymhellach ar deulu Rhaglan, gw. y nodyn cefndir.

35 **Syr Rhisiart Herbart** O Golbrwg, ger y Fenni, mab i Syr Wiliam ap Tomas, Rhaglan, a thad i Wiliam Herbert, y gwrthrych, P. C. Bartrum: WG2 'Godwin' 8 (B1). Arno, gw. y nodyn cefndir.

37 **Prydyn** '(Pobl) yr Alban, (gwlad y) Pictiaid', GPC 2919. Cyfeirir at Tomas Fychan o Hergest, fel y *mab o Brydyn* mewn cywydd gan Lawdden (GL1 20.13n); disgrifiodd Hywel Swrdwal ei frawd, Rhosier Fychan o Dretŵr, fel *Syr Garwy Prydyn* (GHS 2.18); a disgrifir y trydydd brawd, Watgyn Fychan o Frodorddyn, fel *Prydyn Beredur* gan Ieuan ap Hywel Swrdwal (GHS 26.12). Yn ôl R. Iestyn Daniel, y mae'n bosibl y bu'r brodyr yn ymladd dros y Goron yn yr Alban. Yr oedd y tri hyn yn hanner brodyr i

dad Wiliam Herbert, Colbrwg, sef Syr Rhisiart Herbert, gw. y nodyn cefndir. Dichon y bu Wiliam Herbert neu ei dad yn gwneud yr un fath. Gw. GLI 20.13n.

44 **nod** Gw. 9.9n.

45 **wreir** Dyma ddarlleniad y llsgr. Nid yw'n eglur beth yw'r ystyr yma.

46 **bar** Gw. 9.31n. Yr un yw'r ystyr yma.

10

Ni cheir rhaglith i'r cywydd hwn yn yr unig llsgr. a'i cynnwys, felly y mae'n anodd dweud yn union pwy yw'r gwrthrych. Siôn yw ei enw (10.4n, 8), ac ymddengys ei fod yn fab i Wilym Fychan (10.5n, 10). Ceir dau gymeriad posibl yn yr achau fel y'u ceir gan P. C. Bartrum, sef John ap Gwilym Fychan ap Gwilym, Bedwellte, Gwynllŵg, P. C. Bartrum: WG1 'Cydifor Fawr' 17; a John ap Gwilym Fychan ap Gwilym, Baeli Glas, sir Gaerfyrddin, P. C. Bartrum: WG1 'Einion ap Llywarch' 8, LD i, 227. Oherwydd y cyfeiriadau tuag at Drahaearn (10.18n, 26), Ynyr Gwent (10.24n), Brychan (10.40n) a Llŷr Marini (10.46n), ac oherwydd fod hon yn llsgr. o gerddi i wrthrychau o dde-ddwyrain Cymru,<sup>264</sup> gellir cymryd mai'r John ap Gwilym Fychan ap Gwilym cyntaf yw gwrthrych y cywydd hwn.

Yn ôl y rhif cenedlaeth a roddir i Siôn ap Gwilym Fychan yn yr achau, fe'i ganwyd c. 1400. Gan fod Robin Ddu yn canu yn ddiweddarach yn y bymthegfed ganrif, gellir tybio i'r cywydd gael ei ganu pan oedd y gwrthrych yn ŵr canol oed. Er hynny, nid oes cyfeiriad at wraig iddo yn y cywydd. Ni wyddys ei henw, ond gall fod yn ferch i Siencyn ap Llywelyn ap

---

<sup>264</sup> Gw. nodyn cefndir cerdd 9.

Gwilym o Flaenhonddan, Nedd.<sup>265</sup> Ni restrir plant iddynt yn yr achau. Un posibilrwydd yw mai priodi'n hen a wnaethant.

Ni cheir cofnod o gerdd arall i Siôn ap Gwilym Fychan ym Maldwyn. Fodd bynnag, yr oedd Siôn yn gefnder ar ochr ei fam i Siôn ap Rhosier o Lanfrynach, Brycheiniog, sef tad yng nghyfraith Owain ap Siancyn, gwrthrych cerdd 5.<sup>266</sup> Yn ogystal, yr oedd hendaidd Siôn ap Gwilym Fychan – Phylib ap Llywelyn ab Ifor o Sain Pŷr – yn frawd i Ifor Hael.<sup>267</sup> A chan fod Owain ap Siancyn yn ddisgynydd iddo, yr oedd Siôn yn berthynas pell iddo yntau hefyd.<sup>268</sup>

Ceir cyfeiriadau herodrol yn y cywydd hwn. Ymddengys fod Siôn ap Gwilym Fychan yn arddel arfbais rhyw Drahaearn, a oedd â llew arni, gw. 10.18-19n. Nid yw'n eglur pwy oedd y Trahaearn hwn. Y mae'n bosibl fod *carw* (10.15n, 42) a *neidrfa* (10.16n) yn gyfeiriadau herodrol hefyd.

Mewn un llsgr. yn unig y ceir y cywydd, sef P 55. Ymhellach arni, gw. nodyn cefndir cerdd 9, sydd yn gywydd arall a gynhwysir yn y llsgr. hon yn unig, ac sydd wedi ei gofnodi yn yr un llaw. Gw. hefyd yr adran *Llawysgrifau*.

1 **Y bar gwinau brig wnias** Gw. 4.18n am ystyron *bar*. Gall mai 'pen', 'mwng o wallt' gwinau yw'r ystyr, GPC<sup>2</sup> 577; a bod y *brig wnias* yn cadarnhau mai gŵr pengoch yw'r gwrthrych. Posibilrwydd arall yw fod *bar* yn ffig. yma, ac y'i deallir fel 'amddiffynnydd', gw. GPC 256. Nid yw'n debygol iawn mai cyfeiriad at stribed lorweddol neu fend ar arfbais sydd yma, gw. GPC<sup>2</sup> 576.

---

<sup>265</sup> P. C. Bartrum: WG1 'Iestyn' 23.

<sup>266</sup> Yr oedd Gwenllian ferch Siôn ab Ieuan, mam Siôn ap Gwilym Fychan, yn chwaer i Rosier, gw. *ibid.* 'Cydifor Fawr' 17, 'Trahaearn Fawr' 10; P. C. Bartrum: WG2 'Trahaearn Fawr' 10 (A1). Ar Siôn ap Rhosier a'r canu iddo, gw. 5.28n.

<sup>267</sup> Gw. P. C. Bartrum: WG1 'Cydifor Fawr' 17, 16. Ar Ifor Hael, gw. 5.8n.

<sup>268</sup> Gw. 5.8n am y ddisgynyddiaeth.

- 3 **gwreinc** Gw. darlleniadau'r llsgr. Cynigir mai *gwreinc* sydd yma, sef ffurf l. *gwranc*, yn golygu 'gŵr ifanc o fonedd, gwas marchog, macwy, cludydd arfau, ysgwïer', 'gŵr rhydd', GPC 1699, 1701. Y mae *gwreinc* yn ddeusill yma.
- 4 **Siôn** Siôn ap Gwilym Fychan o Fedwellte, Gwynllŵg – gwrthrych y cywydd. Arno, gw. y nodyn cefndir.
- 5 **Gwilym** Gwilym Fychan ap Gwilym ap Phylib, tad y gwrthrych, gw. y nodyn cefndir.
- 7 **cwarelau** Gw. 4.10n am ystyron posibl *cwarel*. Cynigir mai'r ystyr yma ac yn 10.42 yw 'saeth' – yn dros. o bosibl. Gw. GPC 633.
- 8 **Seth** Seth oedd trydydd mab Adda ac Efa, a anwyd iddynt wedi i Cain ladd Abel, ac ohono y disgyn yr hil ddynol. gw. Gen iv.25-6, v.3-8; 1 Cr i.1; Luc iii.38. Cyfeirir at Seth mewn barddoniaeth i gyfleu llinach hir ac anrhydeddus, GLMorg 74.1n. Am gyfeiriadau pellach ato, gw. EWGT 213.
- 12 **tybrwyd** Dyma ddarlleniad y llsgr. Nid yw'n eglur beth yw'r gair hwn, ond gellir gwneud rhai awgrymiadau. Gall fod yma enghraifft o *dybreuwyd* wedi'i gywasgu, sef ffurf amhrs. grff. myn. y ba. *dybreuo* neu *dyfreuo*, yn golygu 'malu, briwio, dryllio', GPC 1114, 1126. Posibilrwydd arall yw *dobrwyd* – ffurf amhrs. grff. myn. y ba. *dobri*, *dobrio*, neu *dobrwyo*, yn golygu 'gwobrwyo, hudo neu ddallu â gwobr, llwgrwobrwyo, breibio', GPC 1068. Fodd bynnag, ceir yr enghraifft gynharaf y gwyddys amdani o'r ba. hwn ym 1658, felly y mae'n annhebygol mai hyn sydd yma. Pe bai yn un o'r ddau hyn, byddai'n rhaid newid *gwart* ar ddechrau'r ll. i *guard* oherwydd y gynghanedd.

15 **Locrinus** Yn ôl yr *Historia Brittonum*, a briodolwyd i Nennius, a *Historia Regum Britanniae* Sieffre o Fynwy, y cymeriad chwedlonol Brutus oedd cyndad y Brythoniaid. Yr oedd ganddo dri mab – Locrinus, Camber ac Albanactus – ac wedi marwolaeth eu tad, rhannwyd Prydain rhwng y tri. Locrinus oedd y mab a gafodd y rhan a enwyd ar ei ôl, sef Lloegr, BD 21; WCD 426. Ymhellach ar Frutus, gw. 7.24n; 3.36n.

**carw** Gall hwn fod yn gyfeiriad herodrol – ceid carw ar arfbeisiau Caradog Freichfras, a Maenyrch, gw. DWH ii, 64, 360. Gan fod Siôn ap Gwilym Fychan yn ddisgynnydd i Rys Goch o Ystrad Yw, gallai olrhain ei ach i'r ddau ohonynt, gw. 10.46n. Y mae'n bosibl hefyd fod *carw* yn ffig. yma 'am arglwydd, pendefig, noddwr, arweinydd doeth', GPC 434. Ymhellach ar y defnydd o *carw* mewn cerddi mawl, gw. 2.27n, 10.20n.

16 **neidrfa** Darlleniad y llsgr. yw *neydrva*. Nid yw'n eglur beth sydd yma. Nid lle i gadw neidr neu nadroedd ydyw gan na ddefnyddid *-fa* ar ddiwedd gair gyda'r ystyr 'lle' hyd 1547, GPC 1266. Un posibilrwydd yw fod y *fa* ar ddiwedd y gair yn gamgymeriad copïo – gan mai *fawr* yw'r gair nesaf – ac mai *neidr* sydd yma. Gall fod yn gyfeiriad herodrol – arddelai Moreiddig Warwyn ap Drymbenog ap Maenyrch nadroedd ar ei arfbais, DWH ii, 386-7. Gallai Siôn ap Gwilym Fychan olrhain ei ach iddo drwy ei fam, Gwenllian ferch Siôn ap Ieuan ap Phylib. Mam Phylib oedd Elen ferch Phylib Sais ap Madog Gam, a oedd yn ddisgynnydd i Foreiddig Warwyn, gw. P. C. Bartrum: WG1 'Cydifor Fawr' 17, 'Trahaearn Fawr' 10, 8, 'Drymbenog' 1.

18-19 **llew Trahaearn ... / Rhagor wyd yn dwyn rhyw grest** Crest, yn yr ystyr herodrol sydd yma, sef 'llun neu ddyfais uwchben helm ar bais arfau', GPC 592. Y mae'n

debyg fod Siôn ap Gwilym Fychan yn arddel arfbais rhyw Drahaearn. Gall mai at Drahaearn Fawr y cyfeirir, gan fod mam Siôn ap Gwilym Fychan, Gwenllian, yn aelod o'i lwyth, gw. P. C. Bartrum: WG1 'Cydifor Fawr' 17, 'Trahaearn Fawr' 10. Fodd bynnag, arddelai Trahaearn Fawr arfbais â thair ystlum arni (ac arfbais â phen gafr arni hefyd, o bosibl), DWH ii, 550-1. Ceir sawl Trahaearn a oedd yn arddel arfbais â llew arni, gw. DWH ii, 549-52, ond ni ellir gwneud y cysylltiad rhyngddynt â Siôn. Fodd bynnag, ceir disgrifiad yn llsgr. NLW 1504B, 302, o arfbais Trahaearn Brenin Pelen Aur, tad Tegau Eurfron, sef gwraig Caradog Freichfras. Yn ôl y llsgr., ceid tri llew ar ei arfbais. Ymddengys mai camgymeriad yw hyn, ac mai disgrifiad o arfbais Trahaearn ab Iorwerth sydd yma mewn gwirionedd; ond tybed a yw'n bosibl y ceid traddodiad cynharach fod Trahaearn Brenin Pelen Aur yn arddel arfbais â llew arni? Gw. DWH ii, 549-50. Gan y gallai Siôn olrhain ei ach i Garadog Freichfras (gw. 10.46n), byddai hefyd yn ddisgynnydd i Drahaearn. Dylid nodi yma fod llew ar arfbais Caradog Freichfras ei hun, ei ddisgynnydd, Maenyrch, a'i ddisgynnyddion yntau hefyd, DWH ii, 63-4, 360. Gall mai cyfeiriad at ryw Drahaearn arall a oedd yn perthyn i Siôn, a oedd yn arddel arfbais rhywun arall yw hwn. Posibilrwydd arall yw nad cyfeiriad herodrol yw'r *llew* yma, a'i fod yn ffig. am 'person nerthol glew, penderfynol', 'ymhladdwr gwrol a ffyrnig, gŵr o fonedd, un urddasol', GPC 2168-9. Ymhellach ar y defnydd o *llew* mewn cerddi mawl, gw. 2.23n.

- 20 **rhygarw** Llsgr. *Ryeirwr*. Diwygiwyd ar sail y gynghanedd. Defnyddid *rhygarw* yn ffig. am 'gŵr o fonedd, un urddasol, arwr gwrol', GPC 3136, yn fynych yn y canu mawl. Gw. GIG IV.47n, XV.130; GLGC 10.105, 116.56, 120.42, 177.19; GLMorg 18.28, 62.34, 73.66. Gw. hefyd 10.15n.

- 23 **ytew** Cynigir mai cyfuniad o *ŷd* + *tew* sydd yma. Ni cheir enghraifft o'r gair hwn yn GPC.
- 24 **Ynyr** Ynyr Gwent (byw *c.* 450 neu *c.* 540), sant ac un o reolwyr cynnar Gwent. WCD 643; LBS iv, 363-6; TYP<sup>3</sup> 404; DWH ii, 620. Gallai Siôn olrhain ei ach iddo – ei nain ar ochr ei dad oedd Gwenllian, a oedd yn ddisgynnydd i Oronwy Fychan ap Goronwy ap Rhun ap Seisyll, P. C. Bartrum: WG1 'Rhys Goch o Ystrad Yw' 5, 4. Mam Seisyll oedd Gwladus ferch Seisyll ap Dyfnwal o lwyth Ynyr Gwent, P. C. Bartrum: WG1 'Rhys Goch o Ystrad Yw' 3, 'Ynyr Gwent' 3.
- 26 **Troea** Caer Droea. Gw. 10.15n. Yr oedd gwreiddiau Brutus yng Nghaer Droea – ffodd Aeneas Ysgwyddwyn, a oedd yn daid neu'n hendaidd i Frutus, o Gaer Droea wedi'r distryw. Gw. ymhellach 5.3n; 3.36n.
- 28 **plant Alis** Y Saeson. Ceir chwedl yn yr *Historia Brittonum*, a briodolid i Nennius, a *Historia Regum Britanniae* Sieffre o Fynwy am ddyfodiad y Saeson i Ynys Prydain. Daeth dau Sais, Hengist a Hors, i'r ynys a gwneud cytundeb â Gwrtheyrn a'i gefnogi yn erbyn ei elynion. Yr oedd gan Hengist ferch hardd o'r enw Rhonwen. Mewn gwledd, pan oedd wedi meddwi, gofynnodd Gwrtheyrn i Hengist a gâi briodi ei ferch gan addo iddo unrhyw beth y dymunai. Cytunodd yntau, gan ofyn am swydd Gaint. Dyna sut yr ymsefydlodd y Saeson ym Mhrydain. Gw. BD 91-5; GMRh 28.3n. Gelwir Rhonwen weithiau yn Alis Rhonwen ac, felly, gelwir y Saeson yn *blant Rhonwen* neu'n *blant Alis*. Gw. GPC 2818; GDLI 3.41n. Gw. ymhellach GLMorg 66.88n.
- 29 **Saind Edward** Edward Gyffeswr (*c.* 1003-1066), brenin Lloegr rhwng 1042 a 1066. Ef a sefydlodd Abaty Westminster, ac yno y'i claddwyd. Fe'i canoneiddiwyd ym 1161. Gw. CE v, 322-3, d.g. *Edward the Confessor*; ODCC<sup>3</sup> 532.

35 **i ar** Ardd. cyfansawdd, yn golygu ‘*from (upon), (from) off, (out) of*’; ‘*on, upon, above*’, ‘*at*’; ‘*besides, in addition to, together with*’, GPC 1993; D. Simon Evans, *A Grammar of Middle Welsh* (Dublin, 1964), tt. 199-200. Gw. hefyd GRhGE 1.4n.

40 **Brychan** Brychan ab Anlach (geni c. 400), P. C. Bartrum: WG1 t. 27. Honnir mai y sant hwn oedd sylfaenydd teyrnas Brycheiniog, a enwyd ar ei ôl. Fe’i ganed yn Iwerddon – ei dad oedd Anlach ap Coronac ab Eurbre Wyddel, a’i fam oedd Marchell ferch Tewdrig, brenin Garthmadrn yn ne-ddwyrain Cymru. Pan ddaeth Brychan yn frenin Garthmadrn, newidiwyd yr enw i Frycheiniog. Yr oedd ganddo lawer o blant, a daeth nifer ohonynt yn seintiau. Gw. WCD 64-7; LBS i, 303-21; TYP<sup>3</sup> 294-5; ByCy 50-1; Gwyddoniadur 96-7. Honnai pob un o frenhinoedd diweddarach Brycheiniog eu bod yn ddisgynyddion iddo. Gw. hefyd 2.44n; 4.17n; GSdT 13.6-7n; GLMorg 14.6n; GDEp 3.24n; a’r cyfeiriadau pellach yno.

46 **llye** Dyma ddarlleniad y llsg. Gall mai *llu* sydd yma, neu *lle*. Nid yw’r eglur a fu ymgais i ddileu’r *ll* neu’r *y* ai peidio.

**meibion Llŷr** Llŷr Marini, tad Caradog Freichfras, ac yr oedd yn fab i Einion Yrth ap Cunedda, o bosibl, gw. P. C. Bartrum: WG1 tt. 3, 9, 7. Ceir cysylltiad rhyngddo â’r tylwyth teg. Arno, gw. WCD 422; TYP<sup>3</sup> 421, 179; y cyfeiriadau yn EWGT 200. Gallai llawer o deuluoedd Brycheiniog olrhain eu hach iddo, gan ei fod yn gyndad i Faenyrch a’i feibion – Bleddyn, Drymbenog a Rhys Goch o Ystrad Yw. Yr oedd nain Siôn ap Gwilym Fychan ar ochr ei dad – Gwenllian, disgynnydd i Oronwy Fychan ap Goronwy ap Rhun – yn aelod o lwyth Rhys Goch o Ystrad Yw, gw. P. C. Bartrum: WG1 ‘Rhys Goch o Ystrad Yw’ 5. Am y llinach rhwng Llŷr Marini a Rhys Goch, gw. P. C. Bartrum, ‘Pedigrees of the Welsh Tribal Patriarchs’, Cylchg LIGC xiii (1963-4),



105-6; P. C. Bartrum: WG1 'Maenyrch' 1, 'Rhys Goch o Ystrad Yw' 1. *Meibion yn yr ystyr 'disgynyddion' a geir yma, gw. yr Eirfa; GPC 2293.*

49 **i'w yly'** Cynigir mai *gylyf* sydd yma, yn golygu 'blaen main, erfyn blaenfain, cylllell', GPC 1795, 1794.

## 11

Y mae'r cywydd hwn yn un o gywyddau enwocaf Robin Ddu – ceir d ros ddeng copi ar hugain ohono yn y llsgrau., a cheir copi wedi'i argraffu yn CLIG i, 219-20. Cywydd marwnad yw hwn i Owain Tudur – tad Edmwnd a Siasbar Tudur, a thaid i Harri Tudur.<sup>269</sup> Dienyddiwyd Owain wedi brwydr Mortimer's Cross ym 1461. Cywydd brud, yn anad dim, yw hwn, ond fe'i cynhwysir yn y casgliad am ei fod hefyd yn farwnad i Owain Tudur. Dyma'r rhaglith i'r cywydd yn un o'r llsgrau. hynaf sydd yn ei gynnwys, sef Bl.e.6, 63, a ddyddir i 1604: *kywydd marwnad Owain ap Meredydd ap Tvdvr ap Gronw ap Tvdvr ap Gronw ap Ednyfed fychan o von: yr hwn a dored i benn: a brvd y dele y brenin harri seithfed yn frenin.*<sup>270</sup>

Yr oedd Owain ap Maredudd ap Tudur, neu Owain Tudur, yn aelod o un o deuluoedd amlycaf Môn yn ystod y cyfnod a'r canrifoedd blaenorol – teulu a adwaenir erbyn hyn fel 'Tuduriaid Penmynydd'. Sylfaenydd y teulu oedd Ednyfed Fychan (*ob.* 1246), distain Llywelyn Fawr.<sup>271</sup> Etifeddwyd y swydd hon gan ddau o feibion Ednyfed – Goronwy a

---

<sup>269</sup> Gwelir yr achau yn P. C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 13.

<sup>270</sup> Gw. yr adran *Llawysgrifau* am ddyddiadau.

<sup>271</sup> P. C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 4. Ymhellach ar Ednyfed Fychan, gw. 7.19n a'r cyfeiriadau pellach yno.

Thudur.<sup>272</sup> Goronwy oedd cyndad y Tuduriaid. Bu ei ddisgynyddion ef yn dal swyddi lleol am y rhan fwyaf o'r 14g., ac, yn ôl pob tebyg, hwy oedd y bobl mwyaf dylanwadol ym Môn yn ystod y 14g.<sup>273</sup>

Yr oedd y Tuduriaid yn gefnogol i wrthryfel Owain Glyndŵr. Ceid cysylltiad teuluol rhyngddynt – mam Owain Glyndŵr oedd Elen ferch Tomas ap Llywelyn.<sup>274</sup> Yr oedd hi'n chwaer neu'n hanner chwaer i Fargred, sef ail wraig Tudur ap Goronwy ap Tudur, a nain i Owain Tudur ar ochr ei dad.<sup>275</sup> Bu meibion Tudur o'i briodas gyntaf â Mallt ferch Madog ab Iorwerth yn flaenllaw yn y gwrthryfel; ac ar 1 Ebrill 1401, cipiwyd Castell Conwy gan Rys a Gwilym ap Tudur.<sup>276</sup> Ar y pryd, yr oedd Castell Conwy yn un o'r rhai cryfaf yng Nghymru. Yr oedd yn Ddydd Gwener y Groglith y diwrnod hwnnw, a'r gwarchodlu mewn gwasanaeth yn yr eglwys. Yr oedd hon yn weithred o bwys gwleidyddol mawr – 'It is only after that particular exploit that the Glyn Dŵr revolt really begins to rumble through the land.'<sup>277</sup>

Dioddefodd y teulu'n fawr o ganlyniad i fethiant y gwrthryfel. Collodd meibion Tudur ap Goronwy y rhan fwyaf o'u tiroedd. Meddiannwyd y rhan fwyaf ohonynt gan berthynas

---

<sup>272</sup> David Stephenson, *The Governance of Gwynedd* (Cardiff, 1984), tt. 17-19, 213, 218-21; Glyn Roberts, 'Teulu Penmynydd', *Aspects of Welsh History: selected papers of the late Glyn Roberts* (Cardiff, 1969), t. 244.

<sup>273</sup> A. D. Carr, *Medieval Anglesey* (ail arg., Llangefni, 2011), tt. 163-4. Ymhellach ar ddisgynyddion Ednyfed Fychan cyn cyfnod gwrthryfel Glyndŵr, gw. Roberts, 'Teulu Penmynydd', tt. 244-53; *idem*, 'Wyrion Eden', *Aspects of Welsh History: selected papers of the late Glyn Roberts* (Cardiff, 1969), tt. 179-203; ByCy 167-8; SP 38-44.

<sup>274</sup> P. C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Cynfyn' 5, 'Rhys ap Tewdwr' 7.

<sup>275</sup> *Ibid.*, 'Marchudd' 13, 'Rhys ap Tewdwr' 7.

<sup>276</sup> *Ibid.*, 'Marchudd' 13, 'Rhirid Flaidd' 3. Ceir ychydig o ddryswch ynglŷn â perthynas Owain Glyndŵr â'r brodyr – dywed nifer o ffynonellau eu bod yn gefndryd iddo drwy eu mam, Margred ferch Tomas, gw. e.e. R. R. Davies, *The Revolt of Owain Glyn Dŵr* (Oxford, 1995), tt. 52, 209; Roberts, 'Teulu Penmynydd', 254. Y mae'r achau fel y'u ceir gan P. C. Bartrum, fodd bynnag, yn nodi mai meibion i Fallt ferch Madog oedd Rhys a Gwilym, ac mai mam Maredudd, tad Owain Tudur, oedd Margred, gw. P. C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 13.

<sup>277</sup> Keith Williams-Jones, 'The taking of Conwy castle, 1401', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 39 (1978), 22. Ymhellach ar y digwyddiad hwn, gw. *ibid.* 7-43; ac ymhellach ar gysylltiad y Tuduriaid â'r gwrthryfel, gw. Davies, *The Revolt of Owain Glyn Dŵr*, tt. 52, 103-4, 199, a'r cyfeiriadau dan eu henwau yn y mynegai; SP 44.

iddynt, sef Gwilym ap Gruffudd ap Gwilym o'r Penrhyn.<sup>278</sup> Yr oedd hwn yn 'adfeddiant a arweiniodd at ddinodedd teulu Penmynydd.'<sup>279</sup>

Erbyn diwedd gwrthryfel Glyndŵr, yr unig un o feibion Tudur ap Goronwy a oedd ag etifedd yn fyw oedd Maredudd. Ni wyddys llawer am hanes cynnar yr etifedd hwn, sef Owain Tudur. Pan oedd yn ŵr ifanc, daeth yn was yng ngosgorddllu y brenin Harri V. Wedi i'r brenin farw ym 1422, datblygodd perthynas rhwng Owain a'i weddw, Catherine de Valois. Cafodd y ddau nifer o blant,<sup>280</sup> ac y mae'n debyg fod y ddau wedi priodi'n gyfrinachol. Pan fu Catherine farw ym 1437, carcharwyd Owain am fynd yn groes i statud a oedd yn gwahardd i frenhines-waddolog briodi heb ganiatâd swyddogol. Canodd Ieuan Gethin ab Ieuan ap Lleision gywydd brud am garchariad Owain – cywydd a briodolir i Robin Ddu mewn rhai llsgrau.<sup>281</sup>

Dau o feibion Owain a Catherine oedd Edmwnd a Siasbar Tudur. Daeth y ddau yn gymeriadau pwysig yn hanes Rhyfeloedd y Rhosynnau. Enillodd Owain a'i feibion ffafr gan y brenin Harri VI – a oedd yn hanner brawd i Edmwnd a Siasbar. Gwnaed Edmwnd yn Iarll Richmond a Siaspar yn Iarll Penfro ym 1453. Yr oedd y ddau'n gefnogwyr i achos y Lancastriaid yn Rhyfeloedd y Rhosynnau. Priododd Edmwnd â Margaret Beaufort – merch ac aeres John Beaufort, dug Somerset.<sup>282</sup> Yr oedd hi'n orwyres i John o Gaunt – un o feibion Edward III – ac yr oedd ganddi, felly, hawl i goron Lloegr drwy'r gangen Lancastraid. Bu farw Edmwnd ym 1456, a'i wraig dair ar ddeg oed yn feichiog. Ganed Harri Tudur yng

---

<sup>278</sup> Gw. isod am y berthynas.

<sup>279</sup> John Davies, *Hanes Cymru* (ail arg., London, 2007), t. 185. Gw. hefyd Davies, *The Revolt of Owain Glyn Dŵr*, tt. 310-11; Roberts, 'Wyrion Eden', tt. 203-4; *idem*, 'Teulu Penmynydd', 254-5; Carr, *Medieval Anglesey*, t. 165; SP 44-5; am ganlyniadau'r gwrthryfel i'r teulu. Ymhellach ar Wilym ap Gruffudd ap Gwilym o'r Penrhyn yn elwa o'r gwrthryfel, gw. nodyn cefndir cerdd 7.

<sup>280</sup> Gw. P. C. Bartrum: WG2 'Marchudd' 13 (A).

<sup>281</sup> Cywydd yn dechrau â'r ll. *Gwyddom dewi a goddef*, gw. *Cerddi annilys yn yr adran Cerddi nas golygwyd yn y Rhagymadrodd*.

<sup>282</sup> P. C. Bartrum: WG2 'St. John' 1.

Nghastell Penfro ym 1457. Treuliodd y rhan fwyaf o'i blentyndod yng ngofal ei ewythr, Siasbar.

Yr oedd Owain a Siasbar Tudur yn bresennol ym mrwydr Mortimer's Cross ym 1461, pan gollodd y Lancastriaid yn erbyn yr Iorciaid. Llwyddodd Siasbar i ddianc wedi'r frwydr, ond daliwyd Owain, a'i ddiennyddio yn Henffordd. Syr Rhosier Fychan, Tretŵr, a'i harweiniodd i gael i ddiennyddio.<sup>283</sup>

Pe cymerir i'r farwnad gael ei chanu'n weddol fuan wedi marwolaeth Owain Tudur, ac os mai Harri Tudur yw'r achubiwr y proffwydir amdano, fel y dywed y rhaglith yn llsgr. *I*, y mae'n amlwg yr ystyrir Harri yn Fab Darogan pan oedd yn fachgen ifanc iawn. Yn wir, yn ôl y chwedl a geir yng Nghronicl Elis Gruffydd, yr oedd Robin Ddu wedi proffwydo y byddai'n dwyn 'coron teyrnas Lloegr am ei ben' cyn ei eni hyd yn oed.<sup>284</sup> Yn ystod blynyddoedd olaf Rhyfeloedd y Rhosynnau, daeth Harri yn brif ymgeisydd cangen Lancastr o'r teulu brenhinol am goron Lloegr. Gwireddodd broffwydoliaeth y beirdd ym 1485 pan ddaeth yn frenin wedi trechu Richard III ym mrwydr Bosworth.<sup>285</sup> Fodd bynnag, ceir awgrym yn y cywydd mai Siasbar yw'r Mab Darogan yn yr achos hwn, gw. 11.50n, 53n.<sup>286</sup>

Yr oedd y Tuduriaid yn noddwyr beirdd enwog. Bu'r beirdd yn canu'n rheolaidd i aelodau o'r teulu o gyfnod Ednyfed Fychan ymlaen. Canodd Elidir Sais farwnad i Ednyfed Fychan, a cheir marwnadau gan Fleddyn Fardd a'r Prydydd Bychan i Oronwy ab Ednyfed. Yr oedd y teulu ymysg noddwyr pwysicaf y beirdd yn ystod y 14g., ac y mae'n debyg fod

---

<sup>283</sup> Gw. WWR<sup>2</sup> 41-6, 49-53, 76-7; ByCy 652, 926-7, 927, 316-17, d.g. *Owain Tudur, Tudur, Edmwnd, Tudur, Siaspar (Jasper), Harri (Henry) VII* yn eu trefn; SP 45-9; Glanmor Williams, *Harri Tudur a Chymru: Henry Tudor and Wales* (Caerdydd, 1985), tt. 12-19; Davies, *Hanes Cymru*, t. 190; Roberts, 'Teulu Penmynydd', tt. 252-3, 240-1; *idem*, 'Wyrion Eden', tt. 199, 211-12; Carr, *Medieval Anglesey*, t. 165. Gw. nodyn cefndir cerdd 4 am Syr Rhosier Fychan, Tretŵr. Gw. hefyd WWR<sup>2</sup>, y cyfeiriadau d.g. *Tudor, Owen; Tudor, Edmund, earl of Richmond; Tudor, Jasper, earl of Pembroke; Henry VII (Henry Tudor, earl of Richmond)* yn y mynegai.

<sup>284</sup> Gw. yr adran *Llên gwerin a chyfeiriadau llenyddol yn y Rhagymadrodd*.

<sup>285</sup> Gw. 7.48n, a'r cyfeiriadau pellach yno.

<sup>286</sup> Gw. hefyd WWR<sup>2</sup> 6, sydd yn nodi mai Siasbar yw'r Mab Darogan.

perthynas arbennig rhyngddynt ag Iolo Goch a Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd o Dalybolion. Beirdd eraill a ganodd iddynt oedd Rhisieryn a Llywelyn Goch ap Meurig Hen. Canodd Ieuan Gethin a Robin Ddu i Owain Tudur; a cheir cerddi gan Ddafydd Llwyd o Fathafarn, Dafydd Nanmor a Ieuan ap Rhydderch i Edmwnd a Siasbar. Canwyd i Harri Tudur gan Lewys Glyn Cothi, Dafydd Llwyd a Dafydd Trefor.<sup>287</sup> Ceir posibilrwydd fod Siasbar wedi ceisio defnyddio traddodiad y canu brud i ennyn cefnogaeth i'w nai – drwy wahodd Robin Ddu i fod yn bresennol yng Nghastell Penfro adeg ei enedigaeth.<sup>288</sup>

Ceir sawl cysylltiad rhwng Owain Tudur a theuluoedd eraill y canodd Robin Ddu iddynt. Soniwyd eisoes fod perthynas rhwng teulu Penmynydd a theulu'r Penrhyn. Yr oeddynt oll yn ddisgynyddion i Ednyfed Fychan – teulu Penmynydd yn hanu o'i fab Goronwy,<sup>289</sup> a theulu'r Penrhyn o'i fab Tudur.<sup>290</sup> Ceid cysylltiad agosach hefyd, gan mai gwraig gyntaf Gwilym ap Gruffudd ap Gwilym o'r Penrhyn oedd Morfudd ferch Goronwy ap Tudur o Benmynydd,<sup>291</sup> sef nith i'r brodyr a ymosododd ar Gastell Conwy.<sup>292</sup> Canodd Robin Ddu ddau gywydd i Wiliam Gruffudd Fychan – mab Gwilym ap Gruffudd o'i ail briodas â Sioned Stanley – sef cerddi 7 ac 8.

Gwelir yn nodyn cefndir cerdd 7 fod cysylltiad rhwng teulu'r Penrhyn â Thudur ap Dafydd ap Robert o Gastell Bylchwyn (gwrthrych cerdd 3) a theulu'r Gloddaith (gw. cerdd

---

<sup>287</sup> Roberts, 'Teulu Penmynydd', tt. 250-1, 257-8; *idem*, 'Wyrion Eden', tt. 191-3, 198-201; Carr, *Medieval Anglesey*, t. 164; GWL ii<sup>2</sup>, 35-7.

<sup>288</sup> Gw. yr adran *Llên gwerin a chyfeiriadau llenyddol yn y Rhagymadrodd*.

<sup>289</sup> P. C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 13, 12, 11, 4.

<sup>290</sup> *Ibid.*, 'Marchudd' 6, 5, 4.

<sup>291</sup> *Ibid.*, 'Marchudd' 6, 13. (Nid hon oedd y briodas gyntaf rhwng y ddwy gangen o'r teulu – mam Gwilym ap Gruffudd o'r Penrhyn oedd Generys ferch Madog ap Goronwy Fychan ap Goronwy ab Ednyfed Fychan, gw. P. C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 6, 11.)

<sup>292</sup> Ymhellach ar Forfudd, ac ar Wilym ap Gruffudd yn elwa o wrthryfel Glyndŵr, gw. nodyn cefndir cerdd 7.

6). Yr oedd y cysylltiadau'n deillio o Angharad ferch Gwilym a Morfudd, sydd yn golygu eu bod yn perthyn i Owain Tudur.<sup>293</sup>

Y mae'n debyg yr arddelai Owain Tudur arfbais ei daid, Tudur ap Goronwy ap Tudur,<sup>294</sup> sef sieffrwn rhwng tair helmed.<sup>295</sup> Yr oedd hon yn arfbais a oedd yn adleisio arfbais Ednyfed Fychan, sef sieffrwn rhwng tri phen dynol.<sup>296</sup> Ni cheir cyfeiriad at yr arfbais yn y cywydd hwn. Ceir ynddo, fodd bynnag, lawer o gyfeiriadau brudiol, a thrafodir yr arwyddion brud yn y nodiadau isod. Cyfeirir at Owain Tudur ddwywaith yn y cywydd fel y *wennol* (11.11n, 25). Yr oedd hwn yn enw poblogaidd am Owain Tudur yn y canu brud, ac fe'i defnyddid yn aml wrth gyfeirio at aelodau eraill o'r teulu – cyfeirid yn aml at Harri Tudur fel *cyw'r wennol*. 'It has been suggested that as swallows were represented in heraldry as being without legs, the use of the term for Owain Tudur referred to his being without lands.'<sup>297</sup> Priodolodd y beirdd yr arfbais canlynol iddo hyd yn oed: Arian, tair gwennol Gowls. Nid oes tystiolaeth fod arfbais o'r fath wedi'i harddel gan Owain Tudur.<sup>298</sup>

Yn ôl cofnod y cywydd hwn ym Maldwyn, ceir deg copi ar hugain yn ei briodoli i Robin Ddu, ac fe'i priodolir i Ddafydd Llwyd o Fathafarn mewn dwy lawysgrif.<sup>299</sup> Fodd bynnag, un llsgr. yn unig sydd yn ei briodoli i Ddafydd Llwyd mewn gwirionedd, sef B 14874 [= RWM 51], 193a. Ni cheir dim ond y cwpled cyntaf yn llsgr. P 221, 136 – sydd yn llsgr. yn llaw John Jones, Gellilyfdy, yn rhestru cerddi a geir mewn llsgrau. eraill yn ei law. Y mae'r copi o'r cywydd yn CLIG i, 219-20, ymhlith casgliad o gywyddau a briodolir i Robin Ddu.

---

<sup>293</sup> Ymhellach ar y cysylltiadau, gw. nodyn cefndir cerdd 7, a'r cyfeiriadau o'r achau yno.

<sup>294</sup> P. C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 13.

<sup>295</sup> DWH ii, 555, 556-7.

<sup>296</sup> *Ibid.*, 129-30, a gw. ymhellach DWH i, 210-11.

<sup>297</sup> DWH i, 117; E. D. Jones, *Beirdd y Bymthegfed Ganrif a'u Cefndir* (Aberystwyth, 1982), t. 21; LGCD 3.23n.

<sup>298</sup> DWH ii, 555; DWH i, 121-2.

<sup>299</sup> Gw. cofnodau'r cywydd ym Maldwyn (cerddi 27522, 2477); Mynegai 4468, 424.

Nid oes llawer o amheuaeth, felly, mai Robin Ddu oedd yr awdur. Dyddir y llsgrau. hynaf sydd yn cynnwys y cywydd i ail hanner yr 16g.

1     **brudio** Gw. yr Eirfa am ystyr *brudio*. Yn ôl GPC, daw'r cofnod cynharaf y gwyddys amdano o'r 16g. Y mae hon, felly, yn enghraifft gynharach.

5     **Môn** Cyfeirir at Owain Tudur yn WWR<sup>2</sup> 41 fel 'an Anglesey gentleman'. Fodd bynnag, ni wyddys i sicrwydd lle y'i ganed. Y mae'n debyg fod ei dad, Maredudd ap Tudur, yn byw yng ngogledd Cymru adeg geni Owain. Nid yw'n amhosibl mai ym Mhenmynydd y cafodd ei eni – ni wyddys pwy oedd yn byw yno ar ddechrau gwrthryfel Glyndŵr, a cheir cyfeiriadau gan y beirdd yn awgrymu mai brodor o Fôn oedd Owain. Gw. Roberts, 'Teulu Penmynydd', tt. 252-3; *idem*, 'Wyrion Eden', t. 199. Merch o Fôn oedd ei fam hefyd, sef Margred ferch Dafydd Fychan ap Dafydd Llwyd o Drefeilir, P. C. Bartrum: WG1 'Hwfa' 3.

10    **Owain Tudur** Owain ap Maredudd ap Tudur, gwrthrych y cywydd. Gw. y nodyn cefndir.

11    **gwennol** Yr oedd y *wennol* yn un o'r enwau a ddefnyddid am y Mab Darogan yn y brudiau. Fel arfer, byddai'n cyfeirio'n benodol at Owain Tudur. Gw. R. Wallis Evans, 'Trem ar y Cywydd Brud', *Harlech Studies*, gol. B. B. Thomas (Cardiff, 1938), t. 162; *idem*, 'Prophetic Poetry', GWL ii<sup>2</sup>, t. 266; y nodyn cefndir; GDGor 1.86n, 5.66n.

13    **Arthur** Arthur ab Uthr Bendragon (*ob.* 537), P. C. Bartrum: WG1 t. 25. Yr oedd y Brenin Arthur yn gymeriad hanesyddol a ddaeth yn arwr chwedlonol. Yr oedd yn bennaeth neu arweinydd milwrol yn y 6g., ac yn ôl yr *Historia Brittonum*, ef oedd arweinydd byddinoedd brenhinoedd y Brytaniaid yn erbyn ymosodiadau'r Eingl-

Sacsoniaid. Lladdwyd ef ym mrwydr Camlan ym 537. Tyfodd corff o chwedlau amdano, a chyfeirir ato yn chwedl ‘Culhwch ac Olwen’, mewn nifer o gerddi Cymraeg cynnar, rhai bucheddau saint ac yn y Trioedd. Rhoddir lle amlwg i ‘hanes’ Arthur yn *Historia Regum Britanniae* Sieffre o Fynwy, BD (y cyfeiriadau d.g. *Arthur* yn y mynegai). Ystyrir Arthur gan y beirdd yn baragon o ryfelwr. Gw. WCD 26-9; Gwyddoniadur 51-2; CLC<sup>2</sup> 26-8; ByCy 14-15; TYP<sup>3</sup> 280-3, a’r cyfeiriadau d.g. *Arthur* ac *Arthurian cycle* yn y mynegai. (Ar Uthr Bendragon, tad Arthur, gw. 9.21n.) Dylid nodi yma fod Harri Tudur pan oedd yn frenin wedi enwi ei fab hynaf, ac aer y goron, yn Arthur; ac y mae’n debyg ei fod wedi dewis yr enw hwn oherwydd ei arwyddocâd hanesyddol a chwedlonol. Yr oedd yn enw poblogaidd gan y beirdd. Gw. Williams, *Harri Tudur a Chymru: Henry Tudor and Wales*, tt. 78-81; SP 146.

- 14 **tad ieirll** Gwnaed dau o feibion Owain Tudur yn ieirll gan eu hanner brawd, y brenin Harri VI – daeth Edmwnd yn Iarll Richmond, a Siaspar yn Iarll Penfro. Gw. y nodyn cefndir.
- 18 **Nudd** Nudd Hael. Arno, gw. 5.23n.
- 19-20 **Pen Ieuan ... / A dorres gŵr di-ras** Cyfeiriad yw hwn at dorri pen Ioan Fedyddiwr, a oedd yn perthyn i Iesu Grist, ac ef a baratôdd y ffordd iddo, GGLI 2.75n. Gorchmynnodd Herod dorri ei ben ar gais merch Herodias. Gw. Math xiv.1-12; Marc vi.14-29. Ymhellach ar Ioan Fedyddiwr, gw. CE viii, 486-91, d.g. *John the Baptist, Saint*; ODCC<sup>3</sup> 888.
- 21-2 **Pedr ... / A las yng nghweryl Iesu** Bu’r Apostol Seimon Pedr yn llafurio yn Rhufain yn ystod rhan olaf ei fywyd, ac yno y’i merthyrwyd. Yn ôl traddodiad, bu farw wrth



gael ei groeshoelio â'i ben i waered. Gw. CE xi, 748-51; ac ymhellach arno, gw. 8.60n; CE xi, 744-52, d.g. *Peter, Saint*; ODCC<sup>3</sup> 1260-1.

- 22 **yng nghweryl** ‘in the cause of; on behalf of; on account of’, GPC 636. Dyma enghraifft gynnar o’r ymadrodd – daw’r cofnod cynharaf y gwyddys amdano o’r 16g.
- 25 **torri pen y wennol** Cyfeiriad yw hwn at ddiennyddiad Owain Tudur wedi brwydr Mortimer’s Cross, gw. y nodyn cefndir. Gw. hefyd 11.11n a’r nodyn cefndir am y defnydd o’r *wennol* wrth gyfeirio at Owain Tudur.
- 26 **eryr** Cyfeiriad brudiol sydd yma, a chyfeiriad at Siasbar neu Harri Tudur ydyw yn y cyswllt hwn. Yr oedd yr *eryr* yn un o’r enwau a ddefnyddid am y Mab Darogan yn y brudiau, gw. Evans, ‘Trem ar y Cywydd Brud’, tt. 162, 158; *idem*, ‘Prophetic Poetry’, tt. 266, 265; EVW 169, a’r cyfeiriadau d.g. *Symbols: Eagle* yn y mynegai; Gruffydd Aled Williams, ‘The Bardic Road to Bosworth: a Welsh View of Henry Tudor’, THSC, 1986, 23; GDGor 5.34n. Ymhellach ar yr *eryr*, gw. 3.11n; ac ar amrywiol arwyddion a symboliaeth yn ymwneud â’r *eryr*, gw. GGLI 6.11n.
- 29 **tarw corniog tir Cernyw** Yr oedd *tarw* yn enw a ddefnyddid yn y brudiau am y Mab Darogan, ac fe’i defnyddid, yn bennaf, i gyfeirio at y Tuduriaid. Gw. Evans, ‘Trem ar y Cywydd Brud’, t. 162; *idem*, ‘Prophetic Poetry’, t. 267; GDGor 6.57n; SP 101-2; Dafydd Johnston, *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300-1525* (Caerdydd, 2005), t. 363; Williams, ‘The Bardic Road to Bosworth’, 23; GDLI 5.51n, 33.39. Nid yw’n eglur pam mae Robin Ddu’n cyfeirio at Harri neu Siasbar Tudur fel tarw Cernyw. Fodd bynnag, y mae *Cernyw* a *Cornwal*, neu *Cornwel*, yn ymddangos yn aml mewn barddoniaeth Gymraeg, gw. G 136; GLGC (y cyfeiriadau d.g. *Cernyw* a *Cornwal* yn y mynegai); GDLI (y cyfeiriadau d.g. *Cornwel* yn y

mynegai). Yn y gerdd frud Gymraeg gynharaf y gellir ei dyddio'n weddol bendant, 'Armes Prydein Vawr', proffwydir y bydd y Saeson yn cael eu trechu mewn brwydr waedlyd gan gynghrair dan arweiniad Cynan a Chadwaladr. Cynghrair o ranbarthau Celtaidd – yn cynnwys Cernyw – a Llychlynwyr Dulyn oedd hon. Gw. Ifor Williams (gol.), *Armes Prydein: o Lyfr Taliesin* (Caerdydd, 1955), ll. 11, a llau. 9-11 am yr holl ranbarthau yn y gynghrair; Ymddengys Cernyw yn fynych mewn proffwydoliaethau eraill hefyd, EVW 113-14, 59, 108.

- 31 **marchog** Y mae'n bosibl mai cyfeiriad at Rhosier Fychan, Tretŵr, yw hwn. Ef a arweiniodd Owain Tudur i gael ei ddienyddio, gw. y nodyn cefndir uchod. Gwyddys ei fod wedi'u urddo'n farchog erbyn 23 Mawrth 1465, ond ni ellir dweud a oedd yn farchog ym 1461 pan ddienyddiwyd Owain Tudur. Gw. ByCy 940; WWR<sup>2</sup> 74 n.25 (t. 152).
- 34 **ymerodraeth** Yn ôl GPC, daw'r cofnod cynharaf o'r e. o ddiwedd y 15g., GPC 3775. Y mae hon yn enghraifft gynnar, felly.
- 35 **Brytaniaid** Y Brythoniaid neu'r Cymry. Yn ôl yr *Historia Brittonum*, a briodolwyd i Nennius, a *Historia Regum Britanniae* Sieffre o Fynwy, ymsefydlodd y cymeriad chwedlonol Brutus fab Silfius ar Ynys Prydain. Ei ddisgynyddion oedd y Brytaniaid. Ymhellach ar Frutus a'r chwedl, gw. 3.36n, 7.24n.
- 36 **I roi olew ar elyn** Gall mai cyfeiriad at olew eneinio yw hwn, sydd yn cyfleu na fydd gobaith i'r gelyn yn y frwydr yn erbyn y Brytaniaid, gw. GMRh 21.10n.
- 37-8 **aderyn i wlad arall / I fordwy cyrch** Cyfeiriad at yr eryr, sef Siasbar neu Harri Tudur, yw'r *aderyn* fwy na thebyg, gw. 11.26n. Y mae'r sôn am y Mab Darogan yn

- dod dros y môr o wlad arall yn nodwedd gyffredin yn y brudiau, GDGor 1.38n; EVW 155. Gw. hefyd 11.43n.
- 43 **llynges** Cyfeirir yn aml yn y brudiau am ddyfodiad llynges, gw. EVW 155, 173, a'r cyfeiriadau d.g. *Ships* yn y mynegai; Evans, 'Trem ar y Cywydd Brud', tt. 155-6. Gw. hefyd 11.37n.
- 44 **Cent** Swydd Gaint. Ceir rhai cyfeiriadau at Swydd Gaint mewn proffwydoliaethau; fodd bynnag, y maent yn ymwneud â'r Ffrancwyr yn anrheithio'r lle. Gw. EVW 205, 207.
- 45 **Prydyn** Gall fod yn '(pobl) yr Alban, (gwlad y) Pictiaid', GPC 2919; neu'n amrywiad (neu ffurf wallus) ar *Prydain* – '(trigolion) ynys fwyaf Ewrop sy'n cynnwys Cymru, Lloegr, a'r Alban (gynt weithiau mewn gthg. â Lloegr neu'r Saeson, ac weithiau'n eithrio'r Alban)', GPC 2916. Yr Alban yw'r mwyaf tebygol yma. Yr oedd gwŷr Prydyn yn rhan o'r gynghrair Geltaidd y sonnir amdani yn 'Armes Prydein Vawr', gw. Williams (gol.), *Armes Prydein*, ll. 10; 11.29n.
- 46 **Penfro** Y mae'n fwy tebygol mai at y lle y cyfeirir yma, yn hytrach nag at Siasbar Tudur, Iarll Penfro.
- 47-8 **Manaw yn fflam ... / Dulyn yn yr un dolur** Yn ôl y brudiau, ceid nifer o arwyddion cyn dyfodiad y Mab Darogan. Yr oedd tân ym Manaw a llosgi Dulyn yn ddau o'r arwyddion hyn. Gw. Evans, 'Trem ar y Cywydd Brud', tt. 156; GMRh t. 18; GDGor 2.26n, 7.41n. Gw. hefyd EVW, y cyfeiriadau d.g. *Manaw, Dublin a Dulyn*, gwŷr yn y mynegai, am broffwydoliaethau sydd yn cyfeirio at Fanaw a Dulyn.
- 50 **A ffawr Môn a ffy i'r mynydd** Cyfeirid yn aml at Fôn y brudiau hefyd. Yr oedd cad ym Môn yn un o'r brwydrau hynny y cyfeirid atynt fel arwyddion o ddyfodiad y

Mab Darogan. Gw. GDGor 6.32n, 7.22n; Evans, ‘Prophetic Poetry’, t. 269; *idem*, ‘Trem ar y Cywydd Brud’, t. 156; EVW, y cyfeiriadau d.g. *Anglesey, Môn a Mona* yn y mynegai. Fodd bynnag, gall mai Siasbar Tudur yw *ffawr Môn* yma (er nad oedd ef ei hun yn frodor o’r ynys), ac mai cyfeiriad yw hwn at Siasbar yn ffoi wedi brwydr Mortimer’s Cross. Erbyn mis Hydref 1461, yr oedd yn ffoadur ym mynyddoedd Eryri. Gw. WWR<sup>2</sup> 86); ByCy 927. (Gw. yr Eirfa am ystyr *ffawr*.) (Ceir wyth sill yn y ll. hon.)

51 **gwŷn** Llsgrau. *gwyn* (gw. hefyd yr Amrywiadau). Gall fod yma *cwyn*, yn golygu ‘achwyniad, datganiad o anghyfiawnder neu o gam, o ofid neu o alar’; (mewn cyfraith) ‘achos cyfreithiol’, ‘cyhuddiad’, GPC 653-4. Yn y brudiau, yr oedd rhyfel am *gwyn* rhiain yn un o’r arwyddion a geid cyn dyfodiad y Mab Darogan, gw. Evans, ‘Trem ar y Cywydd Brud’, t. 156; GDL1 18.42n. Fodd bynnag, os mai *cwyn* sydd yma, byddai’r a. *bonheddig* sydd yn ei ddilyn wedi’i dreiglo’n feddal. Y mae dau bosibilrwydd felly – gall fod yn *gwyn*, yn golygu ‘dymuniad, dyhead, bodd, hyfrydwch, serch’, ‘blys, chwant’, GPC 1770; neu yn *gwŷn*, yn golygu ‘poen, gofid, dolur’, ‘nwyd, angerdd’, ‘sêl, serch’, ‘chwant, drygchwant’, ‘eiddigedd, dicter’, GPC 1770-1. Cynigir mai *gwŷn* sydd yma.

53 **Eryr addfwyn o’r Wyddfa** Y mae’n bosibl fod hwn yn cyfeirio at y gobaith y daw Siasbar Tudur o’i guddfan yn Eryri fel achubwr. *Addfwyn*, yn yr ystyr ‘anrhydeddus, urddasol, teilwng, da’ sydd yma, GPC<sup>2</sup> 74.

**yr Wyddfa** Ymddengys yr *Wyddfa* yn fynych yn y brudiau. Ceir cywydd brud gan Ddifydd Gorlech (a briodolir i Robin Ddu mewn rhai llsgrau.) ar ffurf ymddiddan rhwng y bardd a’r Wyddfa, gw. GDGor cerdd 6, a t. 12 am y priodoliad i Robin Ddu. Yn y cywydd, y mae’r bardd yn dechrau drwy ddyfalu’r Wyddfa, ac yn ei holi am y

brudiau. Pwysleisir yma alluoedd amddiffynnol yr Wyddfa. Yna, y mae'r Wyddfa'n mynd ati i broffwydo, gan gyfeirio at arwyddion a fydd yn dynodi dyfodiad y Mab Darogan. Yr oedd cywyddau ymddiddan brudiol o'r fath yn efelychu proffwydoliaethau cynharach. Gw. GDGor tt. 85-6 (nodyn cefndir cerdd 6); Evans, 'Prophetic Poetry', t. 269; ac hefyd EVW 97, 191, 206. Yr oedd i'r Wyddfa le pwysig mewn chwedloniaeth broffwydol Gymraeg. Caiff Gwrtheyrn, yn y chwedl amdano, ei gynghori gan wŷr doeth i adeiladu ac amddiffyn caer ar yr Wyddfa yn erbyn y Saeson, gw. 11.61-2n. Dylid nodi yma mai ystyr yr e.b. *gwyddfa* yw 'lle anrhydeddus, uchelfa', 'eisteddfa', 'gorsedd', 'mynwent, bedd', 'cofgolofn', 'tŷ gweddi', GPC 1755.

- 59 **tân** Yr oedd tân ym Manaw a llosgi Dulyn yn ddau o'r arwyddion brud, 11.47-8n. Gw. hefyd EVW 196, 206, am gyfeiriadau eraill at dân mewn proffwydoliaethau.
- 60 **syrth derw** Yr oedd coed yn gwywo yn arwydd brud arall, gw. EVW 188.
- 61-2 **Draig wen ... / A draig goch** Yn yr *Historia Brittonum* a briodolid i Nennius, ceir chwedl am Wrtheyrn. Ceisiai Gwrtheyrn adeiladu caer (gw. 11.53n), ond sylwodd fod seiliau'r gaer yn diflannu bob nos. Fe'i cynghorwyd gan y gwŷr doeth i dywallt gwaed bachgen oedd heb dad dros y seiliau. Daethpwyd o hyd i fachgen o'r fath, ond wedi iddo ddeall pam yr oedd ei angen, eglurodd fod llyn islaw'r gaer a dwy ddraig – un goch ac un wen – yn ymladd yno. Cynrychiolai'r ddraig goch y Brytaniaid, a'r ddraig wen y Saeson. Proffwydodd Myrddin y byddai'r ddraig wen yn gryfach ar y cychwyn, ond y byddai'r ddraig goch yn atgyfnerthu ac yn ei churo. Wedi iddo broffwydo, datgelodd y bachgen mai ei enw oedd Emrys. Adroddodd Sieffre o Fynwy y chwedl hon yn ei *Historia Regum Britanniae*, ond galwodd y bachgen yn Fyrddin, gan egluro mai Emrys oedd ei ail enw. Y mae'n debyg fod y chwedl yn cyfeirio at

broffwydoliaethau Gymreig a oedd wedi cael eu trosglwyddo ar lafar cyn ymddangos yn yr Historia Brittonum yn y 9g. Gw. BD 100-5; EVW 30-1, 57-8; Evans, ‘Prophetic Poetry’, tt. 257-8; GDGor 2.25n; GMRh 28.6n. Gw. hefyd EVW, y cyfeiriadau d.g. *Symbols: Dragon* yn y mynegai.

- 63 **Pedair blynedd heb heddwch** Y llau. fel hon yn gyffredin yn y cywyddau brud, gw. Heledd Haf Williams, ‘Rhai cerddi anghyhoeddedig a briodolir i Ddafydd Llwyd’ (M.A., Cymru [Bangor], 2006), 3i.23n.
- 65 **â’r gaerog lain** Gw. yr Amrywiadau am ddarlleniadau’r llsgrau. – ceir y darlleniad *or gaeroc lain* mewn dwy lsg. Pe bai yma *llain* yn golygu ‘darn (cul neu hirgul) o dir, brethyn, &c. (yn wr. am ei fod ar lun llafn)’, GPC 2090, gall fod yma gyfeiriad at Gastell Penfro, man geni Harri Tudur. Fodd bynnag, ceir y cofnod cyntaf y gwyddys amdano o’r gair gyda’r ystyr hwn ym 1547. Cynigir felly, os nad yw hon yn enghraifft gynnar, mai *llain* yn golygu ‘llafn, cleddyf, gwayw, gwaywffon’, GPC 2090, sydd yma; a deallir *caerog* fel ‘cadarn, cryf’, ‘amddiffynnol’, GPC 384.

12

Am ymdriniaeth â’r cywydd, gw. Bleddyn Owen Huws, ‘Astudiaeth o’r canu gofyn a diolch rhwng c. 1350 a c. 1630’ (Ph.D., Cymru [Bangor], 1994), 482-4; *idem* (gol.), *Detholiad o gywyddau gofyn a diolch* (Caernarfon, 1998), tt. 120-1. Ni chynhwyswyd geiriau ac enwau o’r cywydd hwn yn yr Eirfa.

## Geirfa

*Seiliwyd yr Eirfa ar GPC a GPC<sup>2</sup>.*

**abl** a chanddo'r gallu neu'r grym i gyflawni rhywbeth, medrus, nerthol, cryf; gweddus, digonol *cmhr.* **ablach** 4.30

**acw** yna, draw, yn y fan draw 2.45n

**ach** 2.42, 5.40, 10.8 **iach** 7.29, 8.12; *ll.* **achau** 4.21 **achoedd** 2.11, 5.42 **iachau** 8.34, 47

**achwyn** *e.* cwyn, tuchan, grwgnach; galar 6.47

**adain** 2.4

**adar** 10.34, 11.41; *un.g.* **aderyn** 10.33, 11.37n (gw. hefyd **edn**)

**adeilio** adeiladu 3 *un.grff.myn.* **'deiliodd** 1.4

**addfwyn** mwyn, tyner, hyfryd, gwych, hardd; anrhydeddus, urddasol, teilwng, da; (mewn cyfraith) cymwys, dilys, digonol 11.53n

**addwyn** gwych, hardd, addfwyn, anrhydeddus, rhinweddol, teyrngar, gweddus; cymwys (mewn cyfraith) 3.30

**ael** 3.56n

**aelaw** lluosog, cyfoethog, gwerthfawr, hael, parod, ?taer 8.57

**aes** tarian, hefyd yn ffig. 10.16

**afon** ffrwd naturiol (helaeth) o ddŵr, nant, hefyd yn ffig. **prif afon** afon fawr, yr afon bennaf, hefyd yn ffig. 7.32; *ll.* **afonydd** 7.33

**agoriad** allwedd; enghreifftiau ffig. ac mewn cyd-destun ffig. 7.39

**agwrdd** cryf, cadarn, pwerus, ffyrnig, mawr 4.21

**angel** 7.28, 8.63; *ll.* **angylion** 3.51

**ail** nesaf mewn trefn ar ôl y cyntaf; tebyg, cyfartal, hefelydd (yn enw. ynghyd ag e. priod);

mab, wŷr, etifedd, disgynnydd, hefyd yn ffig. 2.41, 3.23, 24, 56, 4.4, 23, 5.1, 10.15

**aliwn** estronwr, estron *ll.* **aliwns** 9.5

**amnaid** ystum a wneir â'r pen, y llaw, &c., amrantiad; hefyd yn ffig. 1.82

**anturio** mentro, beiddio, ymdrechu; herio, ymosod (ar), hefyd yn ffig.; ceisio cariad (merch)

*3 ll.amhff.myn.* **anturynt** 3.63

**archangel** 3.37, 7.55

**archoll** *ll.* **archollau** 1.73n

**arddelwaid** arddelwyr (ffydd, &c.) 4.28

**arglwydd** 1.34, 41, 48, 74n, 81, 3.36n; *ll.* **arglwyddi** 8.51 (gw. hefyd *Enwau personau*)

**arglwyddes** 5.27

**arglwyddlyw** pennaeth arglwyddaidd 7.3

**ariant** arian 5.38

**armes** darogan, proffwydoliaeth, rhagfynegiad, hefyd yn ffig.; trychineb, distryw, colled, cyni

8.33

**aros** parhau (yn yr un lle neu gyda'r un person(au)), oedi, preswyllo, parhau; disgwyl (am);

gwrthsefyll; dioddef, goddef 7.11, 60; *3 un.grff.myn.* **arhoes** 6.49; *2 un.grch.* **aros**

10.21

**arth** *ll.* **eirth** 2.23n

**arwydd** amnaid; nod, marc; standard, lluman, hefyd yn ffig., arwyddlun, arwyddfwrdd;

mynegiad, symbol; rhagfynegiad, darogan, rhyfeddod; un o saith oes y byd; un o

ddeuddeg rhan gyfartal (y Sodiad) *ll.* **arwyddion** 4.33



**aur** elfen fetelaidd felynllyw hydrin werthfawr, y metel hwn fel cyfrwng cyfnewid neu arian bath, cyfoeth, lliw aur, euraid; enghreifftiau ffig. neu mewn cyd-destun ffig.; enghreifftiau mewn herodraeth 1.16, 75, 2.46, 4.10n, 5.6, 29, 6.54, 7.50, 55, 8.37, 41n, 56, 9.33, 10.12,17, 21 **aurblanc** 5.5n **eurdeg** *eur-* + *teg* 1.77 **aur tawdd** aur wedi'i doddi, aur pur, aur coeth, hefyd yn ffig. 7.49 (gw. hefyd **awr**<sup>2</sup>)

**awr**<sup>1</sup> trigain munud; amser, adeg, tro, ysbaid o amser; amser penodol i weddio, hefyd yn ffig. (gw. **canawr**)

**awr**<sup>2</sup> aur, euraid, gwyach, rhagorol 9.4 (gw. hefyd **aur**)

**awron** yn awr, yr awr hon, ar hyn o bryd, erbyn hyn 11.6

**balch** yn teimlo boddhad, urddasol, gwyach, cadarn, dewr; trahaus, ffroenuchel 7.42; *eith.*

**balchaf** 3.61

**ban**<sup>1</sup> pan 5.23, 6.27, 46n

**ban**<sup>2</sup> uchel (ei sŵn), trystfawr, swnllyd, soniarus, persain 10.39

**band** gw. **ponid**

**bar** 4.18n, 8.49n, 9.31n, 46n, 10.1n

**bâr** dicter, digofaint, angerdd, gofid, cwyn; awydd, chwant, barusrwydd 11.42

**barwn** person a dderbyniodd deitl gan y brenin neu swyddog uwch, aelod o urdd isaf pendefigaeth Prydain neu Iwerddon, barwn Cymreig, person a ddaliai ei diroedd drwy ddaliadaeth ddigyfrwng 'pennaeth' ar ôl 1282, person grymus mewn busnes neu ddiwydiant, arglwydd, hefyd yn ffig., barnwr 8.25, 30; *ll.* **barwniaid** 4.28, 6.22

**blodau**<sup>1</sup> yr organ genhedlu mewn llysiâu, fflur 6.39n, 68n

**blodau**<sup>2</sup> y pennaf, y rhagoraf, pigion, goreuon, dewision 6.65n, 10.45

**blwyddyn** 11.40 **blwyddyn oer** 3.3n

**blynedd: pedair blynedd** 11.63n

**bod** *amhrs.pres.myn. ys* ydys 7.21

**bodd** ewyllys, ewyllys da, ffafr, hyfrydwch, diddanwch, pleser, cymeradwyaeth, caniatâd  
3.21; *ll.* **boddau** 6.65

**brad** 1.44n, 11.45

**braich** 2.43n, 44n

**brân** 2.43n, 9.17n **tair brân** 9.33n; *ll.* **brain** 2.3n

**brau** rhydd, hael, rhywiog; parod, buan, llym; cain, gwych 5.34, 9.42, 10.40

**brawd<sup>1</sup>** mab o'r un tad neu o'r un fam; câr, gŵr o'r un tylwyth, cyd-wladwr, cyfaill; cyd-  
Gristion, cyd-ddyn, cymrawd 9.20

**brawd<sup>2</sup>** barn, dedfryd mewn llys barn, ymweliad dwyfol; y Farn Ddiwethaf, diwedd y byd  
6.12 (gw. hefyd **Dydd Brawd**)

**brawdwr** barnwr, ynad, beirniad; y barnwr goruchaf (am Dduw) 9.37

**brenin** 8.55

**brig** top (am goed), y canghennau uchaf, ysbrigau, yn ffig. am hiliogaeth; top, copa, yn ffig.  
am ragoriaeth; crib ton; gwallt 4.19, 6.7, 12, 24, 30, 36, 40, 8.26, 67, 10.1n

**briw** 1.78n

**bro** 6.20n

**bron<sup>1</sup>** brest, yn ffig. am ffynhonnell maeth a didanwch; mynwes, rhan flaen ucha'r corff  
dynol; y galon, eisteddle'r meddyliau a'r teimladau 1.78n (gw. hefyd **geir bron**)

**bron<sup>2</sup>** ochr bryn, llethr bryn 6.36

**brud, brut** (fel rheol yn y ffurf *brut*) cronicl, hanes, stori; (fel rheol yn y ffurf *brud*) darogan, proffwydoliaeth, dewiniaeth, dyfaliad ynghylch y dyfodol (am fod elfen ddaroganol yn y Brutiau Cymraeg), adfyd 11.1

**brudio** darogan, proffwydo, dewinio, dehongli, siarad mewn damhegion 11.1n; *I un.grff.myn.*

**brudiais** 11.2

**brwydr** ymladdfa, cad ar faes, ymgyrch, helynt, ymryson, llu, byddin 2.35, 11.34 **brwydyr** 9.46

**bryd** meddwl, osgo neu duedd meddwl, bodd, bwriad, ewyllys, penderfyniad; anwylyd, un y rhoddir bryd arno 2.3, 6.64

**bryn** codiad tir, allt, crug, twmpath, amlygrwydd, uchelder 7.8; *ll.* **brynnoedd** 9.33

**Brytaniad** *ll.* **Brytaniaid** 11.35n

**budd** elw, ennil, ysbail, cyfoeth, golud, bendith, ffafr, ffrwyth, mantais, llesâd, defnyddioldeb *ll.* **buddiau** 6.62

**bwch** gafr wryw, iwrch, carw, cwningen neu ysgyfarnog wryw, yn ffig. am berson sarrug *ll.*

**bychau** 9.18n

**bwriad**<sup>1</sup> amcan, pwrpas, diben, meddwl, bryd, arfaeth; cynllwyn, bradwriaeth 1.43n, 11.38

**bwriad**<sup>2</sup> tafliad, naid, syrthiad, cwyp; tuedd, gogwydd 6.19

**bwriadu** cynllunio, cynllwyn, paratoi *amhrs.grff.myn.* bwriadwyd 2.35

**bwyall** 2.25n **bwyall ddu** 2.26n

**byd** 1.20, 36, 50, 68, 2.24, 3.7, 34n, 4.5, 36, 6.3, 7.35, 43, 8.5, 9.50, 11.28

**bydawl** bydol 8.60

**byw** 1.62n

**cadair** eisteddle, cerbyd ar gyfer un person, gorsedd, yn ffig. am bennaeth neu arglwydd, gorsedd esgob; crud, cawell; crib helm, cawell neu ysgol pladur; clwstwr o ganghennau neu frigau'n ymestyn allan o'r un boncyff 4.41n

**cadw**<sup>1</sup> cynnal, gwarchod, amddiffyn, achub; gofalu am, mynychu; dal gafael neu feddiant ar, perchenogi 2.44n, 47, 8.12, 10.31; 3 *un.pres.myn.* **ceidw** 2.44n, 3.52, 5.47, 8.31

**cadw**<sup>2</sup> aros, parhau, trigo, byw, bod mewn cyflwr da (am fwyd), cyffeithio *amhrs.grff.myn.* **cadwyd** 4.5n

**cael** 2.46, 3.21, 4.7, 9.27, 28, 10.17, 21, 11.57; 2 *un.pres.myn.* **cei** 2.47; 1 *ll.pres.myn.* **cawn** 11.66; *amhrs.pres.myn.* **ceir** 9.40; 3 *un.grff.myn.* **cafes** 4.40; *amhrs.grff.myn.* **cad** 5.40; 3 *ll.amhff.myn.* **caent** 10.27; *amhrs.amhff.myn.* **caid** 7.51, 8.37 **ceid** 10.49

**caerog** yn perthyn i gaer, wedi ei amgylchynu â muriau amddiffynnol, yn berchen caerau, cadarn, cryf, amddiffynnol 11.65n

**caethwern** *caeth* + *gwern* (gw. **gwern**)

**calonnog** gwrol, glew, pybyr 4.7

**canawr** *cant* + *awr*<sup>1</sup> 5.31 (gw. hefyd **awr**<sup>1</sup>)

**canon** cyfraith neu ddeddf Eglwysig; cyfraith (weithiau'n ffig. am reolwr); rhan o wasanaeth yr offeren; llyfr sanctaidd neu awdurdodol 4.39

**capten** 2.49, 3.15, 8.55

**carw** 2.27n, 10.15n; *ll.* **ceirw** 2.28, 6.36n, 10.42 (gw. hefyd **rhygarw**)

**castell** 3.33n

**caterwen** *cad* + *derwen* derwen fawr lydanfrig, ffig. am bendefig cadarn **caderwen** 9.49

**cawdd** llid, gofid, tristwch 1.39

**ced** rhodd, anrheg, ffafr, cymorth, yn ffig. am un haelionus; teyrnged, treth 3.15

**ceidwad** gwyliwr, gwarchodwr, amddiffynnwr, noddwr, ymgeleddwr; un â gofal eneidiau arno megis bugail eglwysig neu ysbrydol 4.13, 5.1, 2, 7.39, 9.1

**cellweiriwr** 3.40n

**cenol** canol 2.29n

**cerddor** cantwr, datgeiniad, prydydd, gŵr wrth gerdd, chwaraewr ar offeryn cerdd, yn enw. y delyn, cyfarwydd; crefftwr, gwneuthurwr *ll.* **cerddorion** 3.42n

**certh** iawn, gwir, cywir, aruthr 1.22

**cildant** un o'r tannau manaf ac uchaf yng nghil neu ran uchaf y delyn 8.69

**cis** ergyd, dyrnod, trawiad tyner, cnithiad 10.27

**cleddau** cledd, yn ffig. gynt am arwr neu amddiffynnydd, &c., ac yn dros. am gyfrwng dinistr, rhyfel, &c., mewn seremonïau mae'n arwydd o anrhydedd ac awdurdod 7.42

**clêr** beirdd, cerddorion; côr, mintai yn canu; dosbarth isel o feirdd a cherddorion heb hyfforddiant rheolaidd a swyddogol, cerddorion teithiol 5.27

**clog** mantell, hugan, cob, cochl, yn ffig. gorchudd, cysgod 2.37n, 46, 10.17

**cloi** sicrhau neu gau â chlo, diogelu, cau'n dynn, tynhau, clinsio; carcharu neu rwympo'n gaeth, pasio'n derfynol, terfynu, yn aml y ffig. 3.66

**clos** lle wedi ei amgáu, cae, llannerch, deildy, gwrych, clawstr, côr, llys, buarth 5.48

**coch** 9.11n, 11.62n

**codi** 3 *un.grff.myn.* **codes** 1.61n (gw. hefyd **cyfodi**)

**coed** 2.5, 19n, 5.16, 47n, 6.38, 9.49, 11.60

**coedwig** 2.2

**côr** 3.29n

**corniog** yn dwyn neu'n gwisgo corn neu gyrn, yn ffig. chwannog i gornio, gwgus, â simneiau  
uchel, tyrog 11.29n

**coron** 1.51n, 77, 10.3

**cost** pris; traul; darpariaeth; trafferth, poen; yn ffig. darparwr, prynwr 2.48

**craft** sicr, tynn ei afael, cadarn, treiddgar **rhygraft** 1.55

**crest** brig, copa, crib; helm, addurn o blu, &c., ar helm, mewn herodraeth llun neu ddyfais  
uwchben helm ar bais arfau 10.19n

**criaw** crio 6.25

**croes** 4.4

**croesi** 3.19n

**crog: y Grog** crocbren, crogfa; croes, yn enw. yr un y dioddefodd Crist arni, croeshoeliad;  
croes ar lofft y Grog mewn eglwys, delw neu lun bychan o Grist ar y Groes 4.8, 9

**crybwyll** dwyn i gof neu sylw trwy enwi (rhywun neu rywbeth), sôn am; awgrymu; clodfori,  
enwogi, mawrygu enw *1 ll.pres.myn.* **crybwyllwn** 3.48

**cryswyn** *crys + gwyn<sup>1</sup>* yn gwisgo crys gwyn neu fantell wen, yn aml yn ffig. *b.* **cryswen** 7.6  
(gw. hefyd **gwyn<sup>1</sup>**)

**cun** 1.41n

**cwarel** saeth fer drom â phen ysgwâr a saethid o fwa croes, paen o wydr ysgwâr neu ar lun  
diemwnt, hefyd yn ffig. ac yn dros. 4.10n, 10.42; *ll.* **cwarelau** 10.7n

**cwbl: cwbl** 1.7; *cmhr.* **cwblach** 1.46

**cweryl** cynnen, ymryson, ffrae, achos anghydfod, mater neu achos yr ymleddir drosto gan  
blaid neu barti, cwyn 11.22n

**cwncwest** concwest 7.15

**cwpl** un o ddwy geibren ar ogwydd yn cyfarfod â'i gilydd ym mrig adeilad ac wedi eu cysylltu ynghyd yn y bôn gan rwymbren yn gorffwys ar y muriau er mwyn bod yn brif gynhaliaeth i'r to, yn ffig. rhywun cadarn, cynheiliad, nerth, cynhaliaeth *ll.* **cyplau** 7.57

**cwrt** llys, plasty, cartref uchelwr, buarth, tir rhwng muriau 7.5

**cwmpio** taro neu daflu i lawr, torri i lawr, lladd mewn rhyfel, dymchwelyd, darostwng, tramgwyddo 6.14

**cywn** achwyniad, achos anghydfod neu ofid, galar, gofid; (mewn cyfraith) achos cyfreithiol, cyhuddiad 2.34n, 11.9

**cyfodi** 3 *un.grff.myn.* **cyfodes** 1.29 (gw. hefyd **codi**)

**cyffredin** corff cyffredinol o bobl mewn gwlad (yn gyferbyniol i'r bendefigaeth), y werin; cynrychiolwyr gwladol y cyfryw, sef Tŷ'r Cyffredin; yr hyn sydd a wnelo â phawb 3.45

**cymrodedd** hefelydd, cystedlydd, cymar 7.54

**cyrch** cyrchfan, disgyrchiant, hynt, taith, cwrs, ymgyrch, anturiaeth, ymgais, helfa, ymosodiad sydyn o afiechyd, ymosodiad, goresgyniad, llu o ymosodwyr 11.38n

**cytgam** cellwair, chwarae, chwarae ar eiriau 11.47

**cyw** 2.45n

**cywraint** cywrain, celfydd, medrus; doeth; o wneuthuriad cain; manwl gywir 4.37

**chwedl** stori, hanes, newydd, sôn, si, dywediad; mater(ion), achos(ion), gweithred(oedd) 2.33, 6.55

**dangos** 1.27n

**daliad** y weithred o ddal, gafaeliad, carchariad, y weithred o gadw neu gadw'n ôl, rhwystr  
9.37

**damuno** dymuno *amhrs.grff.myn.* **damunwyd** 9.14

**dâr** derwen, yn ffig. blaenor mewn brwydr, &c., arweinydd galluog, arglwydd cadarn 5.51,  
10.6; *ll. deri* 8.68

**darlleaw** *amhrs.grff.myn.* **darllewyd** 2.17n

**darmerth** darpariaeth, paratoad, cyflenwad o luniaeth (neu gyfarpar, &c.) a baratowyd 8.6

**darogan** rhagfynegiad o'r dyfodol, brud, proffwydoliaeth, cân broffwydol *ll. daroganoedd*  
11.11

**daroganwr** rhagfynegwr, proffwyd, brudiwr, dewiniwr pethau i ddod; gŵr darogan, gŵr y  
darogenir ei ddyfodiad, cyflawnwr darogan neu broffwydoliaeth 11.8, 27

**dart** gwaywffon dafl, picell, gaflach, saeth, hefyd yn ffig. 3.58

**dawn** cynneddf neu allu cynhenid, athrylith, doniolwch, gras, rhinwedd moesol, bendith,  
ffafr, gwobr; rhodd; yn ffig. un â chynneddfau neu allu godidog (am bennaeth,  
arglwydd, &c.), rhywbeth o rinwedd arbennig (crair, &c.) 7.4, 38, 43, 8.10, 26, 11.12

*dayt* 9.26n

**deffroi** deffro 2.38n

**deg ar hugain** 1.42n

**dengmlwydd ... / ... ar hugain** 1.31-2n

**derw** coed caled eu rhuddin a garw eu rhisgl, deri, defnydd y cyfryw bren, coed, yn dros. (yn  
yr hen farddoniaeth) arch dderw, yn ffig. gŵr dewr, rhyfelwr cadarn, o dderw 10.5,  
11.60n; *un. derwen* 8.39, 65

**derwgoed** coed derw, llwyn neu goedwig fechan o dderi; yn ffig. gwŷr cedyrn 5.15



**deudroed** 1.56n

**deulym** *deu-* + *llym* 4.23n

**deunaw** 5.10n

**dewrwyh** 2.49n

**dianwyl** *di-* + *anwyl* 3.31n

**diddori** gofalu, meddwl o ddifrif, malio, ystyried yn ddwys, pryderu, ymddiddori (yn) 3

*un.pres.myn.* **diddawr** 11.55

**difalch** *di-* + *balch* 7.42

**difeth** *di-feth*, *di-ffael*, *di-ball*, anffaeledig, sicr, cywir, perffaith, dihysbydd 9.47

**Difiau** dydd Iau 1.45n

**digaeth** *di-* + *caeth* 1.65

**dihareb** *a.* diarhebol 6.8

**dileu** diddymu, difa, difetha'n gyfan gwbl, llwyr ddinistrio; cael gwared ar, gyrru ymaith 3

*un.pres.myn.* **dilea** 4.26

**dilyw** 1.4n

**dinas: tri dinas** 7.38n

**di-ras** anrasol, drygionus, drwg, diffaith, ffaidd 11.20n (gw. hefyd **gras**)

**dirwy** cosb o dâl penodol am drosedd; cosb, atafaeliad, anrhaith oddef; colled 6.21, 11.6

**diwaethaf** diwethaf 8.18

**diwarth** heb ymdeimlad o gywilydd neu wyleidd-dra, na ellir ei waradwyddo; di-fai, heb beri

gwarth, gweddus, anrhydeddus 11.13

**diwydwaith** 1.18n

**doeth**<sup>1</sup> *a.* call, synhwyrol, gofalus, dysgedig, medrus 8.21, 10.11 **tradoeth** 1.59

**doeth**<sup>1</sup> *e.* gŵr doeth, doethwr, un o'r Doethion o'r Dwyrain 3.44n; *ll.* doethion 8.18

**doeth**<sup>2</sup> gw. **dyfod**<sup>1</sup>

**dolur** 1.75, 11.48n

**donio** cynysgaeddu (â dawn neu allu), gwaddoli, bendithio, rhoddi, anrhegu 3 *un.grff.myn.*

**donies** 8.42

**draen ll. drain** 1.52n

**draig: draig goch** 11.62n **draig wen** 11.61n

**drud** 1.53n

**drych** arwyneb caboledig sy'n adlewyrchu, hefyd yn ffig., adlewyrchiad; patrwm, esiempl

7.37

**dug ll. dugiaid** 4.27

**dur** math o fetel, arf(au) dur 8.10, 11.14 (gw. hefyd **duraidd**)

**duraidd** 1.54n

**duw** dydd **duw Gwener** 1.47n **duw Mercher** 1.44n **duw Pasg** 1.60n (gw. hefyd **dydd**)

**duwies** un o'r duwiau benywaidd, hefyd personoliad o ryw fendith neu rinwedd, e.e. rhyddid,

trugaredd; gwraig neu ferch a edmygir yn fawr iawn, arglwyddes 5.54

**dwylaw** 1.54n

**dwyn** 1.20, 23, 2.1, 3.10, 15, 43n, 44n, 6.16, 35, 55, 7.11, 10.19n, 30; 3 *un.pres.myn.* **dwg**

11.44; 3 *un.grff.myn.* **dygodd** 1.63; 2 *un.grch.* **dwg** 1.82

**dwyradd** *dwy-* + *gradd* 3.42n

**dwyrain** 2.2n

**dyad** ymddangosiad, ffurf, maintioli, ffurf neu ddull ymddygiad, arfer, ansawdd, gorllif 9.31

**dyall** deall, y gynneddf sy'n galluogi dyn i ganfod achos ac effaith; ystyr, arwyddocâd, dehongliad 5.52

**dydd** 2.30n, 6.46n, 8.8, 11.9 **mawrddydd** gw. **mawrddydd**; **rhywddydd** gw. **rhywddydd**; **y trydydd dydd** 1.59n (gw. hefyd **duw**)

**Dydd Brawd** Dydd y Farn 6.12 (gw. hefyd **brawd**<sup>2</sup>)

**dyfnfedd** *dwfn + bedd* **dyfnfedd du** 1.58n

**dyfod** symud i ryw le neu gyrchfa neu at ryw berson neu bobl (gan edrych o safbwynt y cyrchnod ac nid y cychwynfan), cyrraedd, yn ffig. weithiau am ryw lwydd neu aflwydd; ymddangos ar gyhoedd (am ŵr darogan neu gyflawnwr proffwydoliaeth); hanfod 3 *un.pres.myn.* **daw** 11.41, 45, 54; 3 *un.pres.dib.* **dêl** 4.26, 7.30, 11.52, 59; 3 *un.grff.myn.* **doeth** 1.13, 33, 60

**dygnwern** *dygn + gwern* (gw. **gwern**)

**dyhuddiant** cysur, diddanwch, llonyddiad, cymodiad, iawn, gwobr, tâl 6.11

**dyrnod** ergyd â dwrn, trawiad; archoll; yn ffig. loes drom, trychineb; ergyd (angau) 3.15n

**dyuno** cytuno, uno, ymgynghreirio (â); ymgynnull; dwyn neu alw ynghyd 2 *un.grch.* **dyun** 10.35

**dywedyd** dweud **d'wedyd** 9.28; 3 *un.pres.myn.* **dywed** 4.38; 3 *un.grff.myn.* **dywod** 1.66

**dywod** gw. **dywedyd**

**e** geiryn rhagferfol 7.59

**echwydd** 2.29n

**edling** etifedd brenin, y nesaf i etifeddu'r orsedd, gwrthrychiad teyrnas, plentyn, epil 8.19

**edn** aderyn, weithiau'n ffig.; gwybedyn, pryf adeiniog cyffelyb 2.45n, 5.48; 11.41 (gw. hefyd **adar**)

**edryd** haniad, ach, tras, gwehelyth, tylwyth, cenedl 7.23n

**elawr** elor 6.48

**elicant** 8.46n

**emyn** hymn, darn o farddoniaeth grefyddol o fawl a genir i Dduw **Emyn Gurig** 4.39n

**enaïd<sup>1</sup>** y rhan ysbrydol o ddyn y tybir ei fod yn goroesi marwolaeth mewn ystad o wae neu o wynfyd yn y byd a ddaw, egwyddor bywyd (a gysylltir gan y meddwl cyntefig â'r anadl a hefyd â'r gwaed, ysbryd wedi ymadael â'r corff 1.82

**enaïd<sup>2</sup>** cyfaill (fel term o gyfarchiad), anwylyd (fel term anwes), merch neu wraig a gerir, dyn, bod dynol, person 8.52

**ener** arglwydd, pennaeth, tywysog 1.33, 9.2

**erddi** (aredig) troi y tir, trin tir, yn aml yn ffig. *amhrs.pres.myn.* **erddir** 4.25

**eryr** 3.11n, 7.3n, 8.43n, 11.26n, 53n

**er ys** ers 6.4

**euraid** gwneuthuredig o aur, eurlliw, disgleirwych, ysblennydd, gwerthfawr iawn, rhagorol (mewn rhinwedd, clod, doethineb, &c.), rhagorol (mewn diwylliant, coethder, ceinder, &c.) 7.52, 8.30, 45

**eurdeg** gw. **aur**

**euro** gorchuddio neu addurno ag aur, yn ffig. enwogi, anrhydeddu, cyflenwi neu gyfoethogi ag aur, urddo'n farchog trwy addurno â choler aur, &c., coluro neu decáu (camgymeriad, &c.) 3.67, 7.47, 60 **euraw** 3.17; *1 un.grff.myn.* **eurais** 8.48

**ewybr** cyflym, parod, eglur 1.37

**fal** fel 4.12, 15, 5.14, 36, 6.20, 7.32, 35, 48, 8.35, 10.29

**ficsys: y Fices** 3.5n

**ffawr** ffafr, gras, gwerth, mesur, tâl, gwobr 11.50n

**ffin** 3.24n

**fflam** 11.47n

**ffoi** 3 *un.pres.myn.* **ffy** 11.50n

**ffriw** wyneb, gwedd, ymddangosiad, trwyn, talcen, pen 2.38, 10.36

**ffyrf** cadarn, sad, sicr, grymus, mawr, praff, sylweddol, caled 10.20

**gafael** 4.19n

**Gart, y** 4.21n

**garth** cefnen o dir, penrhyn; gallt, coedwig, tir gwyllt 5.41

**geir bron** *geir + bron<sup>l</sup>* gerbron 9.17

**gelyn** 11.36n; *b.* **gelynes** 3.5

**gem** maen gwerthfawr, glain, perl, hefyd yn ffig. anwylyd *ll.* **gemau** 6.35

**geni** 1.14, 28n

**glai** math o waywffon, picell, cleddyf 5.36

**glain** gem, maen gwerthfawr, perl, yn ffig. am berson neu beth a fawr brisir, anwylyd, tlws  
3.60

**glaw** 3.6n

**glendyd** glendid 7.23n

**glwys** hardd, teg, hyfryd, diwylliog, glân, sanctaidd 6.63

**gofynwr** 6.13n

**gogan** dychanu, canu dychan, gwawdio, gwatwar; canu, darogan, moli, clodfori 8.32n

**gogoned** gogoneddus, bendigedig 1.28n

**goleuad** golau, ffynhonnell goleuni, yn ffig. am berson clodfawr 1.24, 2.8

**goreuro** euro, gorchuddio neu olchi â haenen denau o aur (neu eurlliw), addurno, yn ffig. anrhydeddu, enwogi, clodfori ar fydr, &c., euro neu urddo'n farchog drwy addurno â choler aur, &c., cysegru'n esgob *amhrs.pres.myn.* **goreurir** 7.58

**gorffwyll** gorffwylledd, gwallgofrwydd 1.67

**gorsedd** tomen bridd, twmpath, crug, carnedd, bedd; gorseddfainc, thrôn, sedd yr eistedd esgob, &c., arni ar achlysuron seremonïol, cadair, cyffesgell, eisteddfa Duw a Christ yn y gogoniant, yn ffig. safle, swydd neu urddas brenin, &c., gallu ac awdurdod brenhinol; llys, trigfan, llys barn, mainc barnwr, cymanfa, cynulleidfa; (mewn cyfraith) lle cydnabyddedig i gadw arfau mewn eglwys, llys, &c. 7.40

**gorwyr** plentyn i wŷr, disgynnydd 6.50n, 8.23n

**gosog** gwalch mawr byr ei adennydd ond nerthol ei hediad, gwyddwalch, math o hebog a ddefnyddid i hela, yn ffig. campwr gwych, milwr dewr, gŵr bonheddig urddasol 9.21, 10.47

**gows** lliw coch mewn herodraeth 9.11n

**gown** gŵn, mantell, abid, gwisg, ffrog 7.50

**gradd** gris, stепен, troedfainc, cyfres o risiau, esgynfa, uchdwr, llofft; cam neu bwynt mewn llinach sy'n penderfynu perthynas disgynyddion person neilltuol i'w gilydd *ll.*

**graddau** 8.35

**gras** ffafr neu drugaredd anhaeddiannol Duw i ddynion, rhinwedd megis edifeirwch, maddeuant; ffafr noddwr neu bendefig, addfwynder, cyflwr noddedig neu bardynedig; y ffafr o ganiatáu gohiriad 1.57, 74, 3.2; 4.39, 7.37 (gw. hefyd **di-ras**)

**grisial** *a.* wedi ei wneud o risial, gloyw fel grisial, grisialaidd 7.6

**gro** cerrig mân, y ddaear fel gorffwysfa'r marw, pridd, gweryd, bedd, man lle ceir casgliad o raean bras 3.2, 5.19

**grym** *e.* nerth, gallu, awdurdod, glewder, effaith, defnydd, gweithred, rhinwedd, ystyr, sylwedd 1.27, 71, 5.18, 7.9

**grym** *a.* grymus, nerthol, cadarn, perthnasol, effeithiol, dilys, awdurdodedig 7.17

**gryn** gwth, hwrdd, ymladd, brwydr lawlaw, trwst arfau 6.33

**gwaed** yr hylif coch a red drwy'r gwythiennau, yn ffig. tylwyth, cenedl, ach, tarddiad; gwaed wedi ei dywallt mewn aberth, yn enw. aberth iawnol Crist, bywyd neu bersonoliaeth Crist 1.18, 78, 2.2, 5, 6, 19, 20n, 49, 4.27, 5.12, 51, 8.12, 31, 9.16, 10.2, 25, 37, 38, 40, 49 **gwaedlaif** *gwaed* + *glaif* 8.15 (gw. **glaif**) (gw. hefyd **henwaed**)

**gwalch** *ll.* **gweilch** 6.19n

**gwan** *a.* egwan, llesg, diamddiffyn, claf, tlawd; tyner; trist, prudd, anffodus 6.29

**gwan** *e.* dyn eiddil, un egwan, un ofnus, dyn claf neu fethedig, un tlawd ac anghenus neu isel ei fyd, un dibynnol mewn teulu (e.e. plentyn) 3.31; *ll.* **gweiniaid** 2.13n, 7.41

**gwarchae** amgylchyniad (tref, &c.) gan fyddin i rwystro lluniaeth, &c., rhag mynd i mewn iddi er mwyn ei darostwng, rhwystr, caeadle, carchar, dalfa 11.61

**gward** *ba.* rhyddhau, achub, rhoi gwardigaeth, cynnal, amddiffyn, adbrynu; symud ymaith, diosg (gwisg, &c.), dileu 3 *un.pres.myn.* **gweryd** 1.35n

**gwart**<sup>1</sup> carchar, caethiwed; cadwraeth; cysgod, amddiffyn; ?ceidwad, gwarchodwr 4.22  
**guard** 10.30

**gwart**<sup>2</sup> rhan o garn cleddyf, &c., sy'n amddiffyn y llaw, darn ynglŷn wrth y ddyrnfol neu wrth blât yr elin er amddiffyn y fraich 10.12

**gwawr** arglwydd, pendefig, pennaeth, arweinydd, gwron, arwr, uchelwr; arglwydd, brenin, llywydd (am Dduw a Christ) 3.40

**gwayw** gwaywffon, picell, peic, ffon neu wialen rhingyll neu gyhoeddwr llys (yn y Cyfreithiau Cymreig) 5.12, 14n, 9.22, 45, 10.13, 32, 48

**gwedy** wedi 5.2, 39

**gwedd<sup>1</sup>** golwg, wynepryd, delw, ffurf, tebygrwydd, dull, agwedd 1.20n, 7.17

**gwedd<sup>2</sup>** iau i gysylltu dau ych, &c., pâr neu ragor (o geffylau neu o ychen) dan yr iau, yn ffig. rhwym, caethiwed, ymostyngiad, hil, epil, plant 1.20n, 5.37n

**gweddi** 1.81n

**gwehelyth** ach a hynafiaid person, llinach, tras, tylwyth, disgynyddion, olynwyr, cyff bonedd 5.11

**gweiniad** gwanwr, trywanwr, archollwr, picellwr; ymosodwr, rhuthrwr, ysbeiliwr *ll.* **gweiniaid** 2.13n

**gweled** 6.26; *1 un.pres.myn.* **gwelaf** 7.14; *3 un.grff.myn.* **gwelas** 4.32; *3 ll.amhff.myn.* **gwelynt** 9.27

**gwenllys** gw. **gwyn**

**gwennol** 11.11n, 25n

**gwenwlad** *gwen + gwlad*, gwlad fendigaid, bro ddedwydd, paradwys, y nefoedd 7.12 (gw. hefyd **gwyn<sup>1</sup>**)

**gwern** cors, siglen, weithiau yn ffig. Uffern **caethwern** 1.2 **dygnwern** 1.12 (gw. hefyd **irwern**)

**gwerthu** cael gwared o rywbeth am bris, marchnata, bradychu am arian neu wobr arall, bod yn annheyngar, rhoi ranswm neu bris ar *3 un.grff.myn.* **gwerthawdd** 1.40n



**gweryd**<sup>1</sup> gwaredigaeth, iachawdwriaeth 4.45

**gweryd**<sup>2</sup> gw. **gwared**

**gwin** gwirod neu ddiod a wneir o sudd epleседig amrywiol fathau o ffrwythau a llysiau, yn ffig. nwyd neu bleser a bair feddwod; un o'r elfennau yng ngwasanaeth y Cymun neu'r Offeren yn symbol o waed aberthol Crist 3.46, 6.28n, 8.38n, 56

**gwinau** 10.1n, 11.27

**gwineuwyn** *gwinau* + *gwyn* 5.35

**gwindy** tŷ gwin, tafarn win, seler win, tŷ gwledd, hefyd yn ffig. 10.11

**gwinllan** darn o dir y tyfir gwinwydd ynddo, hefyd yn ffig.; gwinwydden 6.10

**gwinwydd** coed dringol sy'n dwyn grawnwin, cwlwm coed; yn ffig. (yn y ll.) cyff neu dylwyth bonheddig, (yn yr un.) rhiaid, merch, gwraig, 6.20; *un.b.* **gwinwydden** 5.24n

**gwir** 1.15, 49, 60n, 7.39, 8.24

**gwirair** *gwir* + *gair* 1.72n

**gwirion** pur, dibechod, di-fai, cywir, ffyddlon, dieuog, diniwed, syml; penwan, ffôl, annoeth 11.24

**gwirwr** *gwir* + *gŵr* 3.55n (gw. hefyd **gŵr**)

**gwiwlan** 3.53n

**gwlad** tiriogaeth ac iddi ffiniau pendant ac enw arbennig a chenedl neilltuol yn byw ynddi, y diriogaeth y mae dyn yn enedigol ohoni, tir, talaith, bro, ardal, teyrnas, brenhiniaeth, arglwyddiaeth; y bobl sy'n byw yn y cyfryw diriogaeth, cenedl 1.83, 2.7, 37, 38, 3.5, 5.7, 47, 6.23, 63, 7.23, 8.1, 26, 58, 11.7, 37n **dwywlad** 7.1

**gwledd** 1.83n, 8.1, 51, 11.40; *ll.* **gwleddau** 8.50, 11.58

**gwleddlawn** gwleddlon 7.3n

**gwn** darn trwm o ordnans milwrol at saethu sielïau, canon, magnel, cyflegr, gwn llaw, dryll,  
mwsged, reiffl 7.46, 8.44; *ll.* **gwns** 9.6 **gynnau** 9.41

**gwnias** gw. **gwynias**

**gŵr** bod dynol gwryw; dyn dewr, arwr; fe'i defnyddid gynt am Dduw a Christ 1.8, 10, 30, 59,  
77, 2.10, 36, 3.30, 51, 58, 4.9, 11, 5.33n, 6.14, 8.21, 62, 9.25, 38, 10.14, 48, 11.20n, 21,  
28, 65 **pedwar ŵr** 3.49n; *ll.* **gwŷr** 2.27, 3.1, 12, 4.13, 5.12, 21, 25, 8.44, 9.35 (gw.  
hefyd **gwirwr**)

**gwreang** gŵr ifanc o fonedd, gwas marchog, cludydd arfau, ysgwïer, gŵr rhydd **gwranc** *ll.*  
**gwreinc** 10.3n

**gwrhewc** 5.25n

**gwŷd** pechod, drygioni, bai 1.20

**gwŷdd** pren(nau), coed(en), cangau, fforest, llwyn(i), yn ffig. llinach, tras, cyff; calaf,  
corsen(nau); coedwydd, coed defnydd, hefyd yn ffig. am ddefnydd barddoniaeth;  
gwaywffyn; hwylbrennau 3.2n, 5.28n, 6.14, 19, 28n, 39, 10.26

**gwŷyl** 3.32n

**gwyn**<sup>1</sup> lliw'r eira, gwelw, disglair; o bryd golau; sanctaidd; gwych, annwyl 4.1, 4, 39, 11.28;  
*b.* **gwen** 5.3n, 6.60, 9.20, 11.61n **gwenllys** *gwen* + *llys* 6.10; *ll.* **gwynion** 3.51 (gw.  
hefyd **gwineuwyn**)

**gwyn**<sup>2</sup> dymuniad, dyhead, bodd, hyfrydwch, serch, blych, chwant 5.22

**gwŷn** poen, gofid, dolur, nwyd, angerdd, sêl, serch, chwant, drygchwant, eiddigedd, dicter  
11.51n

**gwynias** gwyn neu gochwyn gan dân, llosg; taer, angerddol 4.17 **gwnias** 8.49, 10.1n

**gwyrd** *ll.* **gwyrdion: gwrddion** 7.20n

**gŵyth** llid, digofaint, ffyrnigrwydd; brwydr, ymladd; llidiog, ffyrnig 1.70, 4.22

**gylyf** blaen main, erfyn blaenfain, cylllell **gyly'** 10.49n

**haeach** (mewn cymal cadarnhaol) bron, agos, yn agos, yn wir, eisoes; (mewn cymal negyddol) braidd, o'r braidd, prin, o gwbl, nemor ddim, mwyach 6.38

**haeddwawd** teilwng o glod neu gerdd glod, moliannus; cerdd neu fawl wedi ei haeddu 6.11

**hael** llaw-agored, parod, rhoddgar, caredig, bonheddig, gŵr haelionus, gŵr bonheddig, pendefig 4.20, 5.8, 23, 33n, 34 (gw. hefyd *Enwau personau*)

**hai** bloedd neu alwad o anogaeth, &c., cymhelliad; ?helynt wyllt, rhuthr, cyffro 11.46

**hail** gweinyddiad (mewn gwledd), bwyd a diod, angenrheidiau ar gyfer gwledd, cyfeddach, gwledd 5.33n, 45

**hanes** 1.61n

**hap** damwain, siawns, ffawd dda, llwydd, ffyniant, digwyddiad 5.7, 8, 22

**hawc** hebog, gwalch, cudyll, yn aml yn ffig. 5.48

**heddwch** 11.63n

**helynt** helbul, penbleth, gofal, blinder, cyflwr, stad, cwrs (bywyd, &c.), ffordd, dull, ymarweddiad, busnes, mater, pwrpas 1.1, 11.19

**henwaed** yn ffig. hen dylwyth bonheddig, llinach neu dras hynafol ac urddasol 5.52, 10.43

**henwi** enwi 7.21

**heulwen** 3.8n

**hil** 1.1n, 3, 5.34

**hin** tywydd, tywydd garw, awyr, ?tymor 6.57

**hocedwr** twyllwr, cnaf, hudwr 3.52

**hoedl: hoedyl** 11.10

**hoel** 1.55n; *ll.* **hoelion** 1.53n

**hoywlan** *hoyw* + *glân* teg a phrydweddol, hardd, gwych, dymunol, hyfryd 11.19

**hoywNuw** gw. **Duw**

**hwynt-hwy:** 'ntwy 6.22 **yntwy** 10.27, 28

**hydr** dewr, beiddgar; nerthol, cadarn; arbennig 2.19

**hydyn** hawdd ei dynnu neu ei drafod, hydrin, addfwyn; maith *eih.* **hydynaf: hydyna'** 2.40

**hydd** 7.13n

**hylwydd** llwyddiannus, ffyniannus 1.31, 34, 41

**hynaf** pennaeth, arglwydd; henuriad, cynghorwr; hen wŵr; cyndad; rhagflaenydd, hefyd yn  
ffig. 1.8; *ll.* **hynaif** 4.17n

**iach<sup>1</sup>** da ei iechyd, wedi gwella, da ei gyflwr, llesol; ?ffrwythlon, llewyrchus 6.37, 10.40

**iach<sup>2</sup>** gw. **ach**

**iaith** cyfangorff y geiriau a arferir gan genedl neilltuol, weithiau'n dros. am sŵn neu gri  
anifeiliaid, adar, &c., tafodiaith, ?(mewn rhai enghreifftiau cynnar) barddoniaeth; corff  
o bobl sy'n siarad yr un iaith, pobl, cenedl, tylwyth 9.10, 10.23, 30, 35

**i ar** 10.35n

**iarll** 7.48, 9.3, 15; *ll.* **ieirll** 2.5, 4.28, 10.2, 11.14n

**iau** darn o bren dros warrau dau anifail sy'n cydweithio, yn ffig. llywodraeth, gormes 2.45

**Iddew** *ll.* **Iddewon** 1.66

**iôn** arglwydd; (yr) Arglwydd, Duw 1.52, 8.17, 50, 10.49, 11.23

**iôr** arglwydd; (yr) Arglwydd, Duw 1.14, 30, 32, 52, 70, 7.24

**ir** iraidd, glas, llawn sudd, ffres, hefyd yn ffig., tyner, byw, llewyrchus, bywiog, newydd, ieuanc; dihalen, croyw; (mewn cyfraith) heb ei ddileu, mewn grym, dilys (o hyd) 9.42;

*eth.* **iraf: ira'** 9.4

**irwern** corstir, siglen 1.64 (gw. hefyd **gwern**)

**irwych** *ir* + *gwy*ch ieuanc neu hoyw a gwy, iraidd a gogoneddus (am y tywydd, &c.) 9.49

**lamp** llusern, yn dros. yr haul, y lloer, (yn y *ll.*) sêr, hefyd yn ffig. 7.1

**lawnt** 2.7n

**lladd** *amhrs.grff.myn.* **llas** 11.15, 22n, 23

**llain** llafn, cleddyf, gwayw, gwaywffon 11.65n

**llam** naid, brasgam, hefyd yn dros., ymosodiad; tynged, ffawd, damwain, digwyddiad 11.4

**llaw** 8.58 (gw. hefyd **dwylaw**)

**llawen** 1.3n, 5.4, 33n

**lleihau** 2 *un.grch.* **lleiha** 2.34n

**lleuad** 7.45n, 8.54 **drwg leuad** 3.6n

**llew** 1.45n, 2.23n, 3.38n, 5.3n, 17, 33n, 9.11n, 17n, 10.18n

**llin** llinach, tras, gwehelyth, hiliogaeth, cenedlaeth 6.28

**lliw** unrhyw un o'r elfennau yr ymranna goleuni iddynt, e.e. mewn sbectrwm; ymddangosiad

allanol yr wyneb neu'r croen (o ran lliw), pryd, gwedd; cyflwr, ymddangosiad,

cymeriad, llewyrch, mymryn (lleiaf), ateg; cyfrwng i liwio, colur, llifyn; yn rhethregol

ffigur neu droad ymadrodd; rhith, esgus; (peth) unlliw â (gwrthrych neu liw a nodir)

2.7n, 18n, 6.57, 63, 8.54

**lliwio** rhoi lliw ar, trochi (gwlan, defnydd, &c.) mewn hylif pwrpasol o'r lliw a fynner, yn

ffig. disgrifio (rhywun neu rywbeth) gan arfer gormodiaith, dylanwadu ar; amliwio

(am berson), newid neu droi lliw, yn enw. cochi, gwrido gan emosiwn, ond weithiau gwelwi, ennill lliw neu wawr neilltuol 7.45n

**llog** lle, mangre gysegredig, eglwys, abaty, mynachlog 5.9n

**llu** nifer mawr (o bobl, &c.), lliaws, tyrfa, haid, byddin, mintai o wŷr arfog, catrawd 5.18, 7.10, 35, 11.21; *ll.* **lluoedd** 5.17, 9.17

**lhuman** baner (yn aml yn dwyn arwyddlun), ystondard, fflàg, penwn **lhuman goch** 9.11n

**lluniaeth** trefniant, llywodraeth, rhagluniaeth, pwrpas, ffurf, creadigaeth; arlwy, cyflenwad, cynhaliaeth, hefyd yn ffig. 6.67

**llurig** crys mael, dwyfronneg, arfwisg; yn dros., e.e. am rwyd, brest ceiliog bronfraith, ac yn ffig. amddiffynfa, cysgod, gweddi am noddfa 7.48

**llw** datganiad difrifol gan alw ar Dduw neu ryw berson neu wrthrych cysegredig yn dyst i wirionedd yr hyn a ddywedir, addewid ddifrifol o ffyddlondeb a theyrngarwch, adduned, rheg, melltith, cabled 5.4n, 11.31

**llwyd** o liw sy'n gymysgedig o ddu a gwyn, gwan (am liw, &c.), gwelw, llwytgoch, brown, afloyw; a'i wallt wedi britho, hen, brith (am wallt, &c.); sanctaidd, bendigaid, duwiol 1.9, 45, 7.53, 8.20

**llwydd** llwyddiant, ffyniant 1.25n

**llwyn** prysglwyn, perth, coedwig fechan, fforest, (yn enw. yn y canu serch) cyrchfan draddodiadol cariadon; yn dros. am dyfiant trwchus, e.e. gwallt merch; yn ffig. teulu, hiliogaeth, disgynyddion, nifer o bersonau, cwmni 9.30n, 10.41, 46

**llwyth** tylwyth, disgynyddion, cenedl 2.24, 9.15, 11.15

*llye* 10.46n

**llynges** llongau rhyfel gwlad ynghyd â'u swyddogion a'r dwylo, confoi, hefyd yn dros.

11.43n

**llyma** dyma, wele (gwêl, gwelwch) yma, hwn (hon) yw, y rhain yw 1.11, 11.4

**llyn** diod, diod feddwol, gwirod, sudd, hylif 5.45

**llys** cwrt, palas, trigfan brenin, uchelwr, esgob, &c., hefyd am yr eglwys neu'r nefoedd fel trigfan Duw, weithiau'n dros.; brawdlys, llys barn, achos neu weithrediadau llys, senedd 5.45, 7.7 **llys Rhufain** 5.9n **llys Owain** 5.30 **llys Hywel Melyn** 5.46n

**llyseulyd** yn cynnwys llysiâu, perllysiâu, neu sbeisys, wedi ei wneud o'r cyfryw, yn cynhyrchu llysiâu, blodeuog, gwelltog 8.6

**llythyr** dogfen sy'n cynnwys neges, gwybodaeth, cyfarchiad, &c., ac a anfonir gan y sawl a'i lluniodd at rywun arall neu rywrai eraill, epistol, hefyd yn ffig. ac yn dros.; llythyren, (symbol graffig confensiynol sy'n cynrychioli) sain lafar, (yn y ll.) elfennau darllen, ysgrifen, llenyddiaeth, dysg 5.3n, 7.22

**llyw** 1.3n **tri llyw** 2.17n

**mab** bachgen, gwryw yn ei berthynas â'i rieni, plentyn, disgynnydd, dyn, hefyd yn ffig.; (epil, llwdn) anifail, aderyn, &c.; Iesu Grist, Ail Berson y Drindod; y mab darogan 1.21, 28n, 2.25, 3.9, 4.2, 7, 9, 5.20, 6.17, 45, 7.59n, 8.20, 11.58; *ll.* **meib: pumeib** 6.53 **meibion** 6.53, 10.46n (gw. hefyd **Mab Duw**)

**macwy** ysgwier, llanc, ?marchog, ?arglwydd; yn dros. am anifail *ll.* **macwyaid** 6.5

**mael** arfwisg wedi ei gwneud o ddolennau neu blatiau metel, arfogaeth, cotarmur, hefyd yn ffig. ac yn dros., (geiriadurol) dur, haearn **maelys** 9.36

**maen** carreg, craig, cerrig y bedd, symbol o sefydlogrwydd, cadernid, &c.; carreg werthfawr, gem, weithiau'n ffig.; fe'i ceir hefyd yn ffig. ac mewn cyd-destun ffig. 8.44; *ll.* **main** 3.64, 5.29, 7.5

**maenor** uned diriogaethol a gweinyddol yng Nghymru gynt a gynhwysai nifer amrywiol o drefi yn ôl gwahanol fersiynau o'r Cyfreithiau, yn dros. ardal (gynhyrchiol), dyffryn, dôl, arglwyddiaeth, tiriogaeth, etifeddiaeth, fferm, darn o dir, plas, ffermdy 7.33

**maes** tir agored; man yr ymleddir brwydr, brwydr, buddugoliaeth, hefyd yn ffig.; cefndir tarian neu un rhan o darian chwarterog mewn herodraeth; llys 5.18, 7.34

**magl** croglath, trap, llyffethair, hefyd yn dros. ac yn ffig.; peth neu berson sy'n maglu (yn ysbrydol, yn foesol, &c.), llestair; math o anhwylder ar y llygad; deuddeg erw (ynglŷn â chyfar) 9.4

**mainc** sedd hir, sgiw, stôl, bwrdd pren; sedd barnwr neu ynad, yn dros. llys barn; gorsedd; hefyd yn ffig. **penadurfainc** 6.15

**maith** hir, pell, helaeth, mawr, niferus, ?o bell; hir (o ran amser, parhad), mawr (am ansawdd, teimlad, &c.), trist, chwerw; doeth, hirben, call, ffel, cyfrwys 1.43n, 7.27

**mal** fel 4.32, 5.1, 46, 8.27, 28, 54, 56

**mall** 2.26n

**mam** 2.48, 4.9, 12, 6.62, 8.14, 17

**maneg** gorchudd llaw, dyrnfol (wedi ei orchuddio â mael), hefyd yn ffig. ac yn dros. 8.45

**marchog** 4.9, 11.31n; *ll.* **marchogion: marchogion o'r Gart** 4.21n

**marw** 1.62n

**mau** (defnydd dib.) sy'n perthyn i mi, fy 8.33, 53

**mawrddydd** *mawr* + *dydd* 3.26



**meddgell** cell fedd, seler ddiod, hefyd yn ffig. 3.33n

**meddiant** y cyflwr neu'r weithred o feddu ar beth, eiddo; grym, awdurdod, braint, rhyfeddod

3.50, 7.36

**meddu** rheoli, llywodraethu, dod â (rhywbeth) dan reolaeth (rhywun), bod â hawl (i), gallu

(gwneud), meddiannu, mwynhau (defnydd neu feddiant), hefyd yn ffig. 2 *un.pres.dib.*

(*parch*) **meddoch** 7.56

**meinwyllt** 2.15n

**meistr** 8.13, 9.5 **mastr** 8.57, 9.5 **master** 8.3

**meistres** 8.33

**meistrol** teilwng o feistr, yn perthyn i feistr, meistrolgar, meistrolaidd, yn meistroli *eith.*

**meistrolaf** 8.3

**mêl** hylif gludlog melys a wneir o neithdar gan wenyn, &c., neithdar, hefyd yn ffig. 10.41

**merch** 5.32

**milain** taeog, caeth; ?ffermwr; dihiryn, dyn ysgeler; hefyd yn ffig. *b.* **mileines** 3.4

**mordwy** môr (aflonydd), symudiad y môr, rhyferthwy('r môr), tymestl, dilyw, mordaith,

hefyd yn ffig. 11.38n

**morwynt** *môr + gwynt* gwynt o'r môr neu ar y môr, gwynt cryf 10.47

**mur** gwal, wal, amgaer, hefyd yn dros. ac yn ffig.; (un sy'n gweithredu fel) amddiffynfa neu

noddfa, gwarchodwr, cynheiliad 3.33n

**murnwy** 1.62n, 79

**mŵn** gwddf, gwddf gwaywffon lle mae'r llafn a'r paladr yn ymgysylltu, soced (unrhyw

erfyn, e.e. bwyall), crau nodwydd, (geiriadurol) maneg 9.11n

**mwyn** 2.48n, 3.29n

**mynydd** 2.15, 11.50n

**naf** arglwydd, pennaeth, meistr; yn cyfeirio at Dduw 4.1, 8.4

